

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd	Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ionawr 2018	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.45	0300 200 6565
	SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

(Rhag-gyfarfod preifat 13.45 – 14.00)

(13.45 – 14.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

2 Papur(au) i'w nodi

(14.00 – 14.15)

(Tudalennau 1 – 4)

**2.1 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cyfrifon Llywodraeth Ganolog
2016 –17**

(Tudalennau 5 – 36)

**2.2 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Digartrefedd Llywodraeth Leol
2017**

(Tudalennau 37 – 142)

**2.3 Caffael Cyhoeddus: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad yr Archwilydd
Cyffredinol**

(Tudalennau 143 – 146)

**2.4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Gwybodaeth ychwanegol gan
Lywodraeth Cymru (22 Rhagfyr 2017)**

(Tudalennau 147 – 148)

**2.5 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Gwybodaeth ychwanegol gan
Lywodraeth Cymru (3 Ionawr 2018)**

(Tudalennau 149 – 150)

3 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru

(14.15 – 14.30)

(Tudalennau 151 – 245)



PAC(5)-01-18 Papur 1 - Llythyr gan Lywodraeth Cymru (6 Rhagfyr 2017)

PAC(5)-01-18 Papur 2 - Adroddiad Llywodraeth Cymru - Gweithio Gyda'n

Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel) (cyhoeddwyd 12 Rhagfyr 2017)

PAC(5)-01-18 Papur 3 - Datganiad Llafar Llywodraeth Cymru - Gweithio

Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel) (cyhoeddwyd 12 Rhagfyr 2017)

4 Sesiwn Ragarweiniol gyda Chyfarwyddwyr Cyffredinol newydd, Llywodraeth Cymru

(14.30 - 15.30)

(Tudalennau 246 - 260)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Tracey Burke - Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Andrew Slade - Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, Sgiliau ac Adnoddau

Naturiol

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(15.30)

Eitemau 6 a 7

6 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Trafod yr adroddiad drafft

(15.30 - 16.15)

(Tudalennau 261 - 296)

PAC(5)-01-18 Papur 4 - Adroddiad drafft

7 Y Rhaglen Waith Gyfredol

(16.15 - 17.00)

(Tudalennau 297 - 309)

PAC(5)-01-18 Papur 5 - Rhaglen waith gwanwyn 2018

PAC(5)-01-18 Papur 6 - Cyllid ar gyfer y diwydiant ffilm a'r cyfryngau

8 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

<http://senedd.tv/cy/4357>

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017

Amser: 14.01 – 15.55

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Vikki Howells AC Rhianon Passmore AC Adam Price AC Lee Waters AC
Tystion:	Mark Child, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y Bae Gornllewinol Rachel Evans, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y Bae Gornllewinol
Swyddfa Archwilio Cymru:	Huw Vaughan Thomas – Archwilydd Cyffredinol Cymru Matthew Mortlock
Staff y Pwyllgor:	Huw Vaughan Thomas Matthew Mortlock Fay Bowen (Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Clerc)



1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
- 1.2 2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

- O ran llifogydd arfordirol, cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ddiweddariad ar ei hamserlen ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol a rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig am y pecyn cymorth arfordirol i gyd-fynd â'r Strategaeth newydd ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol o safbwynt ad-alinio.
- O ran yr ohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru ar arferion a gweithdrefnau gwaith, teimlai'r Aelodau fod yr ymateb yn gadarnhaol ond y byddai angen monitro agos i sicrhau bod ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor yn rhoi esboniadau llawn yn gyson ynghylch pam y cafodd argymhelliad ei dderbyn ai peidio. Cytunodd y Cadeirydd i ymateb i'r Ysgrifennydd Parhaol gyda barn y Pwyllgor.

2.1 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (20 Tachwedd 2017)

2.2 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (21 Tachwedd 2017)

2.3 Arferion a gweithdrefnau gwaith y Pwyllgor: Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru

2.4 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (24 Tachwedd 2017)

2.5 Archwiliad o Gyberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: Gwybodaeth ychwanegol gan BIP Prifysgol Caerdydd a'r Fro (30 Tachwedd 2017)

2.6 Craffu ar Gyfrifon Blyneddol Cyfoeth Naturiol Cymru 2015–16: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru (29 Tachwedd 2017)

3 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Sesiwn Dystiolaeth 4

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cynghorydd Mark Child, Cadeirydd, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Western Bay a Rachel Evans, Arweinydd Cefnogi Pobl, Awdurdod Cydlyn Dinas a Sir Abertawe fel rhan o'i ymchwiliad i Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Trafod y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

6.1 Nododd yr Aelodau y diweddariad ysgrifenedig a chytunwyd i ymgymryd ag ymchwiliad yn ystod tymor yr haf 2018.

7 Caffael Cyhoeddus yng Nghymru: Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru:

7.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd. Roedd yr Aelodau eisoes wedi cytuno i ymgymryd ag ymchwiliad i Gaffael Cyhoeddus yn dilyn cyhoeddi ei adroddiad cynharach ar Gaffael Cyhoeddus – Adolygiad o'r Cefndir ar 23 Hydref.

7.2 Nododd yr aelodau y bydd sesiynau tystiolaeth yn cael eu trefnu ar gyfer tymor y gwanwyn 2018.

8 Yr Heriau Llywodraethu yn sgil gwasanaethau anuniongyrchol a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru: Diweddariad Llafar gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ddiweddariad llafar ar ei bapur trafod a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2017.

8.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn ceisio diweddariad ar y cynnydd a wnaed o safbwynt y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau hyd braich.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cyfrifon Llywodraeth Ganolog 2016-17



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys Julie Rees a Clare James o dan
gyfarwyddyd Richard Harries.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad Cryno	4
Adroddiad Manwl	7
Cyflwynodd yr holl gyrff llywodraeth ganolog eu cyfrifon i'w harchwilio'n brydlon, a chyhoeddwyd pob barn archwilio erbyn y dyddiad cau penodol	7
Mae ansawdd y cyfrifon drafft yn dal i fod yn dda, fodd bynnag, mae yna le i wella'r trefniadau sicrhau ansawdd a ddefnyddir gan y gyrff, er mwyn codi safonau ymhellach	7
Yn gyffredinol, roedd y papurau gweithio ategol yn dda, a gwelwyd gwelliant ymhlith sawl corff a archwilir	9
Ceir addasiadau perthnasol i gyfrifon drafft dros chwarter y gyrff a archwilir	9
Cyflwynwyd barn archwilio ddiamod ar yr holl gyfrifon heblaw am un corff a archwilir lle cyflwynwyd barn archwilio amodol	12
At ei gilydd, mae Adroddiadau Blynyddol yn cydymffurfio fwyfwy gyda'u gofynion adrodd, ond mae angen gwaith pellach i sicrhau eu bod yn fwy hwylus i'w darllen	13
Mae yna nifer o ddatblygiadau cyfrifyddu ac archwilio ariannol yn yr arfaeth y bydd yn rhaid i gyrff llywodraeth ganolog eu hystyried a pharatoi ar eu cyfer	18
Atodiadau	
Atodiad 1 – Cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru a archwilir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) neu gan ACC ar ran Swyddfa Archwilio Cymru	23
Atodiad 2 – Fy nghyfrifoldebau adrodd	25
Atodiad 3 – Cwestiynau allweddol i'w hystyried gan y rheiny sydd â chyfrifoldebau llywodraethu wrth adolygu'r cyfrifon	29


Adroddiad Cryno

Crynodeb

- 1 Dyma fy ail adroddiad blynyddol ar fy ngwaith o archwilio datganiadau ariannol cyrff llywodraeth ganolog. Mae'n crynhoi canlyniadau fy ngwaith archwilio ar gyfer 2016-17 a wnaed gyda chyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru, fel y nodir yn **Arddangosyn 1**.

Cyrff llywodraeth ganolog

Arddangosyn 1 – Cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru



- 2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r 24 corff sy'n disgyn o fewn y 'bocs coch' yn **Arddangosyn 1** sy'n cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rhestrir y 24 corff mewn manylder yn **Atodiad 1**.
- 3 Mae cyrff llywodraeth ganolog (cyrff a archwilir) yng Nghymru'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau, ac wrth wneud hynny maent yn gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus. Fel pob corff cyhoeddus, mae gofyn iddynt lunio cyfres o ddatganiadau ariannol blynyddol (cyfrifon), a'u cael wedi'u harchwilio, i arddangos stiwardiaeth yr arian cyhoeddus a ymddiriedwyd iddynt, ac i adrodd arno, ac mae ganddynt gyfrifoldeb i wneud hynny.

- 4 Mae'n rhaid i'r holl gyrff a archwilir ddefnyddio'u harian at y defnydd a fwriadwyd ac o fewn y pwerau a'r dyletswyddau sy'n benodol berthnasol iddynt. Fodd bynnag, fel y gwelir yn Arddangosyn¹, mae tri o'r gyrff a archwilir yn cael eu cyllid yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru, ac felly mae gofyn iddynt gyflwyno amcangyfrif o'r gyllideb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) ac maent yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran defnyddio'r arian hwnnw, sy'n mynnu:
- a na ddylid defnyddio swm a glustnodwyd ar gyfer gwasanaeth penodol i ddarparu gwasanaeth arall;
 - b na ddylai'r gwariant fod yn fwy na'r gyllideb a gymeradwywyd; a
 - c bod symiau ar gyfer y flwyddyn ariannol honno yn unig a bod yn rhaid iddio unrhyw arian na ddefnyddiwyd ar ddiwedd y flwyddyn.
- 5 Mae cynhyrchu cyfrifon cywir ac amserol yn dasg sylweddol ond mae'n angenrheidiol er mwyn dangos atebolrwydd wrth ofalu am arian cyhoeddus a'i lywodraethu. Mae methu â chyhoeddi cyfrifon o'r fath yn brydlon yn gallu adlewyrchu'n wael ar y corff a archwilir, gan danseilio'i reolaeth ariannol a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol, yn ogystal â hyder cyffredinol yn y sefydliad.
- 6 Bydd y fframwaith cyfrifyddu a llywodraethu sy'n berthnasol i bob corff llywodraeth ganolog yn cael ei ddiffinio gan ei fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio, ac i raddau fwy neu lai gan ofynion ychwanegol y grŵp sy'n ei noddi (y grŵp o fewn Llywodraeth Cymru sy'n goruchwyllo'r corff; yn berthnasol i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ac is-gwmnïau, y cyfeirir atynt hefyd fel mudiadau hyd braich. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn llywio ffurf a chynnwys y datganiadau ariannol ac unrhyw ofynion adrodd eraill fel eu Hadroddiad Blynyddol, ac yn nodi unrhyw ddyddiadau cau ar gyfer archwilio'r dogfennau hyn a'u cyhoeddi.
- 7 Rwyf yn croesawu'r adolygiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal ar hyn o bryd o'r trefniadau sy'n llywodraethu ei pherthynas â chyrrff hyd braich. Diben yr adolygiad yw rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu fod trefniadau ar waith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer goruchwyllo'i chyrrff cyhoeddus mewn ffordd gymesur ac effeithiol, i adnabod arfer gorau ac i gynnig argymhellion ar gyfer y strwythur cyfundrefnol mwyaf effeithiol ar gyfer rheoli cyrrff cyhoeddus ac ar gyfer pennu pryd mai'r corff hyd braich fydd y dull mwyaf addas o gyflawni amcanion gweinidogaethol, ac ailystyried hyn.

1 Llywodraeth Cymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- 8 Mae adolygiad Llywodraeth Cymru yn arbennig o amserol yng nghyd-destun yr heriau sylweddol y mae cyrff llywodraeth ganolog yn eu hwynebu. Y mwyaf nodedig yw'r pwysau ariannol parhaus am i lawr ar gyllidebau, ac mae hyn, ochr yn ochr â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n newid (gofynion cyfrifyddu newydd ar gyfer cyrff elusennol, newidiadau i ofynion Adrodd Blynyddol i gyrff nad ydynt yn rhai elusennol a phasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), yn cadw pwysau ar gyrff a archwilir i ddod o hyd i ffyrdd o gyflawni mwy gyda llai. Byddai unrhyw welliant yn eglurder y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff a archwilir, a'u heffeithiolrwydd, i'w groesawu.

Fy nghyfrifoldebau archwilio ac adrodd

- 9 Myfi yw'r archwilydd statudol i'r rhan fwyaf o'r cyrff a archwilir, y manylir arnynt yn **Atodiad 1**. Myfi hefyd yw'r archwilydd i'r gweddill trwy gytundeb dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 10 Rwy'n archwilio datganiadau ariannol pob corff a archwilir, ac yn eu hardystio, ac yn fy modloni fy hun:
- eu bod yn rhoi darlun 'cywir a theg' o sefyllfa ariannol y corff;
 - eu bod wedi'u 'paratoi'n briodol'; ac
 - nad ydynt yn cynnwys trafodion incwm neu wariant sydd wedi'u cyflawni'n anghyfreithlon neu heb fod yn unol â'r awdurdodiadau a roddwyd ('afreolaidd').
- 11 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, nid wyf yn ceisio sicrwydd llwyr ar gywirdeb, tegwch a rheoleidd-dra'r datganiadau ariannol a'r nodiadau ategol, ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw adnabod camddatganiadau perthnasol, hynny yw, rhai a allai achosi i ddarllenwydd y cyfrifon gael ei gamarwain
- 12 Mae gofyn i mi hefyd adrodd ar nifer o faterion eraill, gan gynnwys paratoi'r Adroddiad ar Dâl yn briodol, ac mae'r pŵer gennyf hefyd i osod adroddiad ochr yn ochr â fy nhystysgrif lle rwyf yn dymuno tynnu sylw darllenwyr at fater penodol. Manylir ar fy nghyfrifoldebau yn **Atodiad 2**.
- 13 Yn dilyn fy archwiliad o gyfrifon llywodraeth ganolog 2016-17, fy nghasgliad oedd bod safon y cyfrifon llywodraeth ganolog, a'r papurau gweithio ategol, yn dda, yn gyffredinol, er bod lle i wella papurau gweithio a threfniadau sicrhau ansawdd o hyd mewn rhai achosion. Yn gyffredinol, mae'r Adroddiadau Blynyddol yn cydymffurfio â'r fframweithiau adrodd perthnasol, ond mae angen gwaith pellach hefyd i sicrhau eu bod yn cael eu mynegi'n fwy cryno a chllir a'u bod yn ennyn diddordeb yn well.

Adroddiad Manwl


Cyflwynodd yr holl gyrff llywodraeth ganolog eu cyfrifon i'w harchwilio'n brydlon, a chyhoeddwyd pob barn archwilio erbyn y dyddiad cau penodol

- 14 Mae'r dyddiadau cau statudol ar gyfer llunio cyfrifon cyrff a archwilir, a'u harchwilio, yn amrywio o gorff i gorff. Serch hynny, braf yw adrodd bod:
 - pob corff â dyddiad penodol i lunio cyfrifon i'w harchwilio, wedi cwrdd â'r dyddiadau hynny; a
 - phob corff â dyddiad penodol ar gyfer derbyn eu barn archwilio wedi ei derbyn erbyn y dyddiadau hynny.
- 15 O ran y cyrff hynny nad oedd ganddynt ddyddiadau cau penodol, wedi derbyn y cyfrifon drafft gosodais amserlen ar gyfer fy nhîm, er mwyn iddynt gwblhau eu gwaith archwilio ac er mwyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio. Ym mhob achos bodlonwyd y dyddiadau cau hynny.

Mae ansawdd y cyfrifon drafft yn dal i fod yn dda, fodd bynnag, mae yna le i wella'r trefniadau sicrhau ansawdd a ddefnyddir gan y cyrff, er mwyn codi safonau ymhellach

- 16 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod ansawdd y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio yn 2016-17 yn dda. Mae sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith yn bwysig wrth bennu ansawdd cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio.
- 17 Gwelwyd cynnydd nodedig yn nifer y cyrff a gwblhaodd y rhestr wirio datgelu cyfrifon berthnasol, ac mae un ar bymtheg o'r 24 corff bellach yn gwneud hynny, o gymharu â deg yn 2015-16 (**Arddangosyn 2**). Mae'r rhestrau gwirio yn offeryn pwysig sy'n galluogi cyrff i asesu cydymffurfiad eu cyfrifon gyda'r fframwaith cyfrifyddu perthnasol, ac i roi sylw i unrhyw beth sydd wedi ei hepgor cyn cychwyn yr archwiliad.
- 18 Disgwylir i drefniadau sicrhau ansawdd amrywio o gorff i gorff, gan ddibynnu'n rhannol ar eu maint a'u cymhlethdod. Yn **Arddangosyn 3** ceir manylion enghreifftiau o drefniadau sicrhau ansawdd da a nodwyd ymhlith cyrff a archwilir yn 2016-17, ac, at ei gilydd, maent yn ffurfio proses sicrhau ansawdd gadarn.

Arddangosyn 2 – Canran y cyrff a archwilir a ddefnyddiodd restrau gwirio datgelu cyfrifon



Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata gan dimau archwilio

Arddangosyn 3 – Enghreifftiau o drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd cyfrifon

Tabl gyda naratif yn manylu ar enghreifftiau o drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd cyfrifon.

- Eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd y rheiny sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethiant, i ystyried datblygiadau cyfrifyddu sydd yn yr arfaeth.
- Cwblhau'r rhestr wirio berthnasol ar gyfer datgelu cyfrifon cyn cyflwyno'r cyfrifon i'w harchwilio. Mae'r rhestrau gwirio datgelu cyfrifon yn ffordd werthfawr o gael sicrwydd ychwanegol ynghylch ansawdd cyfrifon ac o arddangos cydymffuriad â safonau cyfrifyddu perthnasol.
- Mae'r cyfrifon drafft a'r papurau gweithio'n ddarostyngedig i adolygiad ffurfiol gan y Cyfarwyddwr Cyllid/Pennaeth Adnoddau cyn eu cyflwyno i'w harchwilio.
- Caiff yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon drafft eu hystyried yn ffurfiol gan y rheiny sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethiant cyn yr archwiliad, a chyflwynir adroddiad ategol yn crynhoi'r prif bwyntiau gan y Cyfarwyddwr Cyllid /Pennaeth Adnoddau i oleuo'u hadolygiad. Mae'r adroddiad hwn ar y cyfrifon yn:
 - tynnu sylw at y prif faterion yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon;
 - rhoi esboniadau ar gyfer amrywiadau o bwys o flwyddyn i flwyddyn;
 - rhoi sylwebaeth ar unrhyw eitemau neilltuol; ac
 - yn adrodd ar y sefyllfa derfynol o gymharu â'r gyllideb.

Tudalen y pecyn 12

- 19 Yn **Atodiad 3** rwyf wedi cynnwys rhai o'r prif gwestiynau y gallai'r rheiny sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethiant fod eisiau eu hystyried wrth adolygu'r Cyfrifon Blynnyddol. Seiliwyd y cwestiynau hyn ar ganllawiau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i Gyfrifon Llywodraeth Ganolog, sy'n gyflwyniad i'r rheiny sydd â rôl oruchwylio. Yn y canllawiau, gosodir cwestiynau her allweddol y dylai'r rheiny sy'n goruchwylio eu hystyried wrth adolygu'r cyfrifon. Mae'r canllawiau llawn: [Understanding Central Government Accounts](#) ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Yn gyffredinol, roedd y papurau gweithio ategol yn dda a gwelwyd gwelliant ymhlith sawl corff a archwilir

- 20 Er mwyn ategu at y manylion yn y cyfrifon, dylai cyrff a archwilir ddarparu papurau gweithio cynhwysfawr a chyflawn yn brydlon ar gyfer fy archwilwyr. Mae papurau gweithio sy'n anghyflawn, sydd o safon isel neu sy'n hwyr, yn arwain at bwysau ychwanegol ar dimau cyllid cyrff a archwilir yn ystod y cyfnod archwilio ac yn cynyddu'r risg na chaiff y cyfrifon eu cwblhau erbyn y dyddiad cau.
- 21 Yn gyffredinol, nodwyd bod y papurau gweithio sy'n ategu at y cyfrifon o safon dda. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, nododd archwilwyr bod angen gwella rhai agweddau ar ansawdd, prydlondeb a chywirdeb papurau gweithio sy'n ategol i'r cyfrifon. Wrth symud ymlaen, dylid cytuno ar y gofynion o ran y papurau gweithio ategol, ymlaen llaw, gyda fy archwilwyr, i hwyluso'r gallu i gwblhau'r gwaith archwilio'n brydlon.

Ceir addasiadau perthnasol i gyfrifon drafft dros chwarter y cyrff a archwilir


- 22 Fel y nodwyd ym **mharagraff 11** uchod, nid wyf yn ceisio sicrwydd llwyr ar gywirdeb, tegwch a rheoleidd-dra'r datganiadau ariannol a'r nodiadau ategol, ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd – camddatganiadau ar lefel a allai gamarwain darllynydd y cyfrifon.
- 23 Mae perthnasedd yn fater o farn broffesiynol, ond yn gyffredinol fe'i gosodir rhwng 1% a 2% o lefel y gwariant. Fodd bynnag, yn achos eitemau penodol, byddaf yn ystyried bod unrhyw gamddatganiad yn berthnasol e.e. tâl uwch swyddog (eitem sensitif); hefyd lle byddai newid yn golygu mynd uwchlaw'r gyllideb a gymeradwywyd (gofynion rheoleiddio penodol – gweler **paragraff 4**).

24 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos ar gyfer 2016-17 a 2015-16 canran y cyrff a archwilir ag:

- addasiadau sy'n faterol berthnasol i'w cyfrifon drafft;
- chamddatganiadau na addaswyd; a
- materion ansoddol;

a cheir esboniad manwl ar eu cyfer isod.

Arddangosyn 4 – Materion a nodwyd yn yr Adroddiadau ar Archwiliadau o Ddatganiadau Ariannol



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata gan dimau archwilio

Camddatganiadau perthnasol

- 25 Pan fydd fy archwilwyr yn adnabod camddatganiadau perthnasol, byddant yn gofyn i'r rheolwyr ddiwygio'r cyfrifon er mwyn cywiro'r gwallau. Os nad ydynt yn cael eu cywiro, neu nid yw'n bosib eu newid gan nad oes digon o wybodaeth, byddaf yn cyhoeddi barn archwilio amodol briodol.
- 26 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 4**, yn 2016-17, roedd 25%o'r cyrff a archwilir wedi gwneud addasiadau sy'n berthnasol i'w cyfrifon neu adroddiadau tâl yn dilyn yr archwiliad. Mae hyn rhywfaint yn is na'r canran a adroddwyd yn 2015-16. Pan fydd cyrff yn gwneud addasiadau sy'n berthnasol, dylent adolygu'r rhesymau dros y gwallau a sicrhau y gweithredir argymhellion fy archwilwyr mewn perthynas â'r gwallau hyn. Dylai cyrff hefyd adolygu eu trefniadau ar gyfer llunio cyfrifon a sicrhau ansawdd, i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i godi gwallau o'r fath cyn i'r cyfrifon drafft gael eu cyflwyno i'w harchwilio. Nid oedd dwy ran o dair o'r cyrff hynny y gwelwyd bod ganddynt wallau perthnasol yn eu cyfrifon wedi cwblhau'r rhestrau gwirio datgelu cyfrifon perthnasol, ac mae hyn yn tynnu sylw pellach at y rhain fel offerynnau defnyddiol yn y broses sicrhau ansawdd.

Camddatganiadau na addaswyd a materion ansoddol

- 27 Pan fydd fy archwilwyr yn adnabod camddatganiadau amherthnasol, bydd rheolwyr yn cael eu hysbysu ohonynt a gwneir cais iddynt gael eu newid neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn nodi pam na fydd y newidiadau'n cael eu cyflwyno. Os nad yw'r camddatganiadau hyn yn cael eu newid, nid ydynt yn arwain at farn archwilio amodol. Maent yn cael eu hadrodd i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio neu debyg, fel rheol) gyda chais iddynt eu newid neu gynnig esboniad pam na wnaed unrhyw newid.
- 28 Mae'n galonogol fod lefel y camddatganiadau na addaswyd a adroddwyd yn 2016-17 wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (**Arddangosyn 4**). Mae'n cymryd amser i'r cyrff a archwilir a fy archwilwyr brosesu addasiadau amherthnasol. Er fy mod yn dymuno gweld cyfrifon o ansawdd uchel, rwyf yn cydnabod, er budd symleiddio'r broses o lunio cyfrifon a'u harchwilio, a sicrhau eu bod yn cael eu cau'n brydlon, y gallwn ddisgwyl gweld llai o gamddatganiadau amherthnasol yn cael eu cywiro, ac nad yw hyn, ynddo'i hun, o angenrheidrwydd, yn arwydd o ddirywiad mewn ansawdd.
- 29 Roedd y meysydd lle gwelwyd camddatganiadau nad oeddent yn faterol berthnasol a materion ansoddol eraill yn 2016-17 yn amrywio'n sylweddol. Nid oedd unrhyw themâu penodol ar draws y cyrff, sydd efallai i'w ddisgwyl o gofio natur amrywiol gwaith cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru. Yn dilyn pob archwiliad, mae archwilwyr wedi darparu adroddiadau yn nodi eu canfyddiadau manwl i'r cyrff yn eu Hadroddiadau ar Archwiliadau o Ddatganiadau Ariannol.

Cyflwynwyd barn archwilio ddiamedod ar yr holl gyfrifon heblaw am un corff a archwilir lle cyflwynwyd barn archwilio amodol

- 30 Fel y nodir ym **Mharagraff 10**, ar gyfer cyfrifon pob corff a archwilir rhaid i mi roi barn ar:
- eu llwyddiant i roi darlun 'cywir a theg' o sefyllfa ariannol y corff;
 - a ydynt wedi cael eu 'paratoi'n briodol'; ac
 - a ydynt yn cynnwys trafodion incwm neu wariant a enillwyd neu a wariwyd yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau a roddwyd ('rheolaidd') yn unig.
- 31 Roedd cyfrifon yr holl gyrff a archwilir ar gyfer 2016-17 yn 'gywir a theg' ac wedi'u 'paratoi'n briodol', a, lle nodwyd camddatganiadau perthnasol, (**gweler paragraff 25-26 uchod**), cawsant eu cywiro.
- 32 Gydag un eithriad, y manylir arno isod, nid oedd cyfrifon unrhyw gorff a archwilir yn cynnwys 'incwm neu wariant afreolaidd a oedd yn berthnasol'.
- 33 Yn 2015-16 cyflwynais farn archwilio amodol ar reoleidd-dra ar gyfer un corff ac, yn 2016-17, roedd eu barn amodol ar reoleidd-dra ar yr un sail. Er bod datganiadau ariannol y corff dan sylw'n rhoi 'darlun cywir a theg', fy nghasgliad i oedd nad oedd y penderfyniad i gytuno i nifer o gontractau gwerthiant yn dilyn y gweithdrefnau cywir. Yn ogystal, nid oeddwn yn fodlon fod y penderfyniad yn bodloni rheolau a gofynion perthnasol eraill. Fy nghasgliad, felly, oedd mai cyflwyno barn archwilio amodol ar reoleidd-dra fyddai'r cam cywir a chymesur i'w gymryd².
- 34 Ceir esboniadau ar gyfer y mathau amrywiol o farnau a gyhoeddir gennyf yn **Atodiad 2**.

2 Cyfoeth Naturiol Cymru, [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17 \(Tudalen 52\)](#)

At ei gilydd, mae Adroddiadau Blynyddol yn cydymffurfio fwyfwy gyda'u gofynion adrodd ond mae angen gwaith pellach i sicrhau eu bod yn fwy hwylus i'w darllen

- 35 Y llynedd, yng nghyd-destun gofynion adrodd blynyddol newydd Trysorlys Ei Mawrhydi, ac argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus³ i wella hygyrchedd a darllenadwyedd adroddiadau blynyddol, gan gynnwys y defnydd o ddiagramau a ffeithluniau ar gyfer data allweddol, adroddais ganfyddiadau fy adolygiad ar lefel uchel o Adroddiadau Blynyddol 2015-16 cyrff a archwilir.
- 36 Yn gyffredinol, roedd y canfyddiadau'n bositif ac roedd lefelau rhesymol o gydymffurfiad a rhai enghreifftiau da o adroddiadau blynyddol a oedd yn llwyddo i ennyn diddordeb ac a oedd yn ddarllenadwy. Fodd bynnag, ac eithrio'r enghreifftiau hynny, roedd angen mwy o waith i wella darllenadwyedd, e.e. gostwng hyd cyffredinol yr adroddiadau a defnyddio ffeithluniau yn lle naratif; ynghyd ag adrodd yn well ar berfformiad a risgiau allweddol.
- 37 Eleni, dilynodd fy staff i fyny ar eu gwaith blaenorol trwy gynnal adolygiad ysgafn o adroddiadau blynyddol 2016-17 i weld a oedd y rheiny nad oedd yn cydymffurfio yn 2015-16 bellach yn cydymffurfio (cymerwyd y byddai'r elfennau a oedd yn cydymffurfio'n flaenorol yn dal i gydymffurfio yn 2016-17) ac a oes mwy o ddefnydd o ddiagramau a ffeithluniau wrth gyflwyno gwybodaeth.
- 38 Ceir ein canfyddiadau cyffredinol ynghylch cydymffurfiad yn **Arddangosyn 5** ar gyfer adroddiadau blynyddol y 15 corff a archwilir sy'n dilyn Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi (FReM), ac **Arddangosyn 6** ar gyfer adroddiadau blynyddol y tri chorff a archwilir sy'n dilyn Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SoRP) y Comisiwn Elusennau.
- 39 Ar y cyfan, mae'r lefelau cydymffurfiad wedi gwella ar gyfer yr adroddiadau FReM a SoRP. Yn unigol, roedd y cyfan bron o'r cyrff wedi cynyddu eu sgôr gydymffurfiaeth, a nifer fach wedi ei chynyddu'n nodedig, gyda rhai ohonynt ychydig yn unig yn brin o gydymffurfiad llwyr erbyn hyn. Braff hefyd yw nodi bod bron i 50% o'r adroddiadau blynyddol bellach yn gwneud gwell defnydd o ffeithluniau, yn enwedig wrth ddarparu 'ciplun' neu grynodeb o'r flwyddyn, ac yn gwneud newidiadau i gyflwyniad eu gwybodaeth er mwyn tynnu sylw at y prif faterion.
- 40 Mae yna rai cyrff unigol sydd â mwy o waith i'w wneud o hyd, fodd bynnag rwyf yn cydnabod bod cynnydd i'r cyfeiriad cywir yn gam positif, yng ngolau'r adnoddau cyfyngedig, ac rwyf yn annog cyrff a archwilir i gadw'r momentwm i fynd.


3 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Craffu ar Gyfrifon, 2015-16**, Rhagfyr 2016

Adroddiadau Blynyddol sy'n seiliedig ar lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM (FReM)

41 Mae **Arddangosyn 5** yn dangos cydymffurfiad gydag elfennau adrodd gofynnol FReM:

- **Adroddiad ar Berfformiad** – dylai ‘adrodd stori’ y corff, gan gynnwys trosolwg a mesurau perfformiad;
- **Adroddiad Atebolrwydd** – dylai esbonio i ba raddau y mae'r corff yn cydymffurfio â gofynion stiwardiaeth a llywodraethu ac mae'n cynnwys:
 - **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**;
 - **Adroddiad ar Dâl a Staff**; ac
 - **Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol** (mesurir yn erbyn eitemau gorfodol yn unig (caiff 2015-16 ei ailddatgan).

Arddangosyn 5 – Cydymffurfiad Adroddiadau Blynyddol â gofynion FReM




Ffynhonnell: Adolygiad o Adroddiadau Blynyddol 2015-16 a 2016-17 gan Swyddfa Archwilio Cymru

Adroddiadau Blynyddol sy'n seiliedig ar Ddatganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau (SoRP)

42 Mae **Arddangosyn 6** yn dangos cydymffurfriad gyda gofynion gorfodol Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau (SoRP) a ddadansoddwyd dros chwe elfen ar wahân sy'n ofynnol ar gyfer yr adroddiad.

Arddangosyn 6 – Cydymffurfriad Adroddiadau Blynyddol gyda gofynion SoRP gorfodol elusennau



Ffynhonnell: Adolygiad o Adroddiadau Blynyddol 2015-16 a 2016-17 gan Swyddfa Archwilio Cymru

Agweddau ansoddol

- 43 Er bod modd rhoi sylw i fethiant i gydymffurfio yn weddol rwydd, mae'n anoddach rhoi sylw i faterion darllenadwyedd a hygyrchedd. Mae lawer yn haws ysgrifennu adroddiad naratif hir nag adroddiad byr sy'n ennyn diddordeb a defnyddio ffeithluniau i symleiddio adrodd cymhleth. O ystyried adnoddau cyfyngedig iawn llawer o'r cyrff a archwilir, mae hyn yn arbennig o anodd.
- 44 Bydd gwella adrodd blynyddol yn broses ailadroddol ac mae dysgu gan eraill yn allweddol. Mae arfer da a nodwyd gan wobrau blynyddol [Excellence in reporting in the Public Sector](#) yn ddogfen gyfeirio ragorol y gellir dysgu ohoni. Rhoddir y gwobrau ar y cyd gan PricewaterhouseCoopers a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a gwelwyd gwelliant parhaus mewn adroddiadau gan gyrrff cyhoeddus, gyda mwy o amser yn cael ei dreulio ar lunio adroddiadau blynyddol clir, sy'n ennyn diddordeb, a defnyddio enghreifftiau o arfer da gan eu cymheiriaid.
- 45 Yn [Arddangosyn 7](#) ategaf at adroddiad y llynedd y cwestiynau allweddol y buaswn yn annog cyrff i'w holi i'w hunain wrth baratoi eu Hadroddiadau Blynyddol. Dylai'r cwestiynau hyn fod o gymorth iddynt i sicrhau bod eu hadroddiadau'n canolbwyntio ar y prif faterion, heb adael iddynt fynd ar goll mewn gormod o naratif. Nid yw adrodd rhagorol yn golygu darparu mwy o wybodaeth, ond yn hytrach sicrhau bod materion a mewnwelediadau allweddol yn cael eu cyfathrebu'n glir, mewn ffordd gytbwys a thryloyw.

Arddangosyn 7 – Cwestiynau allweddol i'w holi wrth lunio Adroddiad Blynyddol

A yw'n adrodd stori:



Pwy ydych chi a beth yw'ch gwaith?

Sut yr ydych wedi perfformio a sut yr ydych yn mesur perfformiad?

Beth sydd o bryder i'r Bwrdd?

Sut yr ydych yn sicrhau bod llywodraethiant yn gwneud ei waith?

A yw'n gryno ac yn glir?



A yw'n rhydd o dermau?

A oes gormod o fanylder yn cuddio negeseuon allweddol?

A yw'n llifo ac yn defnyddio crynodebau a feithluniau da?

Mae yna nifer o ddatblygiadau cyfrifyddu ac archwilio ariannol yn yr arfaeth y bydd yn rhaid i gyrff llywodraeth ganolog eu hystyried a pharatoi ar eu cyfer

Newidiadau allweddol i IFRS ar gyfer y dyfodol (perthnasol i holl gyrff Llywodraeth Ganolog ac eithrio Cyrff Elusennol a Noddir gan Lywodraeth Cymru)

- 46 Mae newidiadau sydd yn yr arfaeth i safonau cyfrifyddu (delio gydag offerynnau ariannol, refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid a phrydlesi) yn cyflwyno newidiadau allweddol i'r egwyddorion cyfrifyddu sydd i'w defnyddio gan gyrff llywodraeth ganolog. Disgwylir y bydd IFRS 16 yn benodol yn cael effaith sylweddol ar y gwaith o baratoi cyfrifon.

Arddangosyn 8 – Newidiadau allweddol yn yr arfaeth i IFRS

Tabl yn dangos newidiadau allweddol yn yr arfaeth i IFRS yn safonau IFRS 9, 15 ac 16.

Safon	Dyddiad y daw i rym	Manylion pellach
IFRS 9 offerynnau ariannol	2018-19	Bydd IFRS 9 offerynnau ariannol yn disodli IAS 39 ac mae'n cynnwys dull newydd yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer dosbarthu a mesur asedau ariannol. Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg amhariad newydd ar gyfer asedau ariannol yn seiliedig ar golledion a ddisgwylir yn hytrach na cholledion a ddiodefwyd. Mae hyn yn golygu y bydd modd adnabod colledion credyd disgwyliedig ynghynt ac yn fwy amserol. Mae bron yr holl ofynion cyfrifyddol ar gyfer rhwymedigaethau ariannol yn parhau heb eu newid o IAS 39.

Safon	Dyddiad y daw i rym	Manylion pellach
IFRS 15 referniw o gontractau gyda chwsmeriaid	2018-19	Mae IFRS 15 referniw o gontractau gyda chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cydnabod referniw sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor graidd sy'n nodi bod yn rhaid i brosesau cydnabod referniw ddangos trosglwyddiad nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u haddo i'r cwsmer ar ffurf swm sy'n adlewyrchu'r hyn y disgwylia'r corff y bydd hawl ganddo iddo, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Mae hefyd yn gofyn am ddatgeliadau mwy eang na'r hyn sydd ei angen ar hyn o bryd
IFRS 16 prydlesi	2019-20	Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon gyfredol ar gyfer prydlesi sef IAS 17. Y prif newid yw ei fod yn dileu ar y cyfan y gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a phrydlesi ariannol ar gyfer prydleswyr trwy gyflwyno model cyfrifyddol prydleswr sengl sy'n gofyn i'r prydleswr adnabod asedau a rhwymedigaethau i'r holl brydlesi gyda chyfnod o fwy na 12 mis, oni bai fod yr ased sylfaenol yn isel ei werth. Bydd hyn yn arwain at adnabod pob prydles ar y fantolen fel ased yn seiliedig ar egwyddor 'hawl defnyddio' gyda rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhentu yn y dyfodol. Mae hyn yn newid sylweddol o ran cyfrifyddu prydleswyr.

Newidiadau yn yr arfaeth i UK GAAP (perthnasol i gyrff elusennol a noddir gan Lywodraeth Cymru yn unig)

- 47 Yn dilyn cyflwyniad trefn gyfrifyddu newydd UK GAAP yn 2015-16, a disodli'r Safon Adrodd Ariannol i Endidau Llai (FRSSE) gan Adran 1A FRS 102 yn 2016-17, ni fydd unrhyw newidiadau sylweddol i FRS 102 hyd nes 2019-20. Disgwylir y bydd unrhyw newidiadau a wneir bryd hynny'n gyfyngedig eu natur. Disgwylir newidiadau mwy sylweddol o 2022-23 ymlaen, gan adlewyrchu'r newidiadau diweddar mewn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, gan gynnwys cyfrifyddu ar gyfer offerynnau ariannol a phrydlesi.

Cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 48 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) i rym yn Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi ddarparu adroddiad cyn etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol yn manylu sut y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w gwireddu. Eleni, rwyf yn cynnal fy ngwaith cyntaf dan y Ddeddf – Sylwebaeth y Flwyddyn Gyntaf – i ddeall sut mae cyrff yn dechrau ymateb i'r gofynion. Bydd cynnal Sylwebaeth y Flwyddyn Gyntaf yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i gynnig rhywfaint o adborth cynnar heb ragnodi disgwyliadau ar gyfer sut y dylai cyrff cyhoeddus fod yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau newydd. Nod Sylwebaeth y Flwyddyn Gyntaf fydd cefnogi cynnydd, gan sicrhau ar yr un pryd bod modd i ddulliau newydd ddod i'r amlwg.
- 49 Rwyf hefyd yn cydweithio â nifer fach o gyrff cyhoeddus (gan gynnwys rhai cyrff llywodraeth ganolog), i ddatblygu dull archwilio sy'n ystyrion, yn integredig ac yn gymesur, y gellir ei fabwysiadu yn y dyfodol. Bydd allbynnau'r gwaith hwn yn cael ei rhannu mewn digwyddiad cenedlaethol ym mis Mai 2018.

Menter Twyll Genedlaethol

- 50 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer cydweddu data sy'n helpu cyrff cyhoeddus i ganfod achosion o dwyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig, a'u hatal. Mae'r Fenter yn cydweddu data ar draws mudiadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i adnabod twyll a gordaliadau
- 51 Ers iddi ddechrau ym 1996, mae ymarferion y Fenter hon wedi arwain at ganfod ac atal mwy na £30 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru ac £1.3 biliwn ar draws y Deyrnas Unedig.
- 52 Caiff ymarferion y Fenter eu cynnal bob dwy flynedd a hyd yn hyn mae ymarfer y Fenter yn 2016-17 wedi canfod gwerth £4.8 miliwn o dwyll, gwallau a gordaliadau Cymerodd 42 corff sector cyhoeddus yng Nghymru ran yn yr ymarfer. Roedd y rhain yn cynnwys Llywodraeth Cymru a 4 Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a gymerodd ran yn wirfoddol. Ar hyn o bryd, rydym yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn gwaith cydweddu data'r Fenter i mewn i feysydd newydd yr ystyrir bod ynddynt lefel uchel o risg gynhenid o dwyll.

- 53 Buaswn yn annog pob corff a archwilir i gymryd rhan yn yr ymarfer a gynhelir bob dwy flynedd. Er efallai na fydd yr ymarfer yn arwain at arbedion sylweddol i gyrff unigol, mae yna fuddion ehangach i'w hystyried:
- menter sydd ar waith ar draws y sector cyhoeddus – po fwyaf o gyfranogwyr y mwyaf effeithiol y bydd y fenter;
 - bydd y gwaith yn rhan o fframwaith sicrwydd cyrff a archwilir;
 - mae cymryd rhan yn atal twyll ac yn ei ganfod. Mae rhoi cyhoeddusrwydd i'ch cyfranogiad yn ddigon i atal darpar dwyllwyr rhag twyllo; a
 - pharhau i esblygu gyda setiau data newydd a chydweddu newydd yn cael eu cyflwyno. Mae diwydrwydd dyladwy gyda grantiau yn debygol o fod yn set data yn y dyfodol.

Atodiadau



Atodiad 1 – Cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru a archwilir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) neu gan ACC ar ran y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Tabl yn rhestru'r cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru a archwilir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) neu gan ACC ar ran y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cyrff a archwilir	Nifer
Llywodraeth Cymru	1
Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (nad ydynt yn elusennol)	4
Cyngor Chwaraeon Cymru	
Gofal Cymdeithasol Cymru	
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	
Cyfoeth Naturiol Cymru	
Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (elusennol)	3
Cyngor Celfyddydau Cymru	
Amgueddfa Cymru	
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	
Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru a gyfyngir trwy Warrant	4
Hybu Cig Cymru (Meat Promotion Wales)	
Dewis Gyrfa	
Sector Development Wales	
Hwb Gwyddorau Bywyd	

Cyrff a archwilir	Nifer
Cyrff sy'n annibynnol i Lywodraeth Cymru	10
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	
Comisiynydd Plant Cymru	
Comisiynydd y Gymraeg	
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	
Cyngor y Gweithlu Addysg	
Estyn	
Cymwysterau Cymru	
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	
Cyfrifon a archwiliwyd ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol	2
Cyfrif Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru	
Cyfrif Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru	

Atodiad 2 – Fy nghyfrifoldebau adrodd

Beth y byddaf yn adrodd arno yn fy nhystysgrif ac adroddiad:

Barn ar Ddatganiadau Ariannol

- a) A yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr busnes y corff?
- b) A ydynt wedi'u paratoi'n briodol?

Barn ar Reoleidd-dra

A ddefnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu?

Barn ar faterion eraill

- a) A yw'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol?
- b) A yw unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol hynny?

Materion y byddaf yn adrodd arnynt trwy eithriad:

- a) lle nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau;
- b) lle na chadwyd cofnodion cyfrifyddu boddhaol/priodol/digonol;
- c) lle nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni ariannol;
- ch) lle na ddatgelwyd gwybodaeth a nodir gan Drysorlys EM/Gweinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- d) lle nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf i gwblhau fy archwiliad

Fy Adroddiad

Mae'n rhaid i mi hefyd ystyried a oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn a nodi'r sefyllfa yn y fan hon. Os oes gennyf unrhyw sylwadau pellach, byddaf yn eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân ac yn cyfeirio atynt yn y fan hon.

Cyd-destun fy ngwaith adrodd: perthnasedd

Wrth gynllunio'r archwiliad a'i gyflawni, ceisiaf adnabod camddatganiadau perthnasol a wnaed naill ai trwy dwyll neu gamgymeriad yn y datganiadau ariannol. Ystyrir bod camddatganiadau, gan gynnwys pethau a hepgorwyd, yn berthnasol os credir yn rhesymol fod modd iddynt yn unigol, neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed yn seiliedig ar y datganiadau ariannol. Os yw camddatganiad neu rywbeth a hepgorwyd yn parhau yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd, byddaf yn newid fy nhystysgrif ac adroddiad safonol.

Mae perthnasedd yn dibynnu ar faint yr eitem neu wall o ran yr amgylchiadau penodol ar gyfer eu hepgor neu gam-ddatgan.

Mae'r hyn a ddyfarnaf fel perthnasedd yn fater o farn broffesiynol a bydd nifer o ffactorau yn dylanwadu ar hynny gan gynnwys:

- y math o gorff a archwilir;
- natur y gwasanaethau y mae'r corff yn eu darparu;
- gofynion deddfwriaethol; ac
- anghenion deddfwyr ac eraill sy'n defnyddio'r datganiadau ariannol o ran gwybodaeth ariannol.

Mae'n bosibl i rai materion ansoddol hefyd effeithio ar berthnasedd eitem, fel gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, a sensitifrwydd gwleidyddol.

Sut y gallaf newid fy nhystysgrif ac adroddiad

Fy nhystysgrif: barn archwilio amodol a diamod

Tabl yn nodi sut y gall Archwilydd Cyffredinol Cymru newid ei dystysgrif a'i adroddiad. Mae'n disgrifio'r 5 math o farn y gall archwilydd eu mynegi

Math o farn	Disgrifiad
Barn ddiamod	Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac nid oes unrhyw drafodion afreolaidd, ymhob mater perthnasol.
Barn amodol 'ac eithrio' – cyfyngiad o ran cwmpas	Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac nid oes unrhyw drafodion afreolaidd, ac eithrio mater perthnasol lle nad oedd yr archwilydd yn gallu cael tystiolaeth ddigonol.
Barn amodol 'ac eithrio' – anghytundeb	Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac nid oes unrhyw drafodion afreolaidd, ac eithrio mater perthnasol lle'r oedd anghytundeb rhwng yr archwilydd a'r corff a archwilir ynghylch y modd y cafodd y mater ei drin yn y datganiadau ariannol.
Barn anffafriol	Roedd anghytundeb a oedd yn berthnasol ac yn hollbresennol, bod y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn gamarweiniol neu'n anghyflawn.
Ymwadu barn	Ni allai'r archwilydd fynegi barn, oherwydd ni allai gael tystiolaeth i'r fath raddau nes y gallai'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd fod yn gamarweiniol neu'n anghyflawn.

Fy nhystysgrif: pwyslais ar fater, materion eraill, ac adroddiadau trwy eithriad

Mae'n bosibl hefyd i fy adroddiad archwilio gynnwys paragraff 'pwyslais ar fater'. Mae hyn yn tynnu sylw defnyddwyr datganiadau ariannol at fater, neu faterion, a gyflwynir neu a ddatgelir yn y datganiadau ariannol, sydd mor bwysig fel eu bod yn sylfaenol i ddealltwriaeth defnyddwyr o'r datganiadau ariannol. Nid yw hyn yn effeithio ar fy marn.

Gallaf hefyd ychwanegu paragraff 'mater arall' os credaf ei bod yn angenrheidiol cyfleu mater, heblaw am y rhai a gyflwynir neu a ddatgelir yn y datganiadau ariannol, sy'n berthnasol i ddealltwriaeth defnyddwyr o'r archwiliad, fy nghyfrifoldebau neu'r adroddiad archwilio.

Adroddaf trwy eithriad os:

- nad yw'r datganiad llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad gyda chanllawiau;
- nad oedd yr wybodaeth a roddwyd yn y rhagair esboniadol yn gyson â'r datganiadau ariannol; neu os
- wyf yn arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau ychwanegol dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy Adroddiad:

Os oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y datganiadau ariannol, byddaf yn eu gwneud mewn adroddiad naratif a elwir yn adroddiad 'sylweddol'. Byddaf fel rheol yn gwneud adroddiad sylweddol pan fyddaf yn cyflwyno barn amodol, ond gallaf ddewis gwneud adroddiad hefyd lle mae fy marn yn ddiamod.

Atodiad 3 – Cwestiynau allweddol i'w hystyried gan y rheiny sydd â chyfrifoldebau llywodraethu wrth adolygu'r cyfrifon

Datganiadau Sylfaenol a Nodiadau:

- A yw'r rheolwyr yn medru esbonio unrhyw wahaniaethu o bwys rhwng eleni a'r llynedd?
- A yw'r rheolwyr wedi esbonio'r sail ar gyfer unrhyw beth sydd wedi'i ailddatgan o flynyddoedd blaenorol? A yw esboniadau o'r fath yn briodol?
- A oes unrhyw rai o'r dadansoddiadau o wariant neu incwm yn cynnwys symiau sylweddol sydd wedi'u categorio fel 'arall'. Os ydynt, i beth mae hyn yn perthyn?
- A yw'r segmentau gweithredu a ddatgelwyd yn gyson â'ch dealltwriaeth o'r modd y mae'r adran yn gweithredu, a sut y mae'n adrodd ac yn goleuo ei phrosesau penderfynu?
- A oes unrhyw rwymedigaethau cyfredol neu anghyfredol o bwys (gan gynnwys darpariaethau) ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol? Ydynt yn cynrychioli risg i'r corff yn y dyfodol y dylid ei chynnwys ar y gofrestr risg?
- A yw'r Datganiad o Lif Arian yn dangos bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n unol â blaenoriaethau'r corff? Er enghraifft, a yw'r adran ar 'Lif arian o weithgareddau buddsoddi' yn adlewyrchu buddsoddiad mewn asedau neu seilwaith ar gyfer y dyfodol?
- A oes unrhyw linellau heb ddisgrifiad (er enghraifft, sy'n cynnwys y gair 'arall')? Os felly, i beth y mae'r rhain yn berthnasol ac a yw'n iawn eu bod yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Lif Arian?
- A oes unrhyw arian anarferol wrth gefn, neu drosglwyddiadau anarferol rhwng arian wrth gefn, y mae arnynt angen esboniad?
- A yw'r polisïau cyfrifyddu'n ddealladwy?
- A oes unrhyw ymrwymadau o bwys sydd mewn perygl o ganlyniad i newidiadau mewn polisïau neu gynlluniau? Er enghraifft, a yw'n debygol na fydd adeiladau sydd ar brydles yn cael eu defnyddio mwyach cyn diwedd cyfnod y brydles?
- A yw'r rheolwyr wedi esbonio'r rhesymeg tu ôl i unrhyw rwymedigaethau ychwanegol a ffurfiwyd yn ystod y flwyddyn, a hynny'n glir?
- A yw'r rhwymedigaethau wrth gefn yn gyson â'r gofrestr risg?

Datganiad Llywodraethiant ac Adroddiad ar Dâl

- A yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchiad cytbwys o weithgareddau'r adran yn y maes hwn? A yw'r risgiau a'r gwendidau yn cael ystyriaeth onest ac agored?
- A gafwyd y gymeradwyaeth briodol ar gyfer pecynnau ymadael sydd tu allan i delerau arferol?
- A yw'r newidiadau yn nifer y staff cyflogedig yn cydymffurfio â'ch dealltwriaeth o'r newidiadau o fewn yr adran yn ystod y flwyddyn?
- A gafwyd cymeradwyaeth briodol ar gyfer colledion yr adroddwyd yn eu cylch a thaliadau arbennig?
- Sut y mae'r rheolwyr wedi bodloni'u hunain ynghylch yr achos gwerth am arian ar gyfer y taliadau hyn?

Ffynonellau: Cwestiynau sy'n seiliedig ar ganllawiau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i Gyfrifon Llywodraeth Ganolog

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-mail: info@audit.wales

E-bost: post@archwilio.cymru

Website: www.audit.wales

Gwefan: www.archwilio.cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru gan Nick Selwyn ac roedd yn cynnwys
Gareth Jones, Steve Frank, Euros Lake, Martin Gibson a Duncan Mackenzie o dan
gyfarwyddyd Jane Holownia.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Cymysg yw llwyddiant awdurdodau lleol wrth ymateb i'r problemau a achoswyd gan ddigartrefedd, ond ffocws cyfyngedig sydd ar atal achosion sylfaenol digartrefedd	8
Yr adroddiad hwn	10
Crynodeb o'n canfyddiadau	10
Argymhellion	13
1 Mae deddfwriaeth yn canolbwyntio ar atal digartrefedd ond nid yw pob awdurdod wedi trefnu ei hun yn effeithiol i weithredu'r dyletswyddau newydd hyn yn llawn	18
Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn newid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â digartrefedd ac yn cynrychioli newid mawr yn y dull gweithredu o gymharu â rhannau eraill o'r DU	19
Mae'r dyletswyddau atal newydd yn galw am sgiliau staff gwahanol a ffyrdd newydd o weithio ond mae ymatebion awdurdod i'r heriau hyn yn amrywio	22
Mae gostyngiadau yng ngwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd wedi cael eu gwrthbwyso gan arian grant Llywodraeth Cymru ond nid yw pob awdurdod yn defnyddio'r grant hwn i ddatblygu dulliau cynaliadwy o fynd i'r afael â digartrefedd	26

2	Mae awdurdodau'n newid y ffordd maent yn darparu gwasanaethau ac yn dda ar y cyfan am roi cyngor, ond nid yw pob person digartref na phob person a allai fod yn ddigartref yn cael yr help sydd ei angen arnynt	32
	Nid yw awdurdodau lleol wedi trefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n effeithlon ac yn gyson â phobl a allai fod yn ddigartref	33
	Ceir cyfleoedd i leihau'r galw o ran digartrefedd drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor effeithiol, ond nid yw'r awdurdodau yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol mewn meysydd allweddol	37
	Mae digideiddio yn cynnig cyfleoedd i awdurdodau wella'r ffordd y mae pobl ddigartref yn cael gafael ar wasanaethau a chyngor ond mae'r dulliau cyfredol yn amrywio gormod i ddiwallu eu hanghenion	41
	Mae pobl ddigartref yn glir eu bod am i'w hawdurdod lleol ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer ond mae eu profiad yn awgrymu bod gwasanaethau yn mynd yn llai hygrych	44
3	Mae pobl ddigartref neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael atebion gwahanol iawn, yn dibynnu ar ble y maent yn gofyn am help yng Nghymru	48
	Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi datblygu ystod o ddewisiadau i fynd i'r afael â digartrefedd ond erys cyfleoedd i ehangu opsiynau	49
	Gwelir bod cydweithredu yn hollbwysig i atal digartrefedd ond nid yw'r cyfraniad gofynnol gan bartneriaid bob amser yn cael ei ddarparu	52
	Mae Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol yn awgrymu rhywfaint o lwyddiant mewn atal digartrefedd, ond mae perfformiad awdurdodau yn amrywio gormod ac nid oes digon o ffocws ar ddangos y gwasanaethau sydd ar gael i bawb	58

4	Mae angen i awdurdodau lleol a phartneriaid ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd ond nid ydynt yn rhoi digon o sylw i hyn yn eu hymatebion strategol	65
	Mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn parhau i ddelio â symptom digartrefedd ac nid ei achos	66
	Yn aml, mae penderfyniadau na all cyrff cyhoeddus yng Nghymru effeithio arnynt na'u hatal yn dylanwadu ar ddigartrefedd	68
	Mae mynd i'r afael â'r galw o ran digartrefedd yn aml yn cael ei ystyried yn ddyletswydd corff sengl yn hytrach na chyfrifoldeb gwasanaeth cyhoeddus ehangach	70
	Mae gwersi i'w dysgu o'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi ymateb i atal digartrefedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau eraill i reoli'r galw yn well	76

Atodiadau	80
Atodiad 1: Methodoleg yr astudiaeth	81
Adolygiad o lenyddiaeth	81
Dadansoddi data	81
Gwaith maes mewn awdurdodau lleol	81
Gwaith maes cenedlaethol	82
Arolygon	82
Atodiad 2: Y dyletswyddau gwahanol ar gyfer sut mae awdurdodau'n rheoli digartrefedd yng ngwledydd y Deyrnas Unedig	84
Atodiad 3: Gwariant ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai fesul awdurdod lleol 2009-10 i 2015-16 mewn termau absoliwt (arian parod) a thermau real	86
Atodiad 4: Canlyniadau BetterConnected SOCITM ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2016-17	88
Atodiad 5: Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a ddarparwyd ar wefannau cynghorau ar gyfer digartrefedd, cludiant ysgol a chasgliadau o wastraff swmpus yn 2016-17	89
Atodiad 6: Yr amrywiaeth o opsiynau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a'u partneriaid i atal ymgeisydd rhag mynd yn ddigartref	91
Atodiad 7: Y prif reswm dros gael eich bygwth gan ddigartrefedd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn 2015-16 a 2016-17 a'r newid mewn perfformiad	93
Atodiad 8: Aelwydydd a gafodd lety dros dro ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru fesul math o lety a chwarter yn 2015-16 a 2016-17	94
Atodiad 9: Enghreifftiau o ddulliau strategol o atal a rheoli'r galw	95
Atodiad 10: Ystyriaethau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth reoli galw	98

Adroddiad cryno

Cymysg yw llwyddiant awdurdodau lleol wrth ymateb i'r problemau a achoswyd gan ddigartrefedd, ond ffocws cyfyngedig sydd ar atal achosion sylfaenol digartrefedd

- 1 O ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd, sy'n rhoi straen ar gyllidebau awdurdodau lleol, mae llawer o awdurdodau lleol ledled y DU yn ystyried ble y gallant sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd, gwella cynhyrchiant, neu leihau gwariant ar wasanaethau drwy leihau lefelau gwasanaethau neu ddileu gwasanaethau yn llwyr. Gall rheoli'r galw fod yn fan cychwyn i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt gydbwysu gwasanaethau a ddarperir sy'n diwallu anghenion dinasyddion sydd â llai o adnoddau ar gael iddynt.
- 2 Yn y gorffennol, ymdriniwyd yn aml â'r galw cynyddol am wasanaethau drwy neilltuo mwy o adnoddau, ehangu gweithgareddau, datblygu rhaglenni neu brosiectau newydd, gwella seilwaith a chynyddu'r ddarpariaeth. Gyda llai o arian y sector cyhoeddus, mae angen i gyrff cyhoeddus ddod o hyd i ffyrdd newydd o leihau'r galw, a chostau, tra'n parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.
- 3 Mae'r adolygiad hwn o wasanaethau digartrefedd yn asesu pa mor dda y mae'r llywodraeth leol yn rheoli galw, gan ystyried egwyddor ehangach atal. Gwnaethom ddewis digartrefedd am nifer o resymau. Yn gyntaf, gwnaeth Llywodraeth Cymru, drwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014, newid dyletswyddau awdurdodau lleol yn sylfaenol o ran pobl ddigartref. O fis Ebrill 2016 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi cyngor a chymorth mewn perthynas â thai i bawb, p'un a ydynt yn ddigartref ai peidio, a rhaid iddynt geisio atal digartrefedd rhag digwydd lle bo'n bosibl. Mae canolbwyntio ar atal yn cyd-fynd yn dda â rheoli galw.

- 4 Yn ail, mae pobl yn mynd yn ddigartref ac yn aros yn ddigartref am bob math o resymau cymhleth sy'n gorgyffwrdd, ac mae a wnelo datrys digartrefedd â llawer mwy na rhoi cartref i bobl. Mae llawer o bobl ddigartref yn wynebu nifer o broblemau yn ychwanegol at eu digartrefedd, ond problemau y mae'r ffaith eu bod yn ddigartref yn aml yn eu gwaethygu. Er enghraifft, gall digartrefedd ddigwydd o ganlyniad i:
- a diffyg llety fforddiadwy;
 - b tlodi a diweithdra;
 - c problemau iechyd meddwl;
 - ch bod yn gaeth i alcohol, cyffuriau a gamblo;
 - d digwyddiadau bywyd trawmatig gan gynnwys cael eu cam-drin yn ystod plentyndod, teulu yn chwalu neu'n ansefydlog, gofal maeth, symud yn aml, trais domestig, gofal sefydliadol a marwolaeth rhieni;
 - dd collfarnau a charchar ynghyd â diffyg cymorth priodol ar ôl cael eu rhyddhau; a
 - e gwahaniaethu gan rai landlordiaid.
- 5 Yn drydydd, drwy edrych ar ddigartrefedd, rydym wedi gallu profi pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cydbwyso'r gwasanaethau a ddarperir y mae gan bobl hawl iddynt, â dod o hyd i atebion sy'n gost-effeithiol ac sy'n lleihau'r galw yn y dyfodol. Mae ymateb i ddigartrefedd hefyd yn rhywbeth y gall pob awdurdod lleol ei wneud ac nid oes un dull gweithredu na dull rhagnodedig y gall awdurdodau ei ddefnyddio i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae ein harchwiliad o wasanaethau digartrefedd yn cyffwrdd â pholisïau corfforaethol ehangach a dulliau o reoli'r galw am wasanaethau cyhoeddus eraill a chyrff cyhoeddus eraill.
- 6 Yn olaf, mae setiau data wedi cael eu diwygio gan Lywodraeth Cymru i ystyried cyfrifoldebau newydd atal digartrefedd a darparu digon o wybodaeth i allu asesu a yw awdurdodau a'u partneriaid yn atal digartrefedd.

Yr adroddiad hwn

- 7 Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar asesu a yw awdurdodau lleol a'u partneriaid yn mynd i'r afael â galw drwy ddatblygu dulliau atal priodol ac effeithiol. Nodir ein dulliau astudio yn **Atodiad 1**. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith maes archwilio mewn pum awdurdod lleol; arolwg wedi ei gomisiynu o ddinasyddion am wasanaethau awdurdodau lleol; dadansoddiad manwl o ddata a gwariant ar wasanaethau digartrefedd; adolygiadau o wefannau a dogfennau; a chyfweiliadau â sefydliadau cenedlaethol. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad mai cymysg yw llwyddiant awdurdodau lleol wrth ymateb i'r problemau a achoswyd gan ddigartrefedd, ond mai ffocws cyfyngedig sydd ar atal achosion sylfaenol digartrefedd.

Crynodeb o'n canfyddiadau

- 8 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi atal digartrefedd wrth wraidd dyletswyddau awdurdodau lleol, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ganolbwyntio ar ddatrys problemau, negodi, perswadio a chyfryngu er mwyn atal digartrefedd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ehangu sgiliau staff, a newid y ffordd maent yn trefnu gwasanaethau i brif ffrydio gwaith atal a lleihau'r galw. Mae awdurdodau sy'n cyflawni'n well yn cydnabod bod y ffordd y caiff gwasanaethau eu strwythuro a'u darparu yn gallu annog a chreu galw diangen, sy'n gofyn am fabwysiadu ffyrdd newydd a gwahanol iawn o weithio er mwyn atal digartrefedd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw llawer o awdurdodau wedi adolygu eu gwasanaethau yn strategol eto er mwyn gwella eu heffeithlonrwydd wrth atal digartrefedd neu newid ymddygiad dinasyddion.
- 9 Er mwyn helpu i weithredu Deddf 2014 darparodd Llywodraeth Cymru arian grant o tua £11.5 miliwn rhwng 2015-16 a 2017-18 ac mae'n bwriadu gwario £6 miliwn arall y flwyddyn yn 2018-19 a 2019-20. Er bod yr arian hwn wedi helpu awdurdodau i gyflawni eu dyletswyddau newydd, mae lefel gyffredinol y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chynghor ar dai wedi gostwng mewn termau real. Mae hyn yn peri pryder, gan fod gan ddinasyddion a arolygwyd gennym lefelau isel o foddhad â gwasanaethau digartrefedd, ac yn nodi, o blith y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol, mai'r rhain sydd â'r ansawdd gwaethaf.

- 10 Er gwaethaf lefelau isel o foddhad ymhlith defnyddwyr gwasanaethau â gwasanaethau digartrefedd, mae dinasyddion yn dal i gredu mai eu hawdurdod lleol yw'r brif asiantaeth i gysylltu â hi er mwyn datrys materion a mynd i'r afael â'u problemau. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau bob amser yn trefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n gyson â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau digartrefedd, a chollir cyfleoedd i leihau'r galw o ran digartrefedd drwy ehangu a thargedu cyngor yn well. Mae'r wybodaeth ar wefannau yn rhy amrywiol i ddiwallu anghenion pobl yn gyson.
- 11 Er bod gan ddinasyddion ddisgwyliadau clir o sut a beth y maent am i awdurdodau ei wneud ym mhob maes gweithgarwch, mae eu profiad yn awgrymu bod gwasanaethau yn mynd yn llai hygyrch dros amser. Mae angen i awdurdodau sicrhau bod ystod o opsiynau ar gael, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â phartneriaid, er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd. Fodd bynnag, mae dulliau cyfredol a ddefnyddir yn rhy amrywiol o lawer ac mae pobl ddigartref yn cael atebion gwahanol iawn, yn dibynnu ar ble y maent yn gofyn am help yng Nghymru.
- 12 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng partneriaid allweddol wrth fynd i'r afael â digartrefedd. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswyddau newydd ar wasanaethau cymdeithasol a chymdeithasau tai sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweithio â gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Bach iawn fu effaith y dyletswyddau newydd hyn mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol ac nid yw partneriaid bob amser yn cyfrannu at atal digartrefedd.
- 13 Er bod data cenedlaethol yn tynnu sylw at rai cyflawniadau wrth atal digartrefedd, mae lefelau gwaith atal llwyddiannus yn dechrau gostwng ac mae'r niferoedd a gaiff eu bygwth gan ddigartrefedd ac sydd angen llety dros dro gan awdurdodau lleol yn cynyddu. Nid yw rhai awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac nid ydynt yn gallu dangos bod eu gwasanaethau yr un mor hygyrch i bawb ac ar gael i bob dinesydd.
- 14 Bu'r newid mewn pwyslais i awdurdodau lleol wrth fynd i'r afael â digartrefedd yn gadarnhaol iawn, ac mae cynnydd yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd pwysig. Fodd bynnag, mae ymatebion yn dal i ganolbwyntio ar ddatrys symptomau digartrefedd ac nid yw awdurdodau lleol na phartneriaid yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol yn effeithiol.

- 15 Mae sicrhau gwaith atal cynaliadwy hirdymor yn anodd mewn meysydd allweddol o weithgarwch ledled Cymru oherwydd yn aml, caiff gwaith cyrff cyhoeddus yng Nghymru ei lunio gan benderfyniadau na allant ddylanwadu arnynt. Mae aliniad polisi yn hanfodol i atal digartrefedd ond mae'r rhaniad mewn cyfrifoldebau rhwng y DU a Llywodraeth Cymru yn creu heriau i awdurdodau lleol a phartneriaid, yn enwedig o ran budd-daliadau lles.
- 16 Gan ganolbwyntio ar alw, mae rheoli yn anodd oherwydd nid un sefydliad sy'n gyfrifol am bopeth ac mae angen ymrwymiad hirdymor i gyflawni canlyniadau cynaliadwy. Mae cydweithio yn hanfodol er mwyn rheoli'r galw ond yn aml caiff atebion eu llywio gan sefydliadau unigol o hyd. Cydnabyddir yn gynyddol fod rheoli'r galw yn golygu bod angen iddo fod yn fwy canolog i'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau ar y cyd, ond mae'r cynnydd wedi bod yn araf. Nid yw awdurdodau lleol wedi symud yn gyffredinol o gysyniadoli beth y gallai rheoli'r galw ei olygu iddynt hwy i wella'r ffordd y maent yn rheoli'r galw mewn gwirionedd mewn gwasanaethau penodol. O ganlyniad, mae dulliau cyfredol cyrff cyhoeddus o reoli'r galw yn aml yn golygu eu bod yn methu â chyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Argymhellion

Mae ein gwaith wedi nodi cyfres o argymhellion ar gyfer gwella a nodir y rhain isod.

Argymhellion

- A1 Mae gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd a lleihau'r galw. Mae'r rhain yn wahanol iawn i wasanaethau digartrefedd a arweinir gan waith achos traddodiadol, ac mae gwaith atal yn gofyn am sgiliau newydd a rhyngweithio'n gynnar â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr. Gwelsom fod cynnydd awdurdodau lleol wrth ddiwygio ac atgyfnerthu gwasanaethau yn amrywiol ([paragraff 1.12 – 1.20](#)). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:**
- **sicrhau bod eu staff yn ddigon medrus i ddelio â gofynion newydd cyfryngu, datrys problemau, negodi a dylanwadu gyda phobl ddigartref; ac**
 - **adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref er mwyn atal digartrefedd.**
- A2 Darparodd Llywodraeth Cymru arian i helpu awdurdodau lleol i weithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r cyllid hwn wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau atal newydd gael eu datblygu. Mae'r arian ar gael tan 2019-20 ond mae angen i awdurdodau sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan yr adnoddau hyn i ddiwygio eu gwasanaethau er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y dyfodol ([paragraff 1.21 – 1.28](#)). **Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn diwygio'r ffordd yr ariennir gwasanaethau digartrefedd ganddynt er mwyn sicrhau y gallant barhau i ddarparu'r dull atal ehangaf posibl sydd ei angen. Dylai adolygiadau ystyried defnyddio arian Cefnogi Pobl yn ogystal ag arian o Gronfa Gyffredinol y Cyngor i gefnogi'r ffordd y cyflawnir dyletswyddau digartrefedd yr awdurdod.**

Argymhellion

A3 Gall y ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u rheoli ar y pwynt cyswllt cyntaf ddylanwadu'n sylweddol ar ba mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth reoli a lleihau'r galw. Gall gwasanaethau y mae'n hawdd cael gafael arnynt a ddefnyddir i'r eithaf, sy'n osgoi dull porthgadw ac sy'n canolbwyntio ar atebion cynnar, wella'r rhagolygon ar gyfer atal digartrefedd yn llwyddiannus. Gwelsom fod systemau pwynt mynediad rhai awdurdodau wedi'u cynllunio'n wael, sy'n effeithio'n andwyol ar ragolygon yr awdurdod ar gyfer ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd rhag digwydd (**paragraff 2.4 – 2.11**). **Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:**

- **llunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cyswllt cynnar â defnyddwyr gwasanaethau;**
- **defnyddio dulliau 'brysbennu' i nodi a hidlo unigolion sy'n gofyn am help er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion; a**
- **profi effeithiolrwydd gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.**

Argymhellion

A4 Mae pennu safonau gwasanaeth clir sy'n nodi'r hyn y mae'r awdurdod yn ei ddarparu ac y mae'n gyfrifol amdano yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth sydd angen iddynt ei ddatrys eu hunain. Gwelsom nad yw awdurdodau bob amser yn rhoi gwybodaeth glir, cryno ac o ansawdd da er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'r cyngor cywir yn gyflym ac yn effeithlon (**paragraffau 2.12 – 2.17**). **Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi safonau gwasanaethau sy'n nodi'n glir beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud drostynt hwy eu hunain. Dylai safonau gwasanaethau:**

- gael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a syml;
- bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys;
- nodi'n glir rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym;
- cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au);
- integreiddio'n effeithiol â'r broses asesu unigol;
- cynnig dewisiadau amgen hyfyw i wasanaethau'r awdurdod; a
- nodi'r prosesau apeliadau a chwynion. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar degwch a chydraddoldeb i bawb dan sylw a dylent fod ar gael i bawb.

Argymhellion

A5 Mae angen i awdurdodau lleol lunio gwasanaethau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon, ond mae'r safonau cyfredol yn rhy amrywiol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu cael gafael ar y cyngor sydd ei angen arnynt (**paragraffau 2.18 – 2.24**). **Er mwyn gwella perfformiad cyfredol rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw drwy:**

- **profi defnyddioldeb ac effeithiolrwydd y wybodaeth gyfredol ar wefannau gan ddefnyddio ein llinellau ymholi a nodir yn **Atodiad 5**;**
- **cynyddu a gwella ystod, ansawdd a chwmpas gwybodaeth ar y we; gwneud gwell defnydd o raglenni ar-lein; a**
- **chysylltu'n fwy effeithiol â gwybodaeth gan ddarparu'r arbenigol ac arbenigwyr cyngor, fel Cyngor ar Bopeth.**

A6 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd newydd ar wasanaethau cymdeithasol a chymdeithasau tai sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweithio â gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Gwelsom nad yw'r trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol ac nad yw ymatebion gwasanaethau i atal digartrefedd a helpu pobl ddigartref bob amser yn cael eu darparu, ac nad ydynt ychwaith yn gyson effeithiol (**paragraffau 3.13 – 3.25**). **Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai'r cytundeb hwn gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella.**

A7 Nid yw systemau monitro awdurdodau lleol na dulliau gwerthuso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'u cyfrifoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gweithio cystal â'r disgwyl (**paragraffau 3.35 – 3.39**). **Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu dull monitro cydraddoldebau, ac yn sicrhau bod eu gwasanaeth digartrefedd yn cofnodi ac yn gwerthuso data priodol yn gywir er mwyn dangos mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd tuag atynt.**

Argymhellion

- A8 Gall rheoli'r galw fod yn heriol i awdurdodau lleol. Mae rhai gwersi clir i'w dysgu o ran gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r dyletswyddau atal digartrefedd y gellir eu cymhwyso at reoli'r galw mewn gwasanaethau eraill (**paragraffau 4.24 – 4.27**). **Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio a nodir yn **Atodiad 10** i gynnal hunanasesiad ar wasanaethau, er mwyn helpu i nodi opsiynau i wella'r ffordd y gallant helpu i reoli'r galw.**

Rhan 1

Mae deddfwriaeth yn canolbwyntio ar atal digartrefedd ond nid yw pob awdurdod wedi trefnu ei hun yn effeithiol i weithredu'r dyletswyddau newydd hyn yn llawn



- 1.1 Yn dyddio'n ôl i 1977, bu dyletswydd gyfreithiol ar y wladwriaeth i helpu pobl sy'n ddigartref neu sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am hyn yn Lloegr, yr Alban a Chymru, tra bod gan Ogledd Iwerddon un sefydliad – The Northern Ireland Housing Executive (NIHE) – sy'n gyfrifol am dai. Yn sgil datganoli polisi tai i Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, mae pob gwlad wedi datblygu dulliau gwahanol o fynd i'r afael â digartrefedd. Yng Nghymru, mae'n ofynnol i awdurdodau roi cyngor a chymorth mewn perthynas â thai i bawb, p'un a ydynt yn ddigartref ai peidio, a rhaid iddynt geisio atal digartrefedd rhag digwydd lle bo'n bosibl. Mae hyn yn wahanol iawn i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.
- 1.2 Yn yr adran hon o'n hadroddiad, rydym yn nodi'n fras y dulliau gwahanol o fynd i'r afael â digartrefedd yn y Deyrnas Unedig, gan dynnu sylw at newid ffocws Llywodraeth Cymru i greu dyletswyddau newydd sy'n ceisio atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Rydym hefyd yn adolygu'r modd y mae awdurdodau yn mynd ati i weithredu'r dyletswyddau newydd hyn, gan nodi'r heriau sy'n codi o ran y ffocws traddodiadol ar wasanaethau gwaith achos digartrefedd a'r set sgiliau wahanol iawn sydd ei hangen bellach er mwyn atal digartrefedd. Nodwn pa mor dda mae awdurdodau yn mynd i'r afael â'r her hon a'r risgiau sy'n parhau. Yn olaf, rydym yn adolygu'r modd y mae awdurdodau yn buddsoddi mewn gwasanaethau digartrefedd er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r agenda atal yn llawn, a nodi'r risgiau ariannol a wynebir gan yr awdurdodau.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn newid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â digartrefedd ac yn cynrychioli newid mawr yn y dull gweithredu o gymharu â rhannau eraill o'r DU

- 1.3 Gwnaeth [Deddf Tai \(Personau Digartref\) \(1977\)](#) awdurdodau lleol yn gyfrifol am ailgartrefu, yn yr hirdymor, rai grwpiau o bobl ddigartref am y tro cyntaf. Nododd y Ddeddf pa grwpiau o bobl ddigartref oedd y rhai yr ystyrir bod ganddynt 'angen blaenoriaethol' ac felly y gallai fod gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i roi llety sefydlog iddynt. Er i Ddeddf 1977 greu rhwyd diogelwch a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol helpu pobl ddigartref, nododd wahaniaeth hefyd rhwng y rhai a ddylai gael eu helpu – teuluoedd â phlant dibynnol yn bennaf – a'r rhai nad oedd yn rhaid i awdurdodau eu helpu.

- 1.4 Yn 1996, diwygiwyd y dyletswyddau yn Neddf 1977 pan gyflwynwyd Deddf Tai 1996 (ar gyfer Cymru a Lloegr), a nodwyd y diffiniadau o aelwydydd mewn angen blaenoriaethol yn fanylach a'r amgylchiadau lle y dylai awdurdodau lleol helpu pobl ddigartref neu'r rhai a oedd yn cael eu bygwth gan ddigartrefedd. O dan Ddeddf 1996 roedd diffiniad cymhwysedd ar gyfer cymorth yn dynnach ac roedd yn ofynnol i awdurdodau asesu a phenderfynu a oedd:
- a rhywun yn ddigartref neu a fyddai'n mynd yn ddigartref o fewn 28 diwrnod;
 - b rhywun yn gymwys i gael cymorth;
 - c gan rywun angen blaenoriaethol fel y'i diffinnir yn y canllawiau statudol;
 - ch gan rywun gysylltiad lleol â'r ardal awdurdod lleol; ac
 - d a oedd rhywun wedi mynd yn ddigartref, neu a fydd yn mynd yn ddigartref yn anfwriadol.
- 1.5 Felly, y ddyletswydd a osodwyd ar awdurdodau lleol oedd helpu'r aelwydydd hynny yr ystyriwyd eu bod yn fwyaf agored i niwed ac yn aml ddiodefwr amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. O ganlyniad, nid oedd gan nifer fawr o bobl ddigartref, yn enwedig pobl sengl, hawl awtomatig i lety na help i atal eu digartrefedd, hyd yn oed os oeddent mewn llety dros dro neu anniogel iawn, neu yn wir, os nad oedd ganddynt lety a'u bod yn cysgu ar y stryd.
- 1.6 Yn fras, parhaodd Deddf 1996¹ i weithredu fel sail cyfrifoldebau awdurdodau tuag at bobl ddigartref yng Nghymru tan 2014, pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru² [Ddeddf Tai \(Cymru\) 2014](#) ('Deddf 2014') sy'n newid ffocws gwaith awdurdodau lleol ac yn ehangu cyfrifoldebau awdurdodau i gwmpasu grŵp ehangach o lawer o bobl³. Yn ganolog i'r dull gweithredu newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2014, mae ffocws ar reoli'r galw yn well drwy atal digartrefedd a dod o hyd i atebion mwy cost-efeithiol a chynaliadwy drwy ymyrryd yn gynt er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd pobl.

1 Dyma'r system sydd ar waith ar hyn o bryd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

2 Mae polisi tai, yn enwedig y modd y mae awdurdodau lleol yn rheoli digartrefedd, yn fater datganoledig yn y Deyrnas Unedig ac mae pob gwlad yn pennu ei fframwaith deddfwriaethol a pholisi ei hun ar gyfer gweinyddu a mynd i'r afael â digartrefedd. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu newidiadau yn y modd y mae pob gwlad yn mynd i'r afael â digartrefedd ac mae gwahaniaethau sylweddol o ganlyniad rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

3 Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth newydd ar 27 Ebrill 2015 yn dilyn gwaith ymchwil, datblygu ac ymgynghori a disodlodd Ran VII o [Ddeddf Tai 1996](#), [Gorchymyn Personau Digartref \(Angen Blaenoriaethol\) \(Cymru\) 2001](#), [Deddf Digartrefedd 2002](#) a [Gorchymyn Digartrefedd \(Addasrwydd Llety\) \(Cymru\) 2006](#).

- 1.7 Mae'r ddeddfwriaeth wedi newid y gyfraith ar ddigartrefedd yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd pwysig ac mae'r system newydd, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2015, yn wahanol iawn i'r fframweithiau cyfreithiol ar gyfer digartrefedd yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae Deddf 2014:
- a yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gymryd 'camau rhesymol' i atal neu leddfu digartrefedd i bob aelwyd gymwys, gan gynyddu'n fawr nifer y bobl a all gael eu helpu;
 - b wedi creu mwy o hyblygrwydd yn yr amrywiaeth o ymyriadau awdurdod lleol, a hefyd wedi ehangu'r diffiniad o 'bygwth gan ddigartrefedd' fel bod pobl yn cael help pan fyddant o fewn 56 diwrnod i golli eu cartref;
 - c yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyflawni gwaith gwell, wedi ei dargedu'n fwy gyda mwy o help, cyngor a gwybodaeth ar gyfer aelwydydd;
 - ch hefyd wedi ceisio annog diwylliant gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y person o fewn awdurdodau lleol, fel y gall defnyddwyr gwasanaethau ymwneud yn agos â nodi a rhoi atebion i'w problemau tai ar waith;
 - d yn canolbwyntio'n fwy ar y defnyddiwr gwasanaeth, ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol helpu pobl ddigartref a phobl sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd i fynd i'r afael ag achosion eu digartrefedd a gwneud penderfyniadau hyddysg ar ddod o hyd i atebion i'w problem tai; ac
 - dd yn rhoi mwy o bwyslais ar gydweithredu a gwaith amlasiantaeth er mwyn galluogi ymateb cyfannol i ddiwallu anghenion pobl ddigartref a rhai sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd, gan alluogi awdurdodau lleol yn enwedig i wneud defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat fel ateb i ddigartrefedd.
- 1.8 Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn cynyddu'n fawr nifer y bobl y gall awdurdodau eu helpu ac mae'n wahanol iawn i'r system ddeddfwriaethol flaenorol. O dan yr hen systemau roedd yn rhaid i awdurdodau lleol herio ac ymchwilio i bob achos o ddigartrefedd a phenderfynu pa gymorth, os o gwbl, yr oedd yn rhaid iddynt ei ddarparu. Er yr anogir awdurdodau lleol yn Lloegr⁴ a'r Northern Ireland Housing Executive i ganolbwyntio ar atal digartrefedd lle bo'n bosibl, nid yw eu dyletswyddau mewn perthynas â digartrefedd yn seiliedig ar atal fel y prif sbardun. Mae hyn yn wahanol iawn i Gymru.

4 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu digartrefedd, fodd bynnag, ar fin newid yn Lloegr yn sgil gweithredu'r [Homelessness Reduction Act 2017](#). Mae Deddf 2017 yn nodi dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol yn Lloegr gyda'r nod o atal digartrefedd ac mae'n debyg i'r hyn a nodwyd yn Neddf 2014 yng Nghymru. Daw'r dyletswyddau newydd hyn i rym yn 2018.

- 1.9 O gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, gwnaeth Llywodraeth yr Alban drwy ei [Homeless \(Abolition of Priority Need Test\) \(Scotland\) Order 2012](#), ddileu'r gwahaniaeth rhwng achosion blaenoriaethol o ddigartrefedd a'r rhai, hyd at 2012, a oedd wedi bod â hawl i lety dros dro yn unig. Yn yr Alban nid yw awdurdodau lleol yn cynnal profion anfwriadoldeb ac angen blaenoriaethol, ac mae Deddf 2012 yn rhoi'r hawl i unrhyw un sy'n mynd yn ddigartref heb unrhyw fai arno ef ei hun, i lety sefydlog. Yn y gorffennol, roedd pobl ddigartref ag 'angen blaenoriaethol', megis teuluoedd â phlant dibynnol, yn cael yr hawl i lety gan awdurdodau lleol, ond mae hyn wedi cael ei ymestyn i bawb, megis pobl sengl, sy'n cael eu hunain yn 'ddigartref yn anfwriadol'. Mae hyn wedi dileu llawer o'r gofynion ymchwilol ac wedi arwain at awdurdodau yn yr Alban yn ailgartrefu niferoedd mwy o bobl ddigartref.
- 1.10 O ganlyniad i'r newidiadau gwahanol hyn, mae angen cymryd gofal wrth gymharu perfformiad rhwng gwledydd gan fod y systemau sy'n rheoli digartrefedd yn wahanol iawn. Mae [Atodiad 1](#) yn crynhoi'r gwahaniaethau allweddol rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig.

Mae'r dyletswyddau atal newydd yn galw am sgiliau staff gwahanol a ffyrdd newydd o weithio ond mae ymatebion awdurdod i'r heriau hyn yn amrywio

- 1.11 Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb rheng flaen am helpu pobl ddigartref yng Nghymru ac mae ganddynt ddyletswydd statudol i helpu'r rhai sy'n ddigartref neu sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd. Hyd at gyflwyno Deddf 2014 roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i staff awdurdod lleol wneud ymholiadau, a chanfod a oedd dyletswydd arnynt i ymgeisydd digartref yn seiliedig ar eu hymchwiliad i amgylchiadau pob unigolyn yn erbyn y pum prawf cymhwysedd a nodwyd uchod ([paragraff 1.4](#)). Gallai'r asesiad hwn fod yn gymhleth iawn yn aml, gan fanteisio ar ystod eang o wybodaeth a oedd, er enghraifft, yn ymdrin â'r canlynol; anghydfodau o ran tenantiaeth, ymddygiad rhywun, problemau teuluol, perthynas yn chwalu, asesu natur fregus o bosibl, materion cyflogaeth, sefyllfa ariannol a statws mewnfudo.

- 1.12 O gofio'r ffocws ymchwiliol blaenorol ar waith digartrefedd, roedd angen i awdurdodau benodi a hyfforddi staff i feddu ar wybodaeth fanwl am gyfraith achosion tai a hawliau tenantiaid. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn i awdurdodau gynnal a chwblhau ymchwiliad trylwyr i amgylchiadau unigol pob person digartref a gwneud y penderfyniad cychwynnol cywir, ond hefyd er mwyn amddiffyn yr awdurdod pe bai ei benderfyniad yn cael ei herio'n gyfreithiol⁵. Roedd yn rhaid i awdurdodau hefyd sicrhau bod ganddynt staff a oedd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bolisiau llesiant a pholisiau cymdeithasol cysylltiedig megis budd-daliadau tai, statws mewnfudo, taliadau llesiant a meini prawf cymhwysedd ac asesu gofal cymdeithasol; meysydd allweddol y mae'n rhaid ymchwilio iddynt yn aml wrth wneud penderfyniad ar gais digartrefedd rhywun.
- 1.13 Pan gyflwynwyd Deddf 2014 roedd awdurdodau lleol bellach yn gofyn i'w staff atal digartrefedd drwy ddulliau datrys problemau, negodi a chyfyngu effeithiol a thrwy ddylanwadu ar bobl ac ymddygiadau. Mae uwchsgilio staff er mwyn canolbwyntio ar ddatrys problemau, cyfyngu, ymatebion amlwasanaeth a gwybod sut a ble i gomisiynu'r gweithgarwch atal cywir yn set wahanol iawn o sgiliau i waith achos digartrefedd traddodiadol. Er enghraifft, mae angen i staff awdurdod lleol bellach:
- a perswadio ac argyhoeddi pobl ddigartref i wneud dewisiadau a chymryd camau gwahanol iawn yn aml;
 - b negodi'n effeithiol â landlordiaid er mwyn newid eu penderfyniadau;
 - c gweithio'n greadigol i ddatrys problemau a goresgyn rhwystrau i ddod o hyd i ateb sy'n datrys y sefyllfa orau; a
 - ch dylanwadu ar bobl – rhieni ac aelodau o'r teulu er enghraifft – er mwyn dod i gytundeb boddhaol i'r ddwy ochr nad oedd yn fwriad ganddynt yn wreiddiol.

5 Roedd gan ymgeiswyr digartref yr hawl i ofyn am adolygiad gan yr awdurdod ac, yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad hwn, gallent hefyd apelio i'r Llys Sirol ac, mewn rhai amgylchiadau, ofyn am adolygiad barnwrol. Er enghraifft, pan oedd awdurdod yn gwrthod rhoi cartref i ymgeisydd digartref tra'n cynnal ymholiadau; yn anwybyddu ffactorau perthnasol (megis eu hiechyd) wrth benderfynu a oedd y llety dros dro a ddarparwyd ganddynt yn addas ai peidio; neu'n gwrthod adolygu ei benderfyniad gwreiddiol.

- 1.14 Er i awdurdodau lleol ragweld y byddai Deddf 2014 yn galw am newid mewn sgiliau staff, mae nifer fawr wedi brwydro i bontio'n effeithiol o'r hen system ddigartrefedd i'r un newydd. Nododd yr awdurdodau y gwnaethom ymweld â nhw y byddai gweithredu Deddf Tai 2014 yn creu anawsterau iddynt hwy, yn enwedig o ran y gwaith sydd ei angen i gyflawni'r dyletswyddau newydd, y ffocws newidiol o weithgarwch a'r sgiliau rhyngweithio personol y mae angen i staff feddu arnynt i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed er mwyn atal digartrefedd. Ategir hyn gan ganfyddiadau arolwg diweddar Llywodraeth Cymru o awdurdodau lleol ar heriau gweithredu'r Ddeddf lle y canfuwyd bod 17 o blith y 22 o awdurdodau wedi wynebu heriau sylweddol wrth weithredu'r Ddeddf⁶. Yn enwedig, nododd awdurdodau maes gwaith fod yr hyfforddiant a'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi eu cyflawni yn fuan iawn cyn i'r dyletswyddau newydd gychwyn, a gyfyngodd ar y cyfleoedd i ad-drefnu gwasanaethau mewn da bryd.
- 1.15 Yn ogystal â datblygu sgiliau newydd ymhlith staff, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen iddynt newid eu systemau a'u prosesau ar gyfer rheoli digartrefedd i'w galluogi i gyflawni dyletswyddau Deddf 2014 yn effeithiol. Yn enwedig, yr angen i drefnu gwasanaethau er mwyn cyflwyno mwy o opsiynau atal, lleihau dibyniaeth ac annog hunandibyniaeth ymhlith unigolion. Yn gadarnhaol, mae'r rhan fwyaf o'n hawdurdodau gwaith maes yn newid y modd y maent yn strwythuro ac yn darparu gwasanaethau digartrefedd er mwyn rheoli'r galw o ran digartrefedd yn well a'i atal. Mae'r perfformwyr gorau yn cydnabod bod y ffordd y caiff gwasanaethau eu strwythuro a'u darparu yn gallu annog a chreu galw diangen, a bod gofyn mabwysiadu ffyrdd newydd a gwahanol iawn o weithio er mwyn atal digartrefedd yn llwyddiannus.

6 Penododd Llywodraeth Cymru Brifysgol Salford i gynnal arolwg o awdurdodau lleol ar eu profiad wrth weithredu Deddf Tai 2014. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Awst 2016 ac fe'i cyflwynwyd ym mis Awst 2017 – Adroddiad Interim Gwerthusiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd (Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), 8 Awst 2017, Llywodraeth Cymru. Darparodd Llywodraeth Cymru y data crai dienw i Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn helpu i gyflawni'r astudiaeth hon ac osgoi dyblygu gweithgarwch.

- 1.16 Er enghraifft, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi symud i ffwrdd oddi wrth brosesau cymhwyso ac asesu yn y swyddfa wyneb yn wyneb i gyflwyno ffyrdd mwy hyblyg o weithio er mwyn gwella'r rhagolygon o atal digartrefedd rhag digwydd. Yn yr un modd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ceisio symud mwy o wybodaeth am faterion tai ar-lein fel y gall pobl weld y wybodaeth honno heb orfod cwrdd â swyddog y cyngor ei hun. Mae'r awdurdod hefyd wedi datblygu Strategaeth Gwasanaeth a Mynediad i Gwsmeriaid sy'n nodi camau i'w cymryd i leihau galw o ganlyniad i fethiant⁷.
- 1.17 Fodd bynnag, yn amlach na pheidio, mae'r newidiadau y mae awdurdodau yn eu gwneud i'w gwasanaethau digartrefedd wedi'u harwain gan fentrau yn hytrach nag ad-drefnu gwasanaethau yn sylfaenol. O ganlyniad, mae llawer o'r newidiadau a welsom yn newydd iawn ac nid yw eu llwyddiant wedi cael ei werthuso'n llawn. Fodd bynnag, maent yn dangos parodrwydd ar ran awdurdodau lleol i geisio ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i leihau'r galw ac atal digartrefedd. Fodd bynnag, dim ond pedwar awdurdod a nododd eu bod wedi uwchraddio eu systemau TG er mwyn sicrhau bod eu systemau rheoli yn unol â Deddf 2014.
- 1.18 Er gwaethaf y pwyslais mwy a roddir ar awdurdodau sydd angen atal digartrefedd, ffocws cyfyngedig sydd gan tua thraean o awdurdodau ar newid ymddygiadau ymhlith defnyddwyr gwasanaethau ac, i ryw raddau, staff. Mae rhai awdurdodau yn parhau i ddarparu gwasanaeth 'tadol' ac mae gwasanaethau digartrefedd a chyfrifoldebau staffio yn parhau i weithredu heb fawr ddim newid. Yn aml, gall y dulliau hyn greu diwylliant o hawl a dibyniaeth, yn syml am fod yr awdurdod wedi strwythuro gwasanaethau i annog galw.
- 1.19 Gall effaith newid deddfwriaethol a'r gofyniad i ddatblygu ymatebion staffio a gwasanaeth newydd fod yn heriol. Nododd staff rheng flaen a gyfwelwyd gennym yn ystod ein gwaith maes astudio y gall meini prawf cymhwysedd caeth a gofynion rhagnodol, yn aml a osodir am resymau dilys a da, fod yn rhwystr i reoli'r galw. Er enghraifft, un o'r gofynion ar gyfer gweithredu Deddf 2014 Llywodraeth Cymru oedd i awdurdodau lleol ddefnyddio cyfres o lythyrau hysbysu a anfonir ar adegau gwahanol yn ystod eu hymchwiliadau. Nododd nifer sylweddol o swyddogion awdurdod lleol wrthym fod y penderfyniadau hyn yn ymestyn adnoddau staff ac yn cynyddu'r llwyth gwaith. Mae'r amser gweinyddol sydd ei angen i baratoi llythyrau hysbysu amrywiol, a chynlluniau tai personol, yn mynd â llawer o amser a rhaid cymryd gofal mawr i sicrhau nad ydynt yn destun her gyfreithiol, er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y rhain i'w darparu

dros gyfnod o 100 o ddiwrnodau neu fwy, ac nid ydynt yn ystyried eu bod yn rhy feichus.

- 1.20 Yn yr un modd, awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl ddigartref fynd i'w swyddfeydd i ofyn am gymorth a staff yn parhau i ymchwilio i fwriadoldeb ac angen blaenoriaethol yn hytrach na cheisio dulliau cyflymach a mwy amserol sy'n darparu atebion cyflymach i atal digartrefedd. Mae dulliau rhagnodol yn lleihau disgresiwn, yn cyfyngu ar ddewisiadau amgen addas, yn lleihau'r dewis yn lleol, ac yn y pen draw yn effeithio'n andwyol ar allu cyrff cyhoeddus i wella'r ffordd y maent yn rheoli'r galw am wasanaethau. Canfu ymchwil ddiweddar gan Shelter Cymru fod "gwasanaethau digartrefedd yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid. Ar hyn o bryd, mae'r trawsnewid hwn yn digwydd yn anghyson, o fewn awdurdodau a rhyngddynt. Gwnaethom siarad â phobl a oedd yn teimlo eu bod wedi cael cymorth i bob diben a phobl a oedd yn teimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu ac ond wedi cael ychydig iawn o help, er iddynt gysylltu â'r un awdurdod ar yr un adeg."⁸

Mae gostyngiadau yng ngwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd wedi cael eu gwrthbwysu gan arian grant Llywodraeth Cymru ond nid yw pob awdurdod yn defnyddio'r grant hwn i ddatblygu dulliau cynaliadwy o fynd i'r afael â digartrefedd

- 1.21 Maes lle bu awdurdodau lleol yn gadarnhaol am y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yw'r arian grant a neilltuwyd i weithredu Deddf 2014. Er mwyn helpu i weithredu Deddf 2014 darparodd Llywodraeth Cymru Arian Pontio ar gyfer Atal Digartrefedd i awdurdodau lleol: £5.6 miliwn yn 2015-16; £3 miliwn yn 2016-17; a £2.8 miliwn yn 2017-18. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn cynnwys £6 miliwn ychwanegol ym mhob blwyddyn a ychwanegwyd i'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswyddau atal digartrefedd awdurdodau lleol o dan Ran 2 o Ddeddf 2014. Mae'r arian hwn wedi cael ei ddarparu i helpu awdurdodau i

⁸ Reasonable steps: experiences of homelessness services under the Housing (Wales) Act 2014, Shelter Cymru, 2016.

adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau er mwyn bod mewn sefyllfa well i gyflawni eu dyletswyddau statudol newydd.

- 1.22 Heb grant clustnodi Llywodraeth Cymru, dywedodd staff digartrefedd awdurdodau wrthym na fyddem wedi gallu gweithredu'r Ddeddf. Gwelsom fod awdurdodau lleol yn defnyddio eu harian pontio mewn tair prif ffordd:
- a cyflogi staff ychwanegol, er enghraifft, yn y sector rhentu preifat, neu rolau atebion tai neu i weithio gyda grwpiau penodol o bobl ddigartref neu a allai fod yn ddigartref. Fodd bynnag, gall y swyddi hyn yn aml fod am gyfnod penodol neu dros dro tra pery'r arian ac mae ansicrwydd a fydd awdurdodau yn parhau â'r swyddi hyn yn y tymor canolig i'r tymor hir;
 - b datblygu eu seilwaith TG i wella effeithlonrwydd y gwaith gweinyddol a gwella gwaith atal a rheoli gwaith achos; a
 - c creu cronfeydd atal ar gyfer blaendaliadau, rhent ymlaen llaw, gwarantau rhent, bondiau, ac i gwmpasu dyledion ac ôl-ddyledion.
- 1.23 Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau, defnyddiwyd yr arian pontio i wrthbwyso gostyngiadau yn arian craidd yr awdurdod gydag arian Llywodraeth Cymru yn cwmpasu cost swyddi a ariannwyd gynt o Gronfa Gyffredinol y Cyngor. Mae 14 o blith y 22 o awdurdodau a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru ar weithredu Deddf 2014, yn nodi, ar wahân i'r arian pontio, na chafwyd unrhyw gynnydd yn yr adnoddau sydd ar gael yn eu hawdurdod lleol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Gwelsom, drwy ein gwaith maes, nad yw rhai awdurdodau o ganlyniad i hynny, wedi manteisio ar y cyfle a gododd yn sgil arian pontio Llywodraeth Cymru i newid eu gwasanaethau digartrefedd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau newydd yn well.
- 1.24 Mae ein dadansoddiad o ffurflenni data blynyddol a anfonwyd i Lywodraeth Cymru ers 2009-10, a nodir yn **Arddangosyn 1**, yn dangos bod gwariant ar ddigartrefedd a chyngor ar dai, mewn termau absoliwt (arian parod) a real, wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf; digartrefedd o tua £7 miliwn, a chyngor ar dai o tua £1.4 miliwn. Mewn termau real, toriad

Arddangosyn 1 – Cyfanswm y gwariant gan awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai yng Nghymru mewn termau absoliwt (arian parod) a real rhwng 2009-10 a 2015-16.

o 24.1% a 27.9% yn y drefn honno. Nodir dadansoddiad manwl o wariant ar ddigartrefedd a chyngor ar dai fesul awdurdod lleol yn **Atodiad 3**.

Blwyddyn	Gwariant ar ddigartrefedd			Gwariant ar gyngor ar dai		
	Absoliwt (£'000)	Termau real (£'000)	Termau real (newid %)	Absoliwt (£'000)	Termau real (£'000)	Termau real (newid %)
2009-10	£26,269	£28,773	-	£6,637	£7,270	-
2010-11	£31,333	£33,703	17.1%	£5,101	£5,487	-24.5%
2011-12	£23,734	£25,180	-12.5%	£4,253	£4,512	-37.9%
2012-13	£22,843	£23,736	-17.5%	£4,231	£4,396	-39.5%
2013-14	£20,461	£20,916	-27.3%	£5,035	£5,147	-29.2%
2014-15	£18,849	£18,989	-34.0%	£5,246	£5,285	-27.3%
2015-16	£21,822	£21,822	-24.1%	£5,240	£5,240	-27.9%

Ffynhonnell: Casgliad data alldro refeniw, Llywodraeth Cymru. Archwiliwyd y wybodaeth hon gan Swyddfa Archwilio Cymru a daw'r ffigurau a gyflwynir yn yr arddangosfa o ffurflenni wedi'u diweddarau a gasglwyd oddi wrth awdurdodau lleol. Mae'r wybodaeth hon yn wahanol i'r data heb eu harchwilio a gyflwynwyd ar StatsCymru.


Bu gostyngiad sylweddol yn y gwariant gan awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai dros y blynyddoedd diwethaf.

1.25 O'n dadansoddiad o wariant awdurdodau lleol, gwelsom fod tua hanner yr awdurdodau wedi lleihau gwariant rhwng 2009-10 a 2015-16. Mae **Arddangosyn 2** isod, yn dangos y bu'r gostyngiadau mwyaf yn y gyllideb rhwng 2009-10 a 2015-16 yng Nghaerdydd (-73.8%), Sir Benfro (-48.5%)

Arddangosyn 2 – Newid mewn termau real mewn gwariant ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai yng Nghymru rhwng 2009-10 a 2015-16 fesul awdurdod lleol

a Sir Fynwy (-46.2%). Mae 11 awdurdod wedi cynyddu gwariant yn ystod y cyfnod hwn a gwelwyd y cynnydd mwyaf ym Merthyr Tudful (67.1%), Sir y Fflint (63.8%) a Chasnewydd (51.3%).

Mae'r graff yn dangos y newid cymesurol yn y buddsoddiad a wnaed gan awdurdodau lleol yn eu gwasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai yn y saith mlynedd diwethaf. Mae'r graff yn dangos y bu gostyngiad yn gyffredinol o



Ffynhonnell: Casgliad data alldro refferniw, Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr arddangosfa yn cynrychioli gwybodaeth wedi ei diweddarau a gasglwyd oddi wrth awdurdodau lleol. Mae'r wybodaeth hon yn wahanol i'r data heb eu harchwilio a gyflwynwyd ar StatsCymru.


26.3% mewn termau real yn y swm a gaiff ei wario gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai. Mae'r newid mewn gwariant yn amrywio o gyllidebau yn lleihau 76.6% yng Nghaerdydd i gyllidebau yn cynyddu 49.7% ym Merthyr Tudful.

- 1.26 Ceir nifer o resymau dros y gostyngiadau hyn yng ngwariant awdurdodau. Er enghraifft, mae ffigurau Cyngor Caerdydd yn cynnwys taliadau gan y Swyddfa Gartref o dan gontract y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches⁹, sydd bellach wedi dod i ben. Yng Nghyngor Sir Fynwy mae trosglwyddo eiddo ar les y sector preifat i gymdeithas dai wedi arwain at ostyngiad mewn gwariant ar ddigartrefedd.
- 1.27 O gofio'r gostyngiad mewn gwariant mewn rhai awdurdodau, mae perygl na fydd awdurdodau yn gallu parhau i ddarparu rhai o'r gwasanaethau newydd sy'n hanfodol i atal digartrefedd. Tynnwyd sylw at hyn gan tua thraean o awdurdodau yn ymateb i arolwg Llywodraeth Cymru o'r rhain a oedd yn pryderu y byddai colli'r arian pontio yn 2018-19 yn creu bygythiad i'w nod o barhau i weithredu'r Ddeddf. Bydd parhad cyllid Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau i gyflawni eu cyfrifoldebau newydd.
- 1.28 Mae hyn yn arbennig o heriol i awdurdodau lleol gan fod gan y dinasyddion a arolygwyd gennym sydd wedi defnyddio gwasanaethau digartrefedd yn y 12 mis diwethaf lefelau isel o foddhad ag ansawdd y gwasanaethau a gânt. Mae gostyngiadau parhaus yn adnoddau awdurdodau ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai yn debygol o arwain at hyd yn oed lefelau is o foddhad yn y dyfodol. Gwelsom mai llyfrgelloedd, ailgylchu ar stepen y drws, addysg, casglu trethi'r cyngor a chasglu sbwriel oedd y pethau yr oeddent yn fwyaf bodlon arnynt. Y gwasanaethau awdurdod lleol â'r lefelau isaf o foddhad yw darparu tai dros dro a gwasanaethau digartrefedd ac atgyweirio ffyrdd. Mae gan lety dros dro a gwasanaethau digartrefedd, yn gymharol, lefelau isel iawn o foddhad ac maent ymhell islaw'r gyfradd foddhad ar gyfartaledd ar gyfer holl wasanaethau awdurdodau lleol. Mae **Arddangosyn 3** isod yn crynhoi canfyddiadau manwl yr arolwg.

⁹ Darparodd y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS) lety i geiswyr lloches tra roedd eu cais yn cael ei ystyried gan y Swyddfa Gartref. Cyngor Caerdydd oedd yr arweinydd rhanbarthol ar gyfer darparu llety a oedd yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref o dan gontract NASS sydd bellach wedi dod i ben.

Arddangosyn 3 – Barn dinasyddion ar ansawdd gwasanaethau awdurdod lleol y maent wedi eu defnyddio yn y 12 mis diwethaf

Mae'r graff yn crynhoi safbwyntiau 750 o ddinasyddion ar ansawdd gwasanaethau awdurdod lleol ac yn dangos bod y dinasyddion a arolygwyd yn nodi mai'r gwasanaethau digartrefedd a llety dros dro a ddarperir gan eu hawdurdod lleol yw'r gwasanaeth o'r ansawdd gwaethaf.



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Dinasyddion, Mawrth 2017

Tudalen y pecyn 67

Rhan 2

Mae awdurdodau'n newid y ffordd maent yn darparu gwasanaethau ac yn dda ar y cyfan am roi cyngor, ond nid yw pob person digartref na phob person a allai fod yn ddigartref yn cael yr help sydd ei angen arnynt



- 2.1 Un o ddyletswyddau allweddol awdurdodau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yw rhoi cyngor a chymorth effeithiol. Mae Adran 60 o Ddeddf 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi cyngor a chymorth i bawb, p'un a ydynt yn ddigartref ai peidio, i'w helpu i ddod o hyd i lety. Dylai cyngor a gwybodaeth fod yn seiliedig ar asesiad o angen sy'n canolbwyntio ar y person; dylai fod ar gael i bawb yn ei ardal, neu i bobl sydd â chysylltiad lleol; dylai fod am ddim; a dylai ymwneud o leiaf ag atal digartrefedd, cael llety ac unrhyw help arall sydd ei angen.
- 2.2 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau i roi cyngor, gan gynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn, deunydd wedi ei argraffu ac ar-lein. Mae amseriad y cyngor hefyd yn bwysig, a dylid sicrhau bod ystod eang o wybodaeth ar gael cyn gynted â phosibl. Mae cael y pwynt cyswllt cyntaf cywir a'r cyfryngau cywir i ymwneud â cheisiadau am wasanaeth hefyd yn ofynnol er mwyn i awdurdodau allu ymateb i anghenion pobl ddigartref, rheoli disgwyliadau a dylanwadu ar alw am eu gwasanaethau. Mae gwella gofal cwsmeriaid, digideiddio gwasanaethau, gan gynnwys hunangymorth a gwell canllawiau ar-lein ac ar bapur yn elfennau allweddol rheoli galw.
- 2.3 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn ystyried sut mae dinasyddion yn dysgu am y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol, ac a gaiff gwasanaethau eu trefnu i sicrhau'r defnydd a'r cymorth mwyaf posibl. Rydym yn adolygu pa mor dda y mae awdurdodau yn ymgysylltu â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr, ac a yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyflym ac yn effeithlon i bobl ddigartref i roi cyngor amserol iddynt ar atal digartrefedd. Rydym hefyd yn ystyried a yw newidiadau a wnaed i wasanaethau yn gwella'r ffordd y mae pobl ddigartref ac a allai fod yn ddigartref yn cael yr help sydd ei angen arnynt.

Nid yw awdurdodau lleol wedi trefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n effeithlon ac yn gyson â phobl a allai fod yn ddigartref

- 2.4 Mae cyngor priodol, amserol a pharod yn hanfodol er mwyn helpu pobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref i wneud y dewisiadau cywir i fynd i'r afael â'u sefyllfa nhw o ran tai. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod pobl ddigartref yn cael gwybodaeth o ansawdd da mewn ffyrdd hygyrch. Cydnabyddir pwysigrwydd cyngor o ansawdd da yng nghanfyddiadau arolwg Llywodraeth Cymru o awdurdodau lleol ar weithredu Deddf Tai 2014, lle mae 20 o'r 22 o awdurdodau yn cytuno bod Deddf 2014 wedi dylanwadu arnynt i roi gwybodaeth a chyngor gwell. Er mwyn cyflawni eu dyletswyddau digartrefedd mae angen i awdurdodau lleol ddefnyddio ystod eang o sianeli i ymgysylltu â'u dinasyddion; cynnig cyngor a gwybodaeth o ansawdd da mewn amrywiaeth o fformatau; a phrofi bod eu dulliau yn gweithio'n effeithiol.

- 2.5 Gwnaethom ofyn i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau awdurdod lleol sut maent yn cael gwybodaeth am eu hawdurdod lleol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Gwelsom fod llawer o ddinasyddion yn rhoi mwy o ddibyniaeth ar ffynonellau gwybodaeth anuniongyrchol a rhai nad ydynt yn dod o'r awdurdod yn hytrach na deunydd a gyhoeddir gan awdurdodau. Er enghraifft, mae 44% o bobl yn dibynnu'n bennaf ar gyfryngau lleol fel eu prif ffynhonnell wybodaeth am wasanaethau awdurdod lleol. Serch hynny, gwnaeth dinasyddion a arolygwyd gennym barhau i ystyried mai eu hawdurdod hwy oedd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer datrys problemau a'r brif ffynhonnell cyngor a gwybodaeth er mwyn helpu i fynd i'r afael â'u problemau. Er enghraifft, dywedodd ychydig dros hanner y dinasyddion mai eu prif reswm dros gysylltu â'r cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd er mwyn rhoi gwybod am broblem (27%), neu i ofyn am gyngor a gwybodaeth (24%). Cysylltodd cyfran uwch o'r rhai dros 55 oed â'u hawdurdod i roi gwybod am broblem, ond mae ymatebwyr iau a phobl sy'n ddi-waith yn fwy tebygol o ofyn am gyngor a gwybodaeth.
- 2.6 Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bellach i awdurdodau ddelio'n gynt o lawer â phobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref (56 diwrnod) nag oedd yn wir o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, ac i roi ystod ehangach o opsiynau i ddatrys ac atal digartrefedd rhag digwydd. Mae trefnu gwasanaethau i ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod awdurdodau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol ac yn defnyddio eu hadnoddau i'r eithaf er mwyn bodloni'r galw gan bobl ddigartref yn well.
- 2.7 Mae dinasyddion yn tueddu i ddefnyddio ystod o ddulliau wrth gysylltu ag awdurdod i ofyn am wasanaeth, neu pan fydd angen cymorth arnynt. Canfu ein harolwg, er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ffonio'r awdurdodau, naill ai drwy linell/canolfan galwadau cwsmeriaid neu'n uniongyrchol i adran neu at berson penodol, mae nifer sylweddol hefyd yn defnyddio e-bost (yn uniongyrchol neu drwy wefan yr awdurdod), yn ogystal ag ymweld â swyddfa neu ganolfan gwybodaeth. Mae angen i awdurdodau sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r dulliau y gallant eu defnyddio i gysylltu â'r awdurdod, a dylent fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

- 2.8 Mae nifer o heriau i awdurdodau sy'n darparu gwasanaethau i bobl ddigartref. Ar lefel ymarferol, nid oes gan bobl sy'n ddigartref, na'r rhai sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd, yr arian yn aml i ymweld â swyddfeydd awdurdod. Mae ansawdd y wybodaeth i'r cyhoedd hefyd yn tueddu i fod yn gyffredinol ac nid yw wedi'i theilwra i unigolion, sy'n ei gwneud yn llai perthnasol ac o ganlyniad yn aml yn aneffeithiol o ran rhoi cyngor iddynt ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd yn cysylltu ag awdurdodau lleol drwy gyswllt â pherson neu gyswllt trydydd parti yn hytrach na gwasanaethau ar y we a chyfryngau cymdeithasol. Mae angen i awdurdodau ddeall dewisiadau cyfathrebu defnyddwyr gwasanaethau a llunio gwybodaeth mewn ffyrdd y gallant gael gafael arni yn uniongyrchol neu drwy asiantaethau partner.
- 2.9 O gofio'r dulliau gwahanol a ddefnyddir gan ddinasyddion, mae angen i awdurdodau sicrhau eu bod yn cynnig ystod eang o opsiynau i ymateb yn effeithiol i'w hanghenion. Mae angen i awdurdodau hefyd ddeall sut a phryd mae pobl yn ymuno â'r 'system gwasanaethau cyhoeddus'. Mae data a gwybodaeth am gwsmeriaid/defnyddwyr o ansawdd da yn hanfodol i'r broses hon. Felly dylai systemau ar gyfer cyswllt â chwsmeriaid fod yn eang eu cwmpas; yn gwbl hygyrch; a dylent gynnwys gwaith yr holl gyrff sector cyhoeddus perthnasol¹⁰.
- 2.10 Adolygodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei opsiynau tai yn 2011 er mwyn pennu'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau opsiynau tai i alluogi staff i ymgysylltu'n fwy cyflym ac effeithlon â defnyddwyr gwasanaethau mewn ffyrdd a oedd yn adlewyrchu dewisiadau pobl ddigartref. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yn well gan bobl ddigartref wasanaeth dros y ffôn yn hytrach na chyfweliadau wyneb yn wyneb yn y swyddfa. O ganlyniad, mae'r awdurdod wedi cyflwyno gwasanaeth trin galwadau ffôn i weithredu fel gwasanaeth brysbennu pwynt cyswllt cyntaf sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth gychwynnol i nodi'r ffordd orau o ddiwallu anghenion cleient. Os bydd amgylchiadau rhywun yn fwy cymhleth ac yn galw am ymyrraeth bellach, yna bydd y tîm brysbennu yn cyfeirio'r unigolyn at swyddogion achos arbenigol.

10 Mae adolygiadau Gateway o amserlenni ymyrryd mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn ffordd gynyddol sefydledig o ddeall sut a phryd mae pobl yn ymuno â'r 'system gwasanaethau cyhoeddus'.

Cyngor Sir Caerfyrddin – mae dull tîm Opsiynau Tai a Chynghori'r awdurdod o ymdrin â gweithgarwch sy'n dod i mewn yn enghraifft dda o sut i ddelio â'r galw ar wasanaeth

Yn 2013, gwybodaeth gyfyngedig oedd gan y Cyngor ar foddhad cwsmeriaid ac ymdriniwyd â hyn drwy ddechrau gofyn pum cwestiwn gwerthusol i bawb a oedd yn cysylltu â'r gwasanaeth. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ansawdd y cyngor, datrys problemau a dulliau cyfathrebu. Gwnaeth y Cyngor hefyd ddadansoddi nifer y galwadau roedd yn ymdrin â nhw, a chanfuwyd mai dim ond 40% o'r galwadau oedd yn cael eu hateb ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Gosododd y Cyngor sgrin yn dangos y galw a oedd yn dod i mewn ac er mwyn galluogi aelodau'r tîm i reoli'r galw yn well, gan ddefnyddio data i ganfod yr aelod o staff a oedd yn cyfateb orau i'r galwr. Cyfrannodd y dull newydd at gynyddu cyfran y galwadau opsiynau tai yr ymdriniwyd â nhw ar y pwynt cyswllt cyntaf i 96%.

Mae'r Cyngor yn ymdrechu i ddatrys problemau ar y pwynt cyswllt cyntaf lle y bo'n bosibl. Wrth 'wneud i bob cyswllt gyfrif', mae'r tîm craidd sy'n delio â galwadau sy'n dod i mewn yn cynnwys swyddogion o gefndiroedd amrywiol a all ddarparu atebion i broblemau pobl. O ganlyniad, gwelir bod hyn hefyd yn rhoi mwy o foddhad i aelodau'r tîm sy'n helpu ac yn rhoi cyngor mewn gwirionedd ar opsiynau tai i bobl, yn hytrach na chymryd a dargyfeirio galwadau i adrannau mwy addas.

- 2.11 Nododd nifer o awdurdodau nad yw canran sylweddol o gysylltiadau rhwng y swyddogion gwasanaethau cyhoeddus ac opsiynau tai yn ymwneud â gofyn am gymorth penodol mewn perthynas â digartrefedd, ond yn hytrach i gael cyngor ar faterion tai ehangach. Er enghraifft, ar adeg ein gwaith maes roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Swyddogion Atebion Tai cyffredinol a oedd yn darparu gwasanaethau ar gyfer ystod eang o faterion gan gynnwys digartrefedd a materion eraill. Mae'r gwasanaeth opsiynau tai yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd, neu sydd eisoes yn ddigartref, ddod i swyddfeydd eu hunain a chael eu cyfweld, oni bai na allant fynd i'r ganolfan ddinesig. Er bod swyddogion yn cydnabod bod y dull hwn yn galluogi'r awdurdod i nodi a chanolbwyntio ar anghenion pobl ddigartref, canfu eu dadansoddiad cychwynnol a'u gwerthusiad o waith achos mai dim ond 19% o'r cysylltiadau oedd yn geisiadau am wasanaethau digartrefedd ac roedd yr 81% arall yn ymwneud â materion tai eraill. Felly, gall trefnu staff a gwasanaethau mewn ffordd wael greu mwy o alw ychwanegol a diangen yn aml.


Ceir cyfleoedd i leihau'r galw o ran digartrefedd drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor effeithiol, ond nid yw'r awdurdodau yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol mewn meysydd allweddol

- 2.12 Yn ogystal â sicrhau bod cyngor ar gael drwy amrywiaeth o sianelau priodol, mae angen i awdurdodau hefyd sicrhau bod y cyngor a ddarparant yn diwallu anghenion y rhai sy'n gofyn am help er mwyn osgoi creu 'galw sy'n deillio o fethiant'¹¹. Mae osgoi 'galw sy'n deillio o fethiant' yn well i'r defnyddiwr gwasanaeth ac yn fwy cost-effeithiol i awdurdod gan ei fod yn cwtogi ar gostau drwy leihau'r cyswllt y gellir ei osgoi rhwng yr awdurdod a'i ddefnyddwyr drwy ddatrys problemau mor gyflym ac effeithlon â phosibl. Er mwyn cyflawni hyn mae angen i awdurdodau ddatrys problemau dinasyddion ar y pwynt cyswllt cyntaf drwy roi gwybodaeth a chyngor sy'n berthnasol, yn amserol, yn gynhwysfawr ac yn glir.
- 2.13 Yn aml, mae awdurdodau sy'n perfformio'n waeth yn creu galw ychwanegol drwy fethu â gwneud rhywbeth neu fethu â gwneud rhywbeth yn iawn i'r defnyddiwr gwasanaeth ar y pwynt cyswllt cychwynnol. Mae **Arddangosyn 4** isod yn crynhoi canfyddiadau ein harolwg i ddinasyddion ac yn dangos bod perfformiad amrywiol ledled Cymru, ac yn dangos nad yw awdurdodau bob amser yn effeithiol o ran y ffordd maent yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

11 [Vanguard Method](#).

Arddangosyn 4 – Pa mor dda mae awdurdodau lleol yn ymateb i geisiadau am gymorth

Mae perfformiad amrywiol mewn perthynas â pha mor dda mae awdurdodau yn ymateb i gais am gymorth gan bobl ddigartref a defnyddwyr gwasanaethau awdurdod lleol eraill ac o ganlyniad yn gallu osgoi galw sy'n deillio o fethiant



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Dinasyddion, Mawrth 2017.

2.14 Mae ymgysylltu'n effeithiol ac yn gynnar â phobl ddigartref yn hanfodol er mwyn i awdurdodau atal digartrefedd yn llwyddiannus. Canfu ein harolwg nad oes unrhyw wahaniaeth amlwg rhwng barn a phrofiadau pobl ddigartref o gymharu â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae dinasyddion sydd wedi defnyddio gwasanaethau digartrefedd yn gadarnhaol ar y cyfan bod awdurdodau'n ymateb yn gyflym i geisiadau am help, gan roi cyngor a gwybodaeth ddefnyddiol. Os oedd pobl yn gwneud cais am wasanaeth digartrefedd roedd y mwyafrif yn nodi bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau'n gyflym. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau'n dda bob amser am gyfeirio pobl ddigartref at fannau eraill lle y gallant gael atebion i broblemau, neu i sefydliad arall. Yn yr un modd, nid yw awdurdodau bob amser yn nodi'n glir beth mae gan bobl ddigartref yr hawl iddo a beth y gallant ddisgwyl ei gael, sy'n creu ansicrwydd ac amwysedd iddynt. Nododd chwarter o'r ymatebwyr i'r arolwg hefyd fod eu hawdurdodau yn wael am ddweud wrthynt beth yw'r pethau na allant eu helpu i'w gwneud.

2.15 Yn aml, mae lleihau'r galw diangen ar wasanaethau digartrefedd yn cael ei rwystro gan safonau gwasanaeth gwael neu aneglur¹². Yn aml, ni chaiff safonau gwasanaeth eu cyhoeddi, ac nid yw'n glir bob amser beth y gall pobl ddigartref ei ddisgwyl nawr ac yn y dyfodol. Mae rhai gwasanaethau cyhoeddus yn darparu safonau gwasanaeth clir. Er bod gan lawer o awdurdodau ryw fath o safon gofal cwsmeriaid gorfforaethol, er enghraifft Polisi Gwasanaeth Cwsmeriaid Cyngor Sir y Fflint¹³, nid yw'r rhain yn aml yn cynnwys mesurau llwyddiant clir, ac nid ydynt yn nodi'r hyn nad yw awdurdodau'n ei wneud na disgwyliadau ymgeiswyr digartref a defnyddwyr ehangach gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen i safonau gwasanaeth da:

- a cael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch syml a ddeallir yn hawdd gan ddefnyddwyr, gan gynnwys y rhai a all fod yn bryderus neu'n ansicr am eu dyfodol;
- b bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys;
- c bod yn glir am rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym;
- ch cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au);
- d bod yn gysylltiedig â dull porthgadw da a phroses asesu unigol;
- dd cynnig gwasanaethau atal amgen hyfyw; a
- e bod yn seiliedig ar degwch a chydarddoldeb i bawb gyda phrosesau apeladau a chwynion yn cael eu nodi'n glir a'u hyrwyddo'n eang.

2.16 Mae awdurdodau sy'n perfformio'n well yn trefnu gwasanaethau digartrefedd mewn ffyrdd sy'n helpu pobl i ddatrys eu problem y tro cyntaf y byddant yn cysylltu. Gall integreiddio canolfannau cyswllt cwsmeriaid helpu i reoli'r galw drwy leihau nifer y ceisiadau unigol am wasanaeth gan bobl ddigartref a'u cyfeirio at becyn llawnach o gymorth a gwybodaeth. Mae Gorsaf Gwybodaeth Cyngor Dinas Casnewydd, ar safle hen orsaf reilffordd Casnewydd, yn cynnig gwasanaethau gan Gyngor Dinas Casnewydd a sefydliadau partner a gwasanaethau fel cyngor i ddinasyddion, twristiaeth, cyflogaeth, diogelwch cymunedol a gwasanaethau digartrefedd yr awdurdod yn ogystal ag ystod gynyddol o wasanaethau eraill yr awdurdod megis tai, gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio.

¹² Mae safonau gwasanaeth yn diffinio'r gwasanaeth a ddarperir gan gorff cyhoeddus. Maent yn hysbysu cwsmeriaid o'r gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w cael; yn darparu sail ar gyfer darparu gwasanaethau; yn caniatáu i berfformiad sefydliad gael ei fesur yn well; ac yn sail i'r systemau gwybodaeth reoli mewnol.

¹³ [Polisi Gwasanaeth Cwsmeriaid](#)

2.17 Tynnodd sefydliadau partner y gwnaethom ymweld â nhw, megis Shelter Cymru, sylw at y ffaith nad yw awdurdodau, yn eu profiad nhw, wedi datblygu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cynhwysfawr na hygyrch eto sy'n diwallu anghenion pobl ddigartref yn gyson. Oherwydd cymhlethdodau digartrefedd, mae partneriaid yn y sector gwirfoddol yn teimlo nad yw awdurdodau'n manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gydweithio ag asiantaethau arbenigol i nodi a mynd i'r afael ag anghenion pobl â phroblemau heriol – y rhai sy'n gadael carchar a phobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau er enghraifft – ac nid yw'r cyngor yn aml yn llwyddo i roi ateb amserol nac effeithiol.

Mae digideiddio yn cynnig cyfleoedd i awdurdodau wella'r ffordd y mae pobl ddigartref yn cael gafael ar wasanaethau a chyngor ond mae'r dulliau cyfredol yn amrywio gormod i ddiwallu eu hanghenion

2.18 Mae ffonau deallus¹⁴ yn ffordd amhrisiadwy o gysylltu â phobl sy'n unig, a grymuso unigolion digartref i gael gafael ar wasanaethau pwysig sy'n aml yn newid bywyd ac yn meithrin hunanddigionedd. Mae rhai pobl ddigartref yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i greu rhwydweithiau cymorth a datrys problemau ymarferol, er enghraifft, ble i gael help a chymorth. Mae ffonau symudol, ac yn enwedig ffonau deallus, yn cynnig cyswllt gwerthfawr â chyfleoedd i bobl ddigartref. Dywedodd sefydliadau digartrefedd wrthym fod angen cymorth ar rai pobl ddigartref yn aml i gael gafael ar wybodaeth ar wefannau awdurdod lleol, ac mae awdurdodau'n dechrau'n mynd i'r afael â'r ffordd y mae pobl yn cael gafael ar wybodaeth. Fodd bynnag, roedd pob sefydliad yn cydnabod bod cael gafael ar wybodaeth ar-lein o ansawdd da yn hollbwysig ac mae'r defnydd o ffonau symudol i gael gafael ar y data hyn yn cynyddu.

¹⁴ Mae ffôn deallus yn gyfrifiadur personol symudol gyda system weithredu symudol â nodweddion defnyddiol ar gyfer ei ddefnyddio'n symudol neu â llaw. Caiff y profiad symudol ar gyfer 'Better Connected' ei brofi o ffôn deallus a chaiff ei integreiddio'n llawn yn yr asesiad cyffredinol.

Defnydd gwell o dechnoleg er mwyn helpu i atal digartrefedd

Gall technoleg well helpu i reoli ac atal heriau pellach i bobl ddigartref. Mae gwasanaethau newydd yn cynnwys ciosgau sgrin gyffwrdd, terfynellau gwefru ffôn, signal Wi-Fi gwell a mynediad am ddim i ddefnyddio terfynellau cyfrifiadurol¹⁵. Mae prosiectau megis y Virtual Backpack – sef bwndel electronig o ddogfennau personol pwysig – yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Gyngor Dinas San Steffan a gynhaliodd ddiwrnod o'r enw Homeless Hack Day i fanteisio ar y Wi-Fi am ddim a ddarparwyd ar gyfer y rhai a wnaeth ymweld â'r Gemau Olympaidd yn 2012. Mae'r wefan [Homeless Link](#) yn rhestru gwybodaeth am 9,000 o wasanaethau megis hostelau, canolfannau dydd a gwasanaethau cyngor a chymorth ac fe'i cynigir gan awdurdodau lleol mewn ymateb i'r niferoedd cynyddol o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn Llundain. Mae Cyngor Sandwell yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn darparu system ar y rhyngwrdd i bobl ifanc ddigartref er mwyn iddynt gael gafael ar wasanaethau, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, a dod o hyd i swyddi.

- 2.19 Mae angen i awdurdodau felly sicrhau bod gwybodaeth ar-lein yn gywir, o ansawdd da ac yn gyfredol er mwyn helpu pobl ddigartref i fynd i'r afael â'u hanghenion. Awgryma ein hadolygiad fod cyfle ar hyn o bryd i awdurdodau wella'r ffordd maent yn trefnu ac yn darparu eu gwasanaethau ar-lein er mwyn sicrhau, nid yn unig bod pobl ddigartref, a'r rhai sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd, yn cael yr help sydd ei angen arnynt ond hefyd fel bod awdurdodau yn gwneud y defnydd gorau o'u hadnoddau.
- 2.20 Mae sgoriau Better Connected SOCITM¹⁶ yn rhoi gwerthusiad cyffredinol o brofiad defnyddiwr o lwyfannau digidol awdurdodau lleol ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys digartrefedd. Yn ôl canlyniadau Better Connected SOCITM ar gyfer 2016-17 **Atodiad 4** nid oedd unrhyw gyngor yng Nghymru wedi cael pedair seren (da iawn) am ei lwyfannau digidol. Sgoriodd 11 awdurdod lleol dair seren a sgoriodd 11 ddwy seren neu is. O gymharu â pherfformiad 2015-16, gwnaeth chwe awdurdod lleol wella eu sgôr, gwelodd dri ohonynt eu sgôr yn gwaethygu ac arhosodd sgôr 13 awdurdod lleol yr un peth. Yn gyffredinol, mae cyfle i lywodraeth leol yng Nghymru wella'r ffordd y mae'n defnyddio ei asedau ar y we i ymgysylltu â phobl a'u cefnogi.

¹⁵ The potential for empowering homeless people through digital technology, Lemos a Crane 2013.

¹⁶ Mae SOCITM, y gymdeithas ar gyfer ymarferwyr TG y sector cyhoeddus yn cynnal adolygiadau blynyddol o berfformiad digidol cynghorau, gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol a phyrth cwsmeriaid, yn ogystal â'r nifer sy'n eu defnyddio, eu boddhad a'r ffordd y cânt eu rheoli. Mae adolygwyr SOCITM yn cynnal rhai profion ar ffonau deallus, oherwydd gwneir bron hanner yr holl ymweliadau o ddyfeisiau symudol. Mae SOCITM yn cyhoeddi canlyniadau ei hadolygiadau fel data Better Connected.

- 2.21 Yn ôl sgoriau SOCITM mae 16 o awdurdodau sgôr wedi llwyddo yn yr¹⁷ asesiad safonol symudol, ac 16 yn yr asesiad hygyrchedd¹⁸. Dim ond un cyngor a wellodd ei sgôr ym maes hygyrchedd, a chadwodd pob un arall ei sgôr flaenorol. O gymharu â 2015-16, mae tri awdurdod lleol a oedd wedi llwyddo bellach wedi methu, ac mae tri a oedd wedi methu bellach wedi llwyddo. Mae awdurdodau lleol nad ydynt yn gwneud unrhyw ymdrech i optimeiddio eu safleoedd ar gyfer mynediad symudol yn rhoi profiad gwaeth i'r defnyddiwr gwasanaethau.
- 2.22 Gwnaethom asesu ansawdd, hygyrchedd ac ystod y wybodaeth gyfredol y mae awdurdodau yn ei darparu ar eu gwefannau ar gyfer eu gwasanaeth digartrefedd ac, er mwyn cymharu, ddau faes gwasanaeth arall – cludiant o'r cartref i'r ysgol, a gwastraff swmpus – er mwyn asesu safonau cyfredol y gwasanaeth ac ansawdd y wybodaeth a ddarperir. Mae ein hadolygiad yn barnu effeithiolrwydd gwefan awdurdod i ddarparu 'teithiau cwsmeriaid' cyflym a hawdd ac i ddatrys ceisiadau gwasanaeth pobl ddigartref yn llwyddiannus yn erbyn graddfa pum pwynt, yn amrywio o wael iawn i dda iawn er mwyn sgorio'r wybodaeth ar sail 13 agwedd. Mae **Atodiad 5** yn nodi ein canfyddiadau manwl a'r llinellau ymholi allweddol ar gyfer ein hasesiad.
- 2.23 Ar y cyfan mae awdurdodau'n rhoi gwybodaeth gyfredol sydd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd y mae'n hawdd dod o hyd iddi. Mae'r awdurdodau sy'n perfformio orau wedi datblygu prosesau gwneud cais ar-lein, er bod hyn yn fwy cyffredin ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol a gwastraff swmpus na gwasanaethau digartrefedd. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau'n darparu cyngor a gwybodaeth gynhwysfawr ac eang sy'n ddigon i alluogi dinasyddion i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ystyriol ar yr hyn y dylent ei wneud i ddatrys eu problem. Roedd yn anoddach dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud â digartrefedd ac nid oedd yn cyfeirio pobl bob tro at y llefydd lle y gallent gael help i fynd i'r afael â'r problemau, o gymharu â dau wasanaeth arall a adolygwyd gennym. Mae'r gwendidau hyn yn nodi pwynt cychwyn llai na chadarnhaol i bobl ddigartref, ac nid yw'n cynnig y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau hyddysg i ymdrin â'u cyfyng-gyngor. Gall ansawdd gwael gwasanaethau digidol cyfredol hefyd egluro'r nifer isel o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n eu defnyddio.

17 Pennir y safon symudol gan y sgôr boddhad gyfartalog ar gyfer pob un o'r pum cwestiwn a ddefnyddir gan SOCITM i ddod o hyd i wybodaeth gyffredin o ddyfais symudol ynghyd â pha mor hawdd ydyw i'w defnyddio. Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau sy'n perfformio'n well yn cael unrhyw wallau pan fydd pobl yn pori ar safle'r awdurdod a nodir bod y profiad symudol cyffredinol yn foddhaol neu'n dda iawn.

18 Rhaid i wefannau fod mor hygyrch â phosibl i bob defnyddiwr, gan gynnwys pobl ag anableddau. Gall gwefannau sydd wedi'u cynllunio a'u gweithredu'n wael ei gwneud hi'n anodd neu'n amhosibl i bobl anabl ddefnyddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol, er enghraifft, darllenwyr sgrin llais i destun. Mae SOCITM yn sgorio hygyrchedd gwefan awdurdod lleol yn erbyn 14 o arferion gorau dylunio a chodio.

2.24 O'n gwaith maes, rydym wedi dod i'r casgliad, er bod awdurdodau'n cydnabod bod angen iddynt gynllunio gwasanaethau i ymgysylltu â phobl ddigartref yn effeithiol ac yn effeithlon, mae safonau cyfredol gwasanaethau yn rhy amrywiol i sicrhau bod pobl ddigartref yn cael mynediad i'r cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Gyda'i gilydd, mae dadansoddiad SOCITM a chanfyddiadau ein hadolygiad yn nodi y gallai awdurdodau wneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw. Er mwyn i hyn weithio, bydd angen i awdurdodau ystyried pryd a ble y gall y newid hwn ddigwydd a sicrhau eu bod yn ymgysylltu â phobl ddigartref a rhanddeiliaid eraill i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau posibl y dulliau gweithredu hyn.

Mae pobl ddigartref yn glir eu bod am i'w hawdurdod lleol ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer ond mae eu profiad yn awgrymu bod gwasanaethau yn mynd yn llai hygyrch

2.25 Mae gan bobl ddigartref a defnyddwyr gwasanaethau awdurdodau lleol eraill ddisgwyliadau uchel o'r hyn y dylai awdurdodau ei wneud iddynt hwy a sut y dylent ddarparu gwasanaethau iddynt. Er bod llawer o bobl yn cydnabod bod llywodraeth leol yn gorfod newid y ffordd maent yn darparu gwasanaethau i adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael, mae pobl ddigartref a phobl eraill sy'n defnyddio gwasanaethau awdurdodau lleol yn dal i gredu y dylai eu hawdurdod lleol barhau i ddarparu rhwyd diogelwch pan fydd angen help arnynt. Mae canfyddiadau ein harolwg yn ategu hyn ac yn cynnwys rhai negeseuon clir yn nodi sut y gallai llywodraeth leol ddarparu gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau eraill yn y dyfodol – **Arddangosyn 5.**

Arddangosyn 5 – Materion allweddol o ran sut y dylai awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol

Mae pobl ddigartref a defnyddwyr gwasanaethau awdurdodau lleol eraill yn glir ynghylch sut y maent am i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau awdurdodau lleol eraill iddynt yn y dyfodol.


Gan feddwl am y gwasanaethau y mae angen i'ch cyngor eu darparu yn y dyfodol, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylent ganolbwyntio ar y canlynol...	Cytuno'n gryf/ cytuno	Anghytuno'n gryf/ anghytuno	Ddim yn gwybod
Canolbwyntio ar roi cyngor a gwybodaeth ond gan fy nghyfeirio at eraill sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys fy mhroblem	83%	9%	8%
Canolbwyntio ar roi cyngor a gwybodaeth i ddatrys problemau pobl	81%	12%	7%
Cyfeirio pobl at sefydliadau eraill sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys problemau pobl	81%	10%	9%
Darparu mwy o wasanaethau yn y gymuned ac yng nghartrefi pobl	79%	12%	9%
Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw broblem sydd gan bobl yn eu hardal	78%	18%	4%
Rhannu swyddfeydd â chyrrff cyhoeddus eraill	69%	15%	17%
Darparu mwy o wasanaethau ar-lein	63%	26%	12%
Paratoi pobl i ddod o hyd i'w hateb eu hunain i'r problemau sydd ganddynt	60%	31%	10%
Blaenoriaethu'r hyn a ddarperir a chwtoegi ar wasanaethau mewn meysydd gweithgarwch eraill	51%	30%	19%
Cwtogi ar wasanaethau a ddarperir o swyddfeydd nad ydynt o fewn prif neuadd y dref/lleoliad neuadd y sir a'u darparu mewn swyddfeydd lleol	42%	40%	18%
Cynyddu taliadau'r dreth gyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian i barhau i ddarparu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes	29%	64%	7%

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Dinasyddion, Mawrth 2017.

- 2.26 Ar nodyn cadarnhaol, mae'r mwyafrif o ddinasyddion yn parhau i gredu mai'r llywodraeth leol yw eu pwynt cyswllt cyntaf pan fydd angen help arnynt i ddatrys eu problemau digartrefedd. Er bod dinasyddion yn cydnabod bod angen i awdurdodau eu paratoi i ddod yn fwy gwydn, roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg (78%) am i'w hawdurdod lleol barhau i weithredu fel rhwyd diogelwch er mwyn darparu help a chymorth os na allant fynd i'r afael â'u problem digartrefedd neu broblemau eraill eu hunain. Mae pobl am i'w hawdurdod lleol sicrhau bod y cyngor a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gael, naill ai'n uniongyrchol gan awdurdodau neu'n anuniongyrchol gan bartneriaid sy'n gweithio i'r llywodraeth leol.
- 2.27 Gwelsom hefyd fod dinasyddion yn ymwybodol o'r angen i awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau a chefnogi'r gwaith o symud gwasanaethau ar-lein, rhannu swyddfeydd â phartneriaid a darparu mwy o wasanaethau yn y gymuned ac i gartrefi pobl. Roedd ychydig dros hanner y rhai a ymatebodd i'n harolwg hefyd yn cydnabod bod angen i'r llywodraeth leol flaenoriaethu'r modd y mae'n gwario ei harian. Er bod llai na thraean o bobl o blaid cynyddu taliadau treth gyngor er mwyn parhau i dalu am y gwasanaethau, mae cydnabyddiaeth gynyddol y gall fod angen cynyddu taliadau am wasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod ar gael.
- 2.28 Gwelsom drwy ein gwaith maes fod ymatebion awdurdodau lleol, ar ôl i Ddeddf 2014 ddod i rym, yn canolbwyntio'n rhy aml ar eu heriau uniongyrchol ac nad yw awdurdodau bob amser yn llunio barn sy'n ddigon strategol ac ataliol ar y ffordd orau o ddiwallu angen yn y tymor canolig i'r tymor hir. Er nad yw traean o'r dinasyddion a ymatebodd i'n harolwg (**Arddangosyn 6** isod) wedi gweld unrhyw newid amlwg yn y gwasanaethau a gânt gan lywodraeth leol, nododd y mwyafrif, yn eu profiad nhw, fod pob gwasanaeth gan awdurdod, gan gynnwys digartrefedd, yn mynd yn llai gweledol a hygyrch ac nad ydynt ar gael mor hawdd. Mae dewisiadau o'r fath, a wneir yn aml am resymau ariannol dilys iawn, yn cyfyngu ar y potensial i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn gyflym er mwyn atal digartrefedd rhag digwydd.

Arddangosyn 6 – Gan feddwl am y gwasanaethau a ddarperir gan eich cyngor, yn eich profiad chi, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ar y canlynol...

Mae newidiadau a wneir i wasanaethau digartrefedd a gwasanaethau eraill llywodraeth leol yn effeithio ar y ffordd y mae pobl ddigartref ac eraill yn cael gafael ar wasanaethau awdurdod ac yn eu defnyddio.




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Dinasyddion, Mawrth 2017.

2.29 Nid oes digon o awdurdodau lleol yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau digartrefedd yn eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ac felly gall disgwyliadau'r awdurdod o'r hyn sy'n bosibl gael eu gosod yn afrealistig o uchel. Mae'r gwaith ymgynghori yn tueddu i fod yn dameidiog ac yn ddarn gosod 'untro' yn hytrach na sgwrs ystyriol, tra integredig gyda thrigolion, partneriaid a llunwyr barn. Mae rhai awdurdodau lleol yn dadansoddi canfyddiadau ac yn nodi beth sy'n newid o ganlyniad i hynny, ond nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau yn gwneud hynny. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn ymgynghori'n rheolaidd â phobl leol ar ystod eang o bolisïau, cynlluniau a chynigion sy'n effeithio ar y gymuned leol. Mae adran Holi Caerdydd ar wefan yr awdurdod yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau arolygon a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd dan arweiniad y Cyngor.

Rhan 3

Mae pobl ddigartref neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael atebion gwahanol iawn, yn dibynnu ar ble y maent yn gofyn am help yng Nghymru



- 3.1 Mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod atal digartrefedd yn ganlyniad gwell i bobl ddigartref. I lawer o awdurdodau lleol mae atal digartrefedd yn ddeniadol oherwydd ei gyfraniadau posibl at arbedion ariannol, a hefyd am ei fod yn lleddfu'r pwysau ar adnoddau tai presennol. Fodd bynnag, nid yw dull sy'n canolbwyntio ar atal, yn opsiwn hawdd i awdurdod lleol. Mae gwaith atal effeithiol yn galw am ddull mwy rhagweithiol, ac yn galw am fwy o hyblygrwydd ac ymdrech er mwyn sicrhau canlyniadau. Mae angen i awdurdodau sicrhau bod ystod o opsiynau ar gael, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â phartneriaid, er mwyn cael yr effaith fuddiol fwyaf effeithiol a hirdymor ar gyfer person digartref neu berson a allai fod yn ddigartref.
- 3.2 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried yr ystod o opsiynau a ddefnyddir gan awdurdodau i fynd i'r afael â'r galw o ran digartrefedd. Gwnaethom adolygu trefniadau partneriaeth cyfredol, yn enwedig y ddyletswydd ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gydweithio i atal digartrefedd. Daw'r rhan hon o'r adroddiad i ben gyda dadansoddiad o effeithiolrwydd perfformiad awdurdod lleol wrth atal digartrefedd.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi datblygu ystod o ddewisiadau i fynd i'r afael â digartrefedd ond erys cyfleoedd i ehangu opsiynau

- 3.3 Er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ystod o opsiynau ar gael iddynt er mwyn atal rhywun rhag colli ei gartref ac i ddod o hyd i llety lle mae gan yr awdurdod ddyletswydd i ddarparu llety sefydlog. Mae ystod eang o atebion effeithiol, a ddarperir naill ai'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, yn hanfodol.
- 3.4 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2014 yn rhoi opsiynau i awdurdodau ddefnyddio'r sector rhentu preifat i helpu ymgeiswyr ac i ddod â'u dyletswyddau digartrefedd i ben os bydd y llety a ddarperir yn addas ac ar gael am o leiaf chwe mis. Mae hwn yn newid pwysig i'r ddeddfwriaeth flaenorol sy'n rheoli digartrefedd yng Nghymru. Yn y gorffennol roedd dyletswydd awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt sicrhau llety sefydlog, gan ddefnyddio tai cymdeithasol yn bennaf. Felly, mae Deddf 2014 yn golygu ei bod yn bosibl i awdurdodau fanteisio ar ystod ehangach o eiddo i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd, yn enwedig y sector rhentu preifat.

- 3.5 Mae angen i'r gwaith gyda landlordiaid preifat gael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau y gall pobl ddigartref gael gafael ar gartrefi rhent preifat. Er mwyn cyflawni hyn, mae nifer o awdurdodau wedi penodi staff i ddatblygu eu gwaith gyda landlordiaid er mwyn gwella mynediad at eiddo. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oll wedi cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â landlordiaid preifat ac wedi buddsoddi adnoddau mewn datblygu a rheoli'r cydberthnasau hyn. Mae awdurdodau hefyd yn creu cronfeydd ariannol i gefnogi eu gwaith gyda landlordiaid preifat gan ddarparu rhent ymlaen llaw, bondiau neu warantau rhent fel ffordd o annog cydweithio i sicrhau llety i bobl ddigartref.
- 3.6 Er bod Deddf 2014 yn caniatáu mwy o ddefnydd o'r sector rhentu preifat, noda awdurdodau nad yw sicrhau cartrefi gan landlordiaid preifat bob amser yn hawdd. Nododd rhai o'r swyddogion a holwyd gennym bod cyflwyno dull trwyddedu gorfodol o gartrefi rhent preifat o dan gynllun Rhentu Doeth¹⁹ wedi arwain at rai landlordiaid yn dewis peidio â pharhau i rentu cartrefi am fod y gyfundrefn drwyddedu yn cael ei hystyried yn rhy feichus. Er enghraifft, rhaid i landlordiaid neu eu hasiantiaid ymgymryd â hyfforddiant cymeradwy er mwyn cael trwydded. Rhoddir trwyddedau ar yr amod y dilynir y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014.
- 3.7 Gwelsom fod yr ystod o opsiynau a ddefnyddir gan awdurdodau wedi cynyddu'n gyffredinol ers i Ddeddf 2014 gael ei chyflwyno. Er enghraifft, mae pob un o'r 22 o awdurdodau yn defnyddio grantiau neu fenthyciadau i dalu cynlluniau blaendal rhent ar gyfer llety yn y sector rhentu preifat, sy'n helpu pobl ddigartref i ddatrys eu cyfyng-gyngor o ran tai. Mewn 18 o'r 22 o awdurdodau mae'r ddarpariaeth o ran grantiau wedi cynyddu ers mis Ebrill 2015. Yn yr un modd, mae pob awdurdod yn darparu cymorth i bobl ddigartref er mwyn helpu i reoli dyledion neu ôl-ddyledion rhent/morgais ac mae 15 wedi gweld cynnydd yn y ddarpariaeth hon o dan Ddeddf 2014. Yn yr un modd, mae pob un o'r 22 o awdurdodau yn gallu defnyddio gwasanaethau cyfryngu²⁰ ac mewn deg awdurdod mae'r ddarpariaeth wedi cynyddu yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

19 Mae Rhentu Doeth Cymru yn prosesu cofrestrïadau landlordiaid ac yn rhoi trwyddedau i landlordiaid ac asiantiaid y mae angen iddynt gydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014. Caiff Rhentu Doeth Cymru ei gynnal gan Gyngor Caerdydd sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth mewn partneriaeth â'r 21 o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

20 Mae cyfryngu yn broses ar gyfer datrys anghydfodau lle mae trydydd parti diduedd (y cyfryngwr) yn helpu pobl mewn anghydfod i ddod o hyd i ddatrysïad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

- 3.8 Er bod y cymorth amrywiol a ddarperir gan wasanaeth digartrefedd awdurdod lleol yn cynyddu, gwelsom nad yw rhai awdurdodau wedi datblygu cyfres gynhwysfawr eto o atebion i fynd i'r afael â digartrefedd. Er enghraifft, nid yw wyth awdurdod yn defnyddio cynlluniau gwarantu taliad. Serch hynny, ers Deddf 2014 mae opsiynau i atal a mynd i'r afael â digartrefedd yn cynyddu ac mae awdurdodau yn canolbwyntio ar ddarparu ystod eang o opsiynau i fynd i'r afael â digartrefedd. Nodir ein dadansoddiad manwl yn [Atodiad 6](#).
- 3.9 Er gwaethaf y darlun cadarnhaol hwn, mae awdurdodau yn wynebu rhai heriau. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau yn nodi bod eu gwaith ataliol yn fwy effeithiol yn dilyn cyflwyno Deddf 2014, mae llawer yn nodi bod llwyddiant wrth atal digartrefedd ond wedi bod yn bosibl oherwydd y grant a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae 15 o'r 22 o awdurdodau hefyd yn nodi nad yw gwasanaethau allweddol sy'n ofynnol er mwyn atal pobl rhag mynd yn ddigartref yn eu hardal ar gael ar hyn o bryd neu nad ydynt ar gael i'r lefelau sydd eu hangen i ateb y galw. Yn arbennig, tai arbenigol ar gyfer grwpiau penodol y mae'n anodd dod o hyd i gartref addas iddynt, megis pobl sy'n camddefnyddio sylweddau, rhai sy'n cysgu ar y stryd a phobl sengl ifanc; llety rhent preifat fforddiadwy; a gwasanaethau cefnogi pobl²¹.
- 3.10 Yn ôl pob awdurdod, un gwasanaeth pwysig sy'n hanfodol er mwyn atal pobl rhag mynd yn ddigartref yw gwasanaethau Cefnogi Pobl. Ceir rhagor o wybodaeth am sut y dadansoddir cyfanswm cyllideb Cefnogi Pobl, sef £124 miliwn y flwyddyn, a sut y caiff ei gwario ar draws y categorïau gwahanol o gymorth yn adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol ar Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru²². Yn gryno, er bod gwariant o fewn y Rhaglen Cefnogi Pobl, yn benodol ar wasanaethau cymorth fel y bo'r angen cyffredinol ar gyfer atal digartrefedd, wedi gostwng 25% o £21.3 miliwn i £15.9 miliwn rhwng 2013-14 a 2016-17, mae nifer yr unedau o gymorth wedi codi o 4,498 i 4,933 yn ystod y cyfnod hwn. Mae patrwm gwasanaethau cefnogi pobl i bobl ddigartref yn newid. Noda awdurdodau gwaith maes fod eu defnydd o wasanaethau cymorth fel y bo'r angen cyffredinol ar gyfer atal digartrefedd yn eu galluogi i atal digartrefedd rhag digwydd neu ailddigwydd mewn ffordd ragweithiol.

21 Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â thai er mwyn helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £124.4 miliwn bob blwyddyn gan helpu mwy na 57,000 o bobl i fyw mor annibynnol ag y gallant. Mae Cefnogi Pobl yn ariannu gwasanaethau cefnogi sy'n gysylltiedig â thai y gall landlord (megis cymdeithas dai) neu ddarparwr arall, megis sefydliad gwirfoddol, eu darparu. Mae cefnogi yn golygu rhoi cyngor a help i'w gwneud yn haws i bobl sy'n agored i niwed gynnal eu hannibyniaeth. Gall pobl gael eu cefnogi mewn hostel neu dai gwarchod neu mewn math arall o ddarpariaeth byw â chymorth neu yn eu cartref eu hunain drwy 'wasanaethau cymorth fel y bo'r angen'.

22 [Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru](#)

- 3.11 Gwelsom fod rhai awdurdodau yn defnyddio eu cronfeydd Cefnogi Pobl mewn ffordd greadigol. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn defnyddio arian Cefnogi Pobl i gyflogi swyddogion atal digartrefedd yn uniongyrchol i gyflawni gwaith atal, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn defnyddio hyn i wella mynediad at eiddo yn y sector rhentu preifat a gweithio gyda landlordiaid yn y sector preifat.
- 3.12 Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau wedi cysoni eu gwasanaeth Cefnogi Pobl yn llwyddiannus ag atal digartrefedd. Yn aml, mae cydweithio rhwng timau digartrefedd awdurdod lleol a Cefnogi Pobl yn dibynnu ar drefniadau rheoli awdurdod yn fewnol. Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl a leolir mewn adrannau Gofal Cymdeithasol yn aml yn canolbwyntio ar flaenoriaethau gofal cymdeithasol, a gall gwasanaethau digartrefedd a thai gael eu hesgeuluso. Mae awdurdodau a ymwelwyd gennym, sy'n gwneud y defnydd gorau o arian Cefnogi Pobl i atal digartrefedd, wedi'u hintegreiddio'n well ar y cyfan â thimau tai ac yn dda am ymgorffori data ar ddigartrefedd i lywio eu penderfyniadau comisiynu ar gyfer cefnogi pobl. Yn gyffredinol, gwelsom fod cynllunio integredig o'r fath yn arwain at fynediad gwell at wasanaethau cymorth i bobl ddigartref.

Gwelir bod cydweithredu yn hollbwysig i atal digartrefedd ond nid yw'r cyfraniad gofynnol gan bartneriaid bob amser yn cael ei ddarparu

- 3.13 Er mwyn cydnabod yr angen i geisio atebion cyfannol i ddiwallu anghenion pobl ddigartref yn well, gwnaeth Llywodraeth Cymru atgyfnerthu dyletswyddau cydweithredu a phartneriaeth yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae Adran 95 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithredu rhwng gwasanaethau tai (digartrefedd) a gwasanaethau cymdeithasol. Mae Adran 95 hefyd yn rhoi dyletswydd i gydweithredu â chyrff a enwir, yn enwedig cymdeithasau tai. Rhaid i Wasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol a phartneriaid cymdeithasau tai gydymffurfio oni fydd y cam a argymhellir yn anghydnaws â'u dyletswyddau, neu'n cael effaith andwyol ar eu swyddogaethau. O dan yr amgylchiadau hyn rhaid rhoi rheswm ysgrifenedig yn egluro pam nad yw Gwasanaethau Cymdeithasol neu gymdeithas dai yn bwriadu cydymffurfio â'u dyletswydd o dan Ddeddf 2014.

- 3.14 O gofio'r trefniadau newydd hyn, mae rôl partneriaid yn rhan annatod o lwyddiant awdurdod lleol wrth atal digartrefedd. Cydnabyddir hyn gan wasanaethau digartrefedd ledled Cymru ac mae 20 o blith 22 o ymatebion awdurdodau i arolwg Llywodraeth Cymru yn nodi bod Deddf 2014 yn arwain at gydweithredu gwell rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol, yn enwedig o ran gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. Er bod nifer fach o awdurdodau yn tynnu sylw at ddatblygiadau cadarnhaol o ran, er enghraifft, swyddogion iechyd yr amgylchedd a thimau ystadau yn gweithio gyda'i gilydd, nid yw'r cydweithio â'r ystod ehangach o wasanaethau yn y sector cyhoeddus wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Yn enwedig, problemau parhaus o ran dull cydlynu gwael mewn perthynas â threfniadau rhyddhau pobl, ac amserlenni annigonol i reoli anghenion cleientiaid yn effeithiol, sydd yn aml yn cael eu rhyddhau o sefydliadau heb unrhyw rag-gynllunio nac ymgysylltu â gwasanaethau digartrefedd. Yn yr un modd, nododd nifer o awdurdodau heriau o ran gweithrediad Llwybr i'r Rheini sy'n Gadael y Carchar²³, gan gynnwys hysbysu'n hwyr am achos o ryddhau a diffyg cynllunio cynnar rhwng y sefydliadau perthnasol.
- 3.15 Mae integreiddio prosesau hefyd yn ffordd effeithiol o newid systemau o neilltuo a chyfyngu ar adnoddau i ddod o hyd i'r ateb gorau yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae cynnwys yr holl anghenion/problemau posibl unwaith, a rhannu gwybodaeth â'r holl gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus, yn gwella effeithlonrwydd ac yn annog ymatebion rheoli cyfannol, er enghraifft drwy leihau'r angen i ofyn yn barhaus am wybodaeth bersonol gan ymgeiswyr, ac addasu meddalwedd gyfrifiadurol a all olrhain defnyddwyr o'r pwynt mynediad i'r system i'r canlyniad llwyddiannus.

²³ Mae Llwybr i'r Rheini sy'n Gadael y Carchar yn fenter gan Lywodraeth Cymru i bobl sy'n wynebu'r posibilrwydd o fod yn ddigartref pan fyddant yn gadael y carchar, i'w galluogi i gael cymorth gwell i wella eu cyfle o gael cartref sefydlog, yn hytrach nag aros mewn llety gwely a brechwast.

Partneriaeth Active Inclusion Newcastle Cyngor Dinas Newcastle i fynd i'r afael â digartrefedd

Mae Partneriaeth Active Inclusion Newcastle (AIN) Cyngor Dinas Newcastle yn integreiddio gwasanaethau mewn ymateb i'r twf yn y galw am gymorth a chyngor ar atal digartrefedd. Mae'n helpu trigolion i fynd drwy'r cyfnod pontio sydd ei angen pan fydd yn wynebu toriadau mewn budd-daliadau. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r cyngor yn amcangyfrif y bydd trigolion Newcastle yn colli £134 miliwn bob blwyddyn erbyn 2021-22. Y flaenoriaeth uchaf yw alinio prosesau cyllidebol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed er mwyn atal argyfwng. Mae hyn yn cynnwys integreiddio rhaglenni hyfforddi staff partneriaid a buddsoddi mewn ymchwil i ddatblygu dealltwriaeth fwy cyfoethog o'r cydbwysedd o achosion unigol, systemig a strwythurol allgáu. Yn 2016 hyfforddodd AIN 959 o aelodau staff ar y ffordd orau o siarad â thrigolion am faterion digidol, ariannol, cyflogaeth a thai. O ganlyniad, nid oes unrhyw lety gwely a brecwast wedi ei ddefnyddio ers 2016, cafodd 3,775 o achosion o ddigartrefedd eu hatal yn 2015-16 a gwnaeth nifer yr achosion o droi allan leihau 76%. Yn ogystal, darparwyd bwyd, tanwydd, dillad neu gymorth i deithio brys i 931 o aelwydydd; a chynyddodd aelodaeth o'r Undeb Credyd Monewise i 8,276.

- 3.16 Gwelsom fod rhai awdurdodau drwy eu gwaith maes yn gwella'r broses gydweithio drwy, er enghraifft, gyd-leoli gwasanaethau â phartneriaid. Mae rhannu swyddfeydd yn galluogi partneriaid i nodi anghenion cymorth pobl yn gynt a gwneud atgyfeiriadau o ansawdd gwell ar gyfer cymorth. Dywedodd swyddogion wrthym fod cyd-leoli hefyd yn galluogi asiantaethau statudol a thrydydd sector i ddatblygu a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r modd y mae'r naill ochr a'r llall yn gweithio, a'i fod yn arwain at opsiynau mwy cyflawn i ddatrys sefyllfa digartrefedd pobl.
- 3.17 Fodd bynnag, mae nifer o awdurdodau hefyd yn codi pryderon nad yw cydweithio ag asiantaethau partner bob amser yn effeithiol a bod angen iddo wella, yn enwedig mewn perthynas â chymdeithasau tai. Dim ond wyth o'r 22 o awdurdodau a nododd welliant mewn cydweithio â chymdeithasau tai. Er nad oedd wyth awdurdod wedi gweld unrhyw newid amlwg mewn cydweithio ers cyflwyno Deddf 2014, noda chwech nad yw Deddf 2014, yn eu profiad nhw, yn arwain at gydweithredu mwy effeithiol â chymdeithasau tai.

- 3.18 Mae gan yr awdurdodau hynny sydd â threfniadau gweithio effeithiol sefydledig â phartneriaid cymdeithasau tai rai nodweddion yn gyffredin. Yn aml mae cofrestr tai cyffredin a pholisi dyraniadau cyffredin²⁴ ar waith a pholisïau gweithredol ar y cyd yn cwmpasu er enghraifft, ymgysylltu cyn tenantiaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tenantiaeth a hyfforddiant. Mae partneriaethau sy'n perfformio'n well hefyd yn ffurfioli eu cydberthnasau mewn cytundebau rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n nodi sut y byddant yn gweithredu i atal digartrefedd – er enghraifft, drwy osgoi neu geisio dod o hyd i ddewisiadau amgen yn lle troi pobl allan am ôl-ddyledion rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol – a manteisio i'r eithaf ar y llety a'r cymorth sydd ar gael i ddatrys digartrefedd.
- 3.19 Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r gydberthynas mewn ardaloedd awdurdod eraill wedi datblygu cystal hyd yma ac nad yw dyletswydd cymdeithasau tai i gydymffurfio wrth atal digartrefedd bob amser yn effeithiol. Yn arbennig, mae dewisiadau a wnaed gan rai cymdeithasau tai yn lleihau gallu rhai awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd. Er enghraifft, gall cymdeithasau tai eithrio rhai unigolion o gofrestri tai a/neu ddyraniad i gartref gwag naill ai am eu bod wedi cael eu hasesu fel rhai na allant fforddio'r rhent a byddai eu hailgartrefu ond yn arwain at fethiant, neu am eu bod yn cael eu hystyried yn bobl na allent reoli tenantiaeth.

24 Mae Cofrestri Tai Cyffredin hefyd yn bwynt mynediad unigol i bawb sy'n chwilio am dai cymdeithasol mewn ardal awdurdod lleol gan roi mwy o ddewis i ymgeiswyr a gwasanaeth mwy effeithlon drwy ddileu'r gofyniad iddynt wneud cais sawl gwaith i sefydliadau gwahanol. Mae Polisi Dyraniadau Cyffredin yn nodi sut mae landlordiaid yn blaenoriaethu pwy sy'n cael llety ac mae pob landlord yn dilyn yr un blaenoriaethau ar gyfer gosod cartref yn hytrach na gweithredu ei bolisi unigol ei hun. Mae hyn yn symleiddio'r broses ar gyfer gosod cartrefi ond hefyd yn gwella'r cyfle i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai (y mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol iddynt) gael llety.

- 3.20 Yn yr un modd, mae rhai awdurdodau'n codi pryder ynghylch lefelau rhent ac ystyrir bod rhenti rhai Cymdeithasau yn rhy uchel i gleientiaid digartref. Yn arbennig, ystyrir bod tai a ddatblygir heb grant tai cymdeithasol²⁵ ac a osodir ar rent canolradd neu rent y farchnad,²⁶ sy'n uwch na throthwyon budd-dal tai, y tu hwnt i gyrraedd pobl ddigartref.
- 3.21 Mae rhenti nad ydynt yn fforddiadwy yn risg gynyddol i nifer o awdurdodau yr ymwelwyd â nhw a gwnaethant nodi bod rhenti rhai cymdeithasau yn uwch na lefelau budd-dal tai ac na all llawer o gleientiaid digartref eu fforddio, hyd yn oed y rhai sy'n gweithio. Er enghraifft, yr enillion wythnosol gros canolrif ar gyfer oedolion sy'n gweithio'n llawn amser yng Nghymru oedd £492.40 ym mis Ebrill 2016, sef 91.4% o'r cyfartaledd ar gyfer y DU (£538.70). Yr enillion wythnosol gros canolrif yng Nghymru oedd yr ail isaf ymhlith y 12 o wledydd y DU a rhanbarthau yn Lloegr²⁷.
- 3.22 Un mater sy'n peri pryder yn arbennig i wasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol yw'r anawsterau y mae pobl sengl yn eu hwynebu wrth gael gafael ar lety cymdeithas dai, yn benodol pobl ifanc sy'n sengl. Mae hyn yn arbennig o ofidus gan fod data digartrefedd yn dangos bod pobl sengl yn cyfrif am nifer fawr o'r rhai sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd ac sydd, yn gymesur, yn cynyddu. Yn 2015-16 roedd 43.9% o'r rhai a gafodd eu bygwth gan ddigartrefedd yn bobl sengl. Yn 2016-17, cynyddodd hyn i 47.6%. O ran darparu llety dros dro, mae cyfran y bobl ifanc sengl a gafodd gymorth wedi aros yn gyson uchel ac mae pobl sengl yn cyfrif am tua 60% o'r rhai sydd wedi cael llety dros dro gan awdurdodau ym mhob chwarter ers mis Ebrill 2015.

25 Grant a roddir gan Lywodraeth Cymru i gymdeithasau tai yw'r Grant Tai Cymdeithasol i ddarparu tai fforddiadwy newydd i'w rhentu neu'u prynu am gost isel.

26 Eiddo ar rent canolradd a rhent y farchnad y mae cymdeithasau tai yn berchen arnynt. Mae gan eiddo ar rent y farchnad yr un lefelau ag eiddo ar rent preifat. Gosodir rhenti canolradd fel arfer ar 80% (neu lai) o renti'r farchnad.

27 Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion: canlyniadau dros dro ar gyfer 2016, SWG, Hydref 2016.

- 3.23 Nododd y cymdeithasau y gwnaethom gyfweld â nhw nad yw awdurdodau'n aml yn nodi'n glir sut maent yn bwriadu gweithio gyda'uartneriaid i gyflawni'r ddyletswydd Adran 95 i gydweithredu. Nid yw protocolau na fframweithiau sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan gymdeithasau ar waith a phrin yw'r gwaith a wnaed i feintioli disgwyliadau gwasanaeth digartrefedd awdurdodau. Noda nifer o staff cymdeithasau nad yw fforymau partneriaeth digartrefedd lleol – a all ddarparu cyfle gwirioneddol i adolygu perfformiad cyfredol a nodi cyfleoedd i wella'r modd y darperir gwasanaethau – yn aml yn datrys problemau neu eu bod yn gwneud hynny'n aneffeithiol. Oherwydd ymgysylltu gwael, nid yw timau digartrefedd awdurdodau yn nodi'n glir yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid ac ystyrir bod arweinyddiaeth awdurdod o ran digartrefedd yn gyfyngedig ac yn aneffeithiol.
- 3.24 Gall cywirdeb a llif y wybodaeth rhwng awdurdodau a chymdeithasau fod yn annigonol yn aml. Gwnaeth sawl aelod o staff cymdeithasau dynnu sylw at anawsterau parhaus gydag ansawdd y data atgyfeirio o dan gytundebau enwebu. Yn rhy aml, mae gwybodaeth allweddol gan awdurdodau lleol yn anghywir neu'n absennol sy'n achosi oedi neu'n atal enwebiad ar gyfer tai rhag mynd rhagddo. O gofio ein canfyddiadau – sy'n ategu ymchwil ddiweddar gan Shelter Cymru yn 2016²⁸ a Cartrefi Cymunedol Cymru²⁹ a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2014³⁰ – mae heriau parhaus i bartneriaid sy'n cyflawni Adran 95 o Ddeddf 2014.

28 Accessing and sustaining social tenancies: exploring barriers to homelessness prevention, September 2016, Shelter Cymru.

29 Cartrefi Cymunedol Cymru yw'r corff cynrychioliadol sy'n cynrychioli mwy na 70 o gymdeithasau tai nid er elw a chwmnïau cydfuddiannol yng Nghymru.

30 Gweithio Mewn Partneriaeth a digartrefedd: Ymchwil ar gydweithredu rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yng nghyswllt digartrefedd, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, Mawrth 2014.

Mae Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol yn awgrymu rhywfaint o lwyddiant mewn atal digartrefedd, ond mae perfformiad awdurdodau yn amrywio gormod ac nid oes digon o ffocws ar ddangos y gwasanaethau sydd ar gael i bawb

- 3.25 Cyn cyflwyno Deddf Tai 2014, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn casglu data yn erbyn ystod o ddangosyddion ar draws eu gwasanaethau digartrefedd a chynghori a gaiff eu coladu a'u cyhoeddi'n genedlaethol drwy StatsCymru³¹. Roedd y data'n ymwneud ag amrywiaeth o fewnbynnau – er enghraifft, nifer yr unigolion/teuluoedd sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd – ac allbynnau megis y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â cheisiadau unigol i awdurdod.
- 3.26 Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd gwnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod bod angen setiau data newydd a dangosyddion er mwyn gallu gwerthuso'r broses o roi Deddf 2014 ar waith³². Cyflwynwyd mesurau perfformiad newydd o fis Ebrill 2015 ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: yn gyntaf, p'un a yw nifer y bobl sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd yn cynyddu neu'n gostwng; yn ail, pa mor llwyddiannus yw awdurdodau wrth atal digartrefedd; ac yn olaf, p'un a yw'r defnydd o lety dros dro yn cynyddu.

Mae nifer y bobl sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd yn cynyddu ond mae nifer yr achosion gan awdurdodau sy'n llwyddo i atal digartrefedd yn dechrau gostwng


- 3.27 Ers cyflwyno Deddf 2014 mae nifer yr aelwydydd sydd wedi cael eu bygwth gan ddigartrefedd sydd wedi cysylltu ag awdurdodau lleol am gymorth wedi cynyddu'n sylweddol, gan godi bron traean (29.2%) o 7,218 yn 2015-16 i 9,210 yn 2016-17. Prif fygythiad digartrefedd o hyd yw colli llety rhent neu lety clwm, rhieni'n anfodlon cynnig llety neu ddim yn gallu gwneud hynny, a'r berthynas â rhieni yn chwalu. Dim ond nifer y bobl a allai fod yn ddigartref a gafodd eu rhyddhau o sefydliad neu gyfleuster gofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, y fyddin ac ati), a'r rhai a oedd yn profi trais ac aflonyddu, a syrthiodd rhwng 2015-16 a 2016-17. Mae **Atodiad 7** yn rhoi dadansoddiad manwl o'r rhesymau pam fod pobl yn cael eu bygwth gan ddigartrefedd ar lefel Cymru gyfan yn 2015-16 a 2016-17.
- 3.28 O ran atal digartrefedd, ceir darlun cymysg o ba mor effeithio yw awdurdodau – **Arddangosyn 7**.

31 Mae StatsCymru yn darparu data ar amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru.

32 Oherwydd newidiadau i'r fframwaith rheoli perfformiad, nid yw'n bosibl cymharu perfformiad yn 2015-16 a 2016-17 â data mewn blynyddoedd blaenorol gan fod y diffiniadau'n newid ac nad ydynt yn caniatáu ar gyfer cymhariaeth gyfatebol.

Arddangosyn 7 – Canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag wynebu digartrefedd a'r gyfradd ddigartrefedd fesul 10,000 o aelwydydd yn 2015-16 a 2016-17 yn ôl awdurdod lleol a chyfartaledd Cymru gyfan

Mae amrywiaeth eang o ran perfformiad wrth atal digartrefedd ac mae'r awdurdodau gorau yn atal dros 70% o achosion digartrefedd. I'r gwrthwyneb, mae awdurdodau sy'n perfformio'n wael yn cymryd camau atal llwyddiannus mewn llai na 50% o'r achosion.



(x)/(x) Cyfradd ar gyfer pob 10,000 o gartrefi yn 2016-17

Newid yn y perfformiad: ↑ Yn gwella

↓ Yn gwaethygu

Ffynhonnell: HOUS0415: Atal Digartrefedd yn ôl Ardal a Mesur (Adran 66), Ffurflen ddata flynyddol i StatsCymru. Nid yw'r data hyn wedi cael eu harchwilio.

Awdurdod lleol	2015-16 (%)	2016-17 (%)
Gwynedd	84.5	77.5
Sir Benfro	68.8	73.4
Caerffili	78.2	73.3
Ynys Môn	60.1	72.8
Abertawe	75.4	72.6
Ceredigion	69.3	70.8
Pen-y-bont ar Ogwr	64.2	66.6
Wrecsam	59.4	64.2
Sir Gaerfyrddin	53	64.2
Rhondda Cynon Taf	48.7	63
Sir y Fflint	75.9	62.8
Powys	71	61.3
Cymru	64.5	62.1
Merthyr Tudful	44.4	61.1
Sir Fynwy	73.8	58.4
Conwy	70	57.9
Bro Morgannwg	53.9	56.5
Castell-nedd Port Talbot	52.2	54.6
Sir Ddinbych	55.1	54
Caerdydd	70.6	52
Blaenau Gwent	58.6	51.9
Torfaen	64.1	49.8
Casnewydd	62.5	49.3

Tudalen y pecyn 96

- 3.29 Mae'r Arddangosyn yn dangos, er mai dim ond ychydig y gwnaeth cyfran yr achosion lle yr ataliwyd digartrefedd ostwng rhwng 2015-16 a 2016-17, y bu newidiadau sylweddol mewn rhai awdurdodau. Yn gyffredinol, mae deg awdurdod wedi gweld cynnydd yng nghanran yr achosion o ddigartrefedd y maent yn eu hatal ac mae 12 wedi gweld gostyngiad mewn perfformiad. Gwelwyd y gwelliannau mwyaf sylweddol ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lle gwelodd perfformiad fwy na 15 o bwyntiau canran. I'r gwrthwyneb, gwnaeth pedwar awdurdod gofnodi gostyngiadau mewn gwaith atal o tua 15 o bwyntiau canran, a'r rhai mwyaf sylweddol yng Nghaerdydd a welodd ddirywiad o 20 o bwyntiau canran mewn gwaith atal. Mewn perthynas â chyfradd yr achosion llwyddiannus o atal fesul 10,000 o aelwydydd – y tebygolrwydd neu'r gymhareb y bydd canlyniad sicr yn digwydd ar gyfer y boblogaeth ehangach mewn ardal – mae perfformiad yr un mor eang ei gwmpas. Yn 2016-17, mae Powys yn atal digartrefedd ar gyfer tua 18 aelwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth o gymharu ag Abertawe a lwyddodd i atal digartrefedd ar gyfer 78 o aelwydydd fesul 10,000 o'r aelwydydd.
- 3.30 Mae gan awdurdodau tai lleol ddyletswydd i sicrhau llety dros dro i bobl sy'n ddigartref. Er enghraifft, gallai aelwydydd gael eu rhoi mewn llety dros dro tra'n aros i ymholiadau gael eu cwblhau neu gallent dreulio amser yn aros mewn llety dros dro ar ôl i gais digartrefedd gael ei dderbyn nes bod tai diogel ac addas yn dod ar gael. Gwelsom fod nifer yr aelwydydd sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro yn parhau i godi 7.5% yng Nghymru, o 1,872 o aelwydydd ar ddiwedd mis Mehefin 2015 i 2,013 o aelwydydd ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Mae **Atodiad 8** yn darparu dadansoddiad manylach o'r newid mewn llety dros dro fesul chwarter yn 2015-16 a 2016-17.
- 3.31 Gan gymryd y tri mesur allweddol hyn o berfformiad gyda'i gilydd, dengys y data fod nifer y bobl sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd yng Nghymru yn cynyddu, bod gwaith atal llwyddiannus yn lleihau, a bod y defnydd o lety dros dro yn tyfu. Er mai dim ond dwy flynedd o weithgarwch y mae'r wybodaeth hon yn eu cwmpasu, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod awdurdodau'n wynebu rhai heriau sylweddol wrth reoli ac atal digartrefedd. Ategir hyn gan ymchwil ddiweddar gan Shelter Cymru³³ sy'n awgrymu bod yr ystadegau swyddogol yn tangyfrif lefel yr achosion o ddigartrefedd o tua 3,000 o aelwydydd yn 2016-17.

33 Reasonable steps: experiences of homelessness services under the Housing (Wales) Act 2014, Shelter Cymru, 2016.

- 3.32 Er bod data StatsCymru ar ddigartrefedd yn ddefnyddiol i fesur agweddau ar berfformiad, nid yw'r ffocws cyfredol o weithgarwch bob amser yn rhoi awgrym o naill ai ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, na llwyddiant ymyriadau awdurdod lleol wrth fynd i'r afael â digartrefedd. Er enghraifft, mae dangosyddion perfformiad yn dal i fod yn rhy gyfyngedig i roi darlun cadarn ac ystyrlon o ba mor 'llwyddiannus' yw gwasanaethau digartrefedd wrth ddelio ag anghenion cymhleth cleientiaid, ac maent yn rhy aml yn barnu perfformiad ar fewnbynau ac allbynau byrdymor ac nid ar effaith a gwelliant yn y tymor hwy i unigolion.
- 3.33 Mae nifer fach o awdurdodau hefyd yn cydnabod bod ganddynt rai heriau ymarferol o ran mesur a rheoli eu perfformiad digartrefedd yn effeithiol. Noda tri awdurdod nad oes ganddynt ddigon o adnoddau na gallu i adolygu perfformiad, ac mae pump yn dweud bod y gwaith o uwchraddio eu systemau TG ar ddigartrefedd, er mwyn gallu cofnodi a monitro eu perfformiad digartrefedd yn fwy cywir, naill ai yn mynd rhagddo neu ar y gweill.

Nid yw trefniadau rheoli perfformiad awdurdodau lleol yn canolbwyntio ddigon ar ddangos bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn gyfartal i bob dinesydd, sy'n tanseilio eu gallu i fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn llawn

- 3.34 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ac yn cynnig un Ddeddf yn lle cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol. Ei nod yw ei gwneud yn fwy cyson, clir a hawdd i'w dilyn er mwyn creu cymdeithas decach. Nod Deddf Cydraddoldeb 2010 yw dileu anghysondebau a'i gwneud yn haws i bobl ddeall a chydymffurfio â hi. Un agwedd bwysig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw creu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- 3.35 O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i gyrff rhestredig roi ystyriaeth i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf. Rhaid i gyrff rhestredig hefyd hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu. Dylent hefyd geisio meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu. Rhestrir awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 19 o'r Ddeddf Cydraddoldeb ac mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol.

- 3.36 Diben cyffredinol y Ddyletswydd yw integreiddio ystyriaeth o gydraddoldeb a chysylltiadau da ym musnes awdurdodau lleol o ddydd i ddydd. Yn hollbwysig, mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ystyried sut y gall swyddogaeth effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Gall methu â gwneud hyn gyfrannu at fwy o anghydraddoldeb a chanlyniadau gwael, yn syml am fod gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu mewn ffyrdd na all pobl â nodweddion gwarchoddedig eu defnyddio.
- 3.37 Yr allwedd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd yw sicrhau bod trefniadau monitro a gwerthuso cadarn ar waith. Drwy fonitro data ar nodweddion gwarchoddedig, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod mynediad i wasanaethau ar gael i bawb yn gyfartal, ac y gall y rhai mwyaf agored i niwed gael eu hadnabod a'u trin yn briodol. Awgryma canfyddiadau ein hadolygiad fod rhai gwendidau sylweddol yn y trefniadau cyfredol, ac nad yw rhai awdurdodau yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Ddyletswydd.
- 3.38 Mae **Arddangosyn 8** isod yn crynhoi canfyddiadau arolwg Llywodraeth Cymru o awdurdodau lleol ar weithredu Deddf 2014 mewn perthynas â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Nid yw'r perfformiad cyfredol yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac nid yw awdurdodau lleol yn gallu dangos yn gyson sut mae eu gwasanaethau digartrefedd yn bodloni eu cyfrifoldebau o ran y Ddyletswydd.

Arddangosyn 8 – Sylw i systemau monitro awdurdodau lleol ar gyfer pobl ddigartref a'r rhai sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd sydd â nodweddion gwarchoddedig

Nid yw chwe awdurdod lleol yn casglu unrhyw ddata ar gydraddoldebau o gwbl ac mae'r sylw i hyn gan rai awdurdodau eraill yn annigonol i'w galluogi i fonitro perfformiad a chael gafeael ar wasanaethau yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Nodweddion gwarchoddedig, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010	Nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n casglu'r wybodaeth hon
Oedran	15
Anabledd	15
Ailbennu Rhywedd	12
Statws priodasol (gan gynnwys Partneriaeth Sifil)	11
Statws beichiogrwydd a mamolaeth	15
Hil (yn cynnwys hil, lliw a chenedligrwydd – dinasyddiaeth, tarddiad ethnig neu genedlaethol)	14
Crefydd neu gred	12
Cyfeiriadedd rhywiol	13
Dim data ar gydraddoldebau wedi eu casglu	6

Ffynhonnell: gwerthusiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd (Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) Adroddiad Interim, 8 Awst 2017, Llywodraeth Cymru.

Rhan 4

Mae angen i awdurdodau lleol a phartneriaid ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd ond nid ydynt yn rhoi digon o sylw i hyn yn eu hymatebion strategol



- 4.1 Mewn adrannau blaenorol o'r adroddiad hwn rydym wedi nodi sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r her o atal digartrefedd. Gwnaeth Deddf Tai (Cymru) 2014 newid cyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol yn sylfaenol drwy symud y ffocws i ffwrdd oddi wrth eu gwaith ar ymchwilio a helpu'r rhai sy'n bodloni meini prawf caeth yn unig, a chanolbwyntio yn lle hynny ar atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl.
- 4.2 Mae rhesymeg a buddiannau gwaith atal yn glir iawn. I bobl ddigartref, dylai fod llai o darfu personol ac ansicrwydd a dylai cefnogaeth a chymorth awdurdod lleol geisio cynnal deiliadaeth lle bo'n bosibl yn y cartref cyfredol. I awdurdodau lleol, dylid gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau er mwyn rheoli'r galw yn well drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â chleientiaid ar gam cynharach o lawer, a chyn iddynt ofyn am gymorth mewn argyfwng.
- 4.3 Er gwaethaf y newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2014, mae amseriad ymatebion awdurdod lleol yn dal i ganolbwyntio ar yr union adeg pan fydd pobl mewn argyfwng ac yn colli eu cartref. Mae achosion sylfaenol digartrefedd – y rhesymau pam fod rhai grwpiau mewn cymdeithas yn wynebu mwy o risg nag eraill – yn parhau heb eu herio.
- 4.4 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn ystyried a yw awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i ddod o hyd i atebion cynaliadwy sy'n atal digartrefedd rhag digwydd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gyfle i awdurdodau a phartneriaid fabwysiadu dull ataliol, hirdymor gan gydweithio drwy wasanaethau integredig sy'n cynnwys anghenion dinasyddion ac yn eu diwallu. Mae rhai gwersi pwysig i gyrff cyhoeddus eu dysgu o'r dull a fabwysiedir i atal digartrefedd o ran sut maent yn rheoli'r galw mewn meysydd gweithgarwch eraill.

Mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn parhau i ddelio â symptom digartrefedd ac nid ei achos

- 4.5 Yn aml, achosir digartrefedd gan ryngweithio cymhleth rhwng amgylchiadau unigol rhywun a ffactorau 'allanol' anffafriol sydd y tu hwnt i'w reolaeth uniongyrchol. Ffactorau personol megis diffyg cymwysterau, diffyg cymorth cymdeithasol, dyledion – yn enwedig ôl-daliadau morgais neu rent – iechyd corfforol a meddyliol gwael, a chyflawni troseddau o oedran cynnar. Cydnabyddir hefyd fod cefndir teuluol yn ffactor cyfrannol, yn enwedig cydberthnasau'n chwalu ac anghydfodau, cam-drin rhywiol a chorfforol yn ystod plentyndod neu flaenlencyndod, cael rhieni sydd â phroblemau cyffuriau neu alcohol, a phrofiad blaenorol o ddigartrefedd teuluol³⁴. Gall y problemau hyn gronni dros flynyddoedd lawer nes byddant yn cyrraedd yr argyfwng olaf pan fydd rhywun yn mynd yn ddigartref.

³⁴ Tackling Homelessness: A Rapid Evidence Review, Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror, 2015.

- 4.6 Gall effaith y galw am wasanaethau cyhoeddus a dibyniaeth arnynt fod yn genediadol a bydd yn galw am ymrwymiad hirdymor a ffocws gan gyrff cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â hyn. Er enghraifft, anghydraddoldebau iechyd, tlodi, cyrhaeddiad addysgol a delio â diweithdra hirdymor. Gall digartrefedd gael ei achosi gan faterion strwythurol, ffactorau cymdeithasol ac economaidd sydd yn aml y tu hwnt i reolaeth yr unigolyn neu'r teulu dan sylw, megis:
- a tlodi, sy'n aml yn gysylltiedig â diweithdra neu gyflog isel;
 - b prinder tai fforddiadwy a pholisïau lleol a chenedlaethol ehangach ar gyfer tai ar reoli dyraniadau, eithriadau a thenantiaethau;
 - c datblygiadau polisi cenedlaethol ehangach, megis cau ysbytai seiciatrig arhosiad hir; rheoli mewnfudo a lloches; penderfyniadau ynghylch rhyddhau pobl o'r carchar a'r lluoedd arfog; a
 - ch polisïau lles llywodraeth y DU – yn arbennig ailstrwythuro'r system gyfan o fuddiannau oedran gweithio drwy gyflwyno Credyd Cynhwysol, y cap ar fudd-daliadau, y cymhorthdal ystafell sengl a chosbau diwygiedig.
- 4.7 Dengys ymchwil yng Nghymru a ledled y DU³⁵ fod y ffactorau strwythurol ac unigol hyn yn aml yn gydberthnasol ac yn achos sylfaenol digartrefedd. Gall problemau unigol godi o anfanteision strwythurol megis tlodi neu ddiffyg addysg. Tra gall ffactorau personol, megis perthynas deuluol neu gymdeithasol, hefyd fod o dan bwysau oherwydd grymoedd strwythurol megis tlodi. Yn y pen draw, dyma'r rhesymau pam fod rhai unigolion a grwpiau mewn cymdeithas yn wynebu mwy o risg o fod yn ddigartref nag eraill. Felly, mae digartrefedd yn deillio o fethiant mewn gwasanaeth, effeithiau economaidd ehangach ac ystod gymhleth o broblemau cenedliadol.

35 Y monitor digartrefedd: Cymru 2015, Crisis, Awst 2015; a Tackling homelessness and exclusion: understanding complex lives, Homeless Link, Medi 2011.


Yn aml, mae penderfyniadau na all cyrff cyhoeddus yng Nghymru effeithio arnynt na'u hatal yn dylanwadu ar ddigartrefedd

- 4.8 Mae mynd i'r afael â'r problemau strwythurol hyn yn galw am atebion polisi hirdymor megis newidiadau yn y system budd-dal tai, adeiladu mwy o dai fforddiadwy a llunio polisïau cydgysylltiedig ar gyfer gwasanaethau tai a gwasanaethau eraill. Gall datrys effaith dewisiadau polisi ar bobl ddigartref gael ei gymhlethu gan fod cyfrifoldebau ar gyfer rhaglenni gwahanol, ffrydiau ariannu a sefydliadau yn cael eu rhannu o fewn y DU ac nid ydynt wedi'u³⁶ datganoli i Gymru bob tro. Felly gall y galw am wasanaethau cyhoeddus ddeillio o ddewisiadau polisi unigol; o ganlyniad anfwriadol i ddewisiadau polisi; a/neu gallant fod yn waeth os bydd penderfyniadau polisi gwahanol yn cael eu llunio'n wael neu os na chânt eu cysoni a'u bod yn gweithio yn erbyn ei gilydd.
- 4.9 Mae mynd i'r afael â phroblemau cymhleth fel digartrefedd yn amlwg yn cael budd o gysoni polisïau i sicrhau effaith gadarnhaol fwyaf rhai dewisiadau a chyfyngu ar ganlyniadau anfwriadol eraill. Fodd bynnag, os na fydd polisïau yn ategu ei gilydd, gall problemau godi. Mae **Arddangosyn 9** yn dangos cymhlethdod datganoli polisïau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sawl maes o fywyd beunyddiol yng Nghymru. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys: addysg, iechyd, llywodraeth leol, iechyd yr amgylchedd, datblygu economaidd a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn dal i fod yn gyfrifol am rai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er enghraifft, mewnfudo, plismona, carchardai a'r system gyfiawnder. Yn bwysicaf oll o ran digartrefedd, Llywodraeth San Steffan sy'n pennu'r polisi ar gyfer budd-daliadau treth a llesiant.

36 Ar y cyfan, polisi cyhoeddus yw'r hyn y mae'r Llywodraeth yn dewis ei wneud, neu'r hyn y mae'n dewis peidio â'i wneud. Mae'n benderfyniad a wneir gan y llywodraeth i weithredu, neu beidio â gweithredu er mwyn datrys problem. Mae polisi cyhoeddus yn gam gweithredu sy'n arwain ystod o gamau cysylltiedig mewn maes penodol. Anaml y bydd hyn yn mynd i'r afael ag un problem, ond yn hytrach bydd yn delio â chlystyrau o broblemau hirdymor sydd wedi ymblethu i'w gilydd.

Arddangosyn 9 – Cyfrifoldebau polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Meysydd gwneud polisi a all effeithio ar allu awdurdod lleol i atal digartrefedd



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

4.10 Un o effeithiau sylweddol Deddf 2014 ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yw ehangu cyfrifoldebau i bobl sengl. Mae'n ofynnol bellach i awdurdodau lleol roi help i bawb sy'n wynebu'r risg o fod yn ddigartref, gwyrriad sylweddol oddi wrth y system flaenorol lle nad oedd llawer o bobl sengl ddigartref yn cael yr un lefel o gefnogaeth a chymorth a'r hyn a gânt yn awr. Fel y noda ein hymchwil, mae pobl sengl bellach yn cyfrif am bron hanner y rhai sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol i ofyn am gymorth ac mae bron i ddwy ran o dair o'r rheini yn byw mewn llety dros dro. Mae pobl sengl yn cyfrif am gryn dipyn o waith digartrefedd awdurdod lleol.

4.11 Er bod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw i awdurdodau lleol geisio diwallu anghenion pobl sengl ddigartref drwy ddefnydd gwell o'r sector rhentu preifat, a darparu ystod ehangach o opsiynau i ddatrys digartrefedd, mae effaith dewisiadau polisi croes Llywodraeth y DU yn gwneud hyn yn fwy anodd. Gwneir polisiâu yn San Steffan sy'n effeithio ar gyrff cyhoeddus a dinasyddion yng Nghymru, ond nid yw Llywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol yn gallu dylanwadu ar y rhain. Yn arbennig, fel y nodwyd uchod ym mharagraffau 3.22 a 3.23, anawsterau wrth fynd i'r afael â phobl sengl ddigartref, yn enwedig pobl ifanc rhwng 25 a 34 oed, sy'n creu her benodol i awdurdodau a'u partneriaid.


Mae mynd i'r afael â'r galw o ran digartrefedd yn aml yn cael ei ystyried yn ddyletswydd corff sengl yn hytrach na chyfrifoldeb gwasanaeth cyhoeddus ehangach

4.12 Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymhleth digartrefedd, mae angen ymateb gan amrywiaeth o gyrff yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac nid awdurdodau lleol yn unig. Ni all gwasanaeth tai awdurdod lleol ddatrys materion cymhleth rhyngberthynol digartrefedd ar ei ben ei hun. Mae digartrefedd yn fwy na phroblem tai ac mae llawer o'r hyn sy'n achosi digartrefedd y tu hwnt i reolaeth a dylanwad gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, yr awdurdod lleol sydd â'r ddyletswydd statudol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd.

4.13 Wrth ddatblygu Deddf 2014 cydnabu Llywodraeth Cymru fod mynd i'r afael â digartrefedd yn fater ehangach na gwasanaeth tai awdurdod lleol a bod angen ymateb amlasiantaethol er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol. Dyna pam y penderfynwyd creu dyletswyddau penodol o dan Adran 95 ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gydweithredu â gwasanaethau digartrefedd. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid yw'r ddyletswydd i gydweithredu yn gweithio'n gyson ledled Cymru ac nid yw'r partneriaid allweddol a all gyfrannu at fynd i'r afael â digartrefedd a'i atal rhag digwydd bob amser yn effeithiol wrth gefnogi'r canlyniad hwn.

4.14 **Mae Arddangosyn 10** yn nodi darlun cymhleth polisi a darpariaeth. Mae eraill yn dylanwadu ar nifer gynyddol o wasanaethau a swyddogaethau ac yn dibynnu arnynt. Er ei bod yn gadarnhaol bod y fframwaith statudol cyfredol yn ceisio annog rhai asiantaethau i reoli'r galw a chefnogi canlyniadau tai pobl ddigartref, nid yw'n gwneud digon. Nid yw'n mabwysiadu dull amlasiantaeth hollol ataliol sy'n mynd y tu hwnt i ymyriadau tai, ac mae angen iddo fod yn ehangach o lawer na'r ddyletswydd i gydweithredu a osodir ar wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol a chymdeithasau tai. Mae awdurdodau lleol ac eraill yn cyfrannu at fynd i'r afael â digartrefedd mewn amrywiaeth o ffyrdd anuniongyrchol eraill. Er enghraifft, drwy annog datblygiad economaidd lleol; fel cyflogwr mawr yn yr ardal; drwy ddatblygu seilwaith, cartrefi a system drafnidiaeth newydd; ac, yn bwysicaf oll, fel yr asiantaeth allweddol mewn Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus³⁷ a meysydd eraill gwaith partneriaeth amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar ddigartrefedd.

Arddangosyn 10 – Y cydgysylltiad rhwng cyrff cyhoeddus wrth ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

37 Diben byrddau gwasanaethau cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd drwy atgyfnerthu trefniadau cydweithio ym mhob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

- 4.15 Er bod mynd yn ddigartref yn 'symptom' gweledol o argyfwng person digartref, mae darparu cartref neu gymorth i gynnal cartref yn dal i fod yn ymateb mewn 'argyfwng'. Mae llawer o'r gwaith presennol a wneir gan awdurdodau lleol i atal digartrefedd yn dal i fod yn rhagweithiol gyda gwasanaethau'n canolbwyntio ar ddelio â phobl pan fyddant mewn argyfwng yn hytrach na'u hatal rhag wynebu argyfwng yn y lle cyntaf. Er mwyn i awdurdodau lleol a'u partneriaid fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd mae angen iddynt fabwysiadu ymagwedd strategol hirdymor.
- 4.16 O'n hadolygiad rydym wedi nodi tair lefel o waith atal cynaliadwy sy'n dylanwadu ar lefelau'r galw am wasanaeth – [Arddangosyn 11](#). Rydym yn dosbarthu'r rhan fwyaf o awdurdodau fel rhai sy'n gweithredu ar lefel un neu ddau, gan ganolbwyntio adnoddau ar ymatebion byr i dymor canolig ond gan ddelio â phobl sydd mewn argyfwng fel arfer. Caiff yr ymatebion eu llywio fel arfer gan bersbectif gwasanaeth unigol ac mae'r cydweithio yn gweithredu ar ymylon y gweithgarwch yn hytrach na llywio penderfyniadau yn ganolog. O ganlyniad, nid yw'r ymatebion atal yn gwneud y gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael o fewn yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid i greu atebion sydd wedi'u halinio i reoli'r galw a lleihau dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau. Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw awdurdod eto wedi symud ymlaen i lefel tri gan fabwysiadu dull ataliol gwirioneddol hirdymor sy'n canolbwyntio gwasanaethau ar y materion cymdeithasol parhaol sy'n creu digartrefedd.

Arddangosyn 11 – Cynaliadwyedd dulliau o reoli'r galw ar gyfer gwasanaethau digartrefedd

DULL YMATEBOL O YMDRIN Â GALW ACÍWT

Mae awdurdodau lleol yn ymateb i bobl sy'n ddigartref neu sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd ar yr adeg y maent yn wynebu perygl o golli eu cartref. Mae defnyddwyr gwasanaethau fel arfer yn wynebu argyfwng ac yn ceisio help gan awdurdodau lleol a'u partneriaid pan fydd opsiynau eraill wedi methu neu pan na fyddant ar gael iddynt yn realistig. Trefnir gwasanaethau i ddelio â phobl mewn argyfwng ac fe'u paratwir i helpu pobl mewn argyfwng. Mae gwaith atal a rheoli galw yn gyfyngedig. Mae gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r sefydliadau partner yn gyfyngedig i ymatebion gweithredol.

DULL STRWYTHUREDIG SY'N CANOLBWYNTIO AR UWCH-FFRYDIO RHEOLI GALW

Trefnir gwasanaethau awdurdodau lleol i ymgysylltu â phobl a allai fod yn ddigartref yn gynt o lawer a chyn i bobl wynebu'r perygl o fod yn ddigartref. Mae ffactorau posibl sy'n sbarduno digartrefedd yn hysbys ac yn cael eu rhannu'n eang. Trefnir gwasanaethau digartrefedd er mwyn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i ddiwallu anghenion grwpiau ac unigolion risg uchel, weithiau cyn iddynt wynebu argyfwng. Mae'r gwasanaethau yn canolbwyntio ar gyswllt cynnar a ffocws ar atebion ymarferol. Mae gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a sefydliadau partner yn datblygu ond mae pob sefydliad yn cadw ei ddull ei hun o ymdrin â digartrefedd.

DULL ATAL CYNLLUNIEDIG SY'N ATAL Y GALW RHAG DIGWYDD

Mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn canolbwyntio gweithgarwch ar newid ymddygiad yn hytrach na cheisio dod o hyd i atebion i bobl mewn argyfwng. Ceir dull a rennir o fynd i'r afael â digartrefedd ar draws pob un o sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae nodweddion y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn hysbys. Mae camau a gymerir i fynd i'r afael â'r galw wedi'u cynllunio a threfnir gwasanaethau cyhoeddus eraill i ymdrin â phroblemau cymdeithasol a strwythurol sy'n golygu bod pobl mewn perygl o fod yn ddigartref ymhell cyn i'w hargyfwng godi. Dros amser, bydd llai o bobl yn mynd yn ddigartref a bydd llai o alw am wasanaethau digartrefedd.



Ffynonellau: Swyddfa Archwilio Cymru.

- 4.17 Er mwyn cyflawni dull gwirioneddol gynaliadwy a hirdymor sy'n atal digartrefedd rhag digwydd, mae angen cefnogaeth wleidyddol. Mae angen i awdurdodau gael gweledigaeth glir a strategaeth sy'n mynd y tu hwnt i gyrff cyhoeddus ac sy'n deall beth sydd ei angen ar bobl; beth yw eu gofynion; ac ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r galw ac unrhyw orddibyniaeth ar gyrff cyhoeddus. Mae'n hollbwysig bod gwleidyddion lleol yn cynnal sgwrs newydd gyda dinasyddion sy'n fwy cydweithredol. Mae angen i ddinasyddion a defnyddwyr fod yn barod ar gyfer unrhyw newidiadau ac mae angen i gyrff cyhoeddus gydnabod na all un corff ddelio â'r galw, bod angen iddynt gydweithio ac y bydd angen prosesau a systemau ar y cyd.
- 4.18 Mae Adrannau 50 i 62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gynnal adolygiadau digartrefedd o bryd i'w gilydd a llunio strategaethau digartrefedd erbyn mis Ebrill 2018. Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau asesu lefelau digartrefedd presennol a'r rhai tebygol yn y dyfodol mewn ardal awdurdod lleol; y ddarpariaeth gyfredol amrywiol sydd ar gael i atal digartrefedd; y ddarpariaeth gyfredol o dai addas a'r cymorth sydd ar gael; a'r adnoddau sydd ar gael yn yr awdurdod a chan bartneriaid i fynd i'r afael â digartrefedd. Dylai canfyddiadau'r adolygiad gael eu defnyddio i lunio strategaeth digartrefedd sy'n nodi'r camau gweithredu a'r cynlluniau i atal a mynd i'r afael â digartrefedd yn yr ardal awdurdod lleol.
- 4.19 Un o wendidau cydnabyddedig strategaethau digartrefedd awdurdodau lleol blaenorol fu'r diffyg sylw i alw yn y dyfodol. Roedd asesiadau o anghenion a chynlluniau strategol yn canolbwyntio'n rhy aml ar bwysau cyfredol ar wasanaethau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion aciwt byrdymor hyn. Bach iawn o ffocws oedd ar faterion canolig i hirdymor. Prin yw'r awdurdodau sy'n canolbwyntio ar ddeall achosion y galw, sut i reoli'r galw na sut i baratoi dinasyddion i ddod yn fwy gwydn. Mae hyn yn bwysig. Drwy wneud pobl yn fwy gwydn, a newid ffocws y camau gweithredu, bydd dinasyddion mewn sefyllfa well i reoli eu problemau heb orfod troi at wasanaethau'r awdurdod. Gwnaethom nodi rhai datblygiadau polisi cynnar sy'n cydnabod yr angen i symud o ymateb i alw, i atal y galw rhag cynyddu.

- 4.20 Gwnaethom nodi uchod natur tymor byr awdurdodau a'u partneriaid wrth atal digartrefedd. Prin yw'r enghreifftiau da o awdurdodau lleol yn mabwysiadu dull strategol a chyfannol o gynllunio gweithgarwch atal a rheoli'r galw er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yn y tymor hwy. Yn aml mae hyn am fod yr achos ariannol dros ymdrin â'r galw o ran digartrefedd wedi ei seilio'n bennaf ar fodel rhagfynegi yn hytrach na thystiolaeth go iawn; mae enghreifftiau wedi'u datblygu'n llawn yn brin. Hefyd, ac fel y nodwyd ym mharagraff 1.17 mae llawer o strategaethau atal a rheoli'r galw wedi eu harwain gan fentrau yn hytrach na chynllun gweithredu cyfunol a strategol. Yn ogystal, mae dull rhagweld galw ac anghenion cymunedau yn y tymor hwy yn faes gwannach yn gyffredinol er i Lywodraeth Cymru annog i hyn gael ei gynnwys mewn Asesiadau Llesiant.
- 4.21 Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau yn dal i fethu â chanolbwyntio ar fynd i'r afael â'r gwendidau hyn. Er enghraifft, nododd 13 o awdurdodau a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru ar weithredu Deddf 2014 eu bod wedi gweld cynnydd yn y galw am eu gwasanaethau digartrefedd. Canfu ein hadolygiad o asesiadau Llesiant, er bod awdurdodau yn ymwybodol fod y galw ar wasanaethau digartrefedd yn mynd i gynyddu, nad yw llawer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi eto sut y gallai gwasanaethau gael eu llunio neu eu hail-alinio i naill ai ymdopi â'r cynnydd yn y galw yn gyffredinol, neu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael ar y cyd ag achosion sylfaenol y galw. Dim ond tri asesiad Llesiant a soniodd yn benodol am hunanddibyniaeth ac annibyniaeth ymhlith trigolion fel blaenoriaeth er mwyn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau, ond hyd yn oed yn yr enghreifftiau cyfyngedig hyn nid oedd unrhyw fanylion am sut y cyflawnir hyn. Er mwyn cael ffocws ataliol hirdymor ar fynd i'r afael â digartrefedd mae angen i awdurdodau ganolbwyntio ar y materion ehangach sy'n creu'r galw er mwyn atal pobl rhag mynd yn ddigartref.
- 4.22 O gofio bod gan awdurdodau tan fis Ebrill 2018 i gwblhau eu hadolygiadau o ddigartrefedd a llunio eu strategaethau, gwelsom ar adeg ein gwaith maes mai prin oedd y rhai a oedd wedi gwneud cynnydd sylweddol. Cwblhaodd Cyngor Sir Ddinbych ei adolygiad o wasanaethau digartrefedd yn 2016 gan gyhoeddi'r canfyddiadau ar-lein yn dilyn gwaith ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r awdurdod yn bwriadu defnyddio canfyddiadau ei adolygiad i ddatblygu ei strategaeth digartrefedd. Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ei strategaeth, creodd yr awdurdod fforwm digartrefedd amlasiantaeth i lywio ei waith ar fynd i'r afael â digartrefedd. Mae'r fforwm hwn yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r strategaeth a mynd i'r afael ag achosion allweddol digartrefedd.

Cyngor Sir Ddinbych – datblygu strategaeth digartrefedd

Drwy ei adolygiad o ddigartrefedd, gwnaeth yr awdurdod ymgynghori â phartneriaid a rhanddeiliaid i nodi a chytuno ar yr amcanion allweddol i fynd i'r afael â phrif achosion digartrefedd a'i atal. Defnyddiwyd yr adolygiad i ddatblygu strategaeth digartrefedd yr awdurdod. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar atal, sicrhau mwy o lety a mynediad i wasanaethau cymorth ac mae'n ceisio:

- sicrhau bod llety addas ar gael ac y bydd ar gael i bobl sydd, neu a all fod yn ddigartref;
- cydweithredu â'r GIG, asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a Diogelwch Cymunedol i ddiwallu anghenion pobl ac aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref;
- sicrhau bod cymorth boddhaol ar gael i bobl sydd, neu a all fod yn ddigartref; a
- chynllunio gwasanaethau digartrefedd yn rhanbarthol lle y bo'n briodol, gan ystyried y newidiadau i ffiniau Llywodraeth Leol sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r awdurdod yn cydnabod mai'r dull allweddol o ymdrin â chymorth cymunedol yw'r newid mewn pwyslais o ddibyniaeth i alluogi pobl i fyw yn annibynnol, gyda dewis a rheolaeth dros eu hanghenion eu hunain a'u hatebion. Mae ei strategaeth digartrefedd a'i gynllun gweithredu cysylltiedig yn adlewyrchu'r egwyddor hon ac yn nodi sut yr hysbysir Uwch Dîm Arwain yr awdurdod ac Aelodau perthnasol a sut y gellir cynnal eu diddordeb drwy gydol y cyfnod gweithredu.

4.23 Ar adeg ein gwaith ar y safle nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gwaith maes wedi dechrau eu hadolygiadau o ddigartrefedd. Nododd nifer fach nad oedd ganddynt ddigon o gapasiti i ganolbwyntio ar adolygu a datblygu ymateb strategol i ddigartrefedd. Daw'r diffyg capasiti hwn ar adeg pan fo digartrefedd yn cynyddu.

Mae gwersi i'w dysgu o'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi ymateb i atal digartrefedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau eraill i reoli'r galw yn well

4.24 Mae rhai gwersi pwysig i gyrrff cyhoeddus eu dysgu o'r dull a fabwysiedir i atal digartrefedd o ran sut maent yn rheoli'r galw mewn meysydd gweithgarwch eraill. Mae llawer o'r rhain yn gyson â chyfrifoldebau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n rhoi cyfle i awdurdodau a phartneriaid fabwysiadu dull ataliol, hirdymor gan gydweithio drwy wasanaethau integredig sy'n cynnwys anghenion dinasyddion ac yn eu diwallu.

4.25 Gwelsom o'n hadolygiad o wasanaethau digartrefedd ei bod yn bwysig i awdurdodau fabwysiadu ffocws strategol ar reoli'r galw. Mae angen i gyrff cyhoeddus osgoi diffinio'r galw posibl mewn ffordd gul ac ni ddylent ganolbwyntio ar y gwasanaethau a ddarparant yn unig ond ar sut y mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio i atal y galw rhag cynyddu yn y lle cyntaf. Gyda hyn mewn cof, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnig cyfle i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a rennir drwy gydweithredu ac yna integreiddio gwasanaethau i gyfuno ymdrechion. Yn gadarnhaol, mae awdurdodau'n dechrau canolbwyntio ar reolaeth strategol y galw fel y nodir yn yr arfer da canlynol (mae **Atodiad 8** yn cynnwys enghreifftiau pellach o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ceisio cynyddu gwydnwch dinasyddion i reoli'r galw yn well).

Enghreifftiau o arfer da sy'n dangos sut mae rhai awdurdodau lleol yn ceisio mynd i'r afael â'r galw

Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe

yn gosod llesiant a rheoli'r galw yn ei Strategaeth Atal ar gyfer 2017-20. Mae'r strategaeth yn rhan o'i raglen drawsnewid gorfforaethol ac yn tynnu sylw at flaenoriaeth yr awdurdod, sef cefnogi pobl i ddod yn fwy gwydn a chyflawni canlyniadau y maent am eu gweld yn eu bywydau hwy, a fydd yn eu tro yn lleihau'r galw ar wasanaethau. Mae'r strategaeth yn cyfeirio at ddata hyd at 2030 ac yn ystyried beth sydd wedi gweithio yn Abertawe a rhannau eraill o'r DU, a'r mathau gwahanol o alw y mae angen eu modelu a'u trafod. Mae hyn yn fan cychwyn da i'r awdurdod reoli ei ymddygiad ei hun ac ymddygiad ei gwsmeriaid.


Cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych

'sgwrs sirol' yn edrych ar yr hyn y mae pobl am ei gael a pha 'gyfalaf cymdeithasol' sy'n bodoli mewn cymunedau lleol i helpu'r awdurdod i gynnal gwasanaethau, ond hefyd i ddylanwadu ar newidiadau mewn ymddygiad ymhlith defnyddwyr gwasanaethau. Mae rheoli'r galw yn thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn modelau trawsnewid awdurdodau lleol. Mae Strategaeth Trawsnewid Cwsmeriaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer 2016-21 yn rhoi egwyddorion rheoli'r galw a dealltwriaeth cwsmeriaid wrth wraidd y gwaith o drawsnewid egwyddorion gwasanaethau cwsmeriaid a mynediad.

- 4.26 Wrth ystyried cynllun strategol hirdymor gwasanaethau a'r ffordd y'u darperir mae angen osgoi camgynllunio gwasanaethau neu osgoi eu llunio mewn ffordd sy'n creu blociadau a 'galw sy'n deillio o fethiant' wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd. Mae Rhan 2 uchod yn tynnu sylw at rai o'r problemau o ran galw wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd a gafodd eu cynllunio'n wael. Mae angen i awdurdodau lleol ystyried yn ofalus felly sut maent yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau er mwyn:
- a alinio polisi a rheoli'r galw. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio a chytuno ar flaenoriaethau yn seiliedig ar ddata eang eu cwmpas, cyfredol ac o ansawdd da a defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio'r arian at y manau lle y gellir canolbwyntio ar fuddsoddiadau tymor hwy;
 - b sicrhau bod gan staff y sgiliau cywir i ddarparu gwasanaethau ataliol drwy roi'r adnoddau cywir i staff ganolbwyntio ar ddatrys problemau, negodi, cyfryngu a dylanwadu ar bobl;
 - c trefnu gwasanaethau i ymgysylltu'n effeithlon ac yn gyson â defnyddwyr gwasanaethau mor gyflym â phosibl;
 - ch sicrhau bod cyngor a gwybodaeth o ansawdd da, hygyrch a chywir ar gael yn eang am yr hyn y mae gan bobl yr hawl iddo a'r hyn na fyddant yn ei dderbyn – mae canfyddiadau ein harolwg yn dangos bod defnyddwyr gwasanaethau yn tybio bod awdurdodau yn darparu mwy o gymorth a help nag y gallant ac y gwnânt yn aml;
 - d gwneud defnydd gwell o wasanaethau digidol a sicrhau bod gwasanaethau ar-lein yn hygyrch ac annog defnydd ohonynt drwy gysylltedd da a phrofiad defnyddwyr da;
 - dd osgoi dull porthgadw a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau mor gynnar â phosibl i leihau'r galw;
 - e sicrhau cyfraniad pob sefydliad a sicrhau bod pob ffrwd ariannu wedi ei halinio ac yn canolbwyntio ar y materion cyffredin y mae cymunedau a'u gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu;
 - f sicrhau ystod eang o opsiynau i fynd i'r afael â'r galw yn hytrach nag atebion gwasanaeth unigol; ac
 - ff arddel barn gyfannol o ddarparu gwasanaethau a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn hytrach nag asiantaethau unigol yn gyfrifol am fynd i'r afael â'r galw.

4.27 Yn y pen draw, mae atal galw parhaus am wasanaethau yn cynrychioli gwerth da am arian. Er mwyn gweithio'n effeithiol mae angen lefel ofynnol o gytundeb a dealltwriaeth o ran y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus ymgorffori ffyrdd newydd o weithio a meddwl am syniadau tymor hwy³⁸. Mae **Arddangosyn 12** yn dangos y ffactorau allweddol rydym wedi eu nodi o'n hadolygiad, y dylai awdurdodau eu hystyried wrth fabwysiadu dull strategol o reoli'r galw o fewn gwasanaeth diffiniedig. Nodir yr ystod lawn o wybodaeth yn **Atodiad 10**. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr ond mae'n darparu rhai egwyddorion clir er mwyn helpu i lywio'r gwaith o reoli'r galw.

Arddangosyn 12 – Ystyriaethau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth reoli galw



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

38 Mae canllawiau o fis Ebrill 2013 a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru o'r enw Safonau i Wella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Penodol sy'n Agored i Niwed, yn cydnabod bod arweinyddiaeth yn hollbwysig wrth sicrhau canlyniadau iechyd gwell i grwpiau o bobl ddigartref a rhai sy'n agored i niwed.

Atodiadau



Atodiad 1: Methodoleg yr astudiaeth

Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- polisiau a dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru;
- dogfennau awdurdodau lleol gan gynnwys ffurflenni cais, taflenni cyngor, papurau pwyllgor, cynlluniau a strategaethau; ac
- ymchwil a thystiolaeth o wasanaethau digartrefedd a luniwyd gan ystod o gyrrff cynrychioliadol gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Shelter Cymru a Homeless Link.

Dadansoddi data

Rydym wedi dadansoddi'r data a gasglwyd oddi wrth awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar StatsCymru yn ymdrin â pherfformiad awdurdodau lleol o ran digartrefedd a gwariant refeniw awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai. Nid yw'r data a gafwyd o ffurflenni unigol gan bob awdurdod mewn perthynas â pherfformiad digartrefedd wedi'u harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gywir. Cafodd data alldro refeniw eu harchwilio ac mae'r wybodaeth a gyflwynwn yn yr adroddiad hwn ar wariant gan awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai yn wahanol i'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan StatsCymru.

Gwaith maes mewn awdurdodau lleol

Ymwelwyd â phum awdurdod lleol yng Nghymru yn 2016-17. Roedd yr awdurdodau lleol a ddewiswyd yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau sydd wedi'u dosbarthu'n ddaearyddol ledled Cymru ac sydd o feintiau poblogaeth gwahanol. Yr awdurdodau lleol hyn oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Dinas Abertawe

Yn ystod yr ymweliadau, cyfwelwyd ag amrywiaeth o staff awdurdodau lleol, staff cymdeithasau tai, sefydliadau yn y trydydd sector ac aelodau o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ac aelodau etholedig.

Gwaith maes cenedlaethol

Gwnaethom gynnal amrywiaeth o Gyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol a llunwyr barn gan gynnwys Llywodraeth Cymru; llunwyr barn a meddylwyr polisi yn Shelter Cymru, y Wallich, Cymorth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phrifysgol Cymru. Gwnaethom hefyd gynnal grŵp ffocws gyda rhwydwaith digartrefedd awdurdodau lleol.

Arolygon

Gwnaethom gomisiynu arolwg ffôn ansoddol o ddinasyddion er mwyn canfod eu barn am awdurdodau lleol, a sut maent yn ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus ac yn eu defnyddio. Canolbwyntiodd hyn ar ba mor dda y mae sefydliadau'n atal y galw, ac yn paratoi dinasyddion i wneud y dewisiadau cywir i fynd i'r afael â'u hanghenion neu eu hatal rhag codi. Cwblhawyd yr arolwg rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Ionawr 2017. Cwblhaodd 555 o bobl sy'n byw yn y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yr arolwg ffôn a chyflwynwyd adroddiad ar yr arolwg i Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2017. Mae'r arddangosyn drosodd yn dangos diben yr arolwg.

Cwmpas yr arolwg o ddinasyddion

I gasglu barn pobl am y canlynol:

- ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol;
- boddhad cyffredinol pobl â gwasanaethau awdurdodau lleol;
- y dulliau a ddefnyddir gan bobl i gysylltu â'u hawdurdod lleol;
- sut mae pobl yn dod o hyd i wybodaeth am eu hawdurdod lleol;
- y rhesymau pam y gwnaeth pobl gysylltu â'u hawdurdod lleol yn y 12 mis blaenorol;
- effeithiolrwydd ymatebion awdurdodau lleol i geisiadau pobl am wasanaeth a gwybodaeth;
- canfyddiadau pobl o newidiadau i wasanaethau awdurdodau lleol; a
- barn pobl am y ffordd y dylai awdurdodau lleol lunio a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Roeddem wedi bwriadu cynnal arolwg penodol o reolwyr awdurdodau lleol yn ymwneud ag atal a thrin y galw o fewn gwasanaethau digartrefedd. O gofio bod Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal arolwg o awdurdodau lleol o ran gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014, ni chynhaliwyd ein harolwg, er mwyn osgoi dyblygu gweithgarwch. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ei chanfyddiadau manwl i ni ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn ein hadolygiad.

Atodiad 2: Y dyletswyddau gwahanol ar gyfer sut mae awdurdodau'n rheoli digartrefedd yng ngwledydd y Deyrnas Unedig

Mae gan wledydd y Deyrnas Unedig fframweithiau statudol gwahanol sy'n nodi dyletswyddau awdurdodau i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae'r ffocws ar atal yng Nghymru yn wahanol iawn i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r ffordd yr ymdrinnir â digartrefedd ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Lloegr

Mae [Deddf Tai 1966](#) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu pa gymorth y dylent ei ddarparu i berson digartref neu rywun a allai fod yn ddigartref sy'n gofyn i awdurdod lleol am gymorth. Mae'r awdurdod lleol yn asesu:

- a yw'r ymgeisydd yn ddigartref;
- os felly, a wnaeth yr ymgeisydd ei hun yn ddigartref yn fwriadol;
- os aeth yn ddigartref yn anfwriadol, a oes ganddo gysylltiad lleol â'r awdurdod lleol y gwnaeth y cais iddo; ac
- a yw'r aelwyd mewn categori angen blaenoriaethol.

Dim ond i aelwydydd ag angen blaenoriaethol lle mae rhywun yn ddigartref yn anfwriadol y mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i sicrhau llety sefydlog iddynt.

Yn 2018 caiff y ddeddfwriaeth hon ei disodli gan ofynion [Deddf Lleihau Digartrefedd 2017](#) sy'n cyflwyno ystod o ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol gan ailgyflwyno llawer o'r dyletswyddau yn Neddf Tai (Cymru) 2014 a diwygio'r dyletswyddau digartrefedd a osodir ar awdurdodau lleol i sicrhau bod aelwydydd sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd yn cael help yn gynt ac atal digartrefedd lle bo'n bosibl.

Gogledd Iwerddon

O dan [Housing \(NI\) Order 1988](#), mae gan The Northern Ireland Housing Executive (NIHE) gyfrifoldeb statudol am fynd i'r afael â digartrefedd.

Mae'r dyletswyddau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i NIHE asesu'r rhai sy'n dweud eu bod yn ddigartref er mwyn penderfynu a ydynt yn bodloni pedwar prawf sef – cymhwysedd; digartrefedd; angen blaenoriaethol; a bwriadoldeb.

Bydd unrhyw aelwyd sy'n bodloni'r pedwar prawf hyn yn cael ei derbyn fel 'Ymgeisydd Dyletswydd Lawn' a bydd dyletswydd tai lawn yn ddyledus iddi.

Yr Alban

Mae Rhan II o'r [Housing \(Scotland\) Act 1987](#) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau 2001 a 2003) yn nodi pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol wrth ymdrin â cheisiadau gan bobl sy'n ddigartref neu sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd.

Mae'n ofynnol i bobl ddigartref/a allai fod yn ddigartref fynd i awdurdod lleol am gymorth ac mae'r cyngor yn asesu:

- a yw'r ymgeisydd yn ddigartref;
- a oes ganddo gysylltiad lleol ag awdurdod arall yng Nghymru, yr Alban neu Loegr; ac
- a wnaeth yr ymgeisydd ei hun yn ddigartref yn fwriadol.

Diddymwyd grwpiau ag Angen Blaenoriaethol o dan [Homeless \(Abolition of Priority Need Test\) \(Scotland\) Order 2012](#) ym mis Tachwedd 2012. O 31 Rhagfyr 2012 bydd gan bob aelwyd sy'n ddigartref yn anfwriadol yr hawl i gael llety sefydlog.

Cymru

Mae [Deddf Tai \(Cymru\) 2014](#) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol helpu pawb sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn hytrach na dim ond y rhai mewn grwpiau ag angen blaenoriaethol a rhaid i awdurdodau lleol:

- helpu unrhyw un sy'n cael ei fygwth gan ddigartrefedd o fewn y 56 diwrnod nesaf;
- rhoi cymorth i bobl ddigartref er mwyn eu helpu i gael cartref; a
- chanolbwyntio ar atal digartrefedd yn y lle cyntaf.

Gosodir dyletswyddau ar Gymdeithasau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i gydweithredu â gwasanaethau tai awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd.

Mae pŵer newydd hefyd yn hytrach na dyletswydd i gymhwyso'r prawf bwriadoldeb a phwerau newydd i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd drwy ddod o hyd i lety yn y sector rhentu preifat.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Ddyletswyddau Digartrefedd ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig.

Atodiad 3: Gwariant ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai fesul awdurdod lleol 2009-10 i 2015-16 mewn termau absoliwt (arian parod) a thermanau real

Y swm a wariwyd gan awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai yn y saith mlynedd diwethaf.

Awdurdod Lleol	2009-10 (£'000)	2010-11 (£'000)	2011-12 (£'000)	2012-13 (£'000)
Blaenau Gwent	419.504	519.68	434.584	377.883
Pen-y-bont ar Ogwr	1,384.127	1,270.981	1,006.296	996.609
Caerffili	809.2	684	710	897.951
Caerdydd	8,053	7,121	5,616	3,999
Sir Gaerfyrddin	2,670.556	1,473.219	1,715.154	2,079.044
Ceredigion	806	887	737.647	729.202
Conwy	2,295.85	2,101.72	1,928.592	1,723.948
Sir Ddinbych	866	828	747	822
Sir y Fflint	1,017	939	981	1,175.317
Gwynedd	1,189	1,823.603	1,797.574	1,884.677
Ynys Môn	932	1,588	1,125	1,106
Merthyr Tudful	361.008	344.515	264.3793	366.9204
Sir Fynwy	1,454	1,265.802	842.121	634.417
Castell-nedd Port Talbot	1,051	1,027.057	1,308	1,339.025
Casnewydd	1,928.757	1,833.022	1,963.46	2,230.607
Sir Benfro	1,154	805	572	578
Powys	675.212	520.276	489.343	469.337
Rhondda Cynon Taf	920.687	882.147	877.302	959.352
Abertawe	1,114	6,188	807	823
Torfaen	1,776	2,071	1,365	1,251
Bro Morgannwg	792	831	979	954
Wrecsam	1,237.132	1,430.474	1,721.1	1,676.509
CYFANSWM	32,906.03	36,434.5	27,987.55	27,073.8

Y swm a wariwyd gan awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd a chyngor ar dai yn y saith mlynedd diwethaf (parhad).

2013-14 (£'000)	2014-15 (£'000)	2015-16 (£'000)	Newid % (+/-)	Newid % mewn termau real
332.542	339.159	487.548	16.2	4.1
1,060.892	1,089.952	1,090.439	-21.2	-29.4
1,510.2	1,472.65	1,040	28.5	15.1
2,474.864	2,131	2,106.182	-73.8	-76.6
2,013.975	1,872.477	2,046.11	-23.4	-31.4
647.5	776.869	900.877	4	0.1
1,455.035	1,378.368	1,512.164	-34.1	-41
787	957	1,221	41	26.3
1,036.598	1,172.131	1,665.956	63.8	46.7
1,632.314	1,593.154	1,607.482	45.6	21.1
1,221	924	809	-13.2	-22.2
409.065	483.101	603.349	67.1	49.7
652.931	623.977	782.084	-46.2	-51.8
1,555	1,138	1,284	22.2	9.4
2,367.556	2,467.426	2,919.787	51.3	35.6
558	507	594	-48.5	-53.9
643.703	471	547	-18.9	-27.4
1,283.147	1,201.254	1,055.039	14.6	2.6
899	876	1,297	16.5	4.3
1,156	992.1519	1,209.206	-31.9	-39
501	725	1,016	28.3	14.9
1,298.544	903.4013	1,267.68	2.5	-8.2
25,495.87	24,095.07	27,061.9	-17.7	-26.3

Atodiad 4: Canlyniadau BetterConnected SOCITM ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2016-17

Sgoriau SOCITM ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru

Cyngor	Sgôr BetterConnected	Safon dyfeisiau symudol	Hygyrchedd
Sir y Fflint	3	Llwyddo	Llwyddo
Wrecsam	3	Llwyddo	Llwyddo
Powys	3	Llwyddo	Llwyddo
Castell-nedd Port Talbot	3	Llwyddo	Llwyddo
Caerdydd	3	Llwyddo	Llwyddo
Rhondda Cynon Taf	3	Llwyddo	Llwyddo
Torfaen	3	Llwyddo	Llwyddo
Casnewydd	3	Llwyddo	Llwyddo
Sir Ddinbych	3	Llwyddo	Methu
Abertawe	3	Llwyddo	Methu
Caerffili	3	Llwyddo	Methu
Gwynedd	2	Llwyddo	Llwyddo
Sir Benfro	2	Llwyddo	Llwyddo
Bro Morgannwg	2	Llwyddo	Llwyddo
Merthyr Tudful	2	Llwyddo	Llwyddo
Sir Fynwy	2	Llwyddo	Methu
Blaenau Gwent	2	Methu	Methu
Conwy	2	Methu	Methu
Ynys Môn	1	Methu	Llwyddo
Sir Gaerfyrddin	1	Methu	Llwyddo
Pen-y-bont ar Ogwr	1	Methu	Llwyddo
Ceredigion	1	Methu	Methu

Ffynhonnell: [SOCITM Better Connected](#).

Atodiad 5: Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a ddarparwyd ar wefannau cyngorau ar gyfer digartrefedd, cludiant ysgol a chasgliadau o wastraff swmpus yn 2016-17

Gwnaethom ddefnyddio graddfa pum pwynt yn amrywio o wael iawn i dda iawn i sgorio'r wybodaeth ar draws y 13 agwedd ganlynol. Mae'r ffigurau yn yr arddangosyn hwn yn dangos nifer yr awdurdodau lleol a gafodd sgôr o dda iawn neu dda ar draws y 13 agwedd.

Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o nifer yr awdurdodau sy'n cydymffurfio â'r safon

Llinellau ymholi allweddol	Gwasanaethau digartrefedd	Cludiant ysgol	Gwastraff swmpus
Cyfeirio – A yw'n hawdd dod o hyd i'r cynnwys? Ansawdd y peiriant chwilio	17	21	21
Eglurder – A yw'r cyfarwyddiadau yn hawdd i'w deall?	20	19	21
Cyflawnrwydd – A yw'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr ar gael?	16	17	16
Amseroldeb – A yw'r wybodaeth yn gyfredol?	3	9	5
Hygyrchedd – A yw'r wybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill, ffont mawr neu fformatau amgen? A yw'n bodloni safonau hygyrchedd ac ansawdd?	18	18	18
Cymorth – A all defnyddwyr gysylltu â'r awdurdod /siarad â rhywun yn yr awdurdod os oes angen?	17	12	19
Effeithiolrwydd – A yw'r cyngor a'r wybodaeth a ddarparwyd yn effeithiol?	9	10	12
Beth a ddarperir – A yw'n glir beth all y gwasanaeth ei ddarparu a beth na all ei ddarparu i ddefnyddwyr?	16	18	16

Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o nifer yr awdurdodau sy'n cydymffurfio â'r safon

Llinellau ymholi allweddol	Gwasanaethau digartrefedd	Cludiant ysgol	Gwastraff swmpus
Datrys problemau – A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn rhoi ateb i broblemau defnyddwyr?	14	18	19
Lleihau'r galw – A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn galluogi defnyddwyr i wneud cais am wasanaeth heb orfod cysylltu â'r awdurdod?	9	16	16
Cysylltiadau priodol – A yw'r wybodaeth yn cyfeirio defnyddwyr at ddarparwyr eraill?	15	2	18
Proses gwneud cais – A yw'r awdurdod yn caniatáu i bobl wneud cais ar-lein am y gwasanaeth y maent yn ceisio cael gafael arno?	3	16	13
Trin galwadau – A yw'r awdurdod yn defnyddio system trin galwadau ganolog?	19	13	17

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, adolygiad o wefannau awdurdodau lleol.

Atodiad 6: Yr amrywiaeth o opsiynau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a'u partneriaid i atal ymgeisydd rhag mynd yn ddigartref

Gwasanaethau a ddarperir i atal ymgeisydd rhag mynd yn ddigartref o dan Adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014

Opsiyau digartrefedd	Darpariaeth gan awdurdodau lleol		Provided by others		Dim darpariaeth	Cynnydd mewn darpariaeth ers Deddf 2014
	Oes	Nac oes	Oes	Nac oes		
Allgymorth	12	10	18	4	0	9
Cyfringu	9	13	19	3	0	10
Grant neu fenthyciad	19	3	9	13	0	18
Gwarantau o daliad	15	7	4	18	6	9
Cymorth i reoli dyledion/ôl-ddyledion morgais	18	4	19	3	0	15
Mesurau diogelwch ar gyfer ymgeiswyr sydd mewn perygl o gael eu cam-drin	14	8	18	4	0	8
Eiriolaeth	7	15	20	2	1	7
Ffurfiâu eraill ar gymorth tenantiaeth	16	6	19	3	0	13
Llety	17	5	19	3	1	14
Rhaglenni i gynyddu argaeledd llety fforddiadwy	15	7	12	10	2	10
Cynlluniau gosod tai cymdeithasol	14	8	14	8	3	9
Gwybodaeth a chyingor	22	0	17	5	0	14

Gwasanaethau a ddarperir i ymgeisydd o dan Adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Dyletswydd dros dro i sicrhau llety i ymgeiswyr digartref sydd ag angen blaenoriaethol)

Opsiyonau digartrefedd	Darpariaeth gan awdurdodau lleol		Provided by others		Dim darpariaeth	Cynnydd mewn darpariaeth ers Deddf 2014
	Oes	Nac oes	Oes	Nac oes		
Outreach	10	12	19	3	0	8
Mediation	9	13	19	3	1	5
Grant or loan	20	2	6	16	2	9
Guarantees of payment	14	8	4	18	8	7
Support managing debt/mortgage arrears	14	8	15	7	2	11
Security measures for applicants at risk of abuse	11	11	16	6	2	6
Advocacy	6	16	19	3	2	5
Other forms of tenancy support	13	9	17	5	0	7
Accommodation	14	8	18	4	1	11
Programmes to increase availability of affordable accommodation	15	7	10	12	2	7
Social housing lettings schemes	11	11	13	9	3	6
Information and advice	21	1	12	10	1	10

Ffynhonnell: gwerthusiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd (Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) Adroddiad Interim, 8 Awst 2017, Llywodraeth Cymru. Daw'r ffigurau hyn o ymatebion awdurdodau lleol ac 'eraill'.

Atodiad 7: Y prif reswm dros gael eich bygwth gan ddigartrefedd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn 2015-16 a 2016-17 a'r newid mewn perfformiad

Y prif resymau pam mae pobl yn cael eu bygwth gan ddigartrefedd yng Nghymru

Rhesymau dros gael eich bygwth gan ddigartrefedd	2015-16	2016-17	Newid %
Colli llety rhent neu lety clwm	2,481	3,345	34.8%
Rhiant yn amharod i gynnig llety neu'n methu â chynnig llety	1,011	1,317	30.3%
Y berthynas â phartner yn chwalu	960	1,137	18.4%
Ôl-ddyledion rhent	681	924	35.7%
Perthnasau neu ffrindiau eraill yn amharod i gynnig llety mwyach neu'n methu â gwneud hynny	657	870	32.4%
Eiddo cyfredol yn anaddas	321	348	8.4%
Arall (gan gynnwys bod yn ddigartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o dramor, cysgu ar y stryd neu mewn hostel)	213	336	57.5%
Nid yw'r eiddo cyfredol yn fforddiadwy	213	249	16.9%
Mewn sefydliad neu mewn gofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, y fyddin ac ati)	246	234	-4.9%
Ôl-ddyledion morgais (adfeddiannu neu golli cartref neu ffordd arall)	138	192	39.1%
Gadael carchar	99	159	60.6%
Trais ac aflonyddu	108	93	-13.9%
CYFANSWM	7,128	9,210	29.2%

Ffynhonnell: HOUS0430, aelwydydd y gwelwyd eu bod wedi cael eu bygwth gan ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros gael eich bygwth gan ddigartrefedd yn ôl y math o aelwyd (Adran 66), ffurflen flynyddol i StatsCymru.

Atodiad 8: Aelwydydd a gafodd lety dros dro ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru fesul math o lety a chwarter yn 2015-16 a 2016-17

Yr amrywiaeth o lety dros dro a ddarparwyd i bobl ddigartref gan awdurdodau lleol yn y ddwy flynedd ddiwethaf

Llety dros dro a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol	Ebrill – Mehefin 2015	Gorffennaf – Medi 2015	Hydref – Rhagfyr 2015	Ionawr – Mawrth 2016	Ebrill – Mehefin 2016	Gorffennaf – Medi 2016	Hydref – Rhagfyr 2016	Ionawr – Mawrth 2017	Newid % dros y cyfnod
Llety yn y sector preifat	729	738	726	801	786	807	837	786	7.8%
Llety yn y sector cyhoeddus	435	417	396	411	393	393	453	432	-0.7%
Hostelau a llochesau i fenywod	426	459	432	498	534	501	474	549	28.9%
Gwely a brecwast	168	156	132	108	135	138	153	189	12.5%
Yn ddigartref gartref	81	111	90	60	72	81	36	54	-33.3%
Arall	33	0	3	0	9	3	0	3	-90.9%
Cyfanswm a gafodd lety ar ddiwedd y chwarter	1,872	1,881	1,779	1,875	1,926	1,923	1,953	2,013	7.5%

Ffynhonnell: HOUS0420, aelwydydd a gafodd lety dros dro yn ôl y math o lety a'r math o aelwyd, ffurflenni data chwarterol i StatsCymru.

Atodiad 9: Enghreifftiau o ddulliau strategol o atal a rheoli'r galw

Enghreifftiau o arfer da sy'n dangos sut mae sefydliadau'n ceisio mynd i'r afael â'r galw ac yn ei reoli

Cyngor Swydd De Northampton

Mae Strategaeth Atal a Galw Cyngor Swydd De Northampton ar gyfer gwasanaethau oedolion a gofal cymdeithasol yn cynnwys dadansoddiad o pam mae prosiectau'n methu a ffocws cryf ar gymorth hunangyfeiriedig. Mae Strategaeth Comisiynu Cymorth Cynnar ac Atal bellach ar waith i ddarparu'r llwyfan ar gyfer ail-gomisiynu gwasanaethau. Caiff hon ei llywio gan Ddadansoddiad o Anghenion Cymorth Cynnar.

Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban yn cydnabod, drwy gydweithredu'n effeithiol â'i bartneriaid ar flaenoriaethau a rennir, y bydd yn lleihau'r risg i gymunedau ac, yn ei dro, yn lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus allweddol eraill megis NHS Scotland, Police Scotland a gwasanaethau cymdeithasol. Mae eu cynlluniau tân ac achub lleol yn nodi sut y dylai'r galw, yn nhrefn amser, gyfrannu at allu partneriaid i leihau eu gwariant eu hunain gan roi amser iddynt ganolbwyntio eu hadnoddau ar flaenoriaethau eraill.

Partneriaeth Caeredin

Yn 2014, cynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â Phartneriaeth Caeredin er mwyn helpu i nodi 'wicked or intractable issues', y mae angen gwneud ymdrech ar y cyd i gefnogi cam llwyddiannus tuag at atal. Un canfyddiad pwysig yw bod ymyriadau yn aml ar lefel unigol, ac er bod digon o adnoddau efallai i ymyrryd, mae ymateb y gwasanaethau cyhoeddus yn aml wedi ei gydlynu'n wael, yn rhy araf ac mae ymyriadau'n seiliedig ar reddf a barn dechnocratig yn hytrach na gwerthusiad cadarn a dealltwriaeth ffeithiol o'r hyn sy'n gweithio. Mae Cynllun Strategol Atal Partneriaeth Caeredin ar gyfer 2015-18 yn nodi ei hymateb i ganfyddiadau'r ymgynghoriad. Blaenoriaethwyd yr ymdrechion gan greu naw Enghraifft Atal allweddol sy'n cynrychioli cynllun mwy realistig, fforddiadwy a chyflawnadwy. Mae camau gweithredu'n cynnwys mabwysiadu dull cryfach o lawer o roi cymorth i'r aelwyd a'r teulu cyfan. Mae meithrin gwydnwch cymunedol a chapasiti cymunedol yn cael blaenoriaeth uchel ac yn cynnwys mapio galluedd y sefydliad gan gynnwys pwy sy'n gwneud beth ac atgyfnerthu rhwydweithiau mewn cymdogaethau.

Rheoli'r galw mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hanes da o gynllunio agweddau ar eu gweithgarwch dros y tymor hwy. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015-19, sy'n pennu gweledigaeth ar gyfer yr ardal yn 2050, ac mae'r cynllun hirdymor hwn yn arwain dull yr awdurdod o ymdrin ag ecosystemau o fewn y Parc. Mae Fforwm Parciau Cenedlaethol a Llesiant y DU yn rhwydwaith o ymarferwyr, rheolwyr, cynllunwyr ac ymchwilwyr sy'n gysylltiedig â hyrwyddo gwerth hirdymor yr amgylchedd a chadwraeth natur ar gyfer llesiant. Un o'i dasgau yw deall y ffordd orau o annog twristiaeth gynaliadwy ac atal yr agweddau mwy niweidiol ar ymweld â'r parciau.

Heddlu Glannau Humber

Mae Heddlu Glannau Humber yn cynnwys Rheoli'r Galw yn Strategol fel un o'i themâu craidd ar gyfer gweithredu yn ei gynllun plismona a throsteddu cyfredol. Mae hyn yn adeiladu ar waith a ddatblygwyd o'i Strategaeth Ymyrraeth Gynnar. Yn ddiweddar, adolygodd Heddlu Glannau Humber y ffyrdd gwahanol o ddsbarthu'r mathau o alw y mae'n eu hwynebu ac ochr yn ochr â phartneriaid gwnaeth flaenoriaethu'r ymateb i'r mathau gwahanol o alw. O ganlyniad i gydweithrediad agos, cafodd y gwaith o reoli'r galw yn strategol ei integreiddio yn yr agweddau Datblygu Sefydliadol ar gynlluniau corfforaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Glannau Humber.

Cyngor Calderdale

Mae gan fframwaith rheoli'r galw yng Nghyngor Calderdale dair blaenoriaeth: rhannu ac integreiddio gwasanaethau gan gynnwys cael eraill i rannu'r baich; hybu a dylanwadu ar newid mewn ymddygiad; a rheoli disgwyliadau drwy greu cydberthynas fwy cytbwys rhwng y cyngor a phobl yn Calderdale. Mae llwyddiannau'n cynnwys lleihau nifer y teithiau car a'r tagfeydd traffig drwy integreiddio atebion trafndiaeth, megis cysylltu amserlenni bysiau lleol ag amseroedd trenau. Mae'r galw am barcio ceir yn lleihau oherwydd system well o rannu ceir, integreiddio llwybrau beicio â chynlluniau priffyrdd, a gweithio gyda'r sector preifat i gynnig mwy o ddewis a llai o ddibyniaeth ar gludiant ysgol y cyngor.

Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid bwrdd iechyd lunio asesiad o ofal a chymorth eu poblogaethau preswyl. Bydd yr asesiadau'n helpu awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddeall yn well eu poblogaeth a sut y gallai newid dros y blynyddoedd i ddod er mwyn eu helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o feysydd penodol o wasanaethau a ddarperir gael eu cynnwys yn yr asesiad, gan gynnwys digartrefedd.

Mae'r adran ar asesiad o anghenion poblogaeth Gogledd Cymru ar ddigartrefedd yn nodi pedwar maes lle mae bylchau mewn gwasanaethau neu gymorth ar hyn o bryd:

- Dim llety i berson sengl
- Darpariaeth gyfyngedig o ran hostelau
- Prinder darpariaeth arbenigol
- Bylchau mewn gwasanaethau cymorth

Mae'r asesiad hefyd yn dangos bod awdurdodau lleol yn wynebu heriau drwy newidiadau i'r budd-daliadau lles, nad ydynt wedi'u cyflawni'n llwyr eto. Mae angen i awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod gwasanaethau cymorth y trydydd sector yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol â gwasanaethau statudol i fodloni'r galw cynyddol. Mae'r asesiad yn nodi risg i'r datblygiad parhaus wrth fynd i'r afael â digartrefedd drwy golli cyllid pontio Llywodraeth Cymru.

Atodiad 10: Ystyriaethau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth reoli galw

Agweddau allweddol ar reoli galw	Nodweddion gwaith rheoli galw yn dda	Rydym yn dda am wneud hyn	Mae angen i ni wella hyn	Nid ydym yn gwneud hyn
Gwyddom beth mae'n rhaid i ni ei wneud	Gwyddom beth yw'n rhwymedigaethau cyfreithiol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Gwyddom beth sydd ei angen ar ddinasyddion a sut y dylai ein gwasanaethau gael eu darparu iddynt.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Gwyddom pa wasanaethau a ddarperir gennym ni a'n partneriaid perthnasol ar hyn o bryd.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Gwyddom o ble y darperir gwasanaethau gan gynnwys gwasanaethau gan bartneriaid perthnasol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Caiff ein gwasanaethau eu trefnu i wneud yr hyn sydd angen i ni ei wneud yn gyflym ac yn effeithlon	Rydym yn cynnig ystod o opsiynau i ddinasyddion gysylltu â ni i gael yr help sydd ei angen arnynt - swyddfa, ffôn, cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Caiff newidiadau i wasanaethau eu treialu a'u gwerthuso cyn iddynt gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn iawn i'n dinasyddion.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Caiff ein prosesau rheoli eu llunio i osgoi methiant yn y system, er enghraifft, nid ydym yn ceisio canslo ceisiadau, rydym yn lleihau amseroedd aros cymaint â phosibl ac nid ydym yn oedi cyn ymateb i ddinasyddion.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Agweddau allweddol ar reoli galw	Nodweddion gwaith rheoli galw yn dda	Rydym yn dda am wneud hyn	Mae angen i ni wella hyn	Nid ydym yn gwneud hyn
Caiff ein gwasanaethau eu trefnu i wneud yr hyn sydd angen i ni ei wneud yn gyflym ac yn effeithlon	Rydym wedi trefnu gwasanaethau i ddatrys materion yn gyflym ac ar y pwynt cyswllt cyntaf.			
	Rydym wedi cynllunio gwasanaethau er mwyn osgoi creu galw yn anfwriadol ac atgyfnerthu dibyniaeth.			
	Nid ydym yn mabwysiadu dull porthgadw o ran mynediad at wasanaethau ac rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth.			
	Mae gennym ddulliau brysbennu effeithiol er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf yn cael help mor gyflym â phosibl a bod ymatebion amgen gennym ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion lleiaf.			
	Mae gennym brosesau gwneud cais clir a chryno.			
	Mae dinasyddion yn gwneud cais i ni unwaith am wasanaeth - ni chaiff ein prosesau gwneud cais ac asesu eu dyblygu rywle arall o fewn yr awdurdod na chan ein partneriaid.			
	Mae gennym brosesau gwneud cais byr o'r dechrau i'r diwedd (o ofyn am wasanaeth hyd at ei gael) gydag ond rhai camau cymeradwyo.			

Agweddau allweddol ar reoli galw	Nodweddion gwaith rheoli galw yn dda	Rydym yn dda am wneud hyn	Mae angen i ni wella hyn	Nid ydym yn gwneud hyn
Caiff ein gwasanaethau eu trefnu i wneud yr hyn sydd angen i ni ei wneud yn gyflym ac yn effeithlon	Rydym yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ymholiadau a cheisiadau pan fydd dinasyddion yn cysylltu am y tro cyntaf.	✗	✗	✗
	Rydym yn gwneud y penderfyniad cywir yn gyflym wrth adolygu a chymeradwyo ceisiadau am wasanaeth.	✗	✗	✗
	Gallwn symud adnoddau i reoli'r galw yn gynnar a darparu gwasanaethau yn agos at ddefnyddwyr y gwasanaethau er mwyn gwella ein gwaith atal pan fydd angen i ni wneud hynny.	✗	✗	✗
Mae dinasyddion yn gwybod beth mae ganddynt yr hawl i'w gael a ble i fynd am help	Rydym yn rhoi gwybodaeth hygyrch o ansawdd da i ddinasyddion drwy ystod eang o sianeli priodol.	✗	✗	✗
	Rydym wedi nodi'n glir beth mae gan ddinasyddion yr hawl i'w gael.	✗	✗	✗
	Rydym yn dweud wrth ddinasyddion beth y gallwn ac na allwn ei wneud.	✗	✗	✗
	Rydym yn nodi'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar ddinasyddion ar y pwynt cyswllt cyntaf.	✗	✗	✗

Agweddau allweddol ar reoli galw	Nodweddion gwaith rheoli galw yn dda	Rydym yn dda am wneud hyn	Mae angen i ni wella hyn	Nid ydym yn gwneud hyn
Mae dinasyddion yn gwybod beth mae ganddynt yr hawl i'w gael a ble i fynd am help	Rydym yn rhoi'r holl wybodaeth a chymorth i ddinasyddion sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i'w hateb eu hunain i'r problemau sydd ganddynt.			
	Rydym yn defnyddio iaith hygyrch a syml yn ein deunyddiau ysgrifenedig.			
	Rydym wedi profi bod defnyddwyr yn deall ein gwybodaeth ysgrifenedig yn dda, gan gynnwys y rhai a allai fod yn bryderus neu'n ansicr ynghlŷn â'u dyfodol.			
	Rydym yn glir ynghylch rôl defnyddwyr gwasanaethau yn ein prosesau gwneud cais ac asesu ac rydym wedi dweud wrthynt sut y gallant helpu'r broses i fynd rhagddi'n fwy llyfn a chyflym.			
	Caiff ein deunydd ysgrifenedig ei lunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc ac mae'n cynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au).			
	Seilir y prosesau apeliadau a chwynion ar degwch a chydraddoldeb i bawb dan sylw ac maent wedi'u nodi'n glir ac yn hygyrch i bawb.			

Agweddau allweddol ar reoli galw	Nodweddion gwaith rheoli galw yn dda	Rydym yn dda am wneud hyn	Mae angen i ni wella hyn	Nid ydym yn gwneud hyn
Mae dinasyddion yn gwybod beth mae ganddynt yr hawl i'w gael a ble i fynd am help	Rydym yn profi sut rydym yn ymgysylltu â dinasyddion ac yn darparu gwasanaethau iddynt, ac rydym yn defnyddio adborth i wella'r ffordd rydym yn hysbysu, yn cynnwys ac yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.			
	Nid oes raid i ddinasyddion ddod ar ein hôl ni i gael ymateb.			
Rydym yn gweithio'n dda ac yn cydweithredu ag eraill	Rydym wedi cytuno â phartneriaid beth yw ein disgwyliadau ohonynt a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud.			
	Mae ein partneriaid yn glir ynglŷn â'u rôl.			
	Rydym wedi cytuno ar brotocolau data a rhannu gwybodaeth â phartneriaid.			
	Mae protocolau data a rhannu gwybodaeth yn gweithio'n effeithiol.			
	Rydym yn integreiddio ein gwasanaethau digidol â phartneriaid er mwyn gwella hygyrchedd a chynyddu'r defnydd ohonynt.			
	Mae gennym brosesau a systemau atgyfeirio, gwneud cais ac asesu ar y cyd â'n partneriaid.			

Agweddau allweddol ar reoli galw	Nodweddion gwaith rheoli galw yn dda	Rydym yn dda am wneud hyn	Mae angen i ni wella hyn	Nid ydym yn gwneud hyn
Rydym yn gweithio'n dda ac yn cydweithredu ag eraill	Rydym yn cyd-leoli gwasanaethau â phartneriaid pan a lle bod angen.	✗	✗	✗
	Gwyddom fod dinasyddion sy'n cael help yn cael gwasanaeth gennym ni a/neu ein partneriaid.	✗	✗	✗
	Rydym yn cyfeirio defnyddwyr gwasanaethau at sefydliadau eraill sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys eu problemau a gwnawn hynny mewn ffordd effeithiol.	✗	✗	✗
Gwyddom fod gwasanaethau'n cael yr effaith gywir	Rydym yn casglu ac yn dadansoddi'r data cywir i'n galluogi i nodi lle mae angen i ni fuddsoddi ein hadnoddau.	✗	✗	✗
	Rydym yn casglu ac yn dadansoddi'r data cywir i gynllunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl orau.	✗	✗	✗
	Mae cywirdeb ein data yn dda.	✗	✗	✗
	Mae ein data yn cwmpasu gwaith yr awdurdod a'n partneriaid.	✗	✗	✗
	Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth mewn amser real.	✗	✗	✗
	Rydym yn gallu dangos bob gan bob dinesydd fynediad cyfartal i wasanaethau.	✗	✗	✗

Agweddau allweddol ar reoli galw	Nodweddion gwaith rheoli galw yn dda	Rydym yn dda am wneud hyn	Mae angen i ni wella hyn	Nid ydym yn gwneud hyn
Gwyddom fod gwasanaethau'n cael yr effaith gywir	Rydym yn meincnodi ein perfformiad â sefydliadau eraill i farnu ein perfformiad a'n heffaith.			
	Gwyddom beth sydd angen i ni ei wneud i wella ein gwasanaeth.			
Gwyddom beth sydd angen i ni ei newid ac rydym wedi cytuno ar flaenoriaethau ar y cyd i gyflawni gwelliant.	Rydym wedi cynnwys ein partneriaid ac wedi cytuno ar ein blaenoriaethau gyda nhw.			
	Rydym wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth gytuno ar beth a ble y mae angen i ni wella.			
	Mae ein hatebion cynlluniedig yn ystyried y sefyllfa yn yr hirdymor.			
	Rydym yn nodi atebion cynaliadwy.			
	Rydym yn canolbwyntio ar wella'r ffordd rydym yn atal y galw.			

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru



Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Huw Vaughan Thomas
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

14 December 2017

Dear Huw,

Response to the Report of the Wales Audit Office on the National Procurement Service

We welcome the findings of the report and I am pleased to offer the following response to the five recommendations contained within it at Annex A. I hope that this is helpful.

Yours sincerely

James Price

Annex A

Recommendation 1

We recommend that the National Procurement Service:

- **identify in full the reasons why its members are choosing to use local arrangements or other public buying organisations or consortia to purchase common and repetitive goods and services provided through NPS frameworks;**
- **develop an action plan for working with public bodies to articulate the benefits of using NPS to buy common and repetitive goods and services and to encourage them to use it;**
- **examine whether frameworks and contracts can give more commitment to volumes and measure the appetite among members to develop joint specifications;**
- **explore the possibilities of more regional frameworks to increase opportunities for small and medium-sized enterprises; and**
- **survey its members and non-members on an annual basis to obtain views on the service it provides.**

Accepted

The work is in hand. During the spring of 2017 the NPS offered its customers the opportunity to comment on the effectiveness of frameworks. The 17 responses received to date, supplemented by the on going dialogue facilitated by the stakeholder management team are providing key insights and observations.

The benefits of using NPS to buy common and repetitive goods and services and to encourage them to use it has been subject to a work at NPS board level. In addition, a new NPS five year procurement pipeline that has embraced this early work is now being consulted upon.

Frameworks are now being routinely examined to further embrace commitment with extensive support being provided to mini committed mini competition activity.

While NPS agreements are developed and structured based upon extensive customer and market engagement lessons learnt continue to be embraced and the NPS is now exploring regionalised approaches with its members. A recent pilot where the NPS supported seven South West Local Authorities in delivering their engineering consultancy requirements was positively received.

While as noted a member's surveys was undertaken specifically in relation to framework usage a wider annual survey to measure views on the services the NPS provides will be implemented.

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director Value Wales
30 September 2018

Recommendation 2

We recommend that in consultation with its members, NPS review the opt-out process and make changes to ensure that it is clearly understood, meaningful and applied consistently.

Accepted

In hand. The opt out process has been discussed by the NPS Board and Delivery Group. Whilst it is agreed the existing approach does not work, the NPS Board have been considering what could replace this. The Cabinet Secretary for Finance published a Written Statement of 21 September announcing work to re-focus NPS and Value Wales. This will take the form of a Review that will include a work package to agree a new process following consultation with members.

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
31 March 2018

Recommendation 3

We recommend that the Welsh Government, the NPS and member organisations agree a sustainable funding mechanism that will place NPS on a sound financial footing.

Accepted

The Cabinet Secretary for Finance published a Written Statement of 21 September announcing work to re-focus NPS and Value Wales. This will take the form of a Review that will include a work package to explore organisational agreement to a sustainable funding mechanism

Timescale and Lead

Marion Stapleton, Deputy Director, Wales Copying Strategy Team
30 September 2018

Recommendation 4

We recommend that in future annual reports, the NPS include in the key achievements section a summary of actual spend through its frameworks.

Accepted

This work is in hand and this information will be reported in the forthcoming NPS report for 2016/17

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
31 January 2018

Recommendation 5

We recommend that NPS make members more aware of the provisions it is making through its various reporting channels to support opportunities for small to medium enterprises

Accepted

This work is in hand. The NPS has commenced the production of a series of case study reports that will help raise awareness of this work

Timescale and Lead

Jonathan Hopkins, Deputy Director, Value Wales
On going

The timescales indicated for addressing each recommendation are best informed forecast at this stage, pending the impact of the review of NPS and Value Wales, announced by the Cabinet Secretary for Finance and Local Government on 21 September.

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group

Eitem 2.4



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AG/AWL/SB

22 Rhagfyr 2017

Annwyl Mr Ramsay

Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd 2017, gweler isod ymateb i'ch cais am eglurhad pellach am y materion a amlygwyd yn y *Zero Based Review* a gynhaliwyd o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Dyma'r prif gasgliadau y daethpwyd iddynt o dan y pedwar maes allweddol a aseswyd fel rhan o'r adolygiad hwnnw:

- Demograffeg

Mae poblogaeth ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gymharol hen, sef yn hŷn na'r cyfartaledd ar draws Cymru, a gallai hynny effeithio ar lefelau cyfleustodau a chostau darparu gofal iechyd. Gallai hyn yn ei dro ychwanegu at gostau yn y sector aciwt. Hefyd, er bod gan amddifadedd y potensial i effeithio ar gostau, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn sefyllfa ganolig o ran lefelau amddifadedd yng Nghymru, ac o'r herwydd ni nodwyd bod unrhyw gostau ychwanegol mewn perthynas â hyn yn dod i ran y Bwrdd.

- Pellteroedd

Nid oedd y dadansoddiad o gostau yn dangos bod cysylltiad rhwng pellteroedd daearyddol a chostau staffio ychwanegol o fewn y Bwrdd Iechyd.

- Patrymau gwasanaethau (graddfa)

Gan mai pedwar prif ysbyty aciwt bach sydd gan y Bwrdd, roedd yna dystiolaeth y gallai annarbodion maint ychwanegu at gostau yn y sector aciwt.



- Effeithlonrwydd

O gymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyfle o ran ei weithgarwch a chostau uned i wella effeithlonrwydd a lleihau costau.

Mae casgliadau'r adroddiad wedi cael eu rhannu gyda Bwrdd Hywel Dda, drwy gyfrwng cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb a roddwyd gan Deloitte i aelodau'r Bwrdd ar 14 Rhagfyr 2017.

Rydym wrthi'n ystyried ein hymateb i gasgliadau'r adolygiad, a byddwn yn rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol maes o law. Bydd swyddogion wedyn yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu a chytundebau drwy'r cyfarfodydd ymyrraeth wedi ei thargedu a gynhelir gyda'r Bwrdd bob mis, sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflwyno ei gynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y cynhaliwyd yr adolygiad hwn, ac ni chafodd ei gynnal o fewn unrhyw Fwrdd Iechyd arall. Felly, nid yw'r posibilrwydd bod costau ychwanegol yn deillio o batrymau gofal iechyd mewn Byrddau Iechyd eraill wedi ei asesu. Fodd bynnag, mae'r adolygiad wedi darparu tystiolaeth a all gyfrannu at waith arall, yn benodol y dadansoddiad demograffig o broffiliau yn ôl oedran a rhyw mewn lleoliadau gwahanol, yn ogystal â newidiadau yn y boblogaeth dros gyfnod o amser, a bydd hyn yn helpu gyda'r adolygiad o'r fformiwla dyrannu adnoddau.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

03 Ionawr 2018

Annwyl Mr Ramsay

Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai

Gan gyfeirio at gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddydd Llun 4 Rhagfyr 2017 ynghylch Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai, gofynnodd Clerc y Pwyllgor am ymateb i'r cam gweithredu canlynol y cytunwyd arno:

- anfon rhagor o wybodaeth am yr amserlen i gyflwyno system genedlaethol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) a system arlwyo Cymru gyfan.

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

Ar hyn o bryd mae naw Awdurdod Lleol yn defnyddio'r system ynghyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae disgwyl i dri Awdurdod Lleol arall fabwysiadu'r system yn gynnar yn 2018. Gweithredu'r system WCCIS o fewn Byrddau Iechyd fydd prif ffocws y rhaglen dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae pump o Fyrddau Iechyd yn symud ymlaen â gorchmynion i ddefnyddio'r system a fydd, ar ôl eu llofnodi, yn cadarnhau'r amserlen i roi hynny ar waith.

Gallaf gadarnhau i'r Adolygiad Gateway roi Aseiad Hyder Cyflawni lefel Oren, ac mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddo i sicrhau bod y prif gamau gweithredu sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon.

System arlwyo Cymru gyfan

Cytunwyd y bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gaffael a gweithredu system TG Arlwyo a Maeth i Gymru yn unol â'r amserlen ffurfiol ganlynol. Ar ôl y gwaith paratoi a'r broses gymeradwyo broffesiynol:



- Ionawr 2018 - cychwyn ar fanyleb ffurfiol fanwl y system i'w defnyddio yn y broses gaffael.
- Medi 2018 - cychwyn proses gaffael OJEU, gan ddyfarnu'r fframwaith ym mis Mehefin 2019.
- Mehefin 2019 - datblygu, profi a threialu'r system newydd o fewn un Bwrdd Iechyd.
- Hydref 2019 - y fframwaith ar gael i sefydliadau GIG Cymru ei ddefnyddio i ofyn am gynigion. Bydd angen i drefniadau gweithredu o fewn Bwrdd neu Ymddiriedolaeth fod yn unol â chynlluniau gwella gwasanaeth arlwyyo ehangach y sefydliad.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i chi.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall



Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

Dyddiad: 6 Rhagfyr 2017

Annwyl Mr Ramsay

DIOGELWCH CYMUNEDOL YNG NGHYMRU

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 28 Gorffennaf yr wyf bellach yn gallu cadarnhau y bwriedir cyhoeddi yr adroddiad terfynol o *Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel* ar brynhawn dydd Mawrth 12 Rhagfyr.

Bydd ei gyhoeddiad yn cyd-fynd â datganiad llafar i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r ffordd ymlaen.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cynnig i chi a chyd-Aelodau y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gael sesiwn briffio technegol anffurfiol gan swyddogion, yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, y gellid ei drefnu pan fo'n gyfleus yn gynnar yn y newydd Flwyddyn.

Croeso i chi gysylltu â mi i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer y briffio os ydych chi'n teimlo y byddai hyn yn fuddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir

REG KILPATRICK

Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol / Director for Local Government



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 03000 250913
reg.kilpatrick@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel

Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru

Rhagfyr 2017



CYNNWYS

Ein Gweledigaeth ar gyfer Diogelwch Cymunedol yng Nghymru	2
Crynodeb Gweithredol	3
Cefndir	12
Cyd-destun	15
Nodau ac Amcanion	21
Fframwaith a Methodoleg	23
Canfyddiadau a Chasgliadau	28
Beth y Mae Angen Iddo Newid?	76
Y Ffordd Ymlaen	83
Rhestr Termau	87

Atodiadau:

Atodiad i	Yr Adroddiad Diogelwch Cymunedol yng Nghymru (Hydref 2016)
Atodiad ii	Llythyr Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Atodiad iii	Datganiad y Gweinidog (Mawrth 2017)
Atodiad iv	Amodau Gorchwyl y Grŵp Trosolwg
Atodiad v	Fframwaith yr Adolygiad
Atodiad vi	Methodoleg yr Adolygiad
Atodiad vii	Adroddiad Asesu Sylfaenol Prifysgol De Cymru
Atodiad viii	Dogfen Mapio'r Rhanddeiliaid
Atodiad ix	Gweithgarwch Ymgynghori â Rhanddeiliaid
Atodiad x	Fframwaith ar gyfer Newid

Ein Gweledigaeth ar gyfer Diogelwch Cymunedol yng Nghymru

Mae ein gweledigaeth yn un ar gyfer Cymru lle mae'r canlynol yn wir:

- » Mae pob cymuned yn gryf, yn ddiogel ac yn hyderus mewn modd sy'n darparu cyfle cyfartal a chyfiawnder troseddol, cydnerthedd a chynaliadwyedd ar gyfer pawb;
- » Mae gan y Llywodraeth ac asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydgyfrifoldeb am gydweithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'r sector preifat i fynd i'r afael â gweithgarwch neu ymddygiad sy'n anghyfreithlon, yn wrthgyrmyddiol, yn niweidiol i unigolion a'r gymdeithas ac i'r amgylchedd;
- » Bydd rhannu gwybodaeth a sicrhau yr ymyrrir yn gynnar gyda chamau gweithredu prydlon, cadarnhaol yn mynd i'r afael â materion lleol ac yn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed.

Bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu trwy weithgarwch cydweithredol ac amlasiantaeth integredig sydd:

- Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth;
- Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;
- Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;
- Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys;
- Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl;
- Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.

Crynodeb Gweithredol

Y flwyddyn nesaf bydd hi'n 20 mlynedd ers cyflwyno Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 a sefydlodd gysyniad gweithio mewn partneriaeth statudol i fynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol ac a greodd ddyletswydd gyfreithiol i awdurdodau lleol, heddluoedd ac, yn y pen draw, gwasanaethau iechyd, tân a phrawf gydweithio i atal a lleihau 'troseddau ac anhrefn' yn eu priod gymunedau.

Fe awgrymodd Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru y llynedd, *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru*, nad oedd partneriaethau diogelwch cymunedol (PDCau) yng Nghymru mor effeithiol ag y gallent neu y dylent fod ac fe amlygodd nifer o feysydd ar gyfer gwelliant sylweddol.

Fe gyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol saith argymhelliad a oedd yn cynnwys sefydlu strategaeth a chorff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol, a'r rheiny'n cael eu hategu gan fyrddau rhanbarthol a chynlluniau gweithredu cynhwysfawr, adolygiad o drefniadau ariannu a chyfres newydd o ddangosyddion perfformiad allweddol. Awgrymwyd y dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol ddiwygio mecanweithiau monitro ac adolygu, yn seiliedig ar risg, ac y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) Cymru arwain ar ymgysylltu â dinasyddion mewn perthynas â materion diogelwch cymunedol.

Mewn ymateb, hysbysodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynnal adolygiad ehangach o Ddiogelwch Cymunedol ac yn diwygio'r drefn er mwyn "symud yr agenda diogelwch cymunedol yn ei blaen" ac ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

Er bod yr egwyddor 'partneriaeth' sylfaenol yn Neddf 1998 yn dal i fod yn wir, mae'r amodau cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol presennol yng Nghymru bellach yn sylweddol wahanol i'r cyd-destun a oedd yn bodoli pan sefydlwyd 'Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn'. Mae'r heriau presennol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru'n cynnwys: dylanwad cynyddol datganoli; ystod ehangach o 'fathau newydd o droseddau' megis caethwasiaeth fodern a throseddau casineb; bygythiad cynyddol terfysgaeth ryngwladol; a dylanwad sylweddol seicoweithredol newydd a

seiberdroseddu, i enwi dim ond rhai. Mae strwythurau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi newid yn sylweddol ers diwedd y 1990au a bu addasiadau niferus i'r ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun.

Wrth gyhoeddi natur a chwmpas yr adolygiad ym mis Mawrth eleni, meddai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Carl Sargeant AC: "Rwyf am i'r adolygiad gynnwys syniadau uchelgeisiol, a datblygu gweledigaeth glir ar gyfer diogelwch cymunedol a fydd yn gynaliadwy yn yr hirdymor, yn ogystal â bod yn gadarn, yn berthnasol ac yn ymatebol. Nawr, mae gennym gyfle newydd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i bennu dull cynaliadwy o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru, a fydd yn creu cymunedau mwy diogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Sefydlwyd Grŵp Trosolwg gan Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod adolygiad seiliedig ar dystiolaeth o ansawdd da yn cael ei gyflawni, a hwnnw'n cael ei gadeirio Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Cyngor y Prif Swyddogion Heddlu, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), Cyfiawnder Cymunedol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) Cymru.

Cytunodd y Grŵp Trosolwg i ddatblygu'r adolygiad trwy chwe cham allweddol, y gall rhai ohonynt gydredeg â'i gilydd, sef:

- Diweddarau'r Prosesau Asesu a Chynllunio Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol
- Adolygiad a dadansoddiad bwrdd gwaith o dystiolaeth a data presennol
- Ymgynghori a chyflwyno tystiolaeth newydd (gan gynnwys astudiaethau achos)
- Llunio argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau
- Profi'r argymhellion drafft, neu gynnal gwiriad realiti ohonynt
- Cyhoeddi'r argymhellion terfynol

Defnyddiodd tîm adolygu Llywodraeth Cymru bedwar trywydd ymholi, a ddatblygwyd ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gydymffurfio â'r Egwyddor

Datblygu Cynaliadwy (a adwaenir fel y 'Pum Ffordd o Weithio') yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, i geisio adnabod y rhwystrau a'r ffactorau galluogi sy'n effeithio ar drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru:

1. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i gynyddu i'r eithaf/sefydlu a chynnal prosesau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth sy'n adnabod achosion sylfaenol materion diogelwch cymunedol er mwyn eu hatal rhag digwydd?
2. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i sefydlu a chynnal strwythurau cyflawni effeithiol ac ymatebol sy'n gweithio'n gydweithredol i ddod o hyd i ddatrysiadau hirdymor i faterion diogelwch cymunedol?
3. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i integreiddio asesiadau a chynlluniau strategol diogelwch cymunedol yn well â phrosesau asesu a chynllunio statudol eraill (e.e. Y Rhaglen Lywodraethu, prosesau cynllunio sengl BGCau, Cynlluniau Heddlu a Throsedd)?
4. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i ddarparu atebolrwydd gweladwy ac adeiladol mewn perthynas â materion diogelwch cymunedol sy'n ennyn ymgysylltiad ac yn cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt?

Cafodd y trywyddau ymholi hyn eu defnyddio gan dîm yr adolygiad i gynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau ymgynghori â rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys mwy na 500 o unigolion ac asiantaethau rhwng mis Chwefror a mis Hydref 2017, gan gynnwys detholiad o astudiaethau achos o weithgareddau partneriaethau. Fe'u defnyddiwyd hefyd i gynnal yr adolygiad bwrdd gwaith o ddogfennaeth perthnasol.

Canfu'r adolygiad dystiolaeth o wendidau sylweddol iawn mewn gweithgarwch seiliedig ar gudd-wybodaeth a thystiolaeth gan bartneriaethau diogelwch cymunedol – gan gynnwys asesiadau strategol, cynllunio a chomisiynu gwasanaethau neu ddatrysiadau ar sail amlasiantaeth, yn enwedig mewn perthynas â chamau ataliol

neu ymyrryd yn gynnar. Roedd partneriaid diogelwch cymunedol yn disgrifio ymdeimlad o 'flino ar asesu', gydag asesiadau strategol a oedd yn ofynnol yn statudol (e.e. diogelwch cymunedol, iechyd, gofal cymdeithasol a lles a llesiant) yn cael eu comisiynu mewn modd cylchol gan 'ddechrau a pheidio bob yn ail' yn hytrach na chael eu prif-ffrydio fel rhan o ddull 'cudd-wybodaeth fusnes' o ddydd i ddydd.

Ymddengys fod y materion a adnabuwyd yn cael eu gwaethygu gan y canlynol: gweithredu mewn seilios; adnoddau dadansoddol sydd wedi lleihau'n sylweddol; gor-ddibyniaeth ar ddadansoddwyr a data'r heddlu; setiau a systemau data anghydnaws; cyndynrwydd parhaus i rannu data personol ac amhersonol rhwng asiantaethau partner; gwaith cyfyngedig i ddatblygu data er mwyn mynd ati'n well i ddeall ac asesu cynnydd tuag at wella canlyniadau; a dull anghyson o ddefnyddio'r setiau data cyffredin sylfaenol sy'n ei gwneud yn bosibl meincnodi a chyfuno data perthnasol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Ceir tystiolaeth hefyd o ddull cyfyngedig a chymysg iawn o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chasglu data.

Ar yr ochr gadarnhaol, canfu'r adolygiad dystiolaeth hefyd o gydnabyddiaeth gynyddol i werth 'cudd-wybodaeth fusnes' effeithiol ynghyd ag enghreifftiau o rannu data'n effeithiol gan ddefnyddio Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru neu brotocolau a phrosesau 'porth' eraill a nifer o fentrau i ddatblygu dulliau mwy systematig o rannu a dadansoddi data gan gynnwys datblygu systemau meddalwedd, mwy o gydleoli a rhwydweithio lle mae dadansoddwyr yn y cwestiwn.

Canfu'r adolygiad dystiolaeth o effeithiau negyddol ar adnoddau a strwythurau cyflawni ym maes diogelwch cymunedol a briodolir i gyni yn y sector cyhoeddus, er y bu elfen o liniaru gan fod mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael ar gyfer ffrydiau gwaith penodol megis Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, diogelwch tân cymunedol a chamddefnyddio sylweddau – ynghyd â mesurau i ddiogelu'r cyllid ar gyfer partneriaethau diogelwch cymunedol sydd ar gael gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru i ryw raddau.

Ceir tystiolaeth o wrthdaro a dryswch o ran strwythurau a darparu adnoddau a achosir gan gasgliad o 'batrymau' rhanbarthol a lleol ar gyfer partneriaethau gweithredol a strategol sy'n bodoli o fewn yr agenda diogelwch cymunedol, a chan y gwahaniaeth cynyddol rhwng polisi ac arfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

sy'n golygu bod partneriaid diogelwch cymunedol annatganoledig yn cael eu dal yn y canol ac yn ansicr ynghylch gweithredu polisi annatganoledig mewn tirwedd a chyddestun datganoledig. Canfuom hefyd dryswch o ran ffrydiau cyllido diogelwch cymunedol o fwy nag un ffynhonnell lywodraethol, gyda llawer o grantiau'n rhai y mae telerau ac amodau gweddol gyfarwyddol ac anhyblyg yn gysylltiedig â hwy ac yn galw am lefelau sylweddol o ymdrech gweinyddol, monitro ac adrodd ar gyfer symiau o arian sydd fel arfer yn gymharol fach a byrdymor.

Canfu'r adolygiad erydiad sylweddol o ran 'gwybodaeth a sgiliau priodol' i gefnogi trefniadau mwy effeithiol ar gyfer gweithio i wella diogelwch cymunedol, yn enwedig ar lefel weithredol sy'n ymwneud â datrys problemau, ynghyd â gwanhau rôl 'swyddog arweiniol' diogelwch cymunedol awdurdodau lleol a oedd yn hanesyddol yn darparu'r sbardun, y ffocws a'r arbenigedd ar gyfer agendâu diogelwch cymunedol yn yr amgylchedd 'partneriaethau' cymhleth a dryslyd yn y sector cyhoeddus.

Nid oes llawer o dystiolaeth o unrhyw newid sylweddol yn nhrefniadau buddsoddi partneriaethau tuag at egwyddorion 'buddsoddi i arbed', sy'n cefnogi mwy o wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda'r mwyafrif o adnoddau diogelwch cymunedol i'w gweld yn cael eu cyfeirio tuag at reoli argyfyngau a 'thriniaeth'. Ychydig o dystiolaeth sydd hefyd bod gwasanaethau cyhoeddus, boed yn unigol neu mewn partneriaeth, yn mabwysiadu dulliau cyllidebu sy'n fwy 'seiliedig ar le' ac sy'n ail-drefnu'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus i ddiwallu'r angen a ddangoswyd. Roedd ymatebwyr yn sôn am lefelau cymysg o ymgysylltu gan bartneriaid iechyd ac am berthnasoedd anghyfartal gyda phartneriaid a darparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

Canfu'r adolygiad fod partneriaid statudol yn wynebu heriau sylweddol o ran ceisio integreiddio prosesau asesu, blaenoriaethu a chynllunio partneriaethau diogelwch cymunedol yn effeithiol â'r dirwedd partneriaethau ehangach ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, sy'n adlewyrchu'r dirwedd partneriaethau diogelwch cymunedol fwyfwy 'dryslyd a chymhleth' y cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol ati yn ei adroddiad yn 2016. Mae dystiolaeth yn awgrymu bod partneriaid yn gorfod cydbwysu galwadau sy'n cystadlu ac weithiau'n gwrthdaro â'i gilydd gan wahanol adrannau yn

Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a hwythau'n ymgodymu â gormodedd o wahanol ganllawiau ynghylch cyflawni themâu diogelwch cymunedol amrywiol, y mae rhai ohonynt yn cael eu hystyried yn 'rhy gyfarwyddol' gan ymatebwyr. Mae'r cymysgedd o gyfrifoldebau datganoledig ac annatganoledig a'r ffiniau aneglur rhyngddynt yn cael eu hystyried yn broblem gan lawer ac yn gadarnhaol gan rai. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod corff cynyddol o gefnogaeth i gysoni trwy ddatganoli plismona a chyfiawnder i Lywodraeth Cymru.

Canfu'r adolygiad hefyd fod rhywfaint o ddryswch ynghylch rôl BGCau o ran ateb gofynion statudol y Ddeddf Troseddau ac Anhrefn gan gydbwysu'r angen i ganolbwyntio ar asesu a chynllunio ar gyfer llesiant fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Caiff y dryswch hwn ei waethygu gan y cymysgedd o strwythurau a threfniadau llywodraethu partneriaethau lleol a rhanbarthol sy'n gyd-ddibynnol gyda threfniadau gweithio partneriaethau diogelwch cymunedol lleol, megis byrddau diogelu rhanbarthol. Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu nad yw cyfundrefnau archwilio ac arolygu ar gyfer partneriaid diogelwch cymunedol unigol yn cefnogi trefniadau gweithio mwy trawsbynciol a holistaidd, er enghraifft mewn perthynas â lleihau aildroseddu. Roedd pryderon hefyd bod yr ymgyrch i sefydlu 'partneriaethau integredig sengl' wedi gwanhau'r ffocws ar ddiogelwch cymunedol a'r arbenigedd ynddo y mae eu hangen ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

Fe wnaeth ymatebwyr i'r adolygiad adnabod nifer o heriau o ran darparu atebolrwydd gweladwy ac adeiladol mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol gan gynnwys pryder cyffredinol bod cyrff yn y sector cyhoeddus yn canolbwyntio'n ormodol ar 'ymgyngori' yn hytrach nag ymwneud a chyfranogiad gweithredol gan ddinasyddion. Mynegwyd pryderon ynghylch argaeledd arbenigedd a methodolegau seiliedig ar dystiolaeth i'w gwneud yn bosibl i ymgysylltu mwy effeithiol ddigwydd. Dywedodd partneriaid yn y trydydd sector y byddai ymwneud yn gynnar â chydgynghyrchu a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus o ran cyrraedd amrywiaeth ehangach o bobl na chlywed gan 'yr un hen rai'.

Mae tystiolaeth yn dynodi bod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd am drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol,

heb sôn am rolau a swyddogaethau byrddau gwasanaethau cyhoeddus mwy newydd sydd o bosibl wedi ymgorffori byrddau diogelwch cymunedol, ond mae hefyd yn awgrymu bod dinasyddion eu hunain yn rhoi mwy o bwys ar effeithiolrwydd a phriodoldeb y modd y darperir gwasanaethau ac mae mwy o werth i'w gael i bartneriaid diogelwch cymunedol pan fo ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau – neu 'gwsmeriaid' – yn arwain at ddylunio a darparu gwasanaethau mewn modd gwell.

Canfu'r adolygiad nad yw'r dirwedd gymysg bresennol o ran Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Paneli Heddlu a Throsedd, pwyllgorau trosolwg a chraffu awdurdodau lleol a deiliaid portffolios diogelwch cymunedol yng nghabinetau neu weithrediaethau cynghorau'n darparu atebolrwydd a her democrataidd digon eglur neu gadarn mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol ac effeithiolrwydd hynny ac y byddai mwy o eglurder yn cael ei groesawu. Canfu'r adolygiad dystiolaeth hefyd bod gan gynghorwyr lleol y potensial i gyflawni rôl fwy mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol ac ymgysylltu â dinasyddion pe baent yn cael eu hysbysu'n well ac yn cael eu cynnwys yn agosach gan y partneriaid statudol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn a adnabuwyd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu rhaglen waith hirdymor – mewn partneriaeth gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid datganoledig ac annatganoledig – i wireddu gweledigaeth newydd ac uchelgeisiol ar gyfer gweithio gyda'n gilydd i greu cymunedau mwy diogel yng Nghymru a'i rhoi ar waith.

Bydd y rhaglen Cymunedau Mwy Diogel yn:

- Gweithio gyda Chomisiwn Cyfiawnder Cymru sydd newydd ei sefydlu i ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol yng Nghymru ac adnabod opsiynau i ddatblygu system gyfiawnder ar wahân i Gymru, sy'n gwella mynediad pobl at gyfiawnder, yn lleihau troseddau ac yn hybu adsefydlu ac yn cynrychioli anghenion Cymru go iawn.
- Sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried priodoldeb Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddatganoli yng Nghymru.

- Datblygu perthynas a dull strategol gwahanol gyda phartneriaid diogelwch cymunedol annatganoledig sy'n sefydlu rôl arwain fwy effeithiol i Lywodraeth Cymru mewn meysydd y mae'r cyfrifoldeb amdanynt wedi cael ei ddatganoli ac sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol.
- Sefydlu swyddogaeth arweinyddiaeth polisi ac arfer 'partneriaeth' diogelwch cymunedol yn Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth agos gyda'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac arweinwyr 'datganoledig' perthnasol eraill ar ran Llywodraeth y DU.
- Datblygu canllawiau newydd sy'n berthnasol yn benodol i Gymru ac sy'n adeiladu ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a Nodweddion Partneriaeth Effeithiol ac sy'n nodi sut y gall partneriaid a phartneriaethau diogelwch cymunedol sicrhau eu bod:
 - Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth;
 - Yn cael eu hategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;
 - Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;
 - Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys;
 - Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl;
 - Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.
- Ystyried sut i sefydlu rhwydwaith diogelwch cymunedol cenedlaethol newydd a chynhwysol i Gymru a fydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu polisi ac arfer ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol a helpu i ddatblygu'r 'wybodaeth a sgiliau priodol' y mae eu hangen i roi'r weledigaeth newydd ar waith;
- Ystyried sut i sefydlu llyfrgell a chronfa ddata adnoddau diogelwch cymunedol ar-lein i Gymru;
- Archwilio cyfleoedd i dreialu trefniadau arolygu thematig ar y cyd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol mewn perthynas â'r thema 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu datganoledig ac annatganoledig perthnasol;
- Ystyried sut i wella rhaglenni ariannu diogelwch cymunedol i sicrhau cyllid sy'n rhoi mwy o 'sylw i'r canlyniadau', sy'n fwy hyblyg ac yn fwy hirdymor i

gefnogi trefniadau mwy holistaidd, cydweithredol mewn partneriaeth ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys modelau cydgynhyrchu ac elfennau cyllidebu cyfranogol.

Hefyd, cynigir bod adolygiad trawslywodraethol o 'batrymau' rhanbarthol yn cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y diben a bod asesiad o drefniadau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn cael ei gwblhau i sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol ac i gael eu cymhwyso'n briodol ar lefel leol.

Cefndir

Y flwyddyn nesaf bydd hi'n 20 mlynedd ers cyflwyno Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 a sefydlodd gysyniad gweithio mewn partneriaeth statudol i fynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol ac a greodd ddyletswydd gyfreithiol i awdurdodau lleol, heddluoedd ac, yn y pen draw, gwasanaethau iechyd, tân a phrawf gydweithio i atal a lleihau 'troseddau ac anhrefn' yn eu priod gymunedau.

Bu nifer o newidiadau arwyddocaol ers ei chyflwyno, a gellid dadlau mai'r mwyaf sylweddol o'r rhain oedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a gyflwynodd Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi'u hethol yn uniongyrchol i'r dirwedd diogelwch cymunedol ac a 'ddadroleiddiodd' rai o'r elfennau mwy cyfarwyddol o'r Ddeddf wreiddiol.

Mae Deddf 1998 yn dal i fod mewn grym ac, yn ei sgîl, y cyfrifoldeb cyfreithiol i brif weithredwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd, prif gwnstabiliaid a phrif swyddogion tân a phrif swyddogion gwasanaethau prawf weithio mewn partneriaeth i atal a lleihau troseddau ac anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymddygiad sy'n effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu.

Fodd bynnag roedd Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru*, Hydref 2016 (**Atodiad i**) i'w weld fel pe bai'n awgrymu nad oedd partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru mor effeithiol ag y gallent neu y dylent fod ac fe amlygodd nifer o feysydd ar gyfer gwelliant sylweddol. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod: "...cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud hi'n anodd i gyrrff cyhoeddus gydgysylltu ffordd strategol o fynd ati i gyflawni diogelwch cymunedol, sy'n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd ac yn tanseilio'r potensial i helpu pobl i aros yn ddiogel."

Ac aralleirio'r deg prif gasgliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, roedd yn awgrymu nad oedd gofynion statudol Deddf 1998 yn cael eu hateb mor effeithiol mwyach ag a fwriadwyd gan y ddeddfwriaeth. Ar ben hynny, mae'r adroddiad yn cyfeirio at y newid arall o bwys a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ym 1999 – datganoli a chymhlethdodau agenda sy'n pontio cyfrifoldebau ar gyfer llywodraethau yn San Steffan a Chaerdydd – fel un o'r prif resymau dros y dirywiad crybwylledig

mewn trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Mae *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru* yn sôn am wahaniaeth cynyddol mewn polisi ac arfer rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gyda 'phartneriaid' diogelwch cymunedol wedi'u dal yn y canol i bob pwrpas. Mae'n awgrymu bod materion o ran patrymau lleol a rhanbarthol sy'n gwaethygu cymhlethdod trefniadau partneriaeth – yn enwedig o ran llywodraethu ac atebolrwydd. Mae'r adroddiad yn cydnabod effaith arwyddocaol mesurau cyni ar adnoddau partneriaethau ac yn awgrymu y bu gwrthdaro rhwng trefniadau ariannu Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth hefyd gwestiynu effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth presennol o ran defnyddio data a gwybodaeth ac o ran rheoli perfformiad a dangos deilliannau llwyddiannus i gymunedau.

Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod troseddau cofnodedig i'w gweld fel pe baent yn cynyddu a bod cymunedau'n teimlo'n llai diogel gyda rhywfaint o anfodlonrwydd ymhlith dinasyddion ar effeithiolrwydd a hygyrchedd PDCau yng Nghymru.

Fe gyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol saith argymhelliad a oedd yn cynnwys sefydlu strategaeth a chorff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol, a'r rheiny'n cael eu hategu gan fyrddau rhanbarthol a chynlluniau gweithredu cynhwysfawr, adolygiad o drefniadau ariannu a chyfres newydd o ddangosyddion perfformiad allweddol. Awgrymwyd y dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol ddiwygio mecanweithiau monitro ac adolygu, yn seiliedig ar risg, ac y dylai BGCau Cymru arwain ar ymgysylltu â dinasyddion mewn perthynas â materion diogelwch cymunedol.

Mewn ymateb, hysbysodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ymateb i fynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o broses adolygu a diwygio ehangach i "symud yr agenda diogelwch cymunedol yn ei blaen".

Mewn llythyr at Nick Ramsay AC, cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2016 (Atodiad ii) datganodd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn: "Er bod tystiolaeth arwyddocaol bod Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner eraill yn ymgysylltu'n llawn ag ystod o weithgareddau ar draws yr

agenda diogelwch cymunedol, mae'r adroddiad yn gwneud sylw llawer mwy sylfaenol sy'n mynd y tu hwnt i drafodaeth am arweinyddiaeth neu strategaeth. Mae'n amlygu sut y mae pob maes polisi wedi datblygu ers datganoli; ac yn parhau i ddatblygu'n gyflym a sut y mae'r gwahanol haenau o lywodraeth – a llywodraethu – wedi datblygu; a'r newidiadau sefydliadol niferus sydd wedi digwydd. Rydym yn cytuno bod angen mynd i'r afael â'r materion hyn ac mae ein hymateb i'r adroddiad yn gyfle i adolygu a diweddarau'r trefniadau ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan ystyried nid dim ond cyd-destun heddiw, ond datblygiadau posibl yn y dyfodol.”

Wrth gyhoeddi natur a chwmpas yr adolygiad ym mis Mawrth eleni (**Atodiad iii**), datganodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant Carl Sargeant: “Rwyf am i'r adolygiad gynnwys syniadau uchelgeisiol, a datblygu gweledigaeth glir ar gyfer diogelwch cymunedol a fydd yn gynaliadwy yn yr hirdymor, yn ogystal â bod yn gadarn, yn berthnasol ac yn ymatebol. Nawr, mae gennym gyfle newydd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i bennu dull cynaliadwy o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru, a fydd yn creu cymunedau mwy diogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.”

Cyd-destun

Er mwyn bod â dealltwriaeth well am asesiad beirniadol yr Archwilydd Cyffredinol o amgylchiadau presennol diogelwch cymunedol yng Nghymru a'r camau cywirol yr oedd ei adroddiad yn eu cynnig ar gyfer yr ystod o randdeiliaid cysylltiedig, mae'n werth myfyrio yn gyntaf ar y rhesymeg wreiddiol a oedd yn sail i sefydlu 'partneriaethau diogelwch cymunedol' a'r gofynion amrywiol a bythol newidiol a osodwyd arnynt dros y ddau ddegawd ers eu cyflwyno.

Fe gyflwynodd Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 newid sylfaenol yn null polisi Llywodraeth y DU o fynd i'r afael â 'throseddau ac anhrefn' – gan gyflwyno cysyniad llawer ehangach 'diogelwch cymunedol' yn ffurfiol ac ymestyn y cyfrifoldeb statudol am weithio i fynd i'r afael â lefelau troseddu cynyddol a chanfyddiadau dirywiol am ddiogelwch cyhoeddus i bartneriaid heblaw am yr heddlu.

Roedd y ddeddfwriaeth yn ymateb polisi newydd a gwahanol iawn i bron i dri degawd o lefelau troseddu a oedd wedi bod yn codi'n gyflym ac anniddigrwydd cymdeithasol y mae llawer o haneswyr a throseddegwyr yn eu priodoli i'r ffaith bod dirywiad cyson diwydiannau trwm, lefelau uchel o ddiweithdra a bwch tlodi cynyddol rhwng cymunedau cyfoethog a thlawd wedi cyfrannu at erydiad cydlyniant cymunedol. Cafodd yr amodau cymdeithasol sylfaenol hyn eu hybu gan fewnlifiad cyffuriau Dosbarth A a oedd yn rhatach ac ar gael yn rhwyddach, yn enwedig opiadau hynod gaethiwus, a thwf nwyddau electronig masgynyrchedig a oedd yn gymharol hawdd i'w dwyn a'u gwerthu ar y farchnad ddu.

Fe wnaeth terfysgoedd Brixton ym 1981 ysgogi Adroddiad Scarman, a ddaeth i'r casgliad bod llawer o heddluoedd yn enwedig mewn ardaloedd trefol wedi ymbellhau oddi wrth y cymunedau yr oeddent yn eu plismona ac a argymhellodd y dylai plismona fabwysiadu mesurau mwy rhagweithiol i sicrhau perthnasoedd mwy clòs ac effeithiol â'u priod gymunedau. Fe wnaeth yr adroddiad amlygu'r gwahaniaeth cynyddol rhwng plismona modern a'r Egwyddorion Peelaidd a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1829 – plismona trwy gydsyniad gan y 'dinesydd mewn lifrai'. Ymhlith y newidiadau a ysgogodd i blismona roedd datblygu trefniadau ar gyfer cysylltiadau rhwng yr heddlu a'r gymuned a sefydlu rôl 'swyddog cyswllt cymunedol yr heddlu' ym mhob heddlu.

Ar ddechrau'r 1980au fe ddechreuodd Llywodraeth y DU archwilio cysyniadau atal troseddau sefyllfaol, gan ddefnyddio ymatebion ffisegol a chymdeithasol i droseddau, gan gynnwys technolegau teledu cylch cyfyng newydd, a chysyniad Americanaidd 'Plismona sy'n Ymateb i Broblemau' – 'Problem Oriented Policing' (POP), term a fathwyd gan yr Athro Herman Goldstein ym Mhrifysgol Wisconsin-Madison. Ym 1984 cyhoeddodd y Llywodraeth Gylchlythyr y Swyddfa Gartref 8/84 a oedd yn ymatal rhag gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i helpu i atal neu leihau troseddu ond yn eu cyfarwyddo i "gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb". Roedd y cylchlythyr yn datgan: "A primary objective of the police has always been the prevention of crime. However, since some of the factors affecting crime lie outside the control or direct influence of the police, crime prevention can not be left to them alone. Every individual citizen and all those agencies whose policies and practices can influence the extent of crime should make their contribution. Preventing crime is a task for the whole community."

Ym 1986 fe sefydlodd Llywodraeth y DU y rhaglen 'Dinasoedd Mwy Diogel' a ddatblygodd i fod y brif sianel ar gyfer cyfeirio tua £30m o gyllid y Llywodraeth, gan arwain at sefydlu rhaglenni atal troseddau cymunedol a arweinir gan y trydydd sector megis Caerdydd Fwy Diogel a Merthyr Tudful Fwy Diogel. Ym 1988 fe sefydlodd Crime Concern i ysgogi ymwneud gan sefydliadau'r sector preifat, yn enwedig busnesau lleol, ag atal troseddau. Fe ffynnodd Paneli Atal Troseddu a Chynlluniau Gwarchod y Gymdogaeth, yn seiliedig ar fodel a ddatblygwyd yn Chicago, mewn sawl ardal yn y DU. Fodd bynnag, fe fethodd y mentrau hyn â chael effaith sylweddol ar lefelau troseddu a chanfyddiadau am droseddu ac ymateb y Llywodraeth oedd sefydlu Cynhadledd Sefydlog y Swyddfa Gartref ar Atal Troseddau ym 1990, dan arweiniad James Morgan.

Fe wnaeth adroddiad Cynhadledd Sefydlog 1991 – *Safer Communities: the Local Delivery of Crime Prevention Through the Partnership Approach* – a ddaeth i gael ei adnabod fel 'Adroddiad Morgan' fathu'r term 'diogelwch cymunedol' a chynnig 'dull mwy holistaidd' o leihau troseddau ac anhrefn a oedd yn rhoi mwy o bwyslais ar atal trwy ganolbwyntio ar y ffactorau achosol cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n arwain at droseddoldeb. Roedd yn cynnwys 19 argymhelliad, yr oedd y pumed ohonynt yn dadlau fel a ganlyn am awdurdodau lleol "...should have

clear statutory responsibility for the development and stimulation of community safety and crime prevention programmes.”

Roedd Adroddiad Morgan yn datgan: “Crime prevention inter-relates with many aspects of local government and the diverse elements of the criminal justice system. The term crime prevention is often narrowly interpreted and this reinforces the view that it is solely the responsibility of the police.” Roedd yr adroddiad yn amlygu hefyd na fyddai lleihau troseddau yn unig o anghenraid yn gwella ansawdd bywyd pobl a bod rhaid mynd i’r afael ag ‘ofn troseddau’ hefyd trwy ymdrin â dangosyddion anghyfraith megis anhrefn gyhoeddus lefel isel, graffiti a difrod troseddol.

Fodd bynnag, ni ddaeth negeseuon craidd Adroddiad Morgan i’r amlwg yn gyhoeddus ac ni ddaethant yn destun trafod gwleidyddol tan fis Chwefror 1993, yn dilyn llofruddiaeth y bachgen dyflwydd oed, James Bulger, gan ddau fachgen deng mlwydd oed, Robert Thompson a John Venables. Roedd yr achos yn meddu ar lawer o nodweddion y materion a godwyd gan Adroddiad Morgan...gan gynnwys triwantiaeth, cyrhaeddiad addysgol gwael, anhrefn ar lefel isel heb ei hatal a throseddau meddiangar sy’n gwaethygu i fod y math mwyaf difrifol o droseddoldeb. Fe wnaeth gwrthlefaeu ymhlith y cyhoedd ac adwaith y cyfryngau yn dilyn y llofruddiaeth ysgogi ffocws newydd ar y neges ganolog ynglŷn â ‘partneriaeth’ yn Adroddiad Morgan, trafodaeth am reoli ‘troseddwyr ifanc’ mewn modd priodol ac fe wnaeth hefyd achosi’r slogan hwnnw sydd bellach yn enwog, ‘tough on crime, tough on the causes of crime’. Bum mlynedd yn ddiweddarach, Adroddiad Morgan fyddai sylfaen y ddeddfwriaeth newydd, Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998.

Mae academyddion yn dadlau mai’r Ddeddf hon oedd yr un newid mwyaf sylfaenol ym mholisi Llywodraeth y DU ar blismona a chyfiawnder troseddol ers sefydlu’r heddlu Prydeinig modern yn neddf Syr Robert Peel, Deddf yr Heddlu Metropolitan 1829. Gan sefydlu cysyniad partneriaethau amlasiantaeth statudol o ‘awdurdodau cyfrifol’ â dyletswydd gyfreithiol i atal a lleihau troseddau ac anhrefn, roedd y Ddeddf newydd yn adleisio nawfed egwyddor wreiddiol Peel:

“To recognise always that the test of police efficiency is the absence of crime and disorder, and not the visible evidence of police action in dealing with them.”

Roedd Adroddiad Morgan yn nodi'n glir bod gan awdurdodau lleol rôl yr un mor fawr â'r heddlu, os nad mwy na'r heddlu, o ran atal a lleihau troseddau ac anhrefn trwy reoli'r amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol sy'n eu hachosi mewn modd effeithiol.

Er bod yr egwyddor 'partneriaeth' sylfaenol yn Neddf 1998 yn dal i fod yn wir, mae'r amodau cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol presennol yng Nghymru bellach yn sylweddol wahanol i'r cyd-destun a oedd yn bodoli pan sefydlwyd 'Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn'. Mae'r heriau presennol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru'n cynnwys: dylanwad cynyddol datganoli; ystod ehangach o 'fathau newydd o droseddau' megis caethwasiaeth fodern a throseddau casineb; bygythiad cynyddol terfysgaeth ryngwladol; a dylanwad sylweddau seicoweithredol newydd a seiberdroseddu, i enwi dim ond rhai. Mae strwythurau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi newid yn sylweddol ers diwedd y 1990au a bu addasiadau niferus i'r ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun.

Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016 yn gyfle amserol i oedi a myfyrio ar effaith newidiadau o'r fath ac asesu sut orau i symud ymlaen i sicrhau bod y daliadau gwreiddiol yn Adroddiad Morgan a'r Ddeddf a luniwyd ganddo yn dal i fod yn berthnasol i Gymru.

Llinell Amser: Esblygiad Trefniadau ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth i Wella Diogelwch Cymunedol

1829 – Deddf yr Heddlu Metropolitan a'r Egwyddorion Peelaidd ar gyfer Plismona

1970au – Lefelau troseddau yn y DU yn dyblu fwy neu lai yn ystod y degawd

1981 – Terfysgoedd Brixton yn ysgogi Adroddiad Scarman a oedd yn galw ar i'r heddlu ailgysylltu â chymunedau

1984 – Cylchlythyr y Swyddfa Gartref 8/84 yn erfyn ar awdurdodau lleol i gymryd 'peth cyfrifoldeb' am atal troseddau

1986 – Llywodraeth y DU yn lansio'r rhaglen Dinasoedd Diogelach o waith atal troseddau dan arweiniad y gymuned a'r trydydd sector

1991 – Cynhadledd Sefydlog y Swyddfa Gartref ar Atal Troseddau'n cyhoeddi *Safer Communities: the Local Delivery of Crime Prevention Through the Partnership Approach* (Adroddiad Morgan)

1998 – Cyflwyno'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn yn arwain at sefydlu Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn, Timau Troseddau Ieuenctid, Archwiliadau a Strategaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn ac offer megis Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs)

2002 – Deddf Diwygio'r Heddlu yn sefydlu'r gofyniad i gynhyrchu strategaethau camddefnyddio sylweddau ac yn ysgogi'r broses i uno Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn a Thimau Gweithredu ar Gyffuriau ac Alcohol yng Nghymru gan greu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol; awdurdodau heddlu a than yn dod yn 'awdurdodau cyfrifol' dan Ddeddf 1998; ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu gydymffurfio â'r Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol (NIM)

2003 – Y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cyflwyno ystod ehangach o bwerau i'r heddlu a phartneriaid fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac anhrefn, a'r rheiny'n cael eu hategu gan ddeddfwriaeth newydd ar gyfer trwyddedu a than gwylt

2005 – Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd yn ymestyn pwerau a chyfrifoldebau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gynnwys 'gosod gatiâu', graffiti, tipio anghyfreithlon a.y.b.,

2006 – Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder yn diweddarau'r diffiniad craidd o 'droseddau ac anhrefn', yn disodli'r gofyniad am 'archwiliadau' a 'strategaethau' gydag asesiadau strategol blynyddol (yn unol â NIM) a chynlluniau gweithredu treigl sy'n rhychwantu tair blynedd, a adolygir yn flynyddol; yn sefydlu dyletswydd i ddatgelu data amhersonol neu gyfanredol a hyrwyddwyr rhannu data, ynghyd â set ddata sylfaenol gyffredin; yn cyflwyno 'nodweddion partneriaeth effeithiol' a 'thosolwg a chraffu' ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gan awdurdodau lleol

2009 – Y Ddeddf Plismona a Throseddau'n ychwanegu 'lleihau aildroseddu' at y rhestr o gyfrifoldebau statudol sydd gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a'u priod 'awdurdodau cyfrifol', gan newid statws gwasanaethau prawf o 'gorff cydweithredol' i awdurdod cyfrifol

2011 – Y Ddeddf Plismona a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn cyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throseddau wedi’u hethol yn uniongyrchol i ddisodli awdurdodau heddlu, yn cael gwared â thargedau lleihau troseddau’r Llywodraeth, yn dadreoleiddio elfennau ‘rhy gyfarwyddol’ o Ddeddf 1998 ac yn cyflwyno gofyniad i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau ac awdurdodau cyfrifol sy’n rhan o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ‘roi sylw’ i flaenoriaethau ei gilydd

2012 – Mae Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2011 yn arloesi’r ffordd i ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru *Cydamcanu - Cydymdrechu* sefydlu ‘partneriaethau integredig unigol’ a chynlluniau integredig unigol a oedd yn cael eu hadnabod fel Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) ac yn datgan: “Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid defnyddio cynllun integredig unigol i gyflawni’r dyletswyddau statudol o ran datblygu cynlluniau a strategaethau sydd wedi’u gosod yn y ddeddfwriaeth ganlynol: Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 (Rhan 1: Adran 6) – strategaethau i ostwng troseddau ac anhrefn, strategaethau i fynd i’r afael â chamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, a strategaethau i ostwng aildroseddau.

2014 – Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015) gan alw ar gyrrff cyhoeddus i wella: trefniadau ar gyfer atal Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

2015 – Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn sefydlu nodau llesiant, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac yn disodli BGLlau â BGCau y mae’n ofynnol iddynt gynnal asesiadau llesiant a datblygu cynlluniau

2016 – Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi’r adroddiad *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru* a Llywodraeth Cymru yn cytuno i gynnal adolygiad sylfaenol o drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol

2017 – Yr adolygiad Gweithio gyda’n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel yn cael ei gwblhau.

Nodau ac Amcanion

Mae'r adolygiad hwn wedi'i fwriadu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well – trwy gydweithio priodol gydag asiantaethau a phartneriaid annatganoledig a thrwy'r amcanion llesiant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen – i ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy'n rhoi cymorth i fynd ati'n lleol i greu cymunedau mwy diogel a mwy hyderus.

Mae'r adolygiad felly wedi gwneud argymhellion ynghylch y canlynol:

- Pennu gweledigaeth strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru y yr holl sefydliadau sydd ynghlwm ei deall, ei rhannu ac adeiladu arni yn rhan o'u cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- Sicrhau bod dull cynaliadwy o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru yn cael ei ddatblygu trwy gasglu a dadansoddi tystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel ryngwladol ynghylch yr hyn sy'n gweithio;
- Deall, diffinio ac egluro'r ystod o randdeiliaid a'u rolau arwain, gan gynnwys rôl Llywodraeth Cymru, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, Awdurdodau Lleol ac Adrannau Llywodraeth Prydain;
- Creu arweinyddiaeth sy'n gryfach, yn fwy effeithiol ac yn fwy atebol ymhlith pob asiantaeth a sefydliad;
- Adlewyrchu'r eglurder newydd mewn perthynas ag arweinyddiaeth trwy liflinio a symleiddio'r trefniadau llywodraethu presennol er mwyn gwella atebolrwydd, gan ailbennu ffocws gweithgarwch er mwyn osgoi dyblygu a dryswch;
- cyflawni'r amcanion llesiant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen;
- Sicrhau bod y cyfan yn cael ei gyflawni yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen.

Mae hefyd wedi ystyried y cyd-destun gwleidyddol a pholisi ehangach gan gynnwys:

- Deddfwriaeth y DU a Chymru, a pha un a oes angen diwygio pellach, gan gynnwys cyfleoedd sy'n deillio o Ddeddf Cymru 2017;

- Polisiâu'r DU, er enghraifft diwygio carchardai a datblygiadau mewn cyfiawnder ieuencid a chydlyniant cymunedol ac o ran y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a.y.b.;
- Y broses cynllunio sengl trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Y cyd-ddibyniaethau rhwng cyfrifoldebau datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli (gan gynnwys y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) a'r posibilrwydd o'u halinio'n well;
- Cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol ac yn arbennig darparu gwasanaethau yn rhanbarthol.

Fframwaith a Methodoleg

Ym mis Mawrth eleni fe sefydlodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant Carl Sargeant AC Grŵp Trosolwg yr Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel. Ei ddiben oedd sicrhau bod adolygiad safonol yn seiliedig ar ymchwil yn cael ei gynnal yn dilyn cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru*. Roedd y grŵp tasg a gorffen, a gadeiriwyd gan Lywodraeth Cymru, hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru, Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Heddlu, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol (SOLACE), Cyfiawnder Cymunedol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) Cymru.

Cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Mawrth pan gafodd yr amodau gorchwyl (**Atodiad iv**) a fframwaith yr adolygiad (**Atodiad v**) a'r fethodoleg (**Atodiad vi**) eu cytuno. Bwriad yr adolygiad yn rhannol oedd mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016. Er hynny roedd cylch gorchwyl yr adolygiad a'r Grŵp Trosolwg yn ehangach na hynny a byddai hefyd yn edrych ar sut y gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru weithio gyda'i gilydd i helpu i wneud ein cymunedau yn fwy diogel ac i ddatblygu gweledigaeth uchelgeisiol gytûn a fyddai'n sail i sefydliadau weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd.

Fe ddefnyddiodd yr adolygiad ac fe ddibynnodd ar yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a adwaenir fel y Pum Ffordd o Weithio, i archwilio fframweithiau (gan gynnwys rhai deddfwriaethol a chyllidebu), strwythurau, polisiau a phrosesau gwasanaethau cyhoeddus presennol i sicrhau bod y canlynol yn digwydd:

- Integreiddio (e.e. dulliau prif-ffrydio, trawsbynciol, yn seiliedig ar le);
- Ffocws ar atal (e.e. buddsoddi mewn ymyriadau effeithiol ar adeg gynharach, buddsoddi i arbed);
- Cydlafurio (e.e. cyllidebau cyfunol, timau amlasiantaeth);
- Cynnwys dinasyddion ac ymgysylltu â hwy;

- Meddwl am y tymor hir (diogelu at y dyfodol).

Fe gytunodd y Grŵp Trosolwg i ddatblygu'r adolygiad trwy chwe cham allweddol, y gwnaeth rhai ohonynt gydredeg â'i gilydd, sef:

- Diweddaru'r Prosesau Asesu a Chynllunio Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol
- Adolygiad a dadansoddiad bwrdd gwaith o dystiolaeth a data presennol
- Ymgynghori a chyflwyno tystiolaeth newydd (gan gynnwys astudiaethau achos)
- Llunio argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau
- Profi'r argymhellion drafft, neu gynnal gwiriad realiti ohonynt
- Cyhoeddi'r argymhellion terfynol

Roedd y cam sylfaenol, a ddechreuodd ym mis Mawrth ar gais Ysgrifennydd y Cabinet, yn golygu bod y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddau yng Nghymru'n gweithio gyda'u partneriaid statudol lleol i 'ddiweddaru' asesiadau a chynlluniau strategol diogelwch cymunedol mewn ardaloedd lleol ym mhob heddlu, gan ddarparu gwybodaeth am gynnydd a materion y daethpwyd ar eu traws i oleuo gwaith y Grŵp Trosolwg a thîm yr adolygiad.

Gofynnwyd i'r Ganolfan Ryngwladol dros Blismona a Diogelwch ym Mhrifysgol De Cymru gynnal adolygiad bwrdd gwaith o dystiolaeth ddogfennol bresennol (**Atodiad vii**) a chynnal asesiad sylfaenol pellach o gyfluniad partneriaethau diogelwch cymunedol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae'r Ganolfan Ryngwladol dros Blismona a Diogelwch yn un o is-adrannau Prifysgol De Cymru a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd wedi ennill bri am gynnal ymchwil genedlaethol a rhyngwladol i faterion plismona a throseddau, gan gynnwys diogelwch cymunedol. Mae'n cydweithio'n agos gyda llawer o asiantaethau sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol ac yn darparu addysg ar gyfer darpar swyddogion heddlu a swyddogion heddlu sydd mewn swydd ar hyn o bryd.

Lluniwyd proses o fapio rhanddeiliaid diogelwch cymunedol i ddatblygu dogfen ffeithlun eglurhaol (**Atodiad viii**) i ddatblygu dealltwriaeth well am gymhlethdodau'r strwythurau a rhwydweithiau aml-haen ac aml-thema sy'n rhan o drefniadau gweithio

mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol ledled Cymru, a oedd yn cael eu nodi yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016.

Cafodd trywyddau ymholi ar gyfer yr adolygiad eu datblygu ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gydymffurfio â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (a adwaenir fel y 'Pum Ffordd o Weithio') yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:

- Ystyried y **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy eu hunain;
- Defnyddio dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy;
- Deall achosion sylfaenol materion i'w **hatal** rhag digwydd.

Roeddent hefyd yn cynnwys y 'Nodweddion Partneriaeth Effeithiol' ('Hallmarks of Effective Partnership') a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref ar y cyd ag ymarferwyr cynllunio diogelwch cymunedol o bob rhan o'r DU ac a ddefnyddiwyd yn Neddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 fel y sail i'r Asesiad o Blismona a Diogelwch Cymunedol (APACS) gynt a'r sylfaen danategol ar gyfer Trosolwg a Chraffu ar y modd y mae PDCau yn gweithio:

- Arweinyddiaeth Rymus ac Effeithiol
- Proses fusnes seiliedig ar gudd-wybodaeth
- Strwythur Cyflawni Effeithiol ac Ymatebol
- Atebolrwydd Gweladwy ac Adeiladol
- Gwybodaeth a Sgiliau Priodol

Cafodd y 'Nodweddion' hyn eu defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fel y meini prawf canolog ar gyfer barnu ynghylch effeithlonrwydd trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yn adroddiad 2016, er bod Llywodraeth Cymru wedi herio'r dull hwn ar y pryd ar y sail bod y Nodweddion wedi'u

llunio i feincnodi a chefnogi gwelliant mewn partneriaethau unigol yn hytrach nag fel methodoleg ar gyfer cynnal archwiliad mor eang.

Defnyddiodd tîm adolygu Llywodraeth Cymru bedwar trywydd ymholi i geisio adnabod y rhwystrau a'r ffactorau galluogi sy'n effeithio ar drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru:

1. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i gynyddu i'r eithaf/sefydlu a chynnal prosesau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth sy'n adnabod achosion sylfaenol materion diogelwch cymunedol er mwyn eu hatal rhag digwydd?
2. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i sefydlu a chynnal strwythurau cyflawni effeithiol ac ymatebol sy'n gweithio'n gydweithredol i ddod o hyd i ddatrysiadau hirdymor i faterion diogelwch cymunedol?
3. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i integreiddio asesiadau a chynlluniau strategol diogelwch cymunedol yn well â phrosesau asesu a chynllunio statudol eraill (e.e. Y Rhaglen Lywodraethu, prosesau cynllunio sengl BGCau, Cynlluniau Heddlu a Throsedd)?
4. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i ddarparu atebolrwydd gweladwy ac adeiladol mewn perthynas â materion diogelwch cymunedol sy'n ennyn ymgysylltiad ac yn cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt?

Cafodd y trywyddau ymholi hyn eu defnyddio gan dîm yr adolygiad i gynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau ymgynghori â rhanddeiliaid (**Atodiad ix**) a oedd yn cynnwys dros 500 o unigolion ac asiantaethau rhwng mis Chwefror a mis Hydref, gan gynnwys detholiad o astudiaethau achos o weithgarwch partneriaethau sydd wedi goleuo'r canfyddiadau a'r argymhellion ac y cyfeirir atynt yn y penodau canlynol. Fe'u defnyddiwyd hefyd i gynnal yr adolygiad bwrdd gwaith o ddogfennaeth berthnasol.

Fe roddodd yr adolygiad ystyriaeth hefyd i'r profiad o weithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yn yr Alban a'r perthnasoedd rhwng Llywodraeth yr Alban a'i bartneriaid cyflawni ar gyfer diogelwch cymunedol.

Roedd y cam olaf ond un yn yr adolygiad yn cynnwys cyfres o bedwar digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol a letywyd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru i brofi'r canfyddiadau a'r casgliadau drafft mewn Fframwaith ar gyfer Newid (**Atodiad x**) ac i ddatblygu cynigion manwl i Ysgrifennydd y Cabinet eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Canfyddiadau a Chasgliadau

1. Datrys Problemau yn seiliedig ar Dystiolaeth:

Cafodd PDCau eu creu o'r dechrau un i arwain gweithgarwch cydweithredol ac integredig *seiliedig ar dystiolaeth* i fynd i'r afael ag achosion troseddau ac anhrefn – agenda ddeuol o waith atal a lleihau yn seiliedig ar dystiolaeth. A hithau wedi sefydlu cysyniad partneriaethau amlasiantaeth statudol ac 'awdurdodau cyfrifol', fe gyfarwyddodd Deddf 1998 y partneriaethau newydd hyn ar unwaith i gynnal 'archwiliadau' lleol o droseddau ac anhrefn (Adran 6) bob tair blynedd cyn mynd ymlaen i ddatblygu cynlluniau a rhaglenni o weithgarwch mewn partneriaeth.

Er bod 'archwiliadau' wedi cael eu diddymu'n ddiweddarach gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a'u disodli gan y gofyniad i gynnal 'asesiadau strategol' blynyddol – yn unol â'r ysgogiad mewn perthynas ag NIM a chydabyddiaeth i werth mabwysiadu egwyddorion NIM o fewn prosesau datrys problemau gan bartneriaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth – mae'n dal yn wir mai'r gweithgarwch sylfaenol ar gyfer trefniadau gweithio PDCau yw casglu, coladu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol yn effeithiol i lywio busnes mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Fe amlygodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016 nifer o ddiffygion o ran defnyddio data perthnasol gan bartneriaid a phartneriaethau i adnabod blaenoriaethau lleol a chynllunio ymyriadau angenrheidiol a daeth i'r casgliad canlynol:

“Mae rhai cynlluniau diogelwch cymunedol nad ydynt wedi'u hategu gan wybodaeth o ansawdd da ac nad ydynt wedi'u diweddarau i ddangos y patrymau a'r tueddiadau newidiol o ran diogelwch cymunedol. Er bod 18 o gydgyssylltwyr partneriaethau diogelwch cymunedol lleol wedi nodi bod y blaenoriaethau diogelwch cymunedol yn eu cynlluniau yn seiliedig ar dystiolaeth dda, daeth ein hadolygiad o gynlluniau i'r casgliad mai dim ond naw o'r 20 o bartneriaethau a ddarparodd dystiolaeth eu bod yn diweddarau eu hasesiadau strategol yn rheolaidd ac ni wnaeth 11 ohonynt wneud hynny. O'r naw a ddarparodd dystiolaeth, canfuwyd bod chwech ohonynt wedi seilio eu hasesiadau ar amrywiaeth eang o ddata priodol ac wedi defnyddio'r

wybodaeth i nodi a chanolbwyntio ar flaenoriaethau sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol.”

Datgelodd yr adroddiad or-ddibyniaeth ar ddata'r heddlu a dadansoddwyr yr heddlu gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol trwy:

- osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;
- sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol;
- sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg.

Yn sicr mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr adolygiad hwn yn cadarnhau bod proses cynllunio busnes sy'n seiliedig ar dystiolaeth, neu'n seiliedig ar gudd-wybodaeth yn faes lle ceir gwendid sylfaenol o ran gwaith cynllunio gan bartneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru ac mae'n cadarnhau bod y dull asesu strategol, lle mae'n dal i gael ei wneud yn rheolaidd, yn dal i gael ei ddominyddu gan y broses o gasglu a dadansoddi data'r heddlu a data cyfiawnder troseddol gan ddadansoddwyr yr heddlu'n bennaf, gyda defnydd cyfyngedig o ddata ehangach o fewn y bartneriaeth sydd ar gael gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, gwasanaethau tân a darparwyr gwasanaethau cymunedol y trydydd sector ac ychydig iawn o ymwneud gan ddadansoddwyr nad ydynt yn gweithio i'r heddlu.

Fodd bynnag, mae'r her i drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru bellach yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad i gynnal 'asesiad strategol' gyda chyfarwyddyd i "ddeall achosion sylfaenol materion i'w hatal rhag digwydd" (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015). Felly mae asesiad strategol effeithiol i flaenoriaethu a chynllunio ymyriadau diogelwch cymunedol yn galw am ddull holistaidd a soffistigedig er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy cyffredin

sy'n ystyried y tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy eu hunain.

Mae dull o fesur a rheoli perfformiad sy'n seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy'n galw am ffordd sylfaenol wahanol o feddwl sy'n cydnabod y cydymddibyniaethau rhwng agendâu sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd wrth weithio tuag at ganlyniadau ar gyfer y boblogaeth sy'n fwy holistaidd ac yn anos i'w mesur. Mae ffordd o feddwl sy'n rhoi sylw i ganlyniadau hefyd yn cydnabod y risgiau bod 'dangosyddion' ar gyfer asiantaethau neu bartneriaethau unigol yn dod yn 'dargedau' sy'n dwyn canlyniadau gwrthnysig, neu'n gweithio yn erbyn yr amcan ar y cyfan. Er enghraifft, mae'r thema 'lleihau aildroseddu' yn enghraifft wych lle gallai angenrheidiau blaenorol o ran perfformiad yr heddlu i sicrhau 'sanctsiwn/datrysiad' ar gyfer troseddau cofnodedig a dod â throseddau gerbron y llys fod wedi amharu ar dulliau mwy adferol a dargyfeiriol o ymdrin â phobl ifanc sy'n cyflawni troseddau, pe na bai nifer o uwch swyddogion mewn PDCau yn barod i fentro defnyddio dull gwahanol iawn a mwy cynaliadwy o fewn ymylon fframweithiau perfformiad yr heddlu ar y pryd.

Mae tystiolaeth wedi dangos bod rhoi troseddwr tro cyntaf trwy'r system cyfiawnder troseddol yn wrthgynhyrchiol. Yn lle hynny, mae Timau Troseddau leuenctid yng Nghymru wedi ceisio gofyn pam fod y trosedd wedi digwydd a dargyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o droseddu. Mae'r dull hwn wedi arwain at ostyngiad sylweddol a pharhaus yn nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf a gostyngiad cyffredinol mewn troseddau cofnodedig, gan leihau'r gost i asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gysylltiedig â rheoli pobl ifanc sy'n cyflawni troseddau. Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi galluogi asiantaethau a gweithwyr proffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth well am achosion ymddygiad troseddol megis profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar wybodaeth dda am drawma trwy gynlluniau megis Brysbennu a Rheoli Achosion Uwch.

Bydd dibyniaeth ar ddata cyfiawnder troseddol – wedi'i ddadansoddi gan ddadansoddwyr cyfiawnder troseddol – mewn asesiadau strategol a thactegol yn tueddu i ganolbwyntio ar 'symptomau' yn hytrach nag 'achosion' ac mae felly'n annhebygol o arwain at flaenoriaethu a rhaglenni gweithgarwch mwy cynaliadwy gan bartneriaethau.

Ceir tystiolaeth bod yr awdurdodau cyfrifol ar hyn o bryd yn dioddef yr hyn y gellid ei alw'n 'flinder ar asesu' – mecanweithiau sydd heb gysylltiad i raddau helaeth ac sy'n mynd a dod yn gyson i ateb gofynion statudol amrywiol mewn perthynas â blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gweithgarwch mewn partneriaeth ym maes diogelwch cymunedol, llesiant a chynaliadwyedd, plant a phobl ifanc ac iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaeth ein gwaith ymgysylltu â dadansoddwyr ac ymchwilyr, ymhlith eraill, amlygu bod hyn wedi cael ei waethygu gan doriadau sylweddol a pharhaus mewn ymchwil gymdeithasol ac adnoddau dadansoddol ar gyfer yr holl asiantaethau o ganlyniad i fesurau cyni'r sector cyhoeddus.

Gyda llai o ddadansoddwyr ar gael i wneud gwaith 'asesu' effeithiol, mae ymatebwyr yn awgrymu bod y dasg yn cael ei gwneud yn anos gan rwystrau megis: setiau data anghydnaws y mae'n rhaid eu 'glanhau' cyn y gallant gynnig unrhyw werth dadansoddol; systemau TGCh anghydweddol nad ydynt yn cyfathrebu gyda'i gilydd nac yn caniatáu mewngludo/allgludo data critigol gan arwain at lefelau uchel o fysellu dwbl ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda hwy; amheuaeth sylweddol ynghylch cywirdeb a dibyniadwyedd data 'partneriaid' oherwydd safonau casglu a chofnodi data amrywiol; a chymhlethdodau a achosir mewn perthynas â phatrymau daearyddol gwahanol ar gyfer casglu data – sy'n amrywio o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHloedd) i wardiau etholiadol a siroedd ac amrywiaeth o strwythurau rhanbarthol sy'n bell o fod yn gydffiniol. Mae israniadau daearyddol anghydnaws mewn gwahanol ffrydiau data'n rhwystr i ddadansoddi.

Mae tystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer yr adolygiad yn nodi hefyd, er bod bron i 20 mlynedd wedi mynd heibio ers creu'r porth dan Adran 115 o'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn i hwyluso'r broses o rannu data personol er mwyn atal neu leihau troseddau, bod cyndynrwydd cyffredinol yn dal i fodoli ymhlith unigolion o fewn awdurdodau cyfrifol, ac yn arbennig ymarferwyr rheng-flaen, i rannu data, yn setiau data personol ac amhersonol cyfanredol, gyda phrofiad cymysg o effeithiolrwydd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru.

Mae anallu i gael mynediad at ffynonellau data personol yn effeithio'n negyddol ar gynhyrchion asesu a ddarperir gan ddadansoddwyr ond mae'n cael effaith fwy llym byth ar weithgarwch datrys problemau a chomisiynu gwasanaethau partneriaethau, gydag asiantaethau sydd â gorchwyl i ddatblygu ymyriadau priodol ar gyfer unigolion

yn dibynnu ar 'bosau jig-so' anghyflawn o wybodaeth. Mae cyndynrwydd i rannu data hefyd yn effeithio ar weithgareddau allweddol megis datblygu 'proffiliau o broblemau' – er enghraifft Proffiliau Lleol Gwrth-derfysgaeth neu Broffiliau Troseddau Difrifol a Threfnedig sy'n aml yn cynnwys bylchau sylweddol mewn gwybodaeth y gellid eu pontio â mynediad gwell at ddata.

Mae rhannu data personol yn hanfodol i weithredoli gwaith mewn partneriaeth a gweithgarwch datrys problemau i wella diogelwch cymunedol ond mae rhannu data personol ac amhersonol cyfanredol ar gyfer ei ddadansoddi'n hanfodol ar gyfer cynllunio a phennu blaenoriaethau ym maes diogelwch cymunedol. Fe wnaeth Adran 17A o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 sefydlu set ddata amlasiantaeth sylfaenol gyffredin i gefnogi'r gweithgarwch hwn ynghyd â 'dyletswydd' i rannu. Canfuom dystiolaeth gyffredin nad yw Adran 17A yn ganolo mwyach i'r broses asesu strategol blynyddol. Ar ben hynny, mae methiant i ddefnyddio setiau data cyffredin sylfaenol yn gyson ar gyfer asesu a chynllunio ym maes diogelwch cymunedol hefyd yn atal y gallu i feincnodi rhwng ardaloedd ac yn ei gwneud bron yn amhosibl i sefydliadau cenedlaethol gyfuno data i gyfrifo 'cyfartaledd' ar gyfer Cymru, heb sôn am asesu cynnydd cenedlaethol tuag at wella canlyniadau. Cafodd y materion hyn eu hamlygu'n arbennig yn adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru yn 2017, *Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory* a roddodd ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd o'r cylch cyntaf o asesiadau llesiant gan yr 19 BGC.

Ceir enghreifftiau diweddar o bartneriaethau lle daethpwyd i gytundeb ynglŷn â defnyddio set ddata sylfaenol gyffredin, er enghraifft o ran dull y pum BGC yng Ngwent o gynnal eu cylch cychwynnol o asesiadau llesiant, gan alluogi rhywfaint o feincnodi a chyfuno rhanbarthol i ddigwydd. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi, er gwaethaf cyfoeth o ganllawiau anstatudol ategol ynghylch dulliau dadansoddi effeithiol a set ddata sylfaenol gyffredin argymelledig a luniwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru i ategu Cydamcanu – Cydymdrechu, ei bod yn amlwg o'r arfarniad o'r cylch cyntaf o asesiadau llesiant nad oedd y canllawiau hyn wedi cael eu rhoi ar waith yn eang. Mynegwyd pryderon hefyd gan nifer o ymatebwyr i'r adolygiad ynghylch diffyg cyffredinol data 'diogelwch cymunedol' – heblaw am ddata diffygiol ynghylch canfyddiad – a ddefnyddiwyd yn y cylch diweddar o asesiadau gan BGCau.

Mae hefyd yn amlwg o dystiolaeth a gasglwyd mewn nifer o ymgysylltiadau ar gyfer yr adolygiad bod y broses o gomisiynu gwasanaethau neu ddatrysiadau diogelwch cymunedol yn aml yn seiliedig ar ddadansoddiad anghyflawn o ddata ynghylch anghenion, bylchau ac adnoddau a thystiolaeth gyfyngedig am 'yr hyn sy'n gweithio' ac, yn yr un modd, yr hyn nad yw'n gweithio. Dywed amrywiaeth eang o ymarferwyr diogelwch cymunedol y rhoddwyd cyfweiliad iddynt fod partneriaid statudol yn aml yn ymrwymedig i gasglu data nad yw'n datgelu rhyw lawer am ffactorau achosol sy'n gysylltiedig â materion diogelwch cymunedol na gwella canlyniadau, ond sy'n canolbwyntio'n hytrach ar fewnbynnau, allbynnau, trwybynnau a symptomau (e.e. nifer yr achosion o drosedd). Gellir crynhoi'r dull hwn, sy'n aml yn cael ei sbarduno gan ofynion 'data perfformiad' y Llywodraeth, â'r disgrifiad 'gwneud yr hyn sy'n fesuradwy yn bwysig yn hytrach na gwneud yr hyn sy'n bwysig yn fesuradwy'.

Dangosodd asesiad o weithgarwch 'comisiynu' partneriaethau ei fod yn aml yn dameidiog ac yn digwydd mewn seilos thematig neu sefydliadol, gyda chomisiynwyr yn aml yn dylunio ac yn cynllunio gwasanaethau heb ddata critigol o brosesau cydymddibynnol eraill, sy'n ailadrodd y syndrom 'pos jig-so'. Gellir gweld enghraifft glir o hyn yn yr amrywiaeth o wahanol ffyrdd y mae partneriaethau lleol a rhanbarthol yn 'comisiynu' gwasanaethau cymorth ac ymyrryd ar wahân ar gyfer camddefnyddio sylweddau, anghenion tai â chymorth, iechyd meddwl, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol tra bo'r defnyddwyr gwasanaethau eu hunain yn aml yn dibynnu ar yr holl wasanaethau hyn oherwydd eu hanghenion cymhleth. Ceir tystiolaeth hefyd o weithgarwch cyfyngedig i gasglu a chymhwyso gwybodaeth hanfodol am adborth defnyddwyr gwasanaethau wrth drefnu a dylunio gwasanaethau diogelwch cymunedol priodol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Yn yr un modd, dywedodd ymarferwyr fod gweithgarwch 'comisiynu' partneriaethau yn aml yn cael ei ystyried yn 'ychwanegol at' fusnes craidd i'r awdurdodau cyfrifol dan sylw, er enghraifft ei fod yn cynnwys dim ond ffrydiau cyllido penodol (e.e. Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Camddefnyddio Sylweddau) yn hytrach na'i fod wedi'i brif-ffrydio'n llawn. Mae ymdrechion i gryfhau'r cysylltiadau â phrosesau cynllunio ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol – megis y gofyniad i Fyrddau Cynllunio Ardal (BCAau) roi cyfrif am y dyraniad o gyllideb graidd y BILl sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau triniaeth

camddefnyddio sylweddau a chymeradwyo'r dyraniad hwnnw – yn gam yn y cyfeiriad cywir.

Ar yr ochr gadarnhaol, canfu'r adolygiad dystiolaeth bod cydnabyddiaeth gynyddol i werth 'cudd-wybodaeth fusnes' gan y partneriaid statudol o ran blaenoriaethu busnes craidd a gweithgarwch mewn partneriaeth, yn enwedig mewn ymdrech i gyfeirio adnoddau sy'n lleihau drwy'r amser yn fwy effeithiol i leihau'r galw am ymyriadau costus gan wasanaethau cyhoeddus – yr hyn y gellid ei alw'n 'rheoli'r galw'. Mae arwyddion bod gwersi'n cael eu dysgu oddi wrth y sector masnachol o ran cydnabod bod dadfuddsoddi mewn cudd-wybodaeth fusnes yn cael effaith negyddol ar y 'llinell isaf' tra bo buddsoddi mewn data ynghylch ymrannu a phroffilio demograffig-gymdeithasol – systemau megis Mosaic a CACI Acorn – yn gallu cyfoethogi cudd-wybodaeth am y darlun at ddibenion asesu strategol a thactegol.

Mae dystiolaeth sy'n dynodi – lle mae dadansoddwyr o wahanol asiantaethau diogelwch cymunedol naill ai wedi'u cydleoli neu o leiaf yn gweithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio rhwydweithiau neu rwydweithio rhithwir a alluogir gan TGCh – bod dealltwriaeth well am y mathau o ddata sydd ar gael, bod data'n cael ei rannu'n well a dadansoddi cyfoethocach yn digwydd. Mae rhwydweithiau megis Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaethau'r Llywodraeth (GAIN) a'r grŵp Dadansoddeg a Pherfformiad Ymchwil Integredig (IRAP) wedi dangos gwerth mynd ati'n effeithiol i asesu gweithgarwch trawsranbarthol mewn perthynas â throseddau difrifol a threfnedig a dulliau rheoli integredig troseddwy'r effeithiol yn y drefn honno.

Fodd bynnag, mae hyd yn oed dadansoddwyr sy'n gweithredu yn y rhwydweithiau cymharol effeithiol hyn yn amlygu materion o ran 'arafwch' cyfnewid data a achosir gan systemau a/neu ddata anghydnaws. Mae datrysiadau TGCh amlasiantaeth megis NOMADS, sy'n cysylltu systemau rheoli troseddwy'r heddlu a gwasanaethau prawf i greu dull o rannu data mewn amser real yn dangos y ffordd tuag at ymyriadau mwy effeithiol ac maent wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o alw troseddwy'r yn ôl i'r carchar ar sail risg.

Efallai fod arafwch rhannu a dadansoddi data at ddibenion asesu strategol a thactegol mewn partneriaeth yn fwyaf llym yn yr ymatebion presennol mewn partneriaeth i seiberdroseddu, yn enwedig troseddau meddiangar, sy'n gallu newid yn gyflym a bod yn ddynamig yn ôl eu hunion natur. Er bod nifer o heddluoedd yn

treialu gwaith a arweinir gan Uned Ymchwil, Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Swyddfa Gartref ar hyn o bryd i ddatblygu dealltwriaeth well am dueddiadau a phatrymau a phroffiliau dioddefwyr seiberdroseddu, er mwyn hwyluso gweithgarwch atal gwell gan dimau heddlu lleol mae'n amlwg bod yr oedi ar hyn o bryd cyn darparu negeseuon briffio cudd-wybodaeth ystyrion ar gyfer swyddogion cymdogaeth ac Ymgynghorwyr Tactegol Lleihau Troseddau rhanbarthol yn rhy hir.

Ffocws Ardal Pilgwenlli Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd (Astudiaeth Achos)

Ardal canol dinas i'r de o ganol Casnewydd yw Pilgwenlli a ddaeth yn ffocws ar gyfer sylw gan y cyfryngau lleol a chenedlaethol yn dilyn brig mewn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd cynnydd wedi bod mewn digwyddiadau treisgar ym Mhilgwenlli yn dilyn ymdrechion dwys i gyfyngu ar droseddau a oedd wedi canolbwyntio ar ardal canol dinas Casnewydd.

Adnabuwyd Pilgwenlli yn wreiddiol gan BGLI Casnewydd fel blaenoriaeth a oedd yn dod i'r amlwg ac fe gomisiynwyd gwaith ymchwil a dadansoddi pellach ar bryderon a adnabuwyd fel rhan o ddatblygu 'proffiliau wardiau'. Ym mis Hydref 2016, roedd Pilgwenlli yn y penawdau unwaith eto yn dilyn nifer o helyntion lle cafodd nifer o bobl eu harestio gan yr heddlu. Roedd ymateb cychwynol gan yr heddlu a'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â phryderon y gymuned agosaf cyn gwaith pellach i gasglu a dadansoddi cudd-wybodaeth a ddangosodd fod y materion yn effeithio'n sylweddol ar ddwy ACEHI yn ward Pilgwenlli yn hytrach na'r ward gyfan.

Fe gyhoeddodd y BGC, a oedd wedi disodli'r BGLI, fandad cryf i'r holl bartneriaid i flaenoriaethu camau gweithredu ym Mhilgwenlli a chafodd ffrwd waith grŵp ffocws ardal benodol ei sefydlu gan y BGC, dan gadeiryddiaeth y comander rhanbarthol. Fe ddatblygodd y grŵp ffocws gynllun gweithredu drafft sydd wedi cael ei fireinio ers hynny o ganlyniad i waith pellach i gasglu a dadansoddi cudd-wybodaeth sy'n 'cyfoethogi'r darlun' gan ddefnyddio data a gwybodaeth amlasiantaeth ehangach o'r gymuned leol.

Mae'r dull Sganio-Dadansoddi-Ymateb-Asesu (SARA) a fabwysiadwyd gan arweinwyr ffrwd waith y BGC wedi arwain at ddealltwriaeth well am y ffactorau sy'n achosi'r materion a'r pryderon diogelwch cymunedol a brofir gan y gymuned leol –

gan gynnwys clwstwr anarferol o Dai Amlfeddiannaeth yn y sector rhentu preifat sy'n eiddo i landlordiaid absennol, ac sy'n creu poblogaeth sylweddol o denantiaid incwm isel, dros dro a chanddynt ystod eang o anghenion cymhleth mewn dwy ACEHI, ac mae'r dull hefyd wedi arwain at adnabod cysylltiadau rhwng Grwpiau Troseddau Trefnedig a gangiau stryd lleol o bobl ifanc wedi ymddieithrio.

Mae grŵp ffocws y BGC bellach wedi ymestyn ei ymgysylltiad ag ystod ehangach o bartneriaid a chynrychiolwyr cymunedau er mwyn datblygu dealltwriaeth well am y materion a adnabuwyd a mynd i'r afael â hwy ac mae'n datblygu dull rheoli cymdogaeth amlasiantaeth. Er mai gwaith ar y gweill ydyw o hyd, mae cymuned Pilgwenlli wedi cydnabod llwyddiant cychwynnol yr ymdrechion ar y cyd ac mae sylw diweddarach yn y cyfryngau wedi bod yn fwy cadarnhaol o lawer.

Mae rhai casgliadau allweddol y daeth tîm yr adolygiad iddynt ar sail yr astudiaeth achos hon yn cynnwys:

- Pwysigrwydd datblygu dealltwriaeth well am y ffactorau achosol sydd wrth wraidd pryderon ynghylch diogelwch cymunedol er mwyn datblygu ymatebion a datrysiadau mwy effeithiol – gan ddefnyddio methodolegau profedig megis SARA i barhau i gasglu a dadansoddi data amlasiantaeth a gwybodaeth gymunedol nes bod datrysiadau ac ymyriadau posibl yn dod yn amlwg;
- Gwerth cynhyrchion cudd-wybodaeth megis proffiliau wardiau neu gymdogaethau o ran mynd ati'n gynnar i adnabod materion a allai fod yn fwy difrifol;
- Yr angen i fuddsoddi mewn dadansoddiadau amlasiantaeth – yn yr achos hwn roedd yn ffodus bod uwch reolwr mewn awdurdod lleol â phrofiad o ddadansoddi'n rhan o waith y BGC ac felly'n gallu pontio'r bwch yn adnoddau dadansoddol yr awdurdod lleol;
- Fe achosodd diffyg astudiaethau achos, pecynnau cymorth a thempledi 'arfer effeithiol' i BGC Casnewydd 'ailddyfeisio'r olwyn' i bob pwrpas er mwyn sefydlu dull â ffocws ar y gymdogaeth neu'r ardal leol o fynd i'r afael â'r materion pan oedd dulliau tebyg o ymdrin â materion o'r fath wedi cael eu profi a'u gwerthuso mewn ardaloedd canol dinas cyfagos eraill a phan oedd ymatebion gan yr heddlu Thimau Troseddau leuenctid i faterion Grwpiau

Troseddau Trefnedig ar gael gan gyrff cyfatebol yng Nglannau Mersi ac mewn ardaloedd eraill;

- Pwysigrwydd cynnwys y gymuned yn y gwaith o lunio a chynnal datrysiadau posibl, gan gynnwys deall dewisiadau'r gymuned ar gyfer ymgysylltu – yn yr achos hwn daeth yn amlwg bod yn well gan y gymuned gyswllt wyneb yn wyneb ac allgymorth na chyswllt mewn fformat ysgrifenedig.

Hwb Cymorth Cynnar Maesteg (Astudiaeth Achos)

Prosiect cydweithio arloesol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu De Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Barnado's a'r NSPCC yw'r Hwb Cymorth Cynnar ym Maesteg, sy'n treialu dull newydd sy'n seiliedig ar wybodaeth dda am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thrawma wrth weithredu'r ymateb plismona i sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed ac yn wynebu risg.

Mae'n dilyn dadansoddiad helaeth o alwadau am wasanaeth i Heddlu De Cymru a achosodd Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd, y canfuwyd fod 89% ohonynt wedi cael eu cau heb unrhyw weithredu pellach. Dangosodd y dadansoddiad faint y galw gan 'bobl agored i niwed' nad yw dulliau a hyfforddiant plismona traddodiadol wedi'u bwriadu i'w ateb a chydabu'r angen am ymyrryd yn gynnar ar sail amlasiantaeth.

Sefydlwyd Hwb Maesteg i brofi a gwerthuso dull o ymdrin â sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed sy'n golygu ymyrryd yn gynnar ar sail amlasiantaeth gyda Thimau Plismona Cymdogaeth ac i dreialu rhaglen hyfforddi gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar wybodaeth dda am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i blismona sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed. Mae'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar gyswllt yr heddlu gyda phlant, pobl ifanc a'u gofalwyr/rhieni. Os bydd hyn yn profi'n effeithiol, bydd yn cael ei ehangu i gynnwys grwpiau eraill o bobl agored i niwed.

Mae nodau'r cynllun peilot yn cynnwys sicrhau bod timau heddlu cymdogaeth ac ymateb wedi'u hyfforddi a'u harfogi i adnabod ac ymateb i sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed ar y cyfle cynharaf ac i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael cymorth a chefnogaeth priodol pan fo'u hangen arnynt.

Pan fo'r heddlu'n cael eu galw allan i ymateb i ddigwyddiad ac yn asesu bod rhywun yn agored i niwed maent yn cofnodi hyn ac yn aml yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r

Gwasanaethau Cymdeithasol trwy gyfrwng Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd. Y diwrnod gwaith nesaf, mae'r Tîm Plismona Cymdogaeth yn sgrinio'r cofnod o'r digwyddiad i chwilio am wybodaeth bellach ac yn rhannu hon â'r Hwb Cymorth Cynnar (ar yr amod bod y person agored i niwed wedi rhoi cydsyniad). Wedyn penderfynir a fydd yr Hwb Cymorth Cynnar yn cymryd cyfrifoldeb am yr achos ar gyfer ymwneud pellach, a yw'r heddlu'n teimlo bod camau gweithredu pellach iddynt hwy ac a fyddai ymweliad ar y cyd o gymorth.

Mae swyddogion heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael hyfforddiant, ochr yn ochr ag ysgolion, landlordiaid cymdeithasol ac asiantaethau eraill. Cefnogir y gweithgarwch hwn gan gydgysylltydd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a rôl y cydgysylltydd hwn yw gweithio gydag asiantaethau i hybu a datblygu dealltwriaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac ymyriadau cynnar.

Mae'r cynllun peilot wedi bod yn rhedeg ers mis Mehefin 2017 ac mae gwerthusiad cychwynnol wedi dangos hyder cynyddol gan yr heddlu i ymateb i sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed, dealltwriaeth well am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chynnydd yn nealltwriaeth yr heddlu am rôl asiantaethau partner. Mae hefyd yn cysylltu â rhaglen ehangach o waith sy'n amcanu at ddatblygu dealltwriaeth well am y dangosyddion risg a niwed mewn cymunedau, cefnogi proses strategol i asesu nifer yr achosion a ffactorau achosol a datblygu ymyriadau sydd wedi'u targedu'n fwy priodol, gan adeiladu ar asedau'r gymuned leol.

Mae rhai casgliadau allweddol y daeth tîm yr adolygiad iddynt ar sail yr astudiaeth achos hon yn cynnwys:

- Mae'r broses o adolygu a nithio gwybodaeth yn mynd â llawer o amser ac 'yn ychwanegol at y swydd arferol' i swyddogion Tîmau Plismona Cymdogaeth ac, er bod y dull (buddsoddi i arbed) yn gallu lleihau'r galw am adnoddau plismona yn y tymor hwy, mae'n dal yn ofynnol buddsoddi rhag blaen mewn lefelau staffio priodol;
- Y bwriad yw bod atgyfeiriad yn arwain yn gyflym at ymyrryd ond ni chafodd maint y galw ei ragweld felly mae angen adnoddau ychwanegol i aros gyfuch â'r llwyth gwaith, yn enwedig gan ei bod yn ofynnol i'r rhai sy'n rhan

o'r broses gyflawni dyletswyddau arferol Tîm Plismona Cymdogaeth (yn wahanol i fodel Sir Gaerhirfryn lle dyrannwyd adnoddau wedi'u neilltuo;

- Mae'r dull yn galw am ffordd newydd o feddwl am fesur canlyniadau cadarnhaol a mwy holistaidd i bobl agored i niwed yn hytrach na defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol safonol ar gyfer yr asiantaethau unigol dan sylw er mwyn dangos llwyddiant a gwerth am arian;
- Ymddengys fod y llwyddiant gwreiddiol yn dibynnu ar frwdfrydedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (gan fod swyddogion heddlu'n ymgysylltu'n llai) ac ar hyn o bryd ceir lefel isel o ran faint o'r garfan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n cael eu cadw;
- Ceir materion logistaidd megis amser teithio a systemau rhannu data anghydnaws sy'n arwain at oedi ychwanegol cyn ymateb (e.e. mae sgrinio'n digwydd ym Mhen-y-bont sydd awr i ffwrdd ar gyfer siwrne yn y ddau gyfeiriad)

2. Adnoddau a Strwythurau

Mae mesurau cyni ar gyfer cyllidebau'r sector preifat a chyllid y trydydd sector – y mae cryn dipyn ohono'n dod o'r sector cyhoeddus ar ffurf grantiau neu gomisiynu gwasanaethau – wedi cael effaith sylweddol ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

“Mae'r broses o ariannu diogelwch cymunedol wedi newid yn sylweddol yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Arferai awdurdodau gael grantiau gan y Swyddfa Gartref, ond mae'r rhain bellach yn rhan o Brif Grant yr Heddlu. Er bod y cyllid ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r heddlu yng Nghymru wedi aros yn sefydlog, mae eu gwariant ar blismona a diogelwch cymunedol wedi gostwng mewn termau real. Mae penderfyniadau ar ba weithgarwch partneriaeth diogelwch cymunedol i'w ariannu wedi dilyn patrymau buddsoddi hanesyddol gan fwyaf ac nid ydynt wedi'u herio'n gyson i sicrhau bod grantiau'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r materion pwysicaf. Mae swm yr arian grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol yn cynyddu. Mae cymhlethdodau'r drefn ariannu gyffredinol ar gyfer diogelwch cymunedol, a'i

natur tymor byr, yn lleihau cyfleoedd i gael mwy o werth am arian. Mae gwasgaru'r arian yn eang yn lleihau'r buddion y gellir eu gwireddu trwy gyfuno a thargedu'r arian.

“Mae toriadau i gyllidebau'r awdurdodau lleol wedi arwain at 32.7 y cant llai o gyllid mewn termau real i reoli a chydgyssylltu diogelwch cymunedol. Mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn sylweddoli bod angen iddynt ddod o hyd i ffynonellau ariannu sicr eraill er mwyn parhau i fodoli, ond hyd yma, ychydig iawn o waith sydd wedi'i wneud i gael gafael ar ffrydiau ariannu newydd. Gyda'r adnoddau'n parhau i leihau, mae'n amheus a yw'r strwythurau cyfredol ar gyfer diogelwch cymunedol yn gynaliadwy ac yn gallu cyflawni'r hyn sydd ei angen.”

Aeth yr Archwilydd Cyffredinol ymlaen i argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ac awdurdodau lleol adolygu trefniadau arian grant presennol a newid i gyllidebau cyfunol gydag ymrwymadau arianno mwy hirdymor i roi cymorth i gyrff cyflawni wella trefniadau cynllunio prosiectau a'r gweithlu mewn modd sy'n canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.

Argymhellwyd hefyd y dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ac awdurdodau lleol ddiwygio'r systemau ar gyfer rheoli risgiau i ddiogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar dawelu meddwl y cyhoedd bod arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.

Mae'r adolygiad wedi canfod bod adnoddau sy'n mynd yn llai wedi rhoi trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol mewn perygl. Mae arolwg CLILC o arweinwyr mewn awdurdodau lleol wedi amcangyfrif bod tua 60% o gyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer trefniadau gweithio PDCau wedi cael ei golli dros y blynyddoedd diwethaf tra bo ymchwil gan Brifysgol De Cymru'n cyfeirio at effeithiau uniongyrchol ar dimau a strwythurau, gallu dadansoddol, hyfforddiant, gweithgarwch ac arbenigedd ymgysylltu â chymunedau ym maes diogelwch cymunedol yn ogystal â gwasanaethau diogelwch cymunedol megis teledu cylch cyfyng, wardeniaid a.y.b. Mae timau diogelwch cymunedol sy'n crebachu hefyd wedi creu tuedd tuag at ymarferwyr cyffredinol – swyddogion y mae eu rolau'n cwmpasu meysydd polisi

ehangach a rheoli partneriaethau ehangach neu gyfrifoldebau ehangach am reoli nifer o wasanaethau sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol – yn hytrach nag arbenigwyr. Yn yr un modd gallwn weld arweinwyr diogelwch cymunedol yn cael cyfrifoldebau ychwanegol, sydd weithiau heb gysylltiad ('diogelwch cymunedol a...') neu gyfrifoldeb am ddiogelwch cymunedol yn cael ei ychwanegu at bortffolio sydd eisoes yn fawr a chymhleth (e.e. 'tai a diogelwch cymunedol').

Mae hyn wedi cyfrannu at wanhau 'gwybodaeth a sgiliau priodol' o fewn PDCau yn sylweddol, a waethygydd gan benderfyniad y Swyddfa Gartref yn 2010/11 i gael gwared â'r wefan Lleihau Troseddau ynghyd â rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant, adnoddau, pecynnau cymorth, canllawiau, astudiaethau achos arfer effeithiol, ymchwil academiaidd a gwerthusiadau datrys problemau amlasiantaeth achrededig. Mae rhwydweithiau cymorth i gymheiriaid megis y Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cenedlaethol a Chymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WACSO) wedi ei chael yn anodd goroesi ac nid oes rôl arwyddocaol ganddynt mwyach yn y gwaith o ddatblygu polisi ac arfer. Mewn cyferbyniad, mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i gefnogi Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol yr Alban (SCSN) fel elusen hyd braich, mewn partneriaeth gyda CoSLA (Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban, ac yn cynnal rhaglen o waith datblygu polisi ac arfer ynghyd â meithrin gwybodaeth a sgiliau priodol ymhlith gweithwyr diogelwch cymunedol proffesiynol yr Alban – er gwaethaf diffyg sail statudol ar gyfer gwaith mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol dan ddeddfwriaeth yr Alban.

Mae'r toriadau i gyllid partneriaethau a nodwyd uchod yn cyd-daro â gostyngiad o 20% yng nghyllidebau craidd yr heddlu ers 2010 a gostyngiad o 27% yng nghyllid awdurdodau lleol Cymru (ar ôl hepgor cyllid addysg) gyda gostyngiadau cyfartalog mewn gwariant ar wasanaethau sydd mor uchel â 52% ar gyfer meysydd megis gwasanaethau rheoleiddio, 42% ar gyfer gwasanaethau diwylliant a hamdden a 25% ar gyfer gwasanaethau tai, y maent i gyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr agenda diogelwch cymunedol.

Honnir mai canlyniadau'r gostyngiadau hyn yn yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi trefniadau gweithio mewn partneriaeth yw bod yr awdurdodau cyfrifol wedi tueddu i 'grebachu yn ôl i mewn i seilos' a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'fusnes craidd' neu ar ateb o gofynion sylfaenol statudol, gyda gwaith mewn

partneriaeth yn cael ei ystyried yn 'rhywbeth braf i'w wneud' ond nid yn hanfodol. Mae union natur gwaith mewn partneriaeth yn golygu ei fod yn mynd â llawer o amser a'i fod yn llafur-ddwys, gan gynnwys presenoldeb mewn nifer o gyfarfodydd amlasiantaeth, trafodaethau a negodiadau maith a chamau dilynol, yn anad dim rhaeadru gwybodaeth yn fewnol i eraill mewn priod sefydliadau y mae angen iddynt gael eu cynnwys neu i wneud penderfyniadau pellach i gefnogi camau gweithredu gan bartneriaethau. I'r swyddogion hynny y mae eu rôl yn cwmpasu sbectrwm eang o themâu diogelwch cymunedol mae hyn yn golygu gorfod blaenoriaethu o ran pa gyfarfodydd y byddant yn bresennol ynddynt, gan greu bylchau sy'n tansellio union ffabrig gwaith mewn partneriaeth. Er bod hyn yn effeithio ar yr holl bartneriaid, mae'r effaith yn cael ei themlo'n fwy llym gan asiantaethau yn y trydydd sector sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau diogelwch cymunedol.

Er y gellid dadlau bod newid i weithio'n rhanbarthol yn lleihau nifer y cyfarfodydd y mae eu hangen i weithio mewn partneriaeth, mae cymhlethdod o ran patrymau rhanbarthol lluosog mewn rhai ardaloedd ynghyd â strwythurau lleol dyblyg i hwyluso'r broses o gyflawni blaenoriaethau strategol yn weithredol a threfniadau llywodraethu aneglur wedi arwain at luosogiad rhwydweithiau a strwythurau partneriaethau fel a ddangosir yn ymarfer mapio rhanddeiliaid yr adolygiad (**Atodiad viii**). Ar ben hynny, er y bu cynnydd mewn telegynadleda a fideogynadleda i hwyluso 'presenoldeb rhithwir' mewn cyfarfodydd, yn enwedig byrddau neu rwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol lle mae angen teithio dros bellter hirach, cyfyngedig fu'r arfer o fabwysiadu technoleg ddigidol i hwyluso rhwydweithio rhithwir ac mae dibyniaeth ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb o hyd.

Y mater allweddol gyda gweithio'n rhanbarthol a nodwyd gan ymatebwyr yw ei fod yn gweddu i ddulliau strategol o weithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol ond ei fod yn gallu dod yn rhwystr i ddulliau tactegol a gweithredol mwy effeithiol, sy'n lleol ac yn benodol o ran natur fel rheol. Gall cymunedau gwahanol brofi materion diogelwch cymunedol tebyg ond anaml y mae cymhwyso datrysiadau unffurf yn gweithio. Mae gweithio'n rhanbarthol yn creu her sylweddol o ran atebolrwydd democrataidd hefyd – gan ei bod yn ofynnol yn gynyddol i gynghorwyr wneud penderfyniadau ar fyrddau rhanbarthol strategol sy'n adlewyrchu budd rhanbarthol ehangach yn hytrach na buddiannau mwy lleol eu hetholaethau neu awdurdodau lleol penodol y cawsant eu hethol i gynrychioli eu buddiannau.

Mae trefniadau partneriaeth rhanbarthol hefyd yn creu her i sefydliadau a darparwyr gwasanaethau diogelwch cymunedol llai yn y trydydd sector sydd, ar y naill law, yn gallu cynnig adnoddau ychwanegol y mae eu dirfawr angen ar ffurf gwirfoddolwyr a chyllid anghyfnygedig ynghyd â'u cryfderau cymunedol ond sydd, ar y llaw arall, yn ei chael yn anodd cyfranogi yn yr ystod o gyfarfodydd angenrheidiol neu dyfu yn unol â'r anghenion i ateb gofynion cyflawni rhanbarthol sydd hefyd yn tanseilio'u sylfeini lleol a'u gwreiddiau cymunedol.

Mae ymarferwyr diogelwch cymunedol yn datgan bod lledaenu adnoddau'n rhy denau hefyd yn arwain at gylch dieflig o orfod blaenoriaethu'r meysydd gwaith mwyaf dybryd, sy'n gadael dim amser na gallu i edrych tua'r dyfodol – yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'ymladd tân' ac adweithio i argyfyngau uniongyrchol heb unrhyw gyfle i fod yn rhagweithiol a symud y ffocws tuag at atal a rheoli'r galw yn y dyfodol. Gan fod llai o adnoddau dadansoddol ar gael i bartneriaethau, mae'n anorfod bod ffocws ar ddadansoddi digwyddiadau, patrymau a thueddiadau o ran troseddau a diogelwch cymunedol yn hytrach na'r achosion sylfaenol wrth gynnal asesiadau sy'n cyfarwyddo prosesau blaenoriaethu partneriaethau. Mae hyn yn atgyfnerthu'r thema 'ymladd tân' adweithiol.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn canolbwyntio'n glir ar gynllunio ar gyfer y tymor hir a buddsoddi i arbed trwy leihau'r galw yn y dyfodol am 'ymyriadau argyfwng' gan wasanaethau cyhoeddus – rhywbeth y mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yn draddodiadol wedi amcanu at ei gyflawni, megis dwyn gostyngiad sylweddol yn y rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf trwy gefnogi timau cyfiawnder ieuenctid gyda mentrau dargyfeirio ac ymyrryd yn gynnar.

Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddi i arbed yn dod yn fwy cyfyngedig tra bo'r galw'n cynyddu'n gyflym – er enghraifft o ran gweithio i ganfod anghenion sydd heb eu diwallu ym maes trais yn erbyn menywod trwy fwy o adrodd – a'r angen uniongyrchol i ymyrryd mewn argyfwng yn cynyddu. Mae bron i hanner cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei wario ar ofal iechyd, y mae'r mwyafrif ohono'n canolbwyntio ar 'driniaeth', a rhagwelir y bydd bwch o £2.5b yng nghyllid y GIG yn 2025/26 oni bai yr eir i'r afael â'r duedd bresennol yn y galw. Er bod partneriaid diogelwch cymunedol yn ceisio lleihau'r galw yn y dyfodol – er enghraifft trwy

fuddsoddi arian grant mewn atal trais, ymarfer sy'n seiliedig ar wybodaeth dda am drawma a gwaith i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac i atal a lleihau camddefnyddio sylweddau – ceir tystiolaeth bod y gyfran o'r gwariant ataliol yn dal i fod yn gymharol isel. Mae trothwyon ar gyfer mynediad at wasanaethau cymorth statudol – yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl – yn aml yn gweithio yn erbyn y ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar a geisir gan fentrau mewn partneriaeth megis yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) neu'r Hwb Ymyrryd yn Gynnar.

Gellir gweld enghraifft gadarnhaol o asiantaethau'n cyfuno i fuddsoddi i arbed yn HelpPoint Abertawe, a ganmolwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant fel arfer effeithiol. Fe'i cychwynwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru mewn ymateb i faterion gydag economi hwyr y nos yn y ddinas, ac mae bellach yn cael ei ariannu ar y cyd gan Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (WAST) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM) gan gael cyfanswm o £105,000 y flwyddyn. Mewn 12 mis mae wedi arbed 1,300 o siwrneiau ambiwlans, 1,100 o dderbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys ac ar 1,300 o achlysuron mae wedi galluogi swyddogion heddlu i fynd yn ôl ar y stryd yn lle gorfod disgwyl gyda'r person agored i niwed nes bod ambiwlans yn cyrraedd. Mae gwirfoddolwyr o blith darpar swyddogion heddlu a gwirfoddolwyr Ambiwllans Sant Ioan yn galluogi'r system i weithio ac, er bod rhaid i bartneriaid wneud eu cyfraniadau o adnoddau presennol, mae'n ei gwneud yn bosibl rhoi adnoddau ar waith yn fwy effeithiol ac mae'r rhai sydd y tu cefn i'r cynllun yn dweud ei fod gystal â chynyddu nifer y staff sydd ar gael ar adegau o bwysau gormodol ar bob un o'r tri gwasanaeth. Amcangyfrifodd Gwerthusiad Economeg Iechyd o'r HelpPoint gan Brifysgol Abertawe fod y cyfleuster yn arbed cost flynyddol o £655,360 i wasanaethau cyhoeddus. Mae'r arbediad hwn wedi'i ddsbarthu fel a ganlyn: £414,843 i Fwrdd Iechyd PABM (pobl wedi'u dargyfeirio o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys); £180,224 i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (llai o alwadau am ambiwlans) a £60,293 i Heddlu De Cymru (3,120 o oriau wedi'u harbed).

Arferai'r Swyddfa Gartref gydgyssylltu ymchwil gyfnodol i archwilio a meintioli 'cost troseddau' i bwrs y wlad ac economi'r DU bob blwyddyn a oedd yn darparu'r sail i Bartneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn a Phartneriaethau Diogelwch

Cymunedol baratoi achosion busnes ‘dadansoddi cost a manteision’ dechreuol ar gyfer buddsoddi mewn gwaith atal yn ogystal â modd i ennyn ymgysylltiad partneriaid a oedd fel arall yn gyndyn â gwaith ar y cyd i atal a lleihau troseddau. Nid yw’n ymddangos bod yr ymarfer hwn wedi cael ei ailadrodd ers 2010 ac mae arweinwyr diogelwch cymunedol yn dynodi eu bod bellach yn ei chael yn anodd meintioli gwerth y gwaith y maent yn ei wneud, sy’n rhwystro ymdrechion i ennyn ymgysylltiad partneriaid mwy cyndyn megis BILlau.

Yn gyson ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016, canfu tîm yr adolygiad ddryswch o ran ffrydiau ariannu diogelwch cymunedol o ffynonellau llywodraethol amrywiol, gyda llawer o grantiau’n rhai y mae telerau ac amodau gweddol gyfarwyddol ac anhyblyg yn gysylltiedig â hwy ac yn galw am lefelau sylweddol o ymdrech gweinyddol, monitro ac adrodd ar gyfer symiau o arian sydd fel arfer yn gymharol fach a byrdymor. Gyda llawer o’r ffrydiau ariannu mae’r cyllid fel arfer yn flynyddol o ran ei natur ac yn darparu graddfeydd amser a sefydlogrwydd annigonol i’w gwneud yn bosibl comisiynu a chontractio gwasanaethau diogelwch cymunedol yn effeithiol ac yn peidio â chaniatáu amser i fanteision ymyriadau gael eu gwireddu. Mae ymarferwyr diogelwch cymunedol yn cyfeirio hefyd at y ffaith bod terfynau amser gwariant ar ‘ddiwedd y flwyddyn’ yn wrthgynhyrchiol gyda rhuthrau munud olaf blynyddol i wario cyllidebau erbyn 31 Mawrth pan fyddai buddsoddiad mwy hirdymor yn ddoethach.

Er bod BGCau yn dal yn gymharol newydd, a hwythau newydd gwblhau eu hasesiadau llesiant cychwynnol ac wrthi ar hyn o bryd yn datblygu eu set gyntaf o flaenoriaethau a chynlluniau, mae eu hesblygiad o BGLlau yn darparu sylfaen gref o sawl blwyddyn o brofiad o gynllunio a phartneriaeth integredig i adeiladu arni. Fodd bynnag, dywedodd nifer o’r rhai a ymgysylltodd â’r adolygiad bod ffocws o hyd ar newid strwythur a phroses – ‘ticio blychau’ yn erbyn y canllawiau statudol, fel y disgrifiodd un ymatebydd – gydag ymdrech annigonol i newid diwylliannau sefydliadol. Mae’n dal yn ymddangos bod cyndynrwydd cyffredinol i gyfuno cyllidebau craidd neu i aildrefnu gwasanaethau craidd mewn dull y gellid ei alw’n ddull ‘lle cyfan’ neu ‘gyllideb gyfan’ a fyddai’n dod â BGCau yn fyw go iawn ac yn creu newid sylfaenol yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflunio a’u darparu i gynnig datrysiadau cynaliadwy i anghenion dinasyddion. Ceir tystiolaeth bod rhai BGLlau ac, yn fwy diweddar, BGCau wedi ystyried potensial cynlluniau ‘Lle

Cyfan' megis Total Cumbria wrth ddatblygu eu ffyrdd o feddwl; fodd bynnag, mae prif weithredwyr awdurdodau lleol yn arbennig yn dweud bod cyndynrwydd cyffredinol ymhlith partneriaid allweddol i roi ystyriaeth ddifrifol i ail-lunio gwariant ar y cyfan yn y sector cyhoeddus yn eu hardaloedd i ailddylunio gwasanaethau craidd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae sawl BGC yn arbrofi â dulliau newydd o ran rheoli cymdogaeth neu ardal ar sail amlasiantaethol yn seiliedig ar gudd-wybodaeth a thystiolaeth, gan gynnwys sefydlu timau amlddisgyblaethol wedi'u cydleoli sydd â ffocws ar ddatrys problemau yn y tymor hwy yn rhai o gymunedau mwyaf amddifadus Cymru. Ymddengys fod cysylltiadau rhwng mentrau o'r fath a'r agenda Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ynghyd â datblygiadau mewn 'hybiau' ymyrryd yn gynnar yn dangos arwyddion calonogol o lwyddiant cynnar. Mae canolfannau gwasanaethau ar y cyd a 'hybiau' mewn cymdogaethau neu ardaloedd lleol sy'n dod â llawer o wasanaethau a phartneriaid yn agosach at ddinasyddion a chymunedau yn dangos manteision hefyd, yn anad dim lefelau uwch o ymgysylltu â dinasyddion. Ceir tystiolaeth bod cydleoli timau amlddisgyblaethol yn lleihau'r gofyniad ar gyfer cyfarfodydd ac yn cynyddu gallu, galluedd a phrosesau rhannu gwybodaeth – gyda'r egwyddor bod y cyfan yn fwy na'r rhannau – fodd bynnag, mae cydleoli hefyd yn gallu bod yn broblemus mewn cyfnod o gyni lle mae gweithwyr proffesiynol wedi cael rolau a chyfrifoldebau lluosog – nad yw rhai ohonynt yn gyson â bod wedi'u cydleoli.

Un o elfennau sylfaenol Deddf wreiddiol 1998 – sy'n dal i fod yn berthnasol heddiw – yw Adran 17, a adwaenir yn gyffredin fel y 'gofyniad i brif-ffrydio' diogelwch cymunedol. Mae Adran 17 yn berthnasol i'r 'awdurdodau cyfrifol' dan y Ddeddf ac yn datgan:

“Without prejudice to any other obligations imposed upon it, it shall be the duty of each authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all it reasonably can to **prevent** crime and disorder, anti social behaviour, behaviour adversely affecting the environment and substance misuse and to reduce re-offending in its area.”

Er bod Adran 17 yn galw am ddull tebyg i'r Ddeddf Cydraddoldeb – mewn geiriau eraill, ystyriaeth gadarn i effaith unrhyw benderfyniadau a phrosesau cynllunio

gwasanaethau o ran diogelwch cymunedol – ar hyn o bryd nid oes sancsiwn i awdurdod cyfrifol sy'n diystyru ei gyfrifoldeb dan Ddeddf 1998. Mae nifer o ymatebwyr i'r adolygiad yn disgrifio Adran 17 fel 'oen mewn croen blaidd' ac maent wedi galw am gryfhau'r elfen hon o'r ddeddfwriaeth, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys yr awdurdodau cyfrifol mewn partneriaethau cynllunio strategol megis BGCau neu mewn prosesau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau craidd. Mae'r diffyg sancsiynau sy'n gysylltiedig ag Adran 17 wedi cael ei briodoli gan ymatebwyr i'r adolygiad i ddadfuddsoddi parhaus o ran yr arian o 'gyllidebau craidd' sy'n cael ei neilltuo i dalu am adnoddau diogelwch cymunedol ers cyflwyno mesurau cyni ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'r newidiadau i ffrydiau ariannu'r Swyddfa Gartref a arweiniodd at leihau cyfanswm y cyllid sydd ar gael i PDCau.

Mae tystiolaeth yn dangos mai lefel gymysg o ymgysylltu ac ymwneud sydd o hyd ymhlith BILlau a darparwyr gwasanaethau iechyd eraill â threfniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol, yn enwedig y gwasanaethau a'r rhaglenni hynny sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda phartneriaid diogelwch cymunedol yn datgan bod y 'ffocws iechyd' yn dal i fod ar driniaeth. Mae corff cynyddol o waith – dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn gysylltiedig â Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Llywodraeth Cymru – sy'n ystyried manteision mabwysiadu arfer sy'n seiliedig ar wybodaeth dda am drawma ac yn canolbwyntio ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod mewn meysydd megis atal trais, mynd i'r afael a chamddefnyddio sylweddau ac ymdrin â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, mae ein hymgysylltiad ag ymarferwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuencid a seicoleg glinigol, yn dangos bod y lefel bresennol o ran y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yn annigonol ac o bosibl nad yw'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ar hyn o bryd yn briodol i ddiwallu anghenion defnydd gwasanaethau mwy anhrefnus. Amcangyfrifir bod 70% o'r galw am wasanaethau heddlu'n cael ei greu gan gyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd emosiynol gyda heddluoedd yn nodi diffyg gwasanaethau i reoli'r galwadau hynny'n briodol.

Mae llawer o bartneriaethau'n dweud bod cynrychiolwyr BILlau sy'n mynychu eu cyfarfodydd yn bartneriaid parod ar y cyfan; fodd bynnag, maent yn datgan bod cymhlethdodau strwythurau sefydliadol BILlau a'r galwadau brys i ddiwallu anghenion presennol am driniaeth iechyd yn milwrio yn erbyn hymgysylltiad ac

ymwneud mwy effeithiol â gweithgarwch mwy ataliol gan bartneriaethau diogelwch cymunedol. Mae BILlau ar y cyfan wedi'u sefydlu'n dda mewn rhai rhaglenni diogelwch cymunedol, megis camddefnyddio sylweddau a Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ond maent yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau triniaeth. Gall BILlau ddod â chyfoeth o arbenigedd cynllunio a chomisiynu gwasanaethau i drefniadau gweithio mewn partneriaeth, lle mae ymgysylltiad ac ymwneud yn effeithiol. Soniwyd am rai tensiynau rhwng rhai o'r BCAau ar gyfer camddefnyddio sylweddol ac arweinwyr diogelwch cymunedol ac mae'n amlwg nad yw'r llinellau llywodraethu ac atebolrwydd i PDCau – a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 – yn glir mwyach.

Mae arweinwyr BILlau sy'n mynychu grwpiau strategaeth a chynllunio diogelwch cymunedol lluosog ar gyfer gwahanol siroedd yn eu rhanbarth hefyd yn dweud bod eu sefydliad yn profi anhawster o ran bodloni dulliau gwahanol a hynod unigol sy'n ofynnol gan waith datrys problemau lleol, gyda hyblygrwydd neu allu cyfyngedig i fabwysiadu dulliau cyferbyniol mewn siroedd cyfagos. Maent hwy'n awgrymu nad yw strwythurau a phrosesau partneriaeth traddodiadol yn benthyca'u hunain yn rhwydd i ymgysylltiad gwell â gwasanaethau 'iechyd' ac yn aml ceir diffyg dealltwriaeth am y modd y mae gwasanaethau iechyd wedi'u strwythuro a'u cyflunio, a rolau gwahanol gweithwyr iechyd proffesiynol ynddynt. Amlygwyd hyn yn arbennig gan ymatebwyr o Fyrddau Iechyd Betsi Cadwaladr, Hywel Dda ac Aneurin Bevan sy'n mynychu nifer o bartneriaethau lleol yn eu priod ardaloedd yn rheolaidd.

Mae asiantaethau'r trydydd sector yn gynyddol yn darparu ystod eang o wasanaethau diogelwch cymunedol – o gymorth i ddiodefwr i raglenni cyflawnwyr ac o gynlluniau dargyfeirio oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol i weithgarwch atal radicaleiddio. Mae cryn dipyn o'r gweithgarwch hwn yn cael ei ariannu gan gynlluniau grantiau – y mae rhai ohonynt o fewn 'cylch gwaith PDCau' a rhai yn annibynnol ar weithgarwch partneriaethau – tra bo rhaglenni eraill yn cael eu cyflawni trwy drefniadau comisiynu a chontractio'r sector cyhoeddus. Dywed ymatebwyr o'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus bod manteision cynnwys sefydliadau'r trydydd sector yn cynnwys mwy o hyblygrwydd a gallu i ymgyfaddasu a'r gallu i weithredu newid yn gyflymach nag asiantaethau statudol, ar y cyd ag ymrwymiad brwdfrydig i'r maes ac arbenigedd a phrofiad arbenigol ynghyd â gwerth ychwanegol cyllid anghyfyngedig, gwirfoddoli a chysylltiadau ac ymgysylltiad

cymunedol cryf. Mae ymatebwyr hefyd yn cydnabod bod cryfderau o'r fath yn gallu arwain at wendidau hefyd megis obsesiwn gyda materion unigol, lobïo afrealistig a methiant i 'weld y darlun mwy'.

Fodd bynnag, mae ymatebwyr o asiantaethau'r trydydd sector wedi dweud bod asiantaethau statudol yn aml yn talu 'gwasanaeth gwefusau' i syniadau cynnwys a chydgyhyrchu, ac nad ydynt wastad yn deg, yn agored nac yn dryloyw o ran eu hymwneud â'r sector. Maent hwy'n awgrymu bod tuedd tuag at 'farchnadeiddio' asiantaethau bach, arbenigol yn y trydydd sector – a ysgogir gan gystadleuaeth fwy ffyrnig i sicrhau adnoddau sy'n mynd yn llai ac yn llai a dulliau caffael traddodiadol sy'n seiliedig ar dendro cystadleuol. Lle mae trefniadau consortia trydydd sector yn cael eu datblygu gan asiantaethau statudol i geisio cael gwared â brath marchnadeiddio ac amddiffyn gwasanaethau arbenigol cymunedol, mae'r rhain yn aml yn ceisio gorsymleiddio mewn ymdrech i ymdrin dim ond ag un asiantaeth arweiniol, gan arwain at erydu arbenigeddau a rhoi anogaeth ar gyfer asiantaethau cyffredinol.

Ceir awgrym bod prosesau caffael cystadleuol â ffocws ar gyflawni costau is a gwerth am arian yn gallu arwain hefyd at gomisiynu a/neu ariannu gwasanaethau a all ymddangos yn rhatach yn y tymor byr ond sy'n profi i fod yn llai cost-effeithiol yn y tymor hwy trwyn syndrom 'drws troi', gan fod ar ddefnyddwyr gwasanaethau angen ymyriadau dro ar ôl tro. Mae rhai asiantaethau'n dweud bod diffyg safonau ansawdd y cytunwyd arnynt ac a fabwysiadwyd yn genedlaethol ar gyfer sawl maes o ran darparu gwasanaethau diogelwch cymunedol – megis y rhai a ddefnyddir gan gomisiynwyr camddefnyddio sylweddau – yn cyfrannu at farchnad anghyfartal lle mae comisiynwyr yn ei chael yn anodd cymharu cynigion tebyg wrth ystyried tendrau a gyflwynwyd, gan fod gwasanaethau sy'n fwy costus yn ôl pob golwg ac sy'n gweithio i gyrraedd safonau uwch yn methu â chystadlu â darparwyr rhatach nad ydynt yn gwneud hynny.

Mae arweinwyr y sector cyhoeddus, ar y llaw arall, yn cyfeirio at faterion gyda diffyg trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol cadarn wrth ymdrin â darparwyr y trydydd sector, diffyg eglurder ynghylch gwir gostau darparu gwasanaethau, yn enwedig 'costau craidd' fel y'u gelwir, a 'phwy sy'n talu am beth', gydag amheuaeth bod mewnbynau ac allbynau'n cael eu cyfrif ddwywaith wrth ddarparu

adroddiadau monitro a gwerthuso prosiectau ar gyfer arianwyr lluosog. Mae comisiynwyr y sector cyhoeddus hefyd yn ei chael yn anodd sicrhau bod gwasanaethau cymunedol hynod effeithiol ond bach yn 'tyfu yn unol â'r gofynion' i sicrhau darpariaeth gyfartal ar draws sir neu ranbarth, gan greu loteri codau post o ran y ddarpariaeth.

Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf (MASH) (Astudiaethau Achos)

Cafodd MASH Cwm Taf ei gomisiynu gan y Bwrdd Diogelu rhanbarthol mewn ymateb i argymhellion a ddeilliodd o adolygiad achos difrifol o farwolaeth trasig y plentyn MM yn yr ardal leol ac mae wedi bod yn llwyr weithredol ers mis Mai 2015. Fe amlygodd yr adolygiad angen am fwy o gysylltedd a chydweithio rhwng y timau perthnasol o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau, ynghyd â gwelliannau i drefniadau rhannu gwybodaeth.

Mae'r hwb wedi'i leoli yng Ngorsaf Heddlu Pontypridd ac mae'n cynnwys nifer o wasanaethau sydd wedi'u cydleoli gan gynnwys gwasanaethau plant ac oedolion o Gyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, gwasanaethau addysg, BILI Cwm Taf, gwasanaethau prawf, yr heddlu a'r trydydd sector, ac mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys amddiffyn plant, diogelu oedolion agored i niwed a chynadledau amlasiantaeth asesu risg (MARAC) cam-drin domestig.

Amcanion yr uned yw sicrhau: gwell cydgysylltu a chysondeb o ran y trothwy ar gyfer gwasanaethau/y broses benderfynu pan godir pryder; amseroedd ymateb gwell yn arwain at ymyriadau cynharach a mwy effeithiol; gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau a wneir dro ar ôl tro.

Yr hyn sy'n allweddol i'r lwyddiant yw 'ethos tîm' gyda chynrychiolwyr y gwasanaethau sy'n cyfrannu wedi'u cymysgu gyda'i gilydd mewn un ystafell sydd wedi'i dylunio'n fwriadol fel ei bod yn edrych ac yn teimlo'n wahanol i swyddfa heddlu, a'r unig derfynau a ddefnyddir yw arbenigeddau 'oedolion' ac arbenigeddau 'plant'. Mae offeryn rheoli gwybodaeth ac ymdrin ag achosion amlasiantaeth o'r enw M-Hub yn ganolog i'r dull gydag ymgais i rannu gwybodaeth trwy broses fyw mewn amser real.

Roedd rhaid i'r tîm oresgyn materion megis diffyg ymwybyddiaeth ymhlith timau ehangach, megis atebwyr galwadau'r heddlu a thimau ymateb ac ysgolion a

chyndynrwydd cychwynnol i rannu data personol, gyda'r tîm bellach yn 'osgoi' yr angen i sefydlu protocol dan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru ac yn defnyddio dogfen syml sy'n nodi 'porth cyfreithiol ar gyfer rhannu'. Mae anghydnawsedd data a systemau a 'bysellu dwbl' yn dal i fod yn faterion i'r tîm, ac felly hefyd trothwyon ar gyfer gwasanaethau.

Yn ei flwyddyn gyntaf, sefydlodd MASH linellau sylfaen ar gyfer mesur llwyddiant yn y dyfodol ac mae eisoes wedi dangos tystiolaeth o gostau is i asiantaethau sy'n gysylltiedig â mynychu cyfarfodydd rheoli achosion a chyda chleientiaid, rhyddhau adnoddau at ddibenion eraill, effeithlonrwydd gwell a chyflymder gwell o ran sicrhau ymyriadau effeithiol a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau gyda thystiolaeth gynnar o ostyngiadau mewn atgyfeiriadau a wneir dro ar ôl tro.

Yn bwysig, mae cydleoli a threfn well ar gyfer rhannu gwybodaeth wedi arwain at adnabod risgiau ychwanegol a sefyllfaoedd ychwanegol lle mae pobl yn agored i niwed – er enghraifft mae atgyfeiriadau mewn perthynas â materion trais domestig wedi adnabod plant sy'n wynebu risg yn gyflymach tra bo atgyfeiriadau oherwydd pryderon sy'n ymwneud â diogelu plant wedi adnabod materion trais domestig yn y cartref.

Mae rhai casgliadau allweddol y daeth tîm yr adolygiad iddynt ar sail yr astudiaeth achos hon yn cynnwys:

- Pwysigrwydd rhannu gwybodaeth personol mewn amser real rhwng asiantaethau i ddeall a rheoli'r materion, risgiau a sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed sy'n rhan o achosion unigol ac osgoi'r oedi cyn rhoi darnau'r at ei gilydd i gwblhau'r 'jig-so' data hollbwysig;
- Yr angen am weithgarwch gwell i godi ymwybyddiaeth o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru a phyrth cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth ymhlith ymarferwyr rheng-flaen nad ydynt yn teimlo'n hyderus i rannu fel arall;
- Yr angen i wella cydnawsedd data o wahanol asiantaethau yn ogystal â chydawnsedd systemau i leihau'r angen am 'fysellu dwbl' a chyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer gwallau neu i golli data;
- Pryderon bod y 'trothwyon' presennol ar gyfer gwasanaethau arbenigol hanfodol megis gwasanaethau cymdeithasol a thriniaeth iechyd meddwl yn

gallu milwrio yn erbyn ymyriadau cynharach ac felly mwy effeithiol a llai costus pan fo'n dra thebygol y bydd y trothwy'n cael ei gyrraedd rywbryd yn y dyfodol;

- Yr angen am fwy o gydnerthedd mewn timau arbenigol bach sydd wedi'u cydleoli – er enghraifft dim ond un gweithiwr addysg sydd i wasanaethu'r holl ysgolion ac arweinwyr diogelu ar gyfer dau fwrdeistref sirol, heb unrhyw un i gyflenwi yn ystod gwyliau;
- Yr angen i 'brif-ffrydio' arfer effeithiol a ddatblygwyd trwy dimau amasiantaeth wedi'u cydleoli fel rhan o fusnes craidd o ddydd i ddydd ar gyfer yr asiantaethau a'r gwasanaethau cysylltiedig.

3. Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016 i'r casgliad bod cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud yn anodd i gyrff cyhoeddus gydgysylltu dull strategol o wella diogelwch cymunedol, sy'n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd ac yn tansilio'r potensial i helpu pobl i gadw'n ddiogel.

“Fodd bynnag, o ganlyniad i ddatganoli mae ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU at elfennau amrywiol o ddiogelwch cymunedol yn datblygu mewn gwahanol ffyrdd a gallent felly ymwahanu yn ymarferol ac o ran ymagwedd. Nid yw plismona lleol yng Nghymru wedi ei ddatganoli a chaiff ei gyflawni gan bedwar heddlu a phedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Maent yn dilyn arweiniad y Swyddfa Gartref. I fod yn gwbl effeithiol, mae angen i'r Heddlu weithio gydag awdurdodau lleol oherwydd mai llywodraeth leol sy'n gyfrifol am reoli'r partneriaethau diogelwch cymunedol lleol.

“Fodd bynnag, mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn gweithredu ar lefel awdurdod lleol ac nid ar lefel heddlu. Cynhyrchir y canllawiau ar gyfer y partneriaethau gan y Swyddfa Gartref ac maent yn atebol iddi. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid cyhoeddus i awdurdodau lleol yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae cymhlethdodau'r llinellau atebolrwydd yn golygu nad yw'r un corff unigol yn arwain nac yn cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru.

“Nid oes gan Lywodraeth Cymru strategaeth unigol ar gyfer diogelwch cymunedol ac mae wedi canolbwyntio ei gweithgareddau ar gyflenwi'r Rhaglen Lywodraethu. Er bod gan bob awdurdod lleol a'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddau gynlluniau, nid ydynt wedi'u halinio'n gyson i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a'r effaith fwyaf bosibl, ac nid yw'r flaenoriaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol yr un peth mewn unrhyw faes. Mae cynllunio datgymalog a chydgyssylltu gwael yn esgor ar y perygl y bydd sefydliadau naill ai'n dyblygu gweithgarwch, neu'r perygl na fydd yr un ohonynt yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf.”

Fe argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ac awdurdodau lleol wella trefniadau cynllunio strategol i gydgyssylltu gweithgarwch ar gyfer diogelwch cymunedol yn well trwy ddisodli'r fframwaith cynllunio presennol â strategaeth genedlaethol a ategir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyfer diogelwch cymunedol. Dylai'r cynlluniau rhanbarthol a lleol hyn gael eu hategu gan gynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n cwmpasu gwaith yr holl bartneriaid ac yn nodi'n glir y cyfraniad rhanbarthol a lleol tuag at gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol. Argymhellodd adroddiad 2016 welliannau i drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaethau strategol hefyd trwy greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol sy'n disodli strwythurau diogelwch cymunedol presennol ac sy'n ffurfioli ac yn dwyn ynghyd waith Llywodraeth Cymru, heddluoedd, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Wrth ohebu gyda Nick Ramsay AC, Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2016, cydnabu Llywodraeth Cymru lawer o'r heriau a oedd wedi'u nodi yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a chytunodd y gallai'r adolygiad a'r diweddariad hwn ym maes diogelwch cymunedol ystyried, ymhlith pethau eraill:

- yr angen a ddealltwriaeth gyffredin am Ddiogelwch Cymunedol;
- datblygiadau y neddfwriaeth y DU a Chymru a pha un a oes angen am ddiwygio pellach, gan gynnwys y cyfleoedd a gynigir gan Fil Cymru;
- datblygiadau ar lefel polisi'r DU, er enghraifft diwygio carchardai;

- datblygiadau mewn prosesau cynllunio sengl trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- cydnabod cyd-ddibyniaethau rhwng gweithgareddau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau a'r potensial i alinio'r rhai yn well;
- datblygu mecanweithiau cynllunio, llywodraethu, sicrwydd a pherfformiad wedi'u lliflinio mewn strwythur a fydd yn cynnwys yr holl bartneriaid ac yn cydnabod y cyfleoedd a gynigir gan ein camau arfaethedig i ddiwygio llywodraeth leol;
- y bydd y mecanweithiau hynny'n effeithlon ac yn effeithiol, y bydd atebolrwydd yn dryloyw ac y bydd cyn lleied â phosibl o ddyblygu ymdrech.

Yn ddisgwyliadwy, mae'r adolygiad wedi nodi mai'r heriau o ran 'llywodraethu ac arweinyddiaeth' a adnabuwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yw'r rhai mwyaf arwyddocaol a phroblemus i'w goresgyn er mwyn i'r agenda diogelwch cymunedol yng Nghymru gael ei "symud yn ei blaen" gan unrhyw ymarfer diweddar. Fodd bynnag, mae'r fframwaith cynllunio strategol a ddisgrifir yn y tri argymhelliad cyntaf yn adroddiad 2016 yn hynod annhebygol o gyflawni'r cynnydd sy'n ofynnol ac – yn waeth byth – ni fyddai'n ateb y gofynion o ran trefniadau partneriaeth integredig a chydweithredol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a gyfarwyddir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fe wnaeth nifer llethol o ymatebwyr a ymgysylltodd â thîm yr adolygiad adnabod cymhlethdod o ganllawiau a chyfarwyddiadau gan wahanol is-adrannau llywodraethol ynghylch cyflawni gweithredol sy'n aml yn gwrthdaro neu, o leiaf, yn ddryslyd – o ran y gwahaniaeth a nodwyd eisoes rhwng Caerdydd a San Steffan ond hefyd o fewn y priod lywodraethau eu hunain. Er bod mecanweithiau'n bodoli ar gyfer deialog rhwng swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac i swyddogion drafod themâu trawsbynciol gyda chydweithwyr o wahanol is-adrannau o fewn eu sefydliadau eu hunain, mae'n amlwg nad yw'r rhain mor effeithiol ag y gallent fod. Mae PDCau yn cyfeirio at oes pan oedd Tîm Troseddau'r Swyddfa Gartref yng Nghymru ac Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru wedi'u cydleoli i raddau helaeth a chyda threfniadau cyfnewid a secondio effeithiol rhwng y ddau fel yr adeg pan oeddent yn cael y negeseuon mwyaf cyson a lleiaf croes

ynghylch arfer a dull, er y dylid nodi bod y gwahaniaethau gwleidyddol rhwng y ddwy lywodraeth yn llai amlwg. Mae ymarferwyr diogelwch cymunedol, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn arwain trefniadau gweithio mewn partneriaeth am beth amser, yn dweud bod y ddadl hanesyddol hon i'w gweld fel pe bai'n pegynnu wrth ystyried safbwynt wedi'i orsymleiddio gyda rhai adleisiau o wirionedd bod 'Llywodraeth y DU ddim yn deall Cymru a Llywodraeth Cymru ddim yn deall partneriaethau diogelwch cymunedol'.

Mae ymatebwyr yn awgrymu bod ymgysylltiad da â swyddogion Llywodraeth y DU sy'n gweithio yng Nghymru neu sydd â ffocws ar ddatganoli, sydd â dealltwriaeth well am gymhlethdodau cyflawni polisi Llywodraeth y DU mewn tirwedd ddatganoledig. Fodd bynnag, mae cwestiynau ynghylch gallu nifer cyfyngedig iawn o swyddogion i aros gyfuwch â graddfa a chyflymder datblygiadau polisi Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru – yn enwedig wrth i'r DU baratoi ar gyfer Brexit. Mae cwestiynau ynglŷn â faint o ymgynghori sy'n digwydd â swyddogion yn Llywodraeth y DU sy'n gweithio yng Nghymru neu sydd â ffocws ar ddatganoli i geisio asesu'r goblygiadau i asiantaethau sy'n gweithio yng Nghymru neu hyd yn oed Llywodraeth Cymru ei hun cyn bod cyhoeddiadau ynghylch polisi'r DU yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, ceir corff o dystiolaeth sy'n dangos bod asiantaethau plismona a chyfiawnder heb eu datganoli'n defnyddio dull pragmataidd iawn yn eu hymdrechion i weithredu polisi Llywodraeth y DU ac yn croesawu ymgysylltiad llawn a deialog lawn gyda Llywodraeth Cymru i leihau i'r eithaf yr agweddau negyddol ar ddulliau nad ydynt wedi ystyried y dirwedd ddatganoledig yn llawn.

Er mai sefydliad heb ei ddatganoli ydynt, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru yn ystyried eu bod yn 'ddatganoledig' ac yn gallu cymhwyso polisi plismona a chyfiawnder Llywodraeth y DU mewn ffordd sy'n gweddu orau i amgylchiadau a threfniadau Cymru ac mae'r diwygiadau yn 2011 i Ddeddf 1998 yn rhoi cyfle sylweddol iddynt ar gyfer hyblygrwydd ac annibyniaeth ar y Swyddfa Gartref wrth bennu eu Cynlluniau Heddlu a Throseddau. Mae hefyd yn werth nodi nad yw Comisiynwyr Heddlu a Throseddau'n 'awdurdodau cyfrifol' dan Ddeddf 1998 ac nad oes gofyniad statudol iddynt gael eu gwahodd i fod yn rhan o PDC na chyfranogi mewn un. Mae diwygiadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau a PDCau roi 'sylw' i gynlluniau a blaenoriaethau ei gilydd tra bo'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau'n gallu galw 'awdurdodau cyfrifol' diogelwch

cymunedol yn ei ardal i gyfarfod i drafod materion ar draws yr heddlu cyfan a gofyn am adroddiad ysgrifenedig gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Yn ymarferol maent yn eu hystyried eu hunain yn bartneriaid diogelwch cymunedol sy'n gweithredu mewn amgylchedd datganoledig ac mae pob un o'r pedwar comisiynydd wedi datgan eu barn bod gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru mor bwysig fel bod datganoli cyfrifoldeb am blismona a chyfiawnder troseddol i Lywodraeth Cymru yn ddymunol ac y bydd yn profi'n anochel yn y pen draw.

Mae Deddf 2011 yn nodi nad yw'r pwerau hyn gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn berthnasol i faterion sy'n gysylltiedig â 'swyddogaethau datganoledig'; fodd bynnag, wrth weithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol, nid oes unrhyw raniadau clir rhwng swyddogaethau 'datganoledig' a 'heb eu datganoli' i lywodraeth leol, y gwasanaeth tân a gwasanaethau iechyd. Er enghraifft, gall Comisiynydd Heddlu a Throseddu ofyn am adroddiad ar y modd y mae partneriaid yn ateb eu gofyniad statudol sydd heb ei ddatganoli i 'leihau aildroseddu', ond mae darparu addysg, hyfforddiant a chymorth neu ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer troseddwr i gyd yn gyfrifoldebau datganoledig, sydd fel pe bai'n gwneud i'r amod ymddangos yn ddisynnwyr.

Serch hynny, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi cadw rheolaeth ar gyfran sylweddol o gyllid a oedd yn arfer cael ei ddyrannu gan y Swyddfa Gartref yn uniongyrchol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ac maent yn dal i fod yn ymrwymedig i gefnogi trefniadau lleol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn ardaloedd eu priod heddluoedd. Er enghraifft, fe sefydlwyd Gwent Fwy Diogel i gynorthwyo'r pum awdurdod lleol a'u partneriaid yng Ngwent i gynnal ffocws ar ddiogelwch cymunedol ar adeg pan oedd cyni a 'rhesymoli partneriaethau' yn effeithio'n negyddol ar y PDCau lleol. Mae pob un o'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru'n parhau i fuddsoddi eu cyllidebau yn y rhaglenni a'r gweithgareddau a ddatblygwyd gan y partneriaethau yn eu rhanbarthau, ac maent yn aml yn cefnogi gwasanaethau diogelwch cymunedol hanfodol sydd mewn perygl o fethu trwy dynnu mecanweithiau ariannu eraill yn ôl.

Er gwaethaf cryfderau a dylanwad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru o ran cefnogi trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol, mae ymarferwyr – yn enwedig y rhai mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau

plismona – yn cyfeirio at ddiddymu Tîm Troseddau'r Swyddfa Gartref yng Nghymru fel trobwynt yn yr ymgyrch am drefniadau gweithio a pherfformiad gwell gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, a hynny wedi digwydd ar yr un pryd â mesurau cyni a galwadau gan Lywodraeth Cymru i 'resymoli partneriaethau'. Roedd swyddogion y Swyddfa Gartref yn amlwg yn ystyried y byddai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n rhan annatod o symud trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yn eu blaen ond mae arweinwyr awdurdodau lleol yn arbennig yn awgrymu bod yr heriau cychwynnol i'r comisiynwyr newydd a oedd wedi'u hethol, nad oedd rhai ohonynt yn gwbl ymrwymedig i gydweithredu gyda PDCau a'u cefnogi, wedi achosi 'storm berffaith' o wanhau a diddymu partneriaethau. Mae llawer o ymatebwyr yn awgrymu, gyda gwahaniaethau cynyddol o ran polisi ac arfer mewn perthynas â materion diogelwch cymunedol a'r Swyddfa Gartref yn cadw dull 'gadael llonydd' mewn perthynas â PDCau, bod angen i Lywodraeth Cymru gamu i'r adwy yn awr a darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer yr agenda. Cefnogir y farn hon gan y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru sy'n dweud, oherwydd yr angen hanfodol i weithio'n lleol gyda chyrrff datganoledig, eu bod yn edrych tuag at Lywodraeth Cymru yn hytrach na'r Swyddfa Gartref a'u bod yn aml yn gorfod ymyrryd mewn cyfarfodydd a gynhelir ar sail Cymru a Lloegr i ddweud 'Mae pethau'n wahanol yng Nghymru'.

Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn cwyno hefyd bod 'gor-gyfarwyddo' – yn arbennig mewn perthynas â chyflawni gweithredol ym maes diogelwch cymunedol ond hefyd mewn perthynas â strwythurau rhanbarthol wedi'u mandadu – yn cymryd dull 'yr un peth i bawb' yn ganiataol nad yw'n darparu ar gyfer amrywiadau rhanbarthol na lleol na'r hyblygrwydd i ymateb yn y modd mwyaf priodol i anghenion lleol. Mae gor-gyfarwyddo gan y Llywodraeth, boed ar lefel y DU neu Gymru, hefyd yn dynodi diffyg ymddiriedaeth mewn partneriaid cyflawni a cheir galwad am fwy o ffocws o fewn trefniadau monitro'r llywodraethau ar y canlyniadau a gyflawnir yn hytrach na'r modd y cânt eu cyflawni. Caiff y feirniadaeth hon ei chymhwysu'n arbennig i'r telerau ac amodau a gymhwysir i ffrydiau ariannu llywodraethau lle mae tuedd i ganolbwyntio ar fesur mewnbynau ac allbynau yn hytrach na'r canlyniadau bwriadedig. O ganlyniad, mae dangosyddion perfformiad allweddol – pa un a ydynt yn cael eu pennu gan y Llywodraeth neu'r asiantaeth unigol – yn aml yn dod yn 'dargedau'

perfformiad allweddol sydd wedyn yn arwain at ganlyniadau sy'n anfwriadol ac weithiau'n wrthnysig gan gynnwys methu â chyflawni canlyniadau bwriadedig.

Mae cyfleoedd ar gyfer deialog reolaidd ac ystyrion rhwng llunwyr polisïau o'r ddwy lywodraeth ac ymarferwyr diogelwch cymunedol yn gyfyngedig ar hyn o bryd a'r awgrym yw bod hyn wedi arwain at brosesau llunio polisïau afrealistig nad ydynt yn seiliedig ar faterion ymarferol y 'byd go iawn' na thystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio'. Yn ei adroddiad, nododd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol: "Cred rhai partneriaid bod atal Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan a lleihau swyddogaethau Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WACSO) yn lleihau'r cyfleoedd i gydweithio ar ddiogelwch cymunedol". Gellid dadlau bod Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan wedi darparu fforwm defnyddiol ar gyfer trafod, ond mae llawer o ymatebwyr i'r adolygiad yn awgrymu nad oedd yn llawer mwy na 'siop siarad' heb ryw lawer o gysylltedd neu heb unrhyw gysylltedd o gwbl â threfniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a bod ei berthynas â rhwydweithiau cenedlaethol perthnasol eraill megis Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn amwys gydag awgrym bod y cylch gorchwyl yn cael ei ddyblygu. Mae'n amlwg bod erydu rôl 'swyddog/rheolwr diogelwch cymunedol' awdurdodau lleol ers dechrau'r cyni yn y sector cyhoeddus wedi gadael WACSO mewn cyflwr enbyd heb unrhyw gadeirydd gweithredol a bod cyfarfodydd diweddar wedi bod yn canolbwyntio ar drafodaethau am bresenoldeb y rhwydwaith yn y dyfodol.

Gwnaeth un ymatebydd, sydd wedi bod yn ymwneud yn weithredol â WACSO ers 2003, sylw bod yr adolygiad ei hun wedi ysgogi mwy o ddeialog gyda swyddogion Llywodraeth Cymru am ddiogelwch cymunedol yn ei ystyr ehangach yn ystod yr wyth mis diwethaf nag yn y pum mlynedd flaenorol. Awgrymwyd bod ymwneud blaenorol gan Lywodraeth Cymru â WACSO yn gyfyngedig i raddau helaeth i drafodaeth am themâu 'datganoledig' penodol megis camddefnyddio sylweddau, cyfiawnder ieuencid a chydlyniant cymunedol gyda chyndynrwydd i ymgysylltu ynghylch yr hyn yr ystyrir eu bod yn faterion 'heb eu datganoli'. Cwtogwyd yn sylweddol ar ymgysylltiad y Swyddfa Gartref â WACSO ers i'r newidiadau yn 2011/12 i Dîm Troseddau'r Swyddfa Gartref yng Nghymru leihau'r gallu ar gyfer deialog reolaidd yn sylweddol.

Efallai fod gan drefniadau Bwrdd fforymau cenedlaethol a rhanbarthol eraill megis Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan, Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ac IOM Cymru y gallu i gefnogi datblygiad polisi ac arfer ym maes diogelwch cymunedol, yn ogystal â darparu elfen o lywodraethu, ond nid oes ganddynt yr ymgysylltiad ac ymwneud ehangach gan asiantaethau megis awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol a BILlau ar hyn o bryd i fentro rhyw lawer y tu hwnt i themâu cyfiawnder troseddol craidd. Nododd ymatebwyr hefyd fod y byrddau cenedlaethol a rhanbarthol hyn yn dangos rhywfaint o orgyffwrdd a dyblygiadau ac fe awgrymon nhw fod angen rhesymoli a symleiddio. Hefyd, mae ymatebwyr yn mynegi pryderon bod y fforymau hyn weithiau'n ei chael yn anodd darparu cysyllteddau a 'llinell welediad' rhwng eu hystyriaethau o ran polisi ac arfer strategol a'u prosesau blaenoriaethu a sut y caiff y rhain eu gweithredoli gan dimau rheng-flaen a phrosiectau diogelwch cymunedol.

Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at gymhlethdod a dryswch y dirwedd partneriaethau diogelwch cymunedol, gan ddisgrifio gormodedd o fyrddau amlasiantaeth sy'n annibynnol ac yn aml yn gorgyffwrdd ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae llinellau llywodraethu ac atebolrwydd yn cael eu drysu ymhellach gan yr ystod o batrymau rhanbarthol, sy'n ddibynnol ar thema, ac nad ydynt wastad yn mapio'n gyfforddus yn erbyn ffiniau sefydliadol rhanbarthol. Yr argymhelliad yn yr adroddiad yw "Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol". Mae hefyd yn amlygu'r byrddau diogelwch cymunedol rhanbarthol anstatudol sy'n gweithredu ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru a Gwent fel cyfleoedd i leihau dyblygu a hwyluso trefniadau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Fodd bynnag, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn herio cyrff cyhoeddus i weithredu mewn ffordd fwy integredig, cydweithredol a thrawsbynciol ac yn nodi'r gofyniad i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sefydlu cynlluniau llesiant lle mae'n: "...rhaid ystyried nodau llesiant fel set integredig o saith, hynny er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau perthnasol yn cael eu gwneud yng nghyd-destun gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru". O ganlyniad, mae BGCau wedi ymgorffori themâu diogelwch cymunedol o fewn eu prosesau asesu,

blaenoriaethu a chynllunio ac yn cynnwys byrddau thematig 'mwy diogel' o fewn eu strwythurau yn lle PDC 'annibynnol'.

Cafodd y gynsail ar gyfer 'cynllunio integredig unigol' o'r fath a 'rhesymoli partneriaethau' ei phennu gan ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn 2012, *Cydamcanu – Cydymdrechu* a oedd yn erfyn ar awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau dan y Ddeddf Troseddau ac Anhrefn trwy'r BGLI a oedd wedi'u sefydlu ar y pryd. Tan 2011, roedd yn ofynnol i gynghorau fod â grŵp strategaeth diogelwch cymunedol gyda 'chadeirydd' dynodedig ac isafswm o gyfarfodydd y flwyddyn, yr oedd yn rhaid i un ohonynt fod yn agored i aelodau'r cyhoedd. Fe gyflwynodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 nifer o newidiadau i Ddeddf 1998 gan gynnwys dadreoleiddio nifer o elfennau a oedd yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch gweithrediad PDCau, gan ganiatáu i'w swyddogaethau statudol (asesu strategol, cynllunio a chydweithio) gael eu cyflawni trwy drefniadau partneriaeth a chynllunio mwy hyblyg. Cafodd y newidiadau hyn eu ffurfioli yn Rheoliadau Troseddau ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) (Diwygio) 2011.

Er mai bwriad *Cydamcanu – Cydymdrechu* oedd lliflinio strwythurau a threfniadau llywodraethu partneriaethau a hybu gweithgarwch trawsbynciol mwy effeithiol lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn y cwestiwn, mae'n amlwg o ymarfer mapio rhanddeiliaid yr adolygiad (**Atodiad viii**) nad yw BGLlau ac, yn ddiweddarach, BGCau, wedi bodloni'r dyhead hwn yn llawn ac – os rhywbeth – bod y dirwedd partneriaethau'n fwy anniben a dryslyd yn awr nag oedd cyn 2012. Mae llawer o'r strwythurau a'r 'is-grwpiau' – yn enwedig ar lefel leol – yn hanesyddol o ran natur ac wedi'u hysgogi gan ymdrechion llawn bwriadau da i ennyn ymgysylltiad ystod eang o randdeiliaid sy'n dymuno sicrhau bod maes eu ffocws penodol hwy'n cael ei gydnabod yn ddigonol gan y bartneriaeth drosfwaol. Fodd bynnag, mae ymatebwyr yn cyfeirio at angenrheidiau gwleidyddol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sydd wedi arwain at sefydlu cyrff cenedlaethol a rhanbarthol ychwanegol sydd wedi'u bwriadu i symud themâu penodol megis troseddau difrifol a threfnedig, cydlyniant, gwrth-derfysgaeth a chaethwasiaeth fodern yn eu blaenau. Mae'r rhain yn aml yn cynhyrchu byrddau lleol atblyg i reoli'r gwaith lleol o gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

Y cymhlethdod ychwanegol sy'n deillio o gyflawni cyfrifoldebau diogelwch cymunedol statudol trwy BGCau yw mai dim ond 'cyfranogwyr a wahoddir' yw asiantaethau heb eu datganoli megis yr heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a'r gwasanaethau prawf dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac nid aelodau statudol sydd dan orfodaeth i gydymffurfio ag egwyddorion Deddf 2015. Yn yr un modd, ni all trefniadau rhanbarthol, megis byrddau diogelwch cymunedol Gwent a Gogledd Cymru neu BGC Cwm Taf, sydd â chyfrifoldeb am swyddogaethau diogelwch cymunedol ledled ei ranbarth, ond cyflawni statws 'statudol' gyda chytundeb llawn yr holl 'awdurdodau cyfrifol' a restrir yn Adran 5 o'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn gan gynnwys prif weithredwyr yr holl gynghorau yn y rhanbarth. Gydag ymddangosiad byrddau rhanbarthol sy'n gyfrifol am reoli materion diogelwch cymunedol penodol – megis Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, camddefnyddio sylweddau neu CONTEST – mae'r trefniadau llywodraethu'n deillio o'r 'awdurdodau cyfrifol' a enwir yn Neddf 1998 (fel y'i diwygiwyd).

Dywedodd ymatebwyr i'r adolygiad fod dryswch cyffredinol ar hyn o bryd ynghylch trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol ynddo'i hun a themâu diogelwch cymunedol unigol lle mae trefniadau rhanbarthol a BGCau yn y cwestiwn. Er enghraifft, mae mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed, risg a niwed yn ffactorau cyffredin i bartneriaid diogelwch cymunedol ganolbwyntio arnynt wrth ddatblygu cynlluniau a gwasanaethau ar gyfer materion megis Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, camddefnyddio sylweddau, camfanteisio'n rhywiol ar blant a PREVENT – sy'n arwain at orgyffwrdd sylweddol gyda threfniadau diogelu rhanbarthol y mae eu trefniadau llywodraethu'n deillio o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n berthnasol i sefydliadau datganoledig.

Mae sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol eraill – yn enwedig asiantaethau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyfiawnder troseddol megis y llysoedd, y gwasanaethau prawf, carchardai, y gwasanaeth erlyn a.y.b., nad oes strwythurau rhanbarthol yn bodoli ar eu cyfer – yn dweud eu bod yn profi anhawster ymgysylltu'n effeithiol â BGCau oherwydd gallu cyfyngedig i fynychu cyfarfodydd lluosog. Gall hyn fod yn broblem pan fo BGC yn cyflawni rôl PDC.

Ar yr ochr gadarnhaol, mae gan BGCau, fel y BGLlau a'u rhagflaenodd, y potensial i ddatblygu dulliau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus integredig sy'n fwy 'seiliedig ar le' gan gynnwys cyllidebu sy'n seiliedig ar le a thimau neu hybiau gwasanaethau amlasiantaeth sydd â ffocws ar ardal leol neu gymdogaeth. Gydag ymgysylltu mwy cadarn gan wasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol, maent hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer mwy o ffocws ar ddeall a gweithio i ddatrys y ffactorau achosol sy'n gallu arwain at droseddau ac anhrefn, megis profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae arweinwyr diogelwch cymunedol yn awgrymu, lle mae BGCau wedi ymgysylltu'n llawn â'r agenda diogelwch cymunedol, bod ymrwymiad ar y lefel uchaf i flaenoriaethu a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch priodol ac, i'r gwrthwyneb, lle nad yw BGCau yn ystyried bod diogelwch cymunedol yn flaenoriaeth bod diffyg ymrwymiad ar y lefel uchaf. Ceir gwrthddadl, fodd bynnag, na ddylai BGCau gael eu gorlethu gan ofynion 'cynllunio cymunedol' rheolaidd gan gynnwys diogelwch cymunedol.

Mewn ardaloedd lle mae BGCau wedi derbyn mandad diogelwch cymunedol, mae swyddogion arweiniol diogelwch cymunedol awdurdodau lleol yn dweud bod tensiynau ynglŷn â'u rolau a'u cylchoedd gorchwyl – gan amrywio rhwng rheoli'r elfennau diogelwch cymunedol o fewn strwythur a phroses gynllunio partneriaeth integredig, yn aml fel rhan o 'friff polisi' ehangach a cheisio sicrhau ar yr un pryd bod cydbwysedd rhwng strategaeth partneriaeth a chynllunio gwasanaethau diogelwch cymunedol a'u darparu'n weithredol. Nid yw dull cyferbyniol y 22 awdurdod unedol yng Nghymru o ymdrin â rôl y 'swyddog/rheolwr diogelwch cymunedol' yn ffenomenon newydd ac fe'i hadnabuwyd yn adroddiad ymchwil Prifysgol Caerdydd a gomisiynwyd gan WACSO yn 2007/8. Er bod gan bron pob cyngor ar y pryd swyddog oedd â theitl swydd a oedd yn cynnwys 'diogelwch cymunedol', roedd lefelau'r gydnabyddiaeth ariannol yn amrywio'n sylweddol ac felly hefyd maint a natur y cyfrifoldebau – gan amrywio o 'fandiau un dyn' i adrannau diogelwch cymunedol mawr ac o rolau a oedd yn seiliedig ar bolisi i reolwyr darparu gwasanaethau'n weithredol. Er gwaethaf yr amrywiannau hyn fe wnaeth adroddiad WACSO adnabod cwlwm cyffredin yn yr ystyr bod gan yr holl arweinwyr o bob un o'r 22 ardal 'wybodaeth a sgiliau priodol' a oedd yn canolbwyntio ar gydgysylltu partneriaeth a datrys problemau ar sail amlasiantaeth yn seiliedig ar gudd-wybodaeth.

Dywedir yn aml mai ‘personoliaethau sy’n llywio partneriaethau’ fel sy’n wir am sefydliadau – thema a gododd dro ar ôl tro mewn llawer o’r ymgysylltiadau a gynhaliwyd fel rhan o broses yr adolygiad. Mae PDCau – yn eu cyfanrwydd neu mewn is-grwpiau thematig – wastad wedi ymgodymu â’r patrwm cyson o ran arweinwyr a hyrwyddwyr yn mynd a dod – yn enwedig o ystyried dylanwad sylweddol plismona lle ceir diwylliant o gylchdroi i roi i swyddogion gylch gorchwyl eang o brofiad a sgiliau sy’n aml yn arwain at ddyrchafiad ac adleoli. Mae awdurdodau cyfrifol eraill yn ei chael yn anodd cynnal cysondeb o ran personoliaethau hefyd, er enghraifft gyda chyni’n arwain at golli swyddi, ymddeol yn gynnar neu bortffolios ehangach o lawer i swyddogion awdurdodau lleol a newidiadau i ddeiliaid portffolio cabinetau neu weithrediaethau gyda phob etholiad cyngor dilynol. O ran ‘dynameg grŵp’, mae’n golygu bod byrddau partneriaethau yn aros byth a beunydd yn y cam ‘sefydlu a chynhyrfu’ ac mai anabl y maent yn gallu ‘sefydlogi a chyflawni’ am unrhyw gyfnod o amser. Cafodd y materion hyn eu nodi’n gyson a throsodd a throsodd trwy gydol ymgysylltiadau’r adolygiad heb unrhyw ddatrasiad amlwg.

Fel a amlygwyd yn flaenorol, mae rôl y swyddog/rheolwr diogelwch cymunedol – lle mae’n dal i fodoli – wedi cael ei gwanhau’n sylweddol ond mae ymatebwyr yn nodi pwysigrwydd bod â ‘phrif chwip’ i arwain a hyrwyddo blaenoriaethau diogelwch cymunedol trwy amgylchedd partneriaeth mwy cymhleth. Mae union natur rôl o’r fath yn rhywbeth y mae dadlau yn ei gylch, gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu diweddarau rôl swyddog/rheolwr diogelwch cymunedol awdurdodau lleol tra bo eraill o’r farn y byddai rôl prif swyddog ar reng uwch neu hyd yn oed aelod cabinet etholedig yn fwy dylanwadol. Mae eraill yn dadlau y byddai ‘prif chwip’ yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb corfforaethol am ddiogelwch cymunedol. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn teimlo mai elfennau allweddol rôl o’r fath yw ffocws, gwybodaeth a sgiliau priodol a pharhad er ei bod hefyd yn hanfodol sicrhau bod systemau a phrosesau partneriaeth wedi’u dylunio fel eu bod yn lleddfu newidiadau mewn personél.

Roedd papur ymgynghori Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017 ar ddiwygio llywodraeth leol *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad* yn gofyn a ddylai PDCau newid i batrymau rhanbarthol ai peidio. Er bod 63% o’r ymatebwyr yn gefnogol, nid oedd bron i 65% o’r awdurdodau lleol a ymatebodd o blaid trefn ranbarthol orfodol ond roedd llawer yn cefnogi hyblygrwydd i wneud trefniadau

PDCau yn rhanbarthol os oedd hynny'n briodol yn lleol. Mae Gwent Fwy Diogel, PDC ranbarthol anstatudol a sefydlwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent wrthi (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) yn negodi gyda'r pum awdurdod lleol i geisio cytundeb ffurfiol i gymryd cyfrifoldeb am gyflawni eu cyfrifoldebau statudol dan Ddeddf 1998. Ceir trafodaeth hefyd ynghylch dichonoldeb sefydlu un BGC ar gyfer Gwent. Yr her i bartneriaethau o'r fath – sy'n gwasanaethu rhanbarth mawr gydag amrywiaeth o gymunedau – fydd trosi'r blaenoriaethau strategol yn gamau gweithredu lleol. Wedi'r cwbl, mae diogelwch cymunedol yn rhywbeth sydd â'i le mewn cymunedau.

Mae PDCau 'statudol' rhanbarthol hefyd yn achosi her o ran atebolrwydd. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2016 gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol y sylw nad yw'r "...prosesau ar gyfer goruchwyllo a herio perfformiad wedi'u halinio..." ac ychwanegodd nad yw prosesau a mecanweithiau rheoli risg ar gyfer PDCau a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau wastad yn gadarn. Mae PDCau a BGCau yn ddarostyngedig i gyfundrefnau 'trosolwg a chraffu' awdurdodau lleol er bod gwahaniaethau bach iawn rhwng y ddwy broses o ran pwerau i alw tystion o asiantaethau heb eu datganoli, gan fod Deddf Cymru 2015 sy'n rheoli BGCau yn berthnasol dim ond i 'aelodau statudol' o'r bwrdd. Mae BGC Cwm Taf, sy'n ymgorffori cyfrifoldebau diogelwch cymunedol ei ddau awdurdod lleol cyfansoddol felly'n ddarostyngedig i drefniadau 'trosolwg a chraffu' BGC/PDC ar y cyd ond a'r rheiny'n cynnwys dau gyngor yn unig tra bydd angen i Went ystyried ei pherthynas â phum awdurdod lleol.

Roedd bod â 'gormod o feistri' yn thema arall a oedd yn codi dro ar ôl tro ymhlith ymatebwyr i'r adolygiad, gyda llawer yn datgan bod ymddygiad sefydliadol – boed mewn partneriaethau neu'n annibynnol arnynt – yn cael ei lywio i raddau helaeth gan fframweithiau archwilio, arolygu a chraffu. Disgrifiwyd hyn fel yr egwyddor bod 'yr hyn sy'n cael ei fesur yn cael ei wneud'. Mae 'arolygiadau' o asiantaethau unigol yn gallu arwain at lywio ymddygiad sefydliadol mewn ffyrdd sy'n gwrthdaro ag ethos a dull partneriaeth, yn enwedig gyda gwahaniaethau polisi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar gyfundrefnau arolygu annatganoledig a datganoledig yn wahanol iawn. Ac eithrio 'trosolwg a chraffu' ar ddiogelwch cymunedol, sydd wedi'i fwriadu i fwrw golwg holistaidd ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth a chyfraniadau asiantaethau unigol, ac arolygiadau thematig o

wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, ychydig o arolygu thematig holistaidd sy'n digwydd.

Fe wnaeth ychwanegu 'lleihau aildroseddu' at y rhestr o gyfrifoldebau statudol ar gyfer gwaith PDCau yn 2009 ysgogi peth arbrofi gan y Swyddfa Gartref o ran arolygiadau 'llai manwl' o drefniadau rheoli troseddwy partneriaethau ond ychydig a fu ers hynny.

4. Cynnwys Dinasyddion

Nododd yr adroddiad *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru* her sylweddol mewn perthynas â'r agenda ymgysylltiad, cynnwys a chyfranogiad dinasyddion:

“Gwelir cymhlethdodau'r trefniadau cyflenwi ac atebolrwydd yng nghanfyddiadau ein harolwg dinasyddion, gyda llawer o ymatebwyr yn ansicr ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Dim ond 23 y cant o'r rheini a ymatebodd i'n harolwg cyhoeddus a oedd yn gwybod sut a lle i fynd i gael gafael ar gynllun yr awdurdod lleol ar gyfer diogelwch cymunedol eu hardal a dim ond 18 y cant a oedd yn credu bod y cynllun yn adlewyrchu'r materion diogelwch cymunedol pwysicaf yn eu barn hwy.”

Cododd Llywodraeth Cymru bryderon ar y pryd ynghylch maint bach iawn y sampl a'r ymateb cyfyngedig a oleuodd y casgliad hwn; er hynny, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r 19 PDC yng Nghymru gymryd cyfrifoldeb am wella ymgysylltiad a chyfathrebu gyda dinasyddion wrth ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol; cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac adrodd ar berfformiad a gwerthuso effaith.

Ers eu sefydlu, mae wedi bod yn ofynnol yn statudol bod PDCau yn ymgysylltu ac ym ymgynghori'n rheolaidd â'r gymuned ynghylch eu blaenoriaethau, eu cynlluniau a'u cynnydd tuag at eu cyflawni. Cafodd y gofyniad hwn ei gryfhau gan Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a sefydlodd 'atebolrwydd gweledol ac adeiladol' fel un o 'Nodweddion Partneriaethau Effeithiol'. Fe wnaeth y ddeddfwriaeth hi'n ofynnol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gydgyssylltu sesiynau 'Wynebu'r Bobl' fel y'u gelwir ynghyd ag isafswm o un cyfarfod cyhoeddus gan y 'grŵp strategaeth' bob blwyddyn yr oedd yn rhaid i uwch swyddogion o bob awdurdod cyfrifol fod yn bresennol ynddo.

Ym mis Medi 2007 pan ddiweddarodd y Swyddfa Gartref ei chanllawiau i PDCau a chyflwyno'r Nodweddion, roedd BGCau yn cael eu treialu yng Nghymru ac mae'r ddogfen *Delivering Safer Communities: A guide to effective partnership working* yn eu disgrifio fel a ganlyn: "...Wales's new model for engaging the whole of the Welsh public service in a new way of working, by defining shared outcomes, integrating services, and responding more effectively to citizens' needs."

Pan gyflwynwyd y newidiadau yn 2011 – gan gael gwared â rhai o'r gofynion mwy cyfarwyddol i PDCau gan gynnwys y gofyniad i gynnwys o leiaf un o gyfarfodydd y grŵp strategaeth yng ngŵydd y cyhoedd – fe gynghorodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach y 'dylai' gofynion strategaeth a chynllunio statudol PDCau gael eu cyflawni trwy'r strwythurau 'Cynllunio Integredig Unigol' a oedd yn cael eu datblygu trwy BGLlau gyda neges glir bod angen llinio strwythurau partneriaethau. Mewn nifer o ardaloedd cafodd endidau PDCau – megis 'Prifddinas Fwy Diogel' Caerdydd – eu colli wrth iddynt ddod yn is-fyrddau i'w priod BGLlau.

Mae'r canllawiau statudol *Cydamcanu - Cydymdrechu* a gyhoeddwyd yn 2012 yn datgan fel a ganlyn:

"O ran y cynlluniau a'r strategaethau statudol y mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio atynt, yr unig bartneriaeth statudol yw'r un sy'n cael ei galw'n 'grŵp strategaeth' mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Cyflawnir y rôl hon fel arfer gan y partneriaethau diogelwch cymunedol. Er hynny, mae'n bosibl i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyflawni rôl y grŵp strategaeth, ar yr amod bod aelodau'r grŵp strategaeth sydd wedi'u henwi yn y rheoliadau⁴ yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a'u bod yn cwrdd er mwyn cyflawni dyletswyddau'r grŵp strategaeth."

Gallai'r ffaith bod BGLlau wedi cael eu disodli yn y pen draw gan BGCau awgrymu, fel yr argymhellodd yr Archwilydd, bod ymgysylltu a chyfathrebu gyda dinasyddion bellach yn rhan o gylch gorchwyl y BGC. Fodd bynnag, mae'r adolygiad wedi canfod bod gwahaniaeth barn ynglŷn â natur BGCau a pha un a yw diogelwch cymunedol yn, neu pa un a ddylai fod yn, gyfrifoldeb i BGC. Mewn rhai ardaloedd mae PDCau annibynnol wedi cael eu cadw tra bo'r 'PDC', mewn ardaloedd eraill wedi newid yn fwrdd thematig 'mwy diogel' o fewn strwythur y BGC. Mae ardaloedd eraill wedi mabwysiadu dull hybrid, gyda PDC ar wahân sydd â mecanwaith adrodd sy'n

gysylltiedig â'r BGC lleol. Mae'r darlun cymysg hwn o drefniadau presennol yn golygu felly na fyddai'r argymhelliad yn *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru*, pe bai'n cael ei weithredu, yn ateb y gofyniad statudol ym mhob ardal. Mae'r anghysondeb hwn o ran y dull hefyd yn ei gwneud ddwywaith cyn galeted i aelodau o'r cyhoedd fod yn glir pwy, neu beth yw eu 'partneriaeth diogelwch cymunedol' a phwy neu beth sy'n gyfrifol am ymgynghori ynghylch blaenoriaethau a chynlluniau.

Mae cwestiwn sylfaenol i'w ateb o ran pa mor bwysig yw hunaniaeth 'partneriaeth' i'r cyhoedd – boed yn PDC neu'n BGC â bwrdd 'mwy diogel' – o ystyried nad oes gofyniad mwyach ers 2011 i fod ag 'endid partneriaeth' ond yn syml bod yn rhaid cydweithio mewn partneriaeth a sicrhau bod asesu a chynllunio mewn partneriaeth yn digwydd. Mae ymchwil yn dangos cydnabyddiaeth gyfyngedig i logos a brandiau PDCau, hyd yn oed yn dilyn gweithgarwch helaeth i farchnata a chodi ymwybyddiaeth, gydag aelodau o'r cyhoedd yn fwy parod i uniaethu â'r partneriaid unigol mewn PDC – yr heddlu, y cyngor, y gwasanaeth tân a.y.b. Ceir elfen o'r hyn a allai gael ei alw'n syndrom 'blwch du', gyda'r dinesydd heb fod yn arbennig o ymwybodol o'r modd y caiff gwasanaethau diogelwch cymunedol eu cyflunio neu eu brandio neu yn wir heb fod yn ymddiddori'n arbennig yn hynny ac yn rhoi mwy o bwys ar lefel ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir pan fo'i angen.

Mae adborth o bob math gan ddefnyddwyr gwasanaethau bron wastad yn amlygu'r materion sydd o'r pwys mwyaf fel a ganlyn: rhwyddineb cysylltu (e.e. dulliau 'dywedwch wrthym unwaith', ar gael y tu allan i oriau swyddfa, gyda threfniadau cyfeirio da); y gallu i godi materion yn y pwynt cyswllt cyntaf yn hytrach na gorfod ailadrodd manylion drosodd a throsodd; a bod materion yn cael sylw neu anghenion yn cael eu diwallu'n effeithlon ac yn gyflym, gydag adborth yn cael ei roi gan yr asiantaeth yn enwedig lle mae oedi cyn rhoi ymatebion neu lle na ellir datrys materion. Mae PDCau wedi bod yn ymgodymu ers tro byd â dryswch a chymhlethdod o ran pwy ddylai arwain ar ymateb i gwynion am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, er enghraifft, gydag ymdrechion i uno ymatebion gan wasanaethau y tu ôl i un 'drws ffrynt' neu bwynt cyswllt megis 101 yn arwain at ganlyniadau cymysg. Fodd bynnag, dylai ffocws trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol fod ar sefydlu gwasanaethau integredig a chydweithredol di-dor sy'n darparu ar gyfer y dinesydd yn hytrach na pha un a yw'r

dinesydd yn deall cymhlethdodau strwythurau ac arferion gweithio presennol y sector cyhoeddus sy'n tanategu brand 'PDC' ai peidio.

Yn niffyg dealltwriaeth glir ymhlith y cyhoedd ynglŷn â beth yw 'PDC', beth mae'n ei wneud a ble mae ei chyfrifoldebau'n dechrau ac yn gorffen, bydd unrhyw 'PDC' yn ei chael yn anodd ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Yn yr un modd, mae cymunedau eu hunain yn dod yn anos i'w hadnabod a'u diffinio'n glir, gyda phwyslais cynyddol ar gymunedau 'rhithwir' a gysylltir gan fuddiant cyffredin a'r cyfryngau cymdeithasol yn hytrach na chymunedau daearyddol traddodiadol sydd wedi'u canoli ar gymdogaethau ac amwynderau lleol. Mae'n ddigon posibl y bydd blaenoriaethau diogelwch cymunedol yr un mor bwysig i'r dinesydd unigol yn y lle y mae'n gweithio a'r lle y mae'n tueddu i gymdeithasu ag y maent yn y lle y mae'n byw – ac efallai y bydd 'PDC' wahanol yn gyfrifol am bob un o'r parthau hyn gyda strwythurau, adnoddau, blaenoriaethau a ffyrdd o weithio sy'n gwbl wahanol.

Beth bynnag fo'r materion o ran hunaniaeth partneriaethau, fe danlinellodd ymatebwyr i'r adolygiad bwysigrwydd ymgysylltu'n well â chymunedau, eu cynnwys yn well a chyfranogiad gwell ganddynt yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau diogelwch cymunedol effeithiol, gan gyfeirio at wersi o'r sector preifat lle mae methiant i ymgysylltu â 'chwsmeriaid' yn arwain yn y pen draw at fethiant busnes a chynnyrch aflwyddiannus.

Mae'n rhy gynnar i asesu a yw'r cyhoedd yn deall yn well pwy/beth yw BGC ai peidio; fodd bynnag, mae'n amlwg, fel rhan o'u cylch cychwynnol o asesiadau llesiant, bod BGCau wedi dangos lefelau mwy o lawer o ymgysylltiad cymunedol na'r BGLlau a'u rhagflaenodd – gyda rhai'n mabwysiadu dulliau arloesol iawn. Mae *Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory* (Dysgu o Asesiadau Llesiant 2017) yn nodi:

“Mae ymgysylltu ac ymgyfrannu yn amlwg yn faes lle mae BGCau wedi ffocysu ymdrech sylweddol, ac mewn rhai achosion wedi gwneud ymdrech fawr i ddeall sut mae pobl leol, yn cynnwys pobl ifanc, yn teimlo am lesiant a dyfodol eu cymunedau. Fodd bynnag, nid yw hwn yn ddarlun cyflawn. Mae yna gyfle i adeiladu ar hyn drwy gynllunio llesiant, drwy alluogi sgwrsio dyfnach am yr hyn a ddylai ddigwydd mewn gwahanol ardaloedd a sut i fynd

i'r afael â'r tensiynau a allai hyn eu creu. Mae angen hefyd i FGCau ddeall yn well y ffordd mae pobl yn byw eu bywydau ac ystyried dulliau mwy arloesol o ennyn ymgyfraniad pobl.”

Fe wnaeth nifer o BGCau fwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau allgymorth wyneb yn wyneb y tu allan o oriau swyddfa, gan ddefnyddio digwyddiadau cymunedol a chyfleoedd megis stondinau ar strydoedd neu stondinau codi y tu allan i archfarchnadoedd neu mewn meddygfeydd teulu. Buddsoddodd eraill gryn dipyn o ymdrech mewn paneli dinasyddion fel modd i hwyluso deialog barhaus yn hytrach na dibynnu ar arolwg cyfnodol ac ymatebion i holiaduron. Mae risgiau'n gysylltiedig â mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau, gan gynnwys negeseuon yn cael eu cipio neu eu tanseilio gan drôls neu 'newyddion ffug' yn cael eu creu gan 'ryfelwyr bysellwrdd' fel y'u gelwir, a chryfder teimlad yn anodd i'w asesu, fel sy'n dra hysbys, gan nad yw nifer o anghenraid yn cyfateb i gymeradwyaeth (nid yw nifer yr aildrydariadau neu ddilynwyr wastad yn arwydd o gefnogaeth i safbwynt).

Fodd bynnag, fel a nodwyd uchod, nid yw'r holl drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol wedi'u hymgorffori yn y BGCau ac mae hyd yn oed y BGCau hynny sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am gyflawni'r swyddogaeth statudol yn annhebygol o fod wedi ateb eu gofynion statudol mewn perthynas ag atebolrwydd ac ymgysylltiad gweladwy ac adeiladol trwy'r cylch diweddar o asesiadau llesiant, a oedd wedi'u bwriadu i oleuo blaenoriaethau a chynlluniau llesiant mwy generig yn hytrach na rhai sy'n ymwneud yn benodol â diogelwch cymunedol.

Canfu'r adolygiad hwn – ni waeth pa un a yw diogelwch cymunedol yn rhan o gylch gorchwyl BGC ai peidio – fod partneriaid statudol fel rheol yn syrthio i mewn i'r trap lle maent yn 'ymgyngori gormod', gydag enghreifftiau cyfyngedig o fecanweithiau i ddarparu adborth ystyrllon ar gyfer cymunedau (h.y. 'fe ddwedoch chi, fe wnaethom ni') ac yn methu â datblygu ymgysylltiad â dinasyddion yn gyfranogiad mwy gweithredol, er enghraifft mewn prosesau penderfynu, gan ddefnyddio dulliau megis cyllidebu cyfranogol. Mae ymatebwyr yn y trydydd sector yn cyfeirio at dueddiad i bartneriaid statudol eu galw i mewn i gefnogi gweithgarwch ymgyngori ac ymgysylltu, yn enwedig ar gyfer y sectorau 'anodd i'w cyrraedd' mewn cymdeithas fel

y'u gelwir, ond maent yn cael eu cynnwys yn hwyr yn y broses fel rheol ac mae'r modd y cânt eu cynnwys yn dal i fod yn seiliedig i raddau helaeth ar ddulliau sy'n defnyddio holiaduron ac arolygon yn hytrach na chwilio am ffyrdd mwy ystyrion o ennyn ymgysylltiad a chynnwys. Dywed partneriaid yn y trydydd sector y byddai eu cynnwys yn gynnar yn y broses o gydgyhyrchu a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu â chymunedau'n fwy tebygol o brofi'n llwyddiannus o ran estyn allan at amrywiaeth ehangach o'r boblogaeth yn hytrach na chlywed gan 'yr un hen rai'.

Mae ymarferwyr, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol ac asesiadau llesiant BGCau, yn cyfeirio at argaeledd cyfyngedig adnoddau ac arbenigedd i gynllunio, dylunio a chynnal ymgysylltiad ystyrion â dinasyddion a'r canlyniad yw clytwaith o ymgysylltu ysbeidiol â chymunedau, sy'n aml yn cynnwys ymdrechion dyblyg a gorgyffwrddol gan asiantaethau gwahanol sy'n arwain at ymdeimlad cynyddol o ddiffyg ymgysylltiad cymunedol â methodolegau ymgynghori traddodiadol. Mae mentrau megis arolwg blynyddol 'Ask Cardiff' yn ceisio goresgyn yr elfen dyblygu a gorgyffwrddol a lleihau 'blinder ar ymgynghori' ymhlith dinasyddion ond maent yn dal yn ddibynnol ar ymatebion i arolygon sydd, yn ôl ymchwil gwyddor gymdeithasol, yn darparu ychydig iawn o werth neu ddealltwriaeth ac yn peidio â mynd mor bell â 'chynnwys' pobl o gwbl.

Yn wir, mae ymchwilwyr wedi bod yn cwestiynu manteision cynnal arolygon 'ofn troseddau' ac arolygon eraill o ganfyddiad ers tro byd gan nad ydynt yn ddangosyddion dibynadwy ar gyfer ymdeimlad unigolyn neu gymuned o ddiogelwch – gyda'r ardaloedd hynny sy'n profi'r lefelau isaf o ran troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml yn dangos y lefelau uchaf o ran ofn troseddau ac mae'r un peth yn wir y ffordd arall hefyd. Mae astudiaethau o fecanweithiau traddodiadol ar gyfer ymgysylltu ym maes diogelwch cymunedol megis cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) yn amlygu diffygion sylfaenol gyda'r broses, yn enwedig o ran amrywiaeth a chynwysoldeb, ac yn bwrw amheuaeth ar rinweddau blaenoriaethu camau gweithredu gan yr heddlu a phartneriaid gan ddefnyddio'r dull hwn. Canfuwyd hefyd fod ymgyrchu gwleidyddol a lobiö ar faterion unigol wedi dylanwadu'n ormodol ar flaenoriaethau PACT.

Fodd bynnag, mae atebolrwydd gweladwy ac adeiladol yn dibynnu ar strwythurau a phrosesau democrataidd effeithiol. Cyflwynwyd ‘trosolwg a chraffu’ gan awdurdodau lleol ar PDCau yn 2007 a chafodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Chynlluniau Heddlu a Throseddu eu hychwanegu at y dirwedd ‘perfformiad ac atebolrwydd’ yn 2012. Nid yw rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru o ran llywio perfformiad ac effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol wedi’i diffinio’n eglur yn y cyd-destun datganoledig. Rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a PDCau ‘roi sylw’ i flaenoriaethau ei gilydd ac mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu’r pŵer i alw cynrychiolwyr PDCau i gyfarfod i drafod materion ledled ardal yr heddlu ac i ofyn am adroddiad ysgrifenedig – ac eithrio mewn perthynas â swyddogaeth ddatganoledig. Mae’r amod hwnnw ynddo’i hun yn agored i gael ei ddehongli, yn enwedig yng nghyd-destun gweithgarwch mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru lle mae bron yn amhosibl diffinio’r ffin rhwng cyfraniadau datganoledig ac annatganoledig i ddiogelwch cymunedol gan bartneriaid datganoledig.

Clywodd yr adolygiad fod materion diogelwch cymunedol yn aml yn dod yn ‘beli troed gwleidyddol’ y mae cynghorwyr yr wrthblaid yn aml yn eu hystyried yn gyfleoedd i sgorio pwyntiau yn derbyn aelodau o gabinet neu weithrediaeth y cyngor, neu hyd yn oed Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hunain. Mae swyddogion a rheolwyr diogelwch cymunedol, ynghyd ag arweinwyr plismona cymdogaeth, yn dweud bod tuedd hefyd i gynghorwyr wardiau gael eu hystyried yn ‘broblem’ os ydynt yn codi problemau ar ran eu hetholwyr, y mae rhai ohonynt yn cael eu hystyried yn agored wleidyddol, heb gyfiawnhad neu’n afrealistig. Fel arolygon ‘ofn troseddau’ ac arolygon o ganfyddiadau, y teimlad yw bod gormod o ffocws ar leisiau pobl ‘anfodlon’ neu lobiwyr materion unigol ac nad oes digon yn cael ei glywed gan etholwyr sy’n fodlon ar y cyfan.

Mae ymarferwyr diogelwch cymunedol hefyd yn cwestiynu a yw cynghorwyr wardiau’n gwneud ymdrechion digonol i fod yn wirioneddol gynrychiolaidd ac yn cwestiynu a yw cynghorwyr yn estyn allan at garfannau sydd wedi’u hymyleiddio ac sy’n aml ddim yn pleidleisio yn eu ward megis pobl ifanc sy’n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ar ôl colli gwasanaethau a chyfleusterau ieuenctid y cyngor, camddefnyddwyr sylweddau sy’n byw bywydau anhrefnus y mae arnynt angen gwasanaethau triniaeth lleol yn wyneb NIMBYaeth neu gymunedau pobl dduon a

lleiafrifoedd ethnig sy'n teimlo bod eu lleisiau'n cael eu hanwybyddu. I'r gwrthwyneb, mae tystiolaeth bod cynghorwyr – pa un a ydynt yn cynrychioli eu priod wardiau ynteu'n gweithredu fel aelodau o'r cabinet neu'r weithrediaeth – yn ymgyrchu'n weithredol dros wasanaethau ac ymyriadau diogelwch cymunedol gwell ac yn pledio'r achos o blaid diwallu anghenion carfannau yn eu cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd wedi'u hymyleiddio.

Ar yr ochr gadarnhaol, ceir tystiolaeth bod gwasanaethau cyhoeddus yn dod yn fwy medrus yn defnyddio gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu sy'n seiliedig ar harneisio 'storïau' dinasyddion yn hytrach na chasglu ymatebion syml i holiaduron gan rannau o'r gymdeithas sy'n hunanddethol (e.e. y 'rhai iach pryderus'). Mae ymatebwyr yn enwi mwy o ddefnydd a hwnnw'n ddefnydd mwy effeithiol o offer megis Planning for Real, Model Kafka a SenseMaker sy'n darparu canlyniadau cyfoethocach o ran canfyddiad a dyhead dinasyddion. Yr anfantais amlwg yw bod y methodolegau soffistigedig hyn yn mynd â mwy o amser ac yn fwy llafurddwys na holiaduron, bod angen gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am y cyd-destun, y gallant fod yn fwy tueddol o gael eu dehongli'n oddrychol ac nad ydynt yn benthycu eu hunain yn rhwydd i gasglu data meintiol.

Mae cysylltedd ac ymgysylltiad cymunedol fel rheol yn llawer mwy mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau cyhoeddus wedi mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar 'hwb' cymunedol neu siop-un-stop, a'r rheiny'n aml yn darparu un lleoliad lle mae nifer o asiantaethau wedi'u cydleoli, gan gynnwys elusennau lleol a grwpiau cymunedol. Mewn rhai achosion, mae partneriaethau hefyd yn cael cymorth wardeniaid cymdogaeth neu dimau gwasanaethau rheng-flaen gyda chyswllt rheolaidd ac uniongyrchol â dinasyddion lleol. Mae PDCau sydd wedi cadw cysylltiadau agos â'u rhwydweithiau cydlyniant cymunedol rhanbarthol hefyd yn cael budd o fynediad wedi'i hwyluso at amrywiaeth ehangach o gymunedau lleol – yn rhai daearyddol ac yn 'gymunedau buddiant' rhithwir.

Mae tystiolaeth yn dangos bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dal i fod â rôl arwyddocaol o ran ymgysylltiad cymunedol, gan gael eu hystyried yn ffynhonnell hanfodol o ran cudd-wybodaeth gymunedol yn ogystal â chasglu pryderon y gymuned a'u hamlygu wrth bartneriaid diogelwch cymunedol. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu hefyd yn cael eu hystyried yn aml yn

'ddolen gyswllt yr heddlu' o fewn gweithgarwch partneriaethau diogelwch cymunedol ar lefel leol iawn, gan ymgysylltu'n fwy eang â chyfrifoldebau a swyddogaethau'r awdurdod lleol yn ogystal â phlisma. Er bod niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael eu torri neu eu dileu'n gyfan gwbl mewn rhai rhannau o Loegr, mae'r niferoedd wedi cael eu cynnal yng Nghymru trwy gyllid a ddarperir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, sy'n talu am 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ledled Cymru, a thrwy ymrwymiad parhaus gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiliaid.

Invisible Walls Wales – Diffoddwr Tân am y Dydd (Astudiaeth Achos)

Carchar dynion categori B a Sefydliad Troseddwy'r Ifainc ym Mhen-y-bont ar Ogwr a weithredir gan G4S ac sy'n gartref i ryw 1,300 o garcharorion gwrywaidd yw CEM y Parc. Yn 2013 dywedodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod y gyfradd aildroseddu ymhlith carcharorion yng Nghymru'n "arswydus" gan fod ffigyrau'n dangos bod cyfradd uwch na'r cyfartaledd o gyn-garcharorion yn cyflawni troseddau pellach.

Mae ymchwil hefyd wedi dangos y bydd 60% o'r bechgyn sydd â thad yn y carchar yn mynd ymlaen i fwrw dedfryd yn y carchar eu hunain.

Cafodd y Parc gyllid i redeg ei brosiect Invisible Walls Wales, sy'n amcanu at weithio gyda throseddwy'r a'u teuluoedd yn ystod eu dedfryd ac wedi iddynt gael eu rhyddhau. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth gyda Barnardo's Cymru, Gwalia, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chanolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru .

Mae tîm y prosiect yn gweithio'n agos gyda charcharorion, eu teuluoedd a'u plant yn ystod y ddedfryd o garchar ac am 6 mis wedi iddynt gael eu rhyddhau. Maent yn cynnig cefnogaeth i'r teulu cyfan trwy becyn o ymyriadau sy'n cynnwys rhaglenni rhianta a pherthnasoedd, addysg, cyngor ar dai, iechyd corfforol a chymorth i gamu at gyflogaeth.

Tîm o staff a gweithwyr cymunedol wedi'u neilltuo yw Cefnogi Teuluoedd y Parc sy'n ymrwymedig i gynnal a datblygu perthnasoedd gyda'r teulu a'r gymuned. Y nod yw rhoi cymorth, anogaeth ac arweiniad i ail-integreiddio carcharorion a hefyd i'w hannog i fod yn rhieni effeithiol. Mae pob uned yn rhoi cymorth trwy Swyddog Cysylltiadau Teuluol.

Mae'r Uned Ymyriadau Teuluol yn y Parc wedi creu diwylliant sy'n ffafriol i ymgysylltu'n llwyddiannus â charcharorion a'u cymell yn llwyddiannus i gamu ymlaen trwy'r ymyriadau a osodir fel targedau iddynt. Mae bron pob ymyriad yn golygu gweithio'n uniongyrchol gyda'u plant a'u teuluoedd ac ymlynir wrth yr holl ffactorau a chyfyngiadau o ran amddiffyn plant a diogelu'r cyhoedd.

Mae gan yr uned gyfleuster pwrpasol â 64 o welyau a dull newydd o weithio mewn partneriaeth, gyda gwasanaethau cymunedol a statudol, gydag elusennau a sefydliadau eraill na fydd carcharorion yn ymgysylltu â hwy fel arfer o bosibl. Ym mis Mehefin 2016 datganodd Arolygiaeth Carchardai EM fod y gwaith gyda phlant a theuluoedd yn y Parc yn 'arloesol, radical' a 'mwy na thebyg y gorau y maent wedi'i weld yn y DU'.

Ymhlith yr ymyriadau a ddefnyddiwyd ers mis Rhagfyr 2015 mae rhaglen 'Diffoddwr Tân am y Dydd' Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, sy'n seiliedig ar y rhaglen lwyddiannus sy'n cael ei rhedeg mewn cymunedau lleol hefyd.

Mae carcharorion a'u plant yn cael negeseuon a gwybodaeth ynghylch diogelwch tân yn y cartref a diogelwch dŵr a hefyd, gan ddibynnu ar oedran y plant, dangosir achosion ac effeithiau damweiniau ceir a llosgi bwriadol iddynt, gan gynnwys yr effeithiau ar staff y gwasanaethau brys, teuluoedd, ffrindiau a dioddefwyr. Yn ystod sesiwn y prynhawn mae tadau a'u plant yn cymryd rhan mewn ymarferion meithrin tîm a datrys problemau yn ogystal â dysgu sgiliau diffodd tân sylfaenol.

Ers dechrau'r prosiect, mae'r Parc wedi cynorthwyo 500 o ddynion i raddio trwy'r rhaglen Invisible Walls Wales, gyda thracio lleol anecdotaidd yn awgrymu bod llai na thraean wedi dychwelyd i'r carchar. Ystyrir bod yr amser bondio rhwng tad a phlentyn a gyflawnir trwy'r rhaglen Diffoddwr Tân am y Dydd yn hanfodol i newidiadau yng nghymhelliant carcharorion i roi'r gorau i droseddu ar ôl cael eu rhyddhau yn ogystal â lefelau uwch o ymgysylltiad â'r rhaglen ar y cyfan tra ydynt yn y carchar.

Mae rhai casgliadau allweddol y daeth tîm yr adolygiad iddynt ar sail yr astudiaeth achos hon yn cynnwys:

- Pwysigrwydd meithrin cysylltiadau cryf rhwng rhaglenni lleihau aildroseddu gan garchardai (a gwasanaethau cyfiawnder troseddol eraill) a chymunedau

lleol a'r ystod ehangach o asiantaethau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sy'n gallu cefnogi troseddwr a'u teuluoedd – fewn muriau'r carchar a'r tu hwnt iddynt;

- Atgyfnerthu perthnasoedd mewn modd cadarnhaol – gyda phlant a theuluoedd ond hefyd gyda darparwyr gwasanaethau – fel modd i hybu empathi ymhlith troseddwr i ddeall yn well beth yw effeithiau ymddygiad troseddol neu ddinistriol a chymryd risgiau ar eraill;
- Cryfder defnyddio modelau rôl cadarnhaol (e.e. gwasanaeth disgybledig ac mewn lifrai) wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach.

Beth y Mae Angen Iddo Newid?

Fel a nodwyd ar y dechrau un, mae hi bron yn 20 mlynedd ers cyflwyno'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn. Yn ystod y ddau ddegawd a aeth heibio ers iddi sefydlu ein dull cyffredin o fynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol gwelwyd newidiadau rif y gwlith i'r dirwedd y mae trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth statudol yn gweithio ynddi.

Mae ein 'llinell amser' diogelwch cymunedol ar dudalennau 17 ac 18 yn rhestru corff sylweddol o ddiwygiadau i'r Ddeddf wreiddiol ar gyfer Cymru a Lloegr sydd wedi gadael ymarferwyr a llunwyr polisïau'n ansicr ar y gorau, ac wedi drysu ar y gwaethaf, ynghylch gofynion statudol presennol y ddeddfwriaeth sylfaenol y bu cryn ddiwygio arni. Mae ceisio deall y Ddeddf 'fel y'i diwygiwyd' fel ceisio rhoi darnau jig-so at ei gilydd ac nid ydym wedi dod o hyd i gopi 'glân' o'r Ddeddf ei hun 'fel y'i diwygiwyd eto, sy'n golygu ein bod yn gorfod dibynnu yn lle hynny ar ddod o hyd i'n ffordd trwy ddrysfa sy'n dechrau â:

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/37/contents>

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae'r tîm eu hunain wedi wynebu heriau o ran dehongli sut y mae rhai o'r newidiadau mwy diweddar i'r Ddeddf wedi creu newid sylfaenol mewn agweddau allweddol ar y Ddeddf wreiddiol a'r diwygiadau wedi hynny. Trwy gydol yr ymgysylltiadau amrywiol rydym wedi cael ymholiadau niferus gan ymatebwyr – y mae llawer ohonynt wedi bod yn gweithio gyda'r Ddeddf ers iddi gael ei rhoi ar waith am y tro cyntaf un – ynglŷn â pha agweddau sy'n dal i fod yn ddilys, pa rai sydd wedi cael eu diddymu neu eu disodli.

A yw Adran 17A o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, sy'n sefydlu setiau data cyffredin sylfaenol a 'dyletswydd' i rannu gwybodaeth o'r fath, yn dal yn gymwys? Os yw gofynion statudol y Ddeddf yn cael eu hateb trwy BGC bellach, fel a ganiateir, a oes gofyniad o hyd i'r 'grŵp strategaeth' diogelwch cymunedol gwrdd 'yng ngŵydd y cyhoedd' o leiaf unwaith y flwyddyn ac, os felly, pwy y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol? Tra bo gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu yn Lloegr bwerau i 'uno' Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn yn Lloegr, a bod cyfeiriad at yr un pwerau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, sut fyddai'r

mecanwaith hwn yn gweithio mewn gwirionedd mewn tirwedd ddatganoledig lle mae rhai PDCau yn rhan annatod o BGCau?

Fe wnaeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016, *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru*, nodi'n glir bod datganoli ei hun wedi arwain at wahaniaethau strwythurol a pholisi sylfaenol rhwng Cymru a Lloegr o ran sut y cymhwysir Deddf 1998, gyda phwerau deddfwriaethol cynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chylch gorchwyl mwy i Lywodraeth Cymru na chawsant eu rhagweld o anghenraid gan y rhai a oedd yn gyfrifol am drosi Adroddiad Morgan yn ddeddfwriaeth. Bellach mae deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru megis y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i PDCau yng Nghymru ymddwyn yn wahanol iawn i'w partneriaethau cyfatebol yn Lloegr.

Mae dau ddegawd o esblygu parhaus ar gyfer trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol bellach yn adleisio'r sylw a oedd yn gyffredin ar un adeg ymhlith rheolwyr diogelwch cymunedol y byddai canllawiau olynol gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn/PDCau fel arfer yn cynnwys y llinell enwog '...and in Wales it's different'.

Mae hyn yn codi'r cwestiwn...a yw'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 'fel y'i diwygiwyd' yn dal yn addas ar gyfer y diben yn nhirwedd polisi ac arfer Cymru yn 2018? Ynteu a yw'n amser ei diweddarau, yn amser creu fersiwn 'lân' o'r Ddeddf a fydd yn darparu'r eglurder y mae ei ddirfawr angen ar gyfer partneriaid diogelwch cymunedol yng Nghymru, yn anad dim o ran rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru?

Wrth bennu'r amcanion a'r cwmpas, datganodd Llywodraeth Cymru y dylai'r adolygiad hwn ystyried "a oes angen am ddiwygio pellach, gan gynnwys y cyfleoedd a gynigir gan Fil Cymru". Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth i'r Cynulliad ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru a Lloegr, yn enwedig tra bo plismona a chyfiawnder yn dal i fod y tu hwnt i'w gymhwysedd deddfwriaethol.

Mae llawer o ymatebwyr i'r adolygiad o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon y gellid mynd i'r afael yn y pen draw â'r rhan fwyaf o'r materion a'r heriau a archwiliwyd yn faith yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016 yw trwy ddatganoli plismona a chyfiawnder i Lywodraeth Cymru, gan gael gwared â'r

gwahaniaeth mewn arfer a dull a amlygir drwy *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru* a chreu uniad di-dor rhwng 'cyfiawnder troseddol' a byd llawer ehangach 'diogelwch cymunedol'. Mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd yn flaenorol i fynegi eu barn unfrydol bod y berthynas rhwng yr heddlu a chyrrff datganoledig (llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol, asiantaethau'r llywodraeth a Llywodraeth Cymru ei hun) mor bwysig fel ei bod yn hanfodol datganoli cyfrifoldeb am bolisi plismona. Mae'r Comisiynwyr a'r Prif Gwnstabiliaid wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithredol gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd datganoledig a defnyddio'u hawdurdod unigol i wneud hynny'n effeithiol. Maent wedi penodi Dirprwy Brif Gwnstabl ar y cyd, sy'n atebol i'r Comisiynwyr a Phrif Gwnstabiliaid, y mae ei friff yn cynnwys cydweithio a pharatoi'r tir ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb am blismona.

Mae'n ddiddorol nodi, er bod plismona a chyfiawnder wedi'u gwahanu yn yr Alban cyn i ddatganoli ddigwydd yn yr Alban ac er nad yw Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 yn berthnasol i gynghorau'r Alban, eu byrddau iechyd rhanbarthol na'u gwasanaeth tân mwyach, bod ysbryd y Ddeddf yn dal i fod yn fyw i raddau helaeth heddiw a bod PDCau yn yr Alban yn dal i fod â throsolwg ar asesiadau a chynlluniau diogelwch cymunedol lleol sydd bellach yn sylfaen ar gyfer trefniadau cynllunio cymunedol mwy integredig a gyflwynwyd gan Lywodraeth yr Alban.

Eleni fe gyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC fod comisiwn newydd, y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, yn cael ei sefydlu gan roi cyfle i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r system gyfiawnder a phlismona yng Nghymru ac i ystyried sut y gall y system gyflawni canlyniadau gwell i Gymru. Fodd bynnag, mae'n amhosibl rhagfynegi canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiwn newydd ar Gyfiawnder yng Nghymru, felly bydd yr Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel yn canolbwyntio yn hytrach ar gynigion a fydd yn gwireddu'r cyfleoedd ar gyfer newid a gwella o fewn trefniadau a fframweithiau dwyochrog presennol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i weithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol.

Yn niffyg datganoli llawn, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr adolygiad bod perthynas a dull strategol gwahanol yn ofynnol i fynd i'r afael â'r llu o heriau a materion a adnabuwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac felly mae angen i

Llywodraeth Cymru fod â mwy o rôl arwain yn y meysydd datganoledig sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol. Gallai hyn hyd yn oed gynnwys deialog gynnar gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am waith amserol i ddiweddarau Deddf 1998 fel ei bod o leiaf yn cydnabod y gwahaniaethau a achoswyd gan ddau ddegawd o ddiwygiadau a datganoli ac i helpu i ddarparu mwy o eglurder mewn perthynas â'r ystod o randdeiliaid diogelwch cymunedol yng Nghymru a'u rolau arwain, gan gynnwys rhai Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, awdurdodau lleol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM ac adrannau Llywodraeth Llundain.

Y cam cyntaf wrth sefydlu dull newydd a gwahanol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru yw nodi ein huchelgais mewn datganiad o weledigaeth a fydd yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb* ar gyfer cyflawni'r ymrwymadau allweddol a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* a'r Egwyddorion Gwasanaethau Cyhoeddus Darbodus. Bydd angen iddi fod yn weledigaeth strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru y mae'r holl sefydliadau cysylltiedig yn ei deall, yn ei rhannu ac yn gallu ei chynnwys yn eu cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae hyn wedi cael ei wneud ac mae'r weledigaeth wedi'i chynnwys ar ddechrau'r adroddiad hwn.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth uchelgeisiol hon heb i blismona a chyfiawnder fod wedi'u datganoli a heb i Ddeddf 1998 fod wedi cael ei diweddarau bydd angen i Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddatblygu'r canllawiau penodol cyntaf i Gymru ynghylch y disgwyliadau ar gyfer asiantaethau datganoledig o ran gweithio gyda'n gilydd i greu cymunedau mwy diogel mewn cydweithrediad â phartneriaid annatganoledig – gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddau. Bydd angen i'r canllawiau hyn adeiladu ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a Nodweddion Partneriaeth Effeithiol i greu arweinyddiaeth gryfach, fwy effeithiol a mwy atebol gan yr holl asiantaethau a sefydliadau cysylltiedig ac i lifinio a symleiddio trefniadau llywodraethu lle bynnag y bo'n bosibl i wella atebolrwydd ac ailbennu ffocws gweithgarwch i osgoi dyblygu a dryswch.

Dylai'r canllawiau, a allai fod yn rhan o raglen waith Cymunedau Mwy Diogel ehangach dan arweiniad Llywodraeth Cymru, nodi sut y gall partneriaid a phartneriaethau diogelwch cymunedol sicrhau eu bod:

- Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth;
- Yn cael eu hategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;
- Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;
- Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys;
- Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl;
- Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr adolygiad hwn bod angen i'n dull o ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol newid, bod rhwystrau sylweddol i ddefnyddio'r hyn y byddem ni o bosibl yn ei alw'n 'gudd-wybodaeth fusnes' a thystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio' o ran datblygu blaenoriaethau a chynlluniau diogelwch cymunedol a bod angen i'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus i wella diogelwch cymunedol newid i ddod yn fwy ataliol, cydweithredol ac integredig. Fodd bynnag, ni all Llywodraeth Cymru gyflawni hyn ar ei phen ei hun a bydd angen dull mwy cydweithredol ac integredig o ddatblygu polisi ac arfer diogelwch cymunedol.

Bydd hyn yn golygu sefydlu trefniadau agosach a mwy effeithiol sy'n ategu deialog adrannol fewnol ynghylch themâu a materion diogelwch cymunedol trawsbynciol, a deialog gydag adrannau Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am feysydd gwaith allweddol – megis y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd hefyd yn golygu cydweithredu agos gyda CLILC a SOLACE ynghyd ag eraill megis Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i ailfywiocau rhwydwaith WACSO a'i ddisodli â rhwydwaith ymarferwyr diogelwch cymunedol mwy cynhwysol i Gymru a fydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu polisi ac arfer ac yn helpu i feithrin yr 'wybodaeth a'r sgiliau' sy'n ofynnol i roi'r weledigaeth newydd ar waith. Gallai'r rhwydwaith hwn gymryd cyfrifoldeb hefyd am ddatblygu llyfrgell adnoddau diogelwch cymunedol gyntaf Cymru a'i rheoli'n barhaus, yn ogystal â chefnogi neu gydweithio'n agos gyda rhwydweithiau cysylltiedig eraill i wella gwaith ymchwil a dadansoddi, ymgysylltu â chymunedau,

cynnwys pobl a chyfranogiad a pherthnasoedd cryfach gyda darparwyr gwasanaethau diogelwch cymunedol yn y trydydd sector.

Mae ymatebwyr yn dangos tystiolaeth bod arolygu, archwilio a chraffu oll yn ffactorau sylweddol sy'n llywio ymddygiad sefydliadau unigol sy'n gallu bod yn rhwystr i ddulliau sy'n fwy integredig, yn fwy cydweithredol ac yn rhoi mwy o sylw i'r canlyniadau – yn enwedig pan fo llawer o'r cyfundrefnau arolygu heb eu datganoli ac yn peidio â rhoi rhyw lawer o ystyriaeth i wahaniaethau polisi ac arfer rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ceir tystiolaeth bod arolygu a chraffu thematig mwy holistaidd – a oedd yn galw am ddull sy'n sylfaenol wahanol ac yn rhoi sylw i'r canlyniadau – nid yn unig o gymorth i wella trefniadau cydweithio amlasiantaeth ond hefyd yn gallu arwain at arolygwyr, archwilwyr a chrafwyr mwy effeithiol a chefnogol. Mae hefyd yn amlygu meysydd lle mae 'dangosyddion' neu 'dargedau' asiantaethau unigol – sy'n gallu datblygu i fod yr un fath – yn gweithio yn erbyn canlyniadau cyffredin ac, yn hytrach, yn hybu canlyniadau anfwriadol megis trin pobl ifanc a mamau sy'n methu â thalu eu trwyddedau teledu fel troseddwyr. Yn sicr mae cyfle i archwilio a threialu dull mwy cynaliadwy mewn perthynas ag atebolrwydd.

Fel a nodwyd gan yr ymarfer Mapio Rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan yr adolygiad, mae'n amlwg bod y ddrysfa bresennol o ran strwythurau partneriaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gorgyffyrddol a dyblyg gyda chyfrifoldeb am greu cymunedau mwy diogel yn syml yn sefyllfa nad yw'n gynaliadwy. Mae'n amlwg bod pryderon hefyd ynghylch effaith amrywiaeth o batrymau rhanbarthol sy'n bodoli pan fo'r cyfrifoldeb statudol presennol am reoli partneriaethau diogelwch cymunedol yn gorwedd ar lefel leol, gyda phrif weithredwr pob awdurdod lleol. Er y gall Llywodraeth Cymru ystyried effeithiolrwydd a dyblygedd patrymau rhanbarthol presennol, a pha un a yw cyfarwyddyd i sefydlu byrddau thematig rhanbarthol o gymorth ynteu'n rhwystr, yn sicr mae gofyn i PDCau a BGCau gynnal adolygiad sylfaenol o'u strwythurau partneriaeth hwy eu hunain i sicrhau eu bod yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn addas ar gyfer y diben. Nid oes unrhyw ganllawiau na mandad yn ofynnol ar gyfer hyn i lifinio'n well.

Mae effeithiolrwydd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru o ran hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth rhwng partneriaid diogelwch cymunedol wedi cael ei

gwestiynu trwy gydol yr adolygiad, gan adleisio pryderon a fynegwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016. Argymhellir felly y dylai'r trefniadau presennol gael eu hasesu i sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol – yn enwedig yng ngoleuni newidiadau yn 2018 i reoliadau diogelu data – a bod cytundeb Cymru gyfan yn cael ei roi ar waith yn gyson ac yn effeithiol lle mae o'r pwys mwyaf – gydag ymarferwyr rheng-flaen yn chwarae rhan uniongyrchol yng ngweithrediad gwasanaethau diogelwch cymunedol.

Ac yn olaf, nid yw'n ddichonadwy bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu ei fuddsoddiad mewn gwasanaethau diogelwch cymunedol yn sylweddol. Fodd bynnag, mae cyfle i addasu ffrydiau ariannu presennol ym maes diogelwch cymunedol a ffrydiau ariannu cydymddibynnol eraill mewn ffordd sy'n ceisio darparu arian mwy hirdymor a mwy hyblyg sy'n 'rhoi sylw i'r canlyniadau' i gefnogi trefniadau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau mwy holistaidd, cydweithredol gan bartneriaethau. Bydd angen i'r rhain sicrhau bod darparwyr gwasanaethau diogelwch cymunedol yn y trydydd sector yn cael lefelau uwch o gydraddoldeb trwy fodolau cydgynhyrchu mwy cydweithredol a bod gan gymunedau eu hunain lefelau uwch o ymgysylltiad ac ymwneud trwy elfennau o gyllidebu cyfranogol.

Y Ffordd Ymlaen

Cynigir sefydlu rhaglen waith hirdymor Cymunedau Mwy Diogel – mewn partneriaeth gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid datganoledig ac annatganoledig – i weithredu a gwireddu ein gweledigaeth uchelgeisiol newydd ar gyfer gweithio gyda'n gilydd i greu cymunedau mwy diogel yng Nghymru:

Mae ein gweledigaeth yn un ar gyfer Cymru lle mae'r canlynol yn wir:

» **Mae pob cymuned yn gryf, yn ddiogel ac yn hyderus mewn modd sy'n darparu cyfle cyfartal a chyfiawnder troseddol, cydnherthedd a chynaliadwyedd ar gyfer pawb;**

» **Mae gan y Llywodraeth ac asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydgyfrifoldeb am gydweithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'r sector preifat i fynd i'r afael â gweithgarwch neu ymddygiad sy'n anghyfreithlon, yn wrthgymdeithasol, yn niweidiol i unigolion a'r gymdeithas ac i'r amgylchedd;**

» **Bydd rhannu gwybodaeth a sicrhau yr ymyrrir yn gynnar gyda chamau gweithredu prydlon, cadarnhaol yn mynd i'r afael â materion lleol ac yn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed.**

Bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu trwy weithgarwch cydweithredol ac amlasiantaeth integredig sydd:

- Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth;**
- Yn cael ei ategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;**
- Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;**
- Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys;**
- Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl;**
- Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.**

Er mwyn cyflawni hyn, bydd rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru yn:

1. Gweithio gyda Chomisiwn Cyfiawnder Cymru sydd newydd ei sefydlu i ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol yng Nghymru ac adnabod opsiynau i ddatblygu system gyfiawnder ar wahân i Gymru, sy'n gwella mynediad pobl at gyfiawnder, yn lleihau troseddau ac yn hybu adsefydlu ac yn cynrychioli anghenion Cymru go iawn.
2. Sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried priodoldeb Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddatganoli yng Nghymru.
3. Datblygu perthynas a dull strategol gwahanol gyda phartneriaid diogelwch cymunedol annatganoledig sy'n sefydlu rôl arwain fwy effeithiol i Lywodraeth Cymru mewn meysydd y mae'r cyfrifoldeb amdanynt wedi cael ei ddatganoli ac sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol.
4. Sefydlu swyddogaeth arweinyddiaeth polisi ac arfer 'partneriaeth' diogelwch cymunedol yn Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth agos gyda'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac arweinwyr 'datganoledig' perthnasol eraill ar ran Llywodraeth y DU.
5. Datblygu canllawiau newydd sy'n berthnasol yn benodol i Gymru ac sy'n adeiladu ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a Nodweddion Partneriaeth Effeithiol ac sy'n nodi sut y gall partneriaid a phartneriaethau diogelwch cymunedol sicrhau eu bod:
 - Yn seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth;
 - Yn cael eu hategu gan wybodaeth a sgiliau priodol;
 - Yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol;
 - Yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys;
 - Yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl;
 - Yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.Ymhlith y meysydd arfaethedig i'w cynnwys yn y canllawiau bydd:

- Egluro'r disgwyliadau o ran asesu strategol a dulliau busnes sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth, gam gynnwys cynllunio a chomisiynu gwasanaethau partneriaethau a rhannu data personol a chyfanredol;
 - Cryfhau'r ysgogiad i gydymffurfio â gofynion statudol i 'brif-ffrydio' a geir yn Adran 17 o'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn (sydd â chysylltiad agos â'r gofynion o ran cynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol);
 - Lliflinio strwythurau partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i sicrhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mwy effeithiol ac egluro'r cyswllt â'rôl BGCau gan barhau i ateb y gofynion statudol mewn perthynas â CONTEST, BCAu Camddefnyddio Sylweddau, Lleihau Aildrosedd, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Camddefnyddio Sylweddau, Caethwasiaeth Fodern a.y.b;
 - Sicrhau bod prif weithredwr pob awdurdod lleol yng Nghymru'n gallu dangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn – boed trwy drefniadau partneriaeth lleol neu ranbarthol – gan gynnwys darparu swyddogaeth arweiniol gydnabyddedig ar gyfer diogelwch cymunedol gyda'r sefydlogrwydd a'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i yrru'r agenda Cymunedau Mwy Diogel yn ei blaen yng nghyd-destun partneriaethau lleol a rhanbarthol;
 - Cryfhau rôl a statws sefydliadau'r trydydd sector o fewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a datblygu a hybu dulliau caffael mwy effeithiol yn y sector cyhoeddus sy'n lleihau i'r eithaf effaith 'marchnadeiddio' ar ddarparwyr y trydydd sector;
 - Egluro rôl gwleidyddion etholedig (gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, cynghorwyr lleol ac aelodau o Baneli Heddlu a Throseddau) o ran craffu ar weithgareddau ac effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol;
 - Egluro'r disgwyliadau o ran ennyn ymgysylltiad dinasyddion a'u cynnwys mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol a phrosesau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau.
6. Ystyried sut i sefydlu rhwydwaith diogelwch cymunedol cenedlaethol newydd a chynhwysol i Gymru a fydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu polisi ac arfer

ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol a helpu i ddatblygu'r 'wybodaeth a sgiliau priodol' y mae eu hangen i roi'r weledigaeth newydd ar waith.

7. Ystyried sut i sefydlu llyfrgell a chronfa ddata adnoddau diogelwch cymunedol ar-lein i Gymru a fydd yn cynnwys canllawiau, pecynnau cymorth, adnoddau dysgu ar-lein, arfer effeithiol, astudiaethau achos, gwaith ymchwil a gwerthuso, ynghyd ag ailsefydlu rhaglen dysgu a datblygu diogelwch cymunedol yn benodol i Gymru sy'n ymgorffori'r themâu amrywiol a nodwyd drwy'r ddogfen hon).
8. Archwilio cyfleoedd i dreialu trefniadau arolygu thematig ar y cyd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol mewn perthynas â'r thema 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu datganoledig ac annatganoledig perthnasol.
9. Ystyried sut i wella rhaglenni ariannu diogelwch cymunedol i sicrhau cyllid sy'n rhoi mwy o 'sylw i'r canlyniadau', sy'n fwy hyblyg ac yn fwy hirdymor i gefnogi trefniadau mwy holistaidd, cydweithredol mewn partneriaeth ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys modelau cydgynhyrchu ac elfennau cyllidebu cyfranogol.
10. Argymhellir bod adolygiad trawslywodraethol o 'batrymau' rhanbarthol yn cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y diben.
11. Argymhellir asesiad o drefniadau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn cael ei gwblhau i sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol ac i gael eu cymhwyso'n briodol ar lefel leol.

Rhestr Termau

A&E – Adran Damweiniau ac Achosion Brys
AC – Aelod Cynulliad
ACE – Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
ACEHI – Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is
APACS – Asesiad o Blismona a Diogelwch Cymunedol
ASB – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
ASBO – Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
AWCJB – Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
AWCSAB – Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan
BCA – Bwrdd Cynllunio Ardal
BGC – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
BGLI – Bwrdd Gwasanaethau Lleol
BILI – Bwrdd Iechyd Lleol
BME – Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
CCTV – Teledu Cylch Cyfyng
CDRP – Partneriaeth Lleihau Troseddau ac Anhrefn
CJC – Cyfiawnder Cymunedol Cymru
CLILC – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
CoSLA – Convention of Scottish Local Authorities
CRTA – Ymgynghorydd Tactegol Lleihau Troseddau
CSE – Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
CTLP – Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth
DAAT – Tîm Gweithredu ar Gyffuriau ac Alcohol
GAIN – Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaethau'r Llywodraeth
GIG – Gwasanaeth Iechyd Gwladol
HIMO – Tai Amlfeddiannaeth
HMP – Carchar EM
HMPPS – Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
ICPS – Canolfan Ryngwladol dros Blismona a Diogelwch
IOM – Rheoli Integredig Troseddwyr
IRAP – Dadansoddeg a Pherfformiad Ymchwil Integredig
LCJB – Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol
MARAC – Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth
MASH – Hwb Diogelu Amlasiantaeth
NCSN – Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cenedlaethol
NIM – Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol
NIMBY – Not In My Backyard
NPT – Tîm Plismona Cymdogaeth
OCG – Grŵp Troseddau Trefnedig
PABM – Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
PACT – Heddlu/Partneriaid a Chymunedau Gyda'i Gilydd
PCC – Comisiynydd Heddlu a Throseddu
PCP – Panel Heddlu a Throseddu
PCSO – Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu
PDC – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
POP – Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblem
PPN – Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd
PHW – Iechyd Cyhoeddus Cymru

RICU – Uned Ymchwil, Gwybodaeth a Chyfathrebu
SARA – Sganio, Dadansoddi, Ymateb, Asesu
SCSN – Scottish Community Safety Network
SIP – Partneriaeth/Cynllun Integredig Unigol
SOLACE – Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
TGCh – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
USW – Prifysgol De Cymru
VAWDASV – Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol
WACSO – Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru
WASPI – Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
WAST – Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
YJB – Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid
YOT – Tîm Troseddau Ieuencid

**STATEMENT
BY
THE WELSH GOVERNMENT**

TITLE Working Together for Safer Communities

DATE 12 December 2017

BY Alun Davies AM, Cabinet Secretary for Local Government and Public Services

Next year marks the 20th anniversary of the Crime & Disorder Act that put statutory partnership working at the heart of efforts to address community safety issues.

Although the ‘partnership’ principle of the original Act still holds, today’s social, political, economic and environmental conditions in Wales are very different to those in which ‘community safety partnerships’ were established in the 1990s.

Today’s challenges include; a range of new types of crime including modern slavery and hate crime; the escalating threat from international terrorism; the influence of new psychoactive substances and the effects of cyber-enabled offending.

Public service structures in Wales have evolved since 1998 as a result of devolution and there have been numerous changes to the primary legislation itself.

The Auditor General’s critical report *Community Safety in Wales* published in October 2016 suggested that Welsh community safety partnerships were not as effective as they should be. It highlighted important issues including the complex and confusing policy landscape in which partners now operate and concerns about leadership and accountability in the delivery of community safety priorities.

However, the report doesn't fully reflect our work to create more sustainable partnership approaches to public services delivery. The recommendations are also unlikely to address the challenges and issues the Auditor General identifies.

Building on previous work, we have now undertaken a comprehensive and wide-ranging review of community safety partnership working in Wales. I am confident this will help us further develop the many successes of the Welsh Government's approach.

In partnership with the Youth Justice Board Cymru we have achieved significant and sustained reductions in the number of first time entrants to the youth justice system. We have halved the number of fire casualties and fires including grass fires set deliberately. Welsh police forces have recruited an additional 500 community support officers paid for by the Welsh Government while many areas in England are losing these valuable community assets. We have introduced ground-breaking legislation to address violence against women, domestic abuse and sexual violence and are leading the way with our pioneering work to address modern slavery.

Announcing the nature and scope of the review in March, the former Cabinet Secretary for Communities and Children, Carl Sargeant, said he wanted the review to be 'ambitious in its thinking' and that the Well-being of Future Generations (Wales) Act gave us an unprecedented opportunity to establish a sustainable approach to safer communities.

I am pleased to say that the review has lived up to his hopes, placing the Sustainable Development Principle at the heart of its approach.

It has involved the widest possible range of stakeholders aided by an Oversight Group with representation from local government, fire and rescue services, Police and Crime Commissioners, the Youth Justice Board Cymru, police chiefs, probation and prison services, the third sector and UK Government departments.

As the review report is being published today, I do not propose to rehearse its conclusions here. I will, however, say that I'm very encouraged by the

over-riding conclusion that, despite the issues and challenges identified by the Auditor General, we have much to be proud of and to build upon in establishing a new and shared vision for Working Together for Safer Communities.

This vision will be achieved through collaborative and integrated multi-agency activity that:

- Is evidence-based and intelligence-led;
- Is supported by appropriate skills & knowledge;
- Is sustainably resourced and matches local needs;
- Engages and involves citizens;
- Takes a preventative approach and intervenes as early as possible;
- Focuses on long-term improvements and benefits.

This is a vision which is underpinned by our Welsh Government ambition to create Prosperity for All.

The Welsh Government is therefore committed to a long-term Safer Communities programme of work – in partnership with our devolved and non-devolved partners and stakeholders – that will:

- Work with the Justice Commission for Wales to consider how we can do things differently in Wales and identify options for the development of a distinct Welsh justice system.
- Develop a different relationship and strategic approach with non-devolved community safety partners, which establishes a more effective community safety leadership role for Welsh Government.
- Establish a community safety ‘partnership’ policy & practice leadership function within the Welsh Government.
- Develop new Wales-specific guidance that builds on the sustainable development principle and the Hallmarks of Effective Partnership.
- Consider how to establish a new and inclusive national community safety network for Wales to support future Welsh community safety policy and practice development and to help to build the ‘appropriate skills and knowledge’ required;

- Explore opportunities for piloting joint thematic inspection arrangements for partnership working around the 'reducing reoffending' theme;
- Consider how to improve community safety funding programmes to secure longer term and more flexible 'outcomes focused' funding.

I look forward to working with our many partners and stakeholders – both devolved and non-devolved – in leading this programme to help us achieve our ambitious and sustainable vision for safer communities and prosperity for all across Wales.

Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon